# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

16 Tachwedd 2023

Dwynwen Jones

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn Hybrid/Siambr y Cyngor - Penmorfa/Rhithiol, Dydd Mercher, 22 Tachwedd 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023-2024 (Tudalennau 3 - 38)**

**4. Gwaharddiad ar werthu a chyflenwi rhai cynhyrchion plastic untro yng Nghymru yn dod yn gyfraith (Tudalennau 39 - 60)**

**5. Cynnig i weithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar eiddo Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 61 - 66)**

**6. Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar ol 6 mis AGC (Tudalennau 67 - 78)**

**7. Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022.2023 (Tudalennau 79 - 146)**

**8. Cyflwyno i'r Pwyllgor ganfyddiadau'r adolygiad ynglyn â thrawsnewid Gwasanaethau Dydd (Pobl Hyn, Anableddau Dysgu, Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog, ac Awtistiaeth) a Darpariaeth Seibiant (Gydol Oes) Ceredigion (Tudalennau 147 - 306)**

**9. Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 1 2023-2024 (Tudalennau 307 - 340)**

**10.** **Cofnodion 12.9.23 Cyfarfod y Gweithgor Craffu ar y cyd, Cydbwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal (Tudalennau 341 - 348)**

**11.** **Ystyried Rhaglen Waith y Pwyllgor 2023.2024 (Tudalennau 349 - 354)**

**12.** **Ystyried cofnodion y cyfarfod blaenorol ar y 18.9.2023 ac unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion (Tudalennau 355 - 360)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Eitem Agenda 3

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**

**Dyddiad y cyfarfod:** **22 Tachwedd 2023**

**Teitl:** **Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023-2024**

**Diben yr adroddiad:** **Hysbysu'r Pwyllgor Craffu o'r Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a rhoi gwybod am yr heriau nawr ac yn y dyfodol o ran darparu'r gwasanaeth statudol hwn.**

**Rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:** **Amh**

**Rhagymadrodd**

Mae'r rheolaethau rheoleiddiol ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid yn hanfodol ar gyfer sicrhau diogelwch bwyd a dilysrwydd y gadwyn fwyd o'r fferm i'r fforc.

Mae'n bwysig bod rheolaethau rheoleiddiol yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y DU gyfan er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fethiant mewn safonau yn y gadwyn fwyd a allai effeithio ar ddilysrwydd a hyder defnyddwyr yn y bwyd y maent yn ei fwyta. Mae dilysrwydd y gadwyn fwyd anifeiliaid yn hanfodol nid yn unig i les anifeiliaid, ond hefyd er mwyn osgoi unrhyw weddillion niweidiol mewn bwyd anifeiliaid a allai effeithio ar unrhyw anifail sy'n mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn cyhoeddi Codau Ymarfer sy'n rheoleiddio sut mae Awdurdodau Lleol yn darparu eu gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol gael digon o adnoddau i archwilio busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn rheolaidd yn ôl y risg i iechyd a achosir ganddynt.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Gwasanaeth i ddangos sut y caiff y gofynion bwyd a bwyd anifeiliaid eu cyflawni a sut y darperir adnoddau digonol bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i'r Cynllun Gwasanaeth fynd trwy'r broses ddemocrataidd.

**Diogelwch/Safonau Bwyd – Y Sefyllfa Bresennol**

Effeithiwyd yn ddifrifol ar y rhaglen o gynnal yr arolygiadau bwyd gan gyfyngiadau'r pandemig. Cyhoeddodd yr ASB "Gynlluniau Adfer" oedd yn ceisio sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cynnal lefel ofynnol o ymatebion yn seiliedig ar risg yng nghamau diweddarach y pandemig. Yna cyhoeddodd gyfarwyddiadau a cherrig milltir yr oedd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol eu cyflawni er mwyn adfer yn llawn yn y pen draw raglen gyfan o arolygiadau ar ôl cyfyngiadau'r pandemig. Y sefyllfa yng Ngheredigion yw bod yr holl gerrig milltir wedi'u cyflawni erbyn diwedd Chwarter 1 2023, sy'n llwyddiant mawr. Mae nifer o Awdurdodau yng Nghymru yn dal mewn cyflwr o "adferiad".

Mae'r Cynllun Gwasanaeth amgaeedig yn rhoi amlinelliad o'r gofynion arolygu bwyd a bwyd anifeiliaid ar gyfer 2023/2024. Mae'r flwyddyn hon yn cynrychioli newid sylweddol i arolygiadau "deuol", lle mae hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu cyfuno mewn un arolygiad. Mae Swyddogion Diogelu'r Cyhoedd wedi ymgymryd â hyfforddiant ac asesiad sylweddol i fod yn gymwys i gynnal yr arolygiadau deuol hyn yn unol â safonau Codau Ymarfer yr ASB.

Canlyniad dymunol arolygiadau deuol yw ei fod yn lleihau'r baich arolygu ar fusnesau bwyd ac yn cynyddu effeithlonrwydd i'r Awdurdod o ran osgoi dau ymweliad ar wahân.

Er mwyn delio â'r ôl-groniad sylweddol o fusnesau bwyd newydd yn benodol, mae'r gwasanaeth wedi comisiynu cymorth allanol. Mae hwn wedi cael ei ddyrannu i dalu contractwr bwyd i gynnal arolygiadau deuol o fusnesau bwyd.

Mae adolygiad o adnoddau yn y Cynllun Gwasanaeth wedi canfod, gyda'r cyllid ychwanegol, y dylai'r gwasanaeth fod ag adnoddau digonol i gyflawni'r rhaglen bwyd a bwyd anifeiliaid y flwyddyn hon. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar allu Swyddogion Diogelu'r Cyhoedd i gyflawni eu dyraniad arolygu. Gallai galwadau eraill ar y gwasanaeth a salwch ac ati effeithio ar eu gallu i gwblhau'r rhaglen. Mae'n ofynnol i'r swyddogion hyn weithio ar draws maes cyfan Diogelu'r Cyhoedd, felly gallai unrhyw flaenoriaethau iechyd y cyhoedd sy'n gwrthdaro gael effaith andwyol.

Mae cyflawni cerrig milltir Cynllun Adfer yr ASB wedi creu canlyniad anfwriadol sy'n golygu bod cyfran fawr o'r rhaglen arolygu bwyd risg uchel i'w disgwyl yn 2024-2025. Mae'r rhain yn safleoedd "Categori C" sy'n cael eu harolygu bob 18 mis, ac fel arfer maent yn trin ac yn prosesu bwyd risg uchel sy'n golygu eu bod yn cael eu dosbarthu fel rhai "risg uchel".

Fel cymhariaeth, y flwyddyn hon disgwylir i 168 o safleoedd Categori C gael arolygiad deuol. Mae'r nifer hwn o arolygiadau Categori C yn cynyddu i 290 o safleoedd y disgwylir iddynt gael eu harolygu yn 2024-2025. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ac efallai y bydd angen i'r gwasanaeth geisio cyllid ychwanegol i dalu contractwyr yn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn bodloni'r rhwymedigaethau hyn.

## Bwyd Anifeiliaid

Yn 2009 a 2011 archwiliodd y Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth (FVO) y modd y gweithredir Rheolaethau Swyddogol Bwyd Anifeiliaid yn y DU ac mewn ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ei hadolygiad ei hun ar draws y DU o reolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid gan nodi ffyrdd o wella'r broses o ddarparu rhaglen effeithiol, effeithlon a chymesur o reolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol sy'n seiliedig ar risg trwy weithio'n agosach ag Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid perthnasol.

Yn seiliedig ar yr adolygiad hwnnw a'r model arolygu bwyd anifeiliaid newydd a gynigiwyd gan yr ASB, cytunodd Gweinidogion Cymru i dynnu swm o arian cylchol o'r Grant Cynnal Refeniw yn rheolaidd o 1 Ebrill 2015. Mewn ymateb, cytunodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru (CDCC) y byddai Awdurdodau Lleol yn cydweithredu ac yn gweithio'n rhanbarthol yng Nghymru i gyflawni rheolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid. Sefydlwyd chwe rhanbarth, pob un â Swyddog Bwyd Anifeiliaid Arweiniol Rhanbarthol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith yn eu rhanbarth.

Mae CDCC wedi dirprwyo'r gwaith o lywodraethu hyn i Safonau Masnach Cymru, ac mae pob Awdurdod Lleol yn gyfrifol am reoli'r gwaith o gyflawni rheolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid o ddydd i ddydd.

Ers 2015, mae'r Gwasanaeth yn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth bob blwyddyn rhwng yr ASB a thri awdurdod bwyd anifeiliaid cyfagos, sef Powys, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin i ddarparu rhaglen arolygu bwyd anifeiliaid ranbarthol flynyddol.

Mae'r cyllid ar gyfer y rhaglen flynyddol yn cynnwys taliadau chwarterol gan yr ASB i ariannu'r gwaith rhanbarthol o orfodi rheolaethau bwyd anifeiliaid, ar ôl derbyn ffurflenni chwarterol ac anfonebau am y gwaith a wnaed, a chyllid swyddogion arweiniol Awdurdodau Lleol i dalu costau gweinyddol y rôl hon.

Sefydlwyd grŵp llywodraethu gan Lywodraeth Cymru i oruchwylio'r gwaith o gyflawni rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys cadw at delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae'r grŵp llywodraethu yn cynnwys cynrychiolydd o CDCC, Safonau Masnach Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r ASB.

Ers 2015, mae Ceredigion wedi cyrraedd ei tharged arolygu rhanbarthol blynyddol yn gyson ac wedi cael cyllid rhanbarthol. Yr unig dro y mae'r Awdurdod erioed wedi methu â chyrraedd ei darged arolygu rhanbarthol blynyddol oedd yn ystod pandemig Covid pan fu'n rhaid rhoi'r gorau i'r arolygiadau.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, esboniwch pam.** Naddo – nid oes goblygiadau polisi neu gyflwyno mentrau newydd. Mae gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod. Mae Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn ofynnol yn ôl y gyfraith ac yn amlinellu sut mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cyflawni a darparu adnoddau ar gyfer rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol yn ei ardal a rhoi sylw i unrhyw anghysondeb o ran gwireddu canlyniadau'r cynllun gwasanaeth blaenorol.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Amherthnasol |
| **Cydweithio:** | Amherthnasol |
| **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| **Atal:** | Amherthnasol |
| **Integreiddio:** | Amherthnasol |

**Argymhelliad / Argymhellion:**

Mae'r aelodau'n derbyn yr adroddiad hwn ac yn argymell i'r Cabinet bod Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023-24 yn cael ei gymeradwyo.

**Rhesymau dros yr argymhelliad:**

Mae Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (2021) statudol a Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) (2014) statudol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio a chyhoeddi cynllun gwasanaeth sy'n dangos sut y bydd yr Awdurdod yn gweithio i ddarparu ei wasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid.

**Enw Cyswllt:** Carwen Evans
**Swydd: Rheolwr Corfforaethol (Diogelu'r Cyhoedd)**
**Dyddiad yr Adroddiad: 23/10/2023**

**Atodiad 1 – Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023-24**

Food Service Plan 2023-24 Final 23 - 24

# Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid
# 2023-24

Wedi'i lunio yn unol â
Chytundeb Fframwaith (Ebrill 2010)
yr Asiantaeth Safonau Bwyd

## ADRAN 1: NODAU AC AMCANION Y GWASANAETH

**Rhagymadrodd**

Mae llywodraeth ganolog yn ei wneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer, Canllawiau ar Flaenoriaethau Gorfodi a dogfen Fframwaith er mwyn cynhyrchu cynllun gwasanaeth blynyddol ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal yr ystod arferol o weithgareddau diogelwch bwyd a safonau bwyd yn sir Ceredigion.

### 1.1 Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i orfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid fel rhan o "Reolaethau Swyddogol" cenedlaethol y DU a oruchwylir ac a archwilir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Rhaid i Awdurdodau Lleol gynhyrchu cynllun sy'n amlinellu sut y bydd yn gweithredu'r swyddogaethau hyn. Mae'r ddogfen hon yn cyflawni'r ddyletswydd honno ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion ac mae wedi cael ei hysgrifennu yn unol â Chytundeb Fframwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n seiliedig ar Godau Ymarfer statudol.

Nod yr Awdurdod hwn yw sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu trwy orfodi mewn modd effeithlon ac effeithiol unrhyw gyfreithiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid y mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am eu gorfodi.

Wrth gynhyrchu'r cynllun hwn, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnwys amrywiaeth o strategaethau, gweithgareddau ac ymyriadau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a chefnogi'r gwaith o wireddu amcanion strategol ehangach y Cyngor a'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol perthnasol. Ceisiwn gydbwyso rhaglen arolygu ragweithiol sy'n seiliedig ar risg (a, lle bo angen, camau gorfodi cymesur) â chyngor a chymorth wedi'u teilwra i fusnesau lleol i'w helpu i gydymffurfio. Rydym yn ategu hyn trwy ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd i'w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus am y bwyd y maent yn ei fwyta.

Yn allweddol i'r ffordd rydym yn darparu'r gwasanaeth hwn mae pum egwyddor rheoleiddio da:

- targedu (dull seiliedig ar risg)
- cymesuredd (megis ymyrryd dim ond lle bo angen)
- atebolrwydd (egluro a chyfiawnhau lefelau gwasanaeth a phenderfyniadau i'r cyhoedd ac i randdeiliaid)
- cysondeb (cymhwyso rheoliadau yn gyson i bob parti);
- tryloywder (bod yn agored ac yn ystyriol o'r defnyddiwr).

### Cysylltiadau ag amcanion a chynlluniau llesiant corfforaethol

Gweledigaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion, fel y'i disgrifir yn y Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-2027 yw, *"darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog*

*cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gryf, amgylchedd iach a hyrwyddo llesiant ein pobl a'n cymunedau"*.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol allweddol a fydd yn cynnig modd darparu gwasanaethau a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Ceredigion, sef:

- Blaenoriaeth Gorfforaethol 1: Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
- Blaenoriaeth Gorfforaethol 2: Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
- Blaenoriaeth Gorfforaethol 3: Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu
- Blaenoriaeth Gorfforaethol 4: Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd

Mae copi o Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion ar gael yn: https://www.ceredigion.gov.uk/media/12183/corporate-strategy-2022-2027.pdf ac mae crynodeb o'r Strategaeth Gorfforaethol ar gael yn: https://www.ceredigion.gov.uk/media/12294/crynodeb-strategaeth-corfforaethol-2022-2027.pdf

Nodau llesiant cenedlaethol

Mae'r Asesiad Llesiant Lleol hefyd wedi dylanwadu ar y Strategaeth Gorfforaethol hon a datblygu'r pedair Blaenoriaeth y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt dros y 5 mlynedd nesaf. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn nodi saith nod llesiant cenedlaethol y disgwylir i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, wneud y cyfraniad mwyaf posibl atynt:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r nodau hyn yn darparu fframwaith ar gyfer canolbwyntio gwaith ar ganlyniadau a chyflawni er llesiant hirdymor Cymru. Mae'r gweithgareddau a gyflawnir gan ein gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid, y canlyniadau a'r blaenoriaethau strategol yn rhyng-gysylltiedig ac yn cyfrannu'n sylweddol at nodau llesiant yr Awdurdod.

## 1.3 Cysylltiadau â Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol Cymru

Yn genedlaethol, mae'r Gwasanaeth hefyd yn cyfrannu at Flaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol Cymru a baratowyd gan Swyddog Gwell Rheoleiddio Lleol Llywodraeth Cymru:

1. Gwarchod unigolion rhag niwed a hybu gwella iechyd;
2. Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd i leihau risg i iechyd pobl ac anifeiliaid;
3. Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn i bobl a busnesau;
4. Gwella'r amgylchedd lleol er mwyn cael dylanwad da ar ansawdd bywyd a hyrwyddo cynaliadwyedd.

Mae Tîm Diogelu'r Cyhoedd yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at yr amcanion llesiant corfforaethol a'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol fel a ganlyn: -

- Hyrwyddo safonau uchel o hylendid mewn busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid.
- Sicrhau bod yr holl fwyd a diod sydd ar werth yn ddiogel i bobl eu bwyta.
- Sicrhau bod yr holl fwyd a diod sydd ar werth yn bodloni safonau cyfansoddiadol ac ansawdd.
- Lleihau nifer yr achosion o wenwyn bwyd a salwch a gludir gan fwyd yng Ngheredigion.
- Annog mabwysiadu arferion da ym mhob cam o'r gadwyn cynhyrchu bwyd.
- Gweithio gydag asiantaethau partner i ddileu twyll bwyd a bwyd anifeiliaid.
- Atal defnyddio sylweddau gwaharddedig neu roi cynhwysion amhriodol yn eu lle mewn cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid.
- Sicrhau bod pob busnes bwyd a bwyd anifeiliaid yn cydymffurfio â gofynion statudol perthnasol.
- Darparu arweiniad a chyngor i fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid posibl a rhai sydd eisoes yn bodoli.
- Sicrhau bod pob busnes bwyd a bwyd anifeiliaid yn gweithredu gan fanteisio ar drefniadau trwyddedu, cymeradwyo a chaniatâd perthnasol.
- Datblygu trefniadau cydweithio i leihau'r risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â bwyta bwyd a diod halogedig, o ansawdd gwael neu anniogel.

I gyflawni'r nod hwn, mae'r gwasanaethau hyn yn:

- Arolygu pob safle a busnes bwyd yn unol â'r rhaglenni asesu risg ac ail-arolygu mabwysiedig;
- Gweithredu rhaglen arolygu seiliedig ar risg ar gyfer sefydliadau bwyd anifeiliaid;
- Cymryd rhan yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) cenedlaethol er mwyn i aelodau'r cyhoedd allu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch ble i fwyta neu brynu bwyd;
- Cymryd camau gorfodi priodol, gan ystyried y Cod Ymarfer Statudol a Chanllawiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol perthnasol;
- Paratoi a gweithredu rhaglenni samplu ar gyfer bwyd sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei fwyta yn y sir gan ystyried y Cod Ymarfer Statudol;
- Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd a sectorau gwahanol y diwydiant bwyd sy'n gweithredu yn y sir, o faterion yn ymwneud â bwyd trwy addysg a chyhoeddusrwydd;

- Ceisio cyflawni'n effeithiol ddyletswyddau, swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol y Cyngor mewn perthynas â gorfodi deddfwriaeth hylendid diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid;
- Ceisio cyflawni dyletswyddau, swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol y Cyngor yn effeithiol mewn perthynas â rheoli lledaeniad clefydau trosglwyddadwy a gwenwyn bwyd.

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd yr ASB y Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol canlynol ar gyfer gwasanaethau gorfodi bwyd anifeiliaid, y bydd swyddogion yn rhoi sylw iddynt:

- Gwirio bod systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw'n effeithiol
- Gwirio bod systemau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid mewn busnesau sy'n cyflenwi cyn-fwydydd neu gyd-gynhyrchion yn cael eu gweithredu a'u cynnal a chadw'n effeithiol
- Monitro bwyd anifeiliaid ar ffermydd yn effeithiol
    - Archwilio cyn-fwydydd/cyd-gynhyrchion sy'n cael eu defnyddio fel bwyd anifeiliaid ar ffermydd
    - Gofynion cadw cofnodion ar y fferm a gweithdrefnau wedi'u dogfennu
- Monitro trefniadau storio effeithiol mewn safleoedd bwyd anifeiliaid
- Gwirio cywirdeb labelu bwyd anifeiliaid
- Monitro llwythi bwyd anifeiliaid o wledydd y tu allan i'r UE mewn mannau cyrraedd yn effeithiol

## ADRAN 2: CEFNDIR

### 2.1 Proffil yr Awdurdod Lleol

Ffurfiwyd Cyngor Sir Ceredigion yn Ebrill 1996 yn dilyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol.

| | | |
|---|---|---|
| Poblogaeth | 71,468 | |
| Ardal | 1795 $km^2$ | (179500 hectar) |
| Poblogaeth (18+) | 60,028 | (84.0%) |
| Poblogaeth (60+ oed) | 23,525 | (32.9%) |
| Poblogaeth (65-74 oed) | 9,942 | (13.9%) |
| Poblogaeth (75+ oed) | 8,443 | (11.8%) |
| | Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 | |

Ceredigion yw un o siroedd mwyaf gwledig Cymru. Er mai amaethyddiaeth yw prif ddiwydiant yr ardal yn draddodiadol, mae effeithiau'r dirywiad mewn ffermio a'r pwysau cyffredinol sy'n wynebu'r sector hwn wedi cael canlyniadau difrifol i'r economi leol. Yn ddiweddar, mae pwysigrwydd yr ardal fel cyrchfan i dwristiaid wedi cynyddu gyda niferoedd mawr o ymwelwyr yn mwynhau'r atyniadau niferus ac amrywiol sydd ar gael. Mae'r arfordir hardd, cefn gwlad godidog a lletygarwch rhagorol yn denu pobl yn ôl i'r ardal.

### 2.2 Strwythur Sefydliadol

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac yn cael ei gyfrif amdano'n briodol, a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei faterion, hwyluso arfer ei swyddogaethau yn effeithiol, sy'n cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo cyfansoddiad sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir er mwyn sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae copi o Gyfansoddiad y Cyngor ar gael yn: https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ynglyn-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/

Mae Rhan 3.5 o'r Cyfansoddiad ("Cynllun Dirprwyo i Swyddogion") o Gyfansoddiad y Cyngor, a gymeradwywyd ar 22 Mawrth 2018, yn nodi'r cynllun dirprwyo i swyddogion. Mae'r cynllun hwn yn dirprwyo rhai o swyddogaethau'r Cyngor a'r Cabinet i swyddogion.

Cytunodd Cyngor Sir Ceredigion, yn ei gyfarfod ar 9 Ionawr 2002, i ffurfio Strwythur Cabinet fel rhan o'i broses moderneiddio'r llywodraeth. Roedd y cynnig mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a oedd yn amlinellu'r ffordd y bydd Cynghorau yn newid eu strwythurau pwyllgor traddodiadol.

Yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Bortffolio Diogelu'r Cyhoedd ar hyn o bryd yw'r Cynghorydd Matthew Vaux.

Mae Strwythur Rheoli'r Cyngor i'w weld yn Atodiad 1.

Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Alun Williams) yn gyfrifol am reoli ac arwain gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, sy'n cynnwys y gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae gorfodi cyfraith bwyd yn swyddogaeth a rennir ac fe'i cyflawnir gan swyddogion y timau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, a gydnabyddir ar y cyd o fewn yr Awdurdod fel "Diogelu'r Cyhoedd". Mae'r ddau wasanaeth yn gweithio ar y cyd ac yn ceisio sicrhau bod yr holl fwyd a diod y bwriedir iddo gael ei fwyta gan bobl sy'n cael ei gynhyrchu, ei baratoi, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei fwyta yn y sir heb risg i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio â safonau ansawdd cydnabyddedig.

Rheolwr Corfforaethol Diogelu'r Cyhoedd (Carwen Evans) sy'n rheoli'r gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid yn weithredol (sy'n cynnwys Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy). Mae'r Rheolwr Corfforaethol hefyd yn gyfrifol am reoli Iechyd a Diogelwch, Iechyd Anifeiliaid, Diogelu'r Amgylchedd, Safonau Masnach, Trwyddedu a Wardeiniaid Cymunedol ym maes Diogelu'r Cyhoedd.

Mae'r swyddogion sy'n darparu'r gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid o fewn Cyngor Sir Ceredigion wedi'u trefnu fel y nodir yn y diagram strwythur yn Atodiad 2. Ar gyfer dadansoddiad manwl o sut mae'r swyddi hyn yn cyfateb o ran swyddi "cyfwerth ag amser llawn", cyfeiriwch at yr Adran Adnoddau isod.

### 2.3 Cwmpas y Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Mae gorfodi cyfraith bwyd yn swyddogaeth a rennir ac fe'i cyflawnir gan swyddogion Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, sef y Timau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach. Mae'r rolau/cyfrifoldebau wedi'u rhannu fel a ganlyn:

- Iechyd yr Amgylchedd – Diogelwch Bwyd, Hylendid, Safonau a Bwyd Anifeiliaid
- Safonau Masnach – Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Gwasanaeth wedi canolbwyntio ar gynyddu ei adnoddau gorfodi safonau bwyd trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant safonau bwyd ar gyfer swyddogion cymwys ym maes hylendid a diogelwch yn ogystal â chynnal rhaglen datblygu cymheiriaid. Mae'r rhaglen fewnol hon wedi galluogi'r Gwasanaeth i ddefnyddio swyddogion cymwys safonau bwyd presennol i ddatblygu, cefnogi a mentora i'w trosglwyddo i ymgymryd â gwaith gorfodi safonau bwyd hefyd. O ganlyniad, erbyn hyn, gall swyddogion cymwys iechyd yr amgylchedd gynnal arolygiadau hylendid a safonau deuol.

Mae gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yn swyddogaeth a rennir ac fe'i cyflawnir gan swyddogion amrywiol Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd. Mae Swyddogion Gwasanaeth

Diogelu'r Cyhoedd yn rhannu eu hamser ar draws nifer o ddisgyblaethau Diogelu'r Cyhoedd, gan gynnwys Safonau Masnach, Iechyd Anifeiliaid a Hylendid Bwyd.

Rheolir y Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid gan y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd. Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth yn gweithredu ar sail hybrid, sy'n golygu bod bron pob aelod o staff yn gweithio o gartref yn hytrach nag yn y swyddfa. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cadw swyddfeydd yn y cyfeiriadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Swyddfa Ardal Aberystwyth<br>Canolfan Rheidol<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>Ceredigion<br>SY23 3UE | Neuadd y Sir,<br>Stryd y Farchnad,<br>Aberaeron,<br>Ceredigion<br>SA46 0AT | Swyddfa Ardal Aberteifi<br>Stryd Morgan,<br>Aberteifi,<br>Ceredigion<br>SA43 1DF |

Mae modd cysylltu â swyddogion yn ystod oriau swyddfa arferol rhwng 8.45am a 5.00pm ddydd Llun i ddydd Iau, 8.45am i 4.30pm ddydd Gwener. Er nad yw'r Gwasanaeth Bwyd yn darparu gwasanaeth brys y tu allan i oriau gwaith, bydd swyddogion yn ymateb i geisiadau os gallant. Cysylltwch â Swyddog Wrth Gefn mewn Argyfwng y Cyngor, ffôn: (Gogledd) 01970 625277 (De) 01239 851604.

Mae cymwyseddau swyddogion sy'n cyflawni gweithgareddau gorfodi yn seiliedig ar gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad. Caiff y rhain eu hadolygu fel rhan o'r broses arfarnu flynyddol fewnol, a phryd bynnag y cyflwynir deddfwriaeth newydd. Mae awdurdodi swyddogion yn dilyn y cynllun dirprwyo corfforaethol fel y manylir uchod a'r weithdrefn Awdurdodi Swyddogion.

<u>Swyddogion Arweiniol</u>

Mae'r swyddogion sy'n arwain y gwaith o orfodi'r ddeddfwriaeth hon fel a ganlyn:
Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd (Heddwyn Evans) yw'r Swyddog Arweiniol penodedig ar gyfer Hylendid a Diogelwch Bwyd ac Anne-Louise Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu yw'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Safonau Bwyd a'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Bwyd Anifeiliaid.

Cyflawnir y swyddogaethau canlynol gan y Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid:

- Cofrestru safleoedd bwyd
- Cymeradwyo safleoedd sy'n dod o dan ddeddfwriaeth cynnyrch penodol.
- Ymgymryd â rhaglen o ymyriadau hylendid a safonau bwyd ac ailymweliadau.
- Ymgymryd â rhaglen o ymyriadau hylendid bwyd anifeiliaid ac ailymweliadau.
- Gweithgareddau gorfodi megis hysbysiad ysgrifenedig, hysbysiadau ffurfiol a chau, rhybuddion syml ac erlyniadau yn unol â'r Polisi Gorfodi Corfforaethol.
- Gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ar gyfer busnesau bwyd.
- Samplu bwyd a bwyd anifeiliaid (ar gyfer ansawdd microbiolegol, cyfansoddiad, dilysrwydd a maeth).

- Ymchwilio i gwynion ynghylch hylendid safleoedd bwyd, bwyd anaddas neu halogedig.
- Ymchwilio i gwynion ynghylch twyll bwyd/bwyd anifeiliaid, ansawdd, cyfansoddiad, dilysrwydd a maeth bwyd/bwyd anifeiliaid.
- Ymchwilio i achosion a amheuir ac a gadarnhawyd o glefydau trosglwyddadwy gan gynnwys gwenwyn bwyd trwy gydgysylltu â'r Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy.
- Ymateb i Ddigwyddiadau a Rhybuddion Bwyd/Bwyd Anifeiliaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel y bo'n briodol.
- Archwilio ac ymateb i geisiadau cynllunio a thrwyddedu mewn perthynas â safleoedd bwyd lle bo'n briodol.
- Ildio bwydydd yn wirfoddol.
- Darparu ac adolygu systemau a gweithdrefnau yn unol â Chytundeb Fframwaith yr ASB.
- Rheoli bwyd/bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio.
- Mae gwaith hylendid bwyd mewn prif safleoedd cynhyrchu yn cael ei wneud gan swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau hylendid bwyd.

<u>Darparu Gwasanaethau Arbenigol</u>

Mae'r dadansoddwyr a'r arolygwyr canlynol wedi cael eu penodi ac wedi cael eu hawdurdodi yn unol â gweithdrefnau'r Awdurdod.

| | |
|---|---|
| Dadansoddwr Cyhoeddus<br>(penodwyd hefyd yn Ddadansoddwr Amaethyddol) | Public Analyst Scientific Services Ltd<br>i54 Business Park<br>Valiant Way<br>Wolverhampton<br>WV9 5GB<br>Cyswllt: Michelle Evans<br>Ffôn: 01902 627 241 |
| Arolygydd Bwyd | Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru<br>Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru<br>Glangwili<br>Caerfyrddin<br>SA31 2AF<br>Cyswllt: Gary Williams<br>Ffôn: 01267 237271 |

## <u>2.4 Galwadau ar y Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid</u>

Mae'r galwadau ar y gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn wrth i safleoedd agor a chau.

<u>Hylendid a Safonau Bwyd</u>

Caiff amlder ymyriadau eu dewis a'u rhaglennu yn ôl y risg y maent yn ei pheri i ddiogelwch bwyd a safonau bwyd. Mae dadansoddiad o broffiliau sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Ngheredigion i'w gweld isod.

Roedd nifer y safleoedd bwyd [1]ym mhob categori fel a ganlyn:

| **Math o Safle** | **Nifer y Safleoedd** |
|---|---|
| Safle gofalu | 86 |
| Dosbarthwyr/cludwyr | 17 |
| Gwesty/gwesty bach | 82 |
| Mewnforwyr/allforwyr | 1 |
| Cynhyrchwyr a phacwyr | 121 |
| Uned fwyd symudol | 46 |
| Prif gynhyrchwyr | 20 |
| Tafarn/clwb | 86 |
| Bwyty/caffi/ffreutur | 252 |
| Bwytai ac arlwywyr – eraill | 139 |
| Manwerthwr – arall | 59 |
| Ysgol/coleg | 59 |
| Manwerthwr bach | 165 |
| Archfarchnad/Archfarchnad fawr | 13 |
| Tecawê | 64 |
| **Cyfanswm** | **1210** |

Mae nifer y safleoedd a gymeradwywyd o dan Reoliad Rhif EC853/2004 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cynnyrch llaeth | 14 |
| Cynhyrchion pysgodfeydd | 3 |
| Cig | 1 |
| Arall | 1 |
| **CYFANSWM** | **19** |

Mae 1210 o fusnesau bwyd cofrestredig yng Ngheredigion. Mae darpariaethau ar gyfer cofrestru wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a ddaeth i rym ar 11/1/2006. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod yn rhaid i'r rhan fwyaf o fusnesau bwyd (ac eithrio'r rhai a gwmpesir gan EC853/2004) gydymffurfio â gofynion y darpariaethau cymunedol yn EC852/2004.

Mae amrywiaeth eang o fusnesau gweithgynhyrchu bwyd yn gweithredu o fewn y sir ac yn cynhyrchu cynhyrchion risg uchel. Mae'r rhain yn amrywio o fusnesau cynhyrchu caws bach teuluol i gwmnïau rhyngwladol sy'n cynhyrchu niferoedd mawr o gynhyrchion i'w dosbarthu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae timau Diogelu'r Cyhoedd wedi meithrin cysylltiadau da gyda chyrff masnach, Awdurdodau Lleol eraill a sefydliadau arbenigol, e.e. Cymdeithas y Gwneuthurwyr Caws Arbenigol, i sicrhau bod digon o arbenigedd priodol er mwyn gallu arolygu'n gymwys unrhyw brosesau arbenigol.

[1]Ar 31/08/2023

Mae rhai o'r busnesau hyn yn allforio cynhyrchion yn fyd-eang, tu allan i'r UE rhaid cael Tystysgrifau Allforio penodol i hwyluso gwerthu'r cynhyrchion hyn i'r gwledydd hyn. Mae'r Adran wedi'i hawdurdodi i ddosbarthu'r Tystysgrifau Allforio hyn.

Hylendid Bwyd

Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth bwyd anifeiliaid sy'n rheoli ansawdd, diogelwch, hylendid, labelu a'r gallu i olrhain bwyd anifeiliaid trwy'r gadwyn fwyd, gan gynnwys mewnforio, gweithgynhyrchu a phrif gynhyrchu (bwydo da byw a ffermir a thyfu cnydau). Mae'r rheolaethau hyn yn helpu i sicrhau diogelwch y gadwyn bwyd anifeiliaid a'r gadwyn fwyd. Yn hanesyddol, mae'r rhan fwyaf o achosion mawr o glefydau anifeiliaid fel BSE a Chlwy'r Traed a'r Genau wedi'u cysylltu â bwyd anifeiliaid. Yn yr un modd, mae digwyddiadau bwyd mawr fel deuocsinau mewn porc wedi'u cysylltu â bwyd anifeiliaid halogedig.

O 1 Ebrill 2023, roedd 1380 o fusnesau bwyd anifeiliaid yn destun rheolaethau rheoleiddiol yng Ngheredigion. Mae proffil y busnesau hyn wedi'i nodi isod:

| **Sefydliadau Bwyd Anifeiliaid – 1 Ebrill 2023** | |
|---|---|
| **Math o Sefydliad** | **Nifer** |
| Gwneuthurwr (A01-08 a R01-R04 & R07) | 3 |
| Cynhyrchydd cyd-gynhyrchion (R12) | 2 |
| Cymysgydd symudol (R04) | 0 |
| Mewnforwyr | 0 |
| Storfeydd (R09) | 1 |
| Dosbarthwyr (A01-08, R01-03 & R05) | 11 |
| Cludwyr (R08) | 4 |
| Cymysgydd ar y fferm (R10 ac R11) | 69 |
| Gwneuthurwr bwyd anifeiliaid anwes (R06) | 1 |
| Cyflenwr bwyd dros ben (R07) | 11 |
| Ffermydd da byw (R13) | 1,262 |
| Ffermydd âr (R14) | 16 |
| Cyfanswm | 1380 |

## **2.6 Polisi Rheoleiddio**

Mae gorfodi teg ac effeithiol yn hanfodol er mwyn diogelu buddiannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y cyhoedd a busnesau. Gall penderfyniadau ynghylch camau gorfodi, ac yn arbennig y penderfyniad i erlyn, gael goblygiadau difrifol i fusnesau bwyd ac unigolion. Bydd Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Ceredigion yn gorfodi deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid mewn modd cymesur, yn unol ag egwyddorion 'Gwell Rheoleiddio' a nodir yng Nghod y Rheoleiddwyr.

Mae Cod y Rheoleiddwyr (a ddaeth i rym yn statudol ar 6 Ebrill 2014 o dan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006) yn darparu fframwaith clir, hyblyg, sy'n seiliedig ar egwyddorion ar gyfer sut y dylai rheoleiddwyr ymgysylltu â'r rhai y maent yn eu rheoleiddio. Prif ddarpariaethau Cod y Rheoleiddwyr yw:

- Dylai rheoleiddwyr gyflawni eu gweithgareddau mewn ffordd sy'n helpu'r rhai y maent yn eu rheoleiddio i gydymffurfio a thyfu.
- Dylai rheoleiddwyr ddarparu ffyrdd syml a didrafferth o ymgysylltu â'r rhai y maent yn eu rheoleiddio a chlywed eu barn.
- Dylai rheoleiddwyr seilio eu gweithgareddau rheoleiddio ar risg.
- Dylai rheoleiddwyr rannu gwybodaeth am gydymffurfiaeth a risg.
- Dylai rheoleiddwyr sicrhau bod gwybodaeth, arweiniad a chyngor clir ar gael i helpu'r rhai y maent yn eu rheoleiddio i gyflawni eu cyfrifoldebau i gydymffurfio.
- Dylai rheoleiddwyr sicrhau bod eu hymagwedd at eu gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw.

Mae'r egwyddorion hyn ac ymagwedd y Cyngor at orfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u hamlinellu ym Mholisi Gorfodi Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion. Cymerir pob cam gorfodi gan ystyried y Polisi Gorfodi Corfforaethol. Mabwysiadwyd y polisi gan y Cyngor yn 2018 ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Gofynnir i bartïon â diddordeb, megis yr Asiantaeth Safonau Bwyd, roi sylwadau ar y polisi diwygiedig yn ystod y broses ymgynghori. Cefnogir y Polisi Gorfodi gan weithdrefnau ffurfiol sy'n ymwneud ag arolygu, samplu, ymdrin â chwynion a gorfodi.
Rhaid rhoi sylw dyladwy hefyd i God Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2014 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd a bwyd anifeiliaid lleol roi sylw dyladwy i'w cynnwys wrth weithredu a gorfodi deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid.

## ADRAN 3: CYFLENWI GWASANAETHAU

### 3.1 Ymyriadau mewn Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

<u>Bwyd</u>

Cynhelir arolygiadau hylendid a safonau bwyd yn unol â'r polisi mabwysiedig sydd wedi'i gynnwys yn y System Gwybodaeth a Rheoli Rheoleiddiol (RIAMS) a Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2021.

Bydd y Gwasanaeth yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i arolygu, cymeradwyo, cofrestru a thrwyddedu safleoedd perthnasol yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Ddeddf Diogelwch Bwyd, y Cod Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

Cynhelir asesiadau o gydymffurfiaeth safleoedd a systemau yng Ngheredigion â'r safonau a bennwyd yn gyfreithiol. Wrth asesu cydymffurfiaeth, rhoddir ystyriaeth ddyladwy i unrhyw Ganllawiau'r Diwydiant ar Arferion Hylendid Da perthnasol a rhoddir ystyriaeth i unrhyw ganllawiau perthnasol eraill a gyhoeddir yn ganolog. Cymerir camau priodol a chymesur mewn cysylltiad ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio a ganfyddir, yn unol â'r Polisi Gorfodi Corfforaethol, gan roi sylw dyladwy i amgylchiadau pob achos.

Mae pob safle bwyd cofrestredig a chymeradwy yn y sir yn cael sgôr risg yn dilyn ymyriad i bennu amlder ymyriadau hylendid bwyd gan ddefnyddio'r meini prawf asesu risg a welir yn Atodiad 5 o God Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru).

Mae'r Awdurdod yn cynnal strategaeth orfodi amgen flynyddol i reoleiddio sefydliadau "risg isel", lle nad yw'r peryglon cynhenid a gyflwynir gan y busnes bwyd yn arwyddocaol trwy rinwedd eu gweithgareddau masnachu neu nifer y defnyddwyr y maent yn eu cyflenwi.

<u>Ymrwymiad arolygu Hylendid Bwyd</u>

| Ymrwymiad arolygu Hylendid Bwyd ar gyfer 2023-2024 | | | |
|---|---|---|---|
| Categori Risg | Nifer y safleoedd | Nifer yr arolygiadau | Strategaethau gorfodaeth eraill |
| | | | |
| A | 8 | 16* | |
| B | 68 | 68 | |
| C | 168 | 168 | |
| D | 72 | 72 | |
| E | 174 (258) | | 174 (258) |
| **CYFANSWM** | 316 | 324 | |
| * Yn amodol ar y safle yn cael ei ail-sgorio fel A yn yr ymyriad cyntaf | | | |

Yn ystod y flwyddyn, bydd 100% o'r arolygiadau a drefnwyd ar gyfer categorïau risg A-D yn cael eu cynnal. Yn ogystal, bydd 100% o'r safleoedd sy'n cael eu sgorio fel Categori E yn destun arolwg gorfodi amgen. Gall categorïau risg gael eu newid os bydd gweithgareddau trin bwyd yn newid, cwynion defnyddwyr yn cael eu derbyn, achosion eraill o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu nodi, neu os daw unrhyw reswm arall i'r amlwg sy'n effeithio ar sgôr risg y safle.

Cyfanswm nifer yr arolygiadau hylendid bwyd wedi'u rhaglennu o safleoedd risg uchel y targedwyd eu cynnal yn ystod 2023/2024 yw 252.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cynnal arolygiadau heb eu rhaglennu o fusnesau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio'n fras er mwyn sicrhau bod achosion o dorri'r gyfraith bwyd a nodwyd yn yr ymweliad blaenorol wedi cael sylw mewn modd amserol. Mae gan fusnesau bwyd yr hawl hefyd i wneud cais am ailarolygiad Diogelwch Bwyd o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol. Gan fod natur y ceisiadau hyn yn anrhagweladwy, mae'r baich a ragwelir ar y Gwasanaeth ar gyfer 2023-24 wedi'i gyfrifo trwy luosi nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn 6 mis cyntaf 2023 â 2, fel y dangosir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| Ailymweliadau â safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio'n fras (2023-24) | 80 |
| Ceisiadau ar gyfer ailarolygiad o dan y CSHB (2023-24) | 50 |
| **CYFANSWM** | 130 |

Mae swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau statudol hylendid a diogelwch bwyd wedi'u hawdurdodi'n briodol yn unol â'u cymwysterau a'u profiad i orfodi darpariaethau

sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, iechyd a diogelwch a rheoli clefydau trosglwyddadwy.

Ymyriadau Safonau Bwyd

Cynhelir ymyriadau safonau bwyd i sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith safonau bwyd, gan gynnwys cyflwyniad, cyfansoddiad, labelu a hysbysebu cywir, er mwyn peidio â chamarwain defnyddwyr.

Cynhelir ymyriadau Safonau Bwyd gan swyddogion o dimau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach. Bydd pob safle risg uchel (categori A) yn cael arolygiad llawn a bydd safleoedd risg canolig yn cael arolygiad llawn lle bo modd. Bydd safleoedd risg isel yn destun strategaethau amgen, a all gynnwys arolygiadau masnach, holiaduron hunanasesu neu ymweliadau gan swyddogion eraill.

Mae swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau statudol safonau bwyd wedi'u hawdurdodi'n briodol yn unol â'u cymwysterau, profiad a chymhwysedd yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) a Chanllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru).

Mae'r rhaglen ymyrryd/arolygu a gynlluniwyd ar gyfer safonau bwyd wedi'i sefydlu yn yr un modd â'r rhaglen hylendid bwyd. Bob blwyddyn mae amrywiad naturiol yn nifer y safleoedd oherwydd bod rhai yn cau a busnesau newydd yn agor.

Mae Tabl A isod yn dangos amlder ymyriadau gofynnol safonau bwyd ar gyfer safleoedd bwyd sy'n amrywio o unwaith y flwyddyn i unwaith bob 5 mlynedd a'r cynllun ymyrryd ar gyfer 2023/24.

Tabl A

| Categori sgôr safle | Amlder ymyriad lleiaf | Nifer y safleoedd lle mae ymyriad yn ofynnol |
|---|---|---|
| A | O leiaf bob 12 mis | 10 |
| B | O leiaf bob 24 mis | 219 |
| C | Strategaeth orfodi amgen neu ymyriad bob 5 mlynedd | 291 |
| Heb sgôr* (* ar 1 Ebrill 2023) | - | 363 |
| Cyfanswm yr ymyriadau safonau bwyd wedi'u cynllunio i'w cynnal yn 2023/24 | | |

Arolygiad cychwynnol o sefydliadau bwyd newydd

Amcangyfrifir bod tua 10-12 o fusnesau newydd yn dechrau masnachu yng Ngheredigion bob mis. Rhaid i sefydliadau bwyd newydd sy'n dod at sylw'r Awdurdod Bwyd am y tro cyntaf fod yn destun arolygiad cychwynnol o safbwynt hylendid bwyd a safonau bwyd o fewn 28 diwrnod i gofrestru gyda'r Awdurdod. Ar gyfer busnesau

newydd, cynhelir asesiad bwrdd gwaith cychwynnol i ystyried y wybodaeth gofrestru ac unrhyw hysbysrwydd i ganfod sgôr risg bosibl y busnes bwyd er mwyn blaenoriaethu ymweliadau cychwynnol a thargedu ein hadnoddau yn y modd mwyaf effeithlon. Yn ystod arolygiad cychwynnol, rhaid canfod y sgôr(sgorau) ymyriad ar gyfer y sefydliad a fydd wedyn yn pennu pa mor aml y caiff y safle ei arolygu ar gyfer pob disgyblaeth. Yn ystod yr arolygiad Hylendid Bwyd, caiff y safle ei sgorio o dan y CSHB.

Mae Tabl 2 isod yn dangos y nifer cyfartalog o fusnesau bwyd newydd sy'n cofrestru gyda'r Awdurdod bob mis. Mae hefyd yn dangos yr ôl-groniad o arolygiadau busnes newydd y mae angen eu cynnal ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd.

**Tabl 2: Nifer y busnesau newydd y disgwylir iddynt gael eu harolygu ym mis Awst 2023**

| **Hylendid bwyd** | **Safonau bwyd** |
|---|---|
| Tua 10-12 busnes newydd yn cofrestru bob mis | Tua 10-12 busnes newydd yn cofrestru bob mis |
| Ôl-groniad o 155 o safleoedd yn aros i gael eu harolygu | Ôl-groniad o 328 o safleoedd yn aros i gael eu harolygu |

<u>Arolygiadau Bwyd Anifeiliaid</u>

Tynnwyd cyllid o Grant Cynnal Refeniw yr Awdurdod Lleol yn 2015 ac erbyn hyn mae'n cael ei reoli gan yr ASB i ariannu'r gwaith o gyflawni rheolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid yn rhanbarthol yng Nghymru. Mae'r ASB yn mabwysiadu dull seiliedig ar risg i bennu nifer a natur yr ymyriadau sydd i'w darparu gan bob awdurdod lleol ac mae'n talu'n uniongyrchol ar gyflawni.

Yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2014, rhaid i'r rhaglen arolygu bwyd anifeiliaid gynnwys pob math o sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid yn ardal yr Awdurdod.

Pan fydd busnesau'n dangos, yn ystod arolygiad sgôr risg, eu bod yn cydymffurfio'n fras trwy ddangos safon uchel o ddiogelwch bwyd, a'u bod yn cymryd camau priodol i gydymffurfio â'r gyfraith, cydnabyddir y safonau hyn wrth bennu amlder arolygiadau yn y dyfodol, ac felly maent yn gymwys ar gyfer 'Cydnabyddiaeth ar sail Perfformiad'. Gall busnesau hefyd ennill cydnabyddiaeth trwy ddangos ar adeg yr arolygiad eu bod yn cydymffurfio'n fras a'u bod yn aelod o gynllun gwarant diwydiant cymeradwy, megis y 'Tractor Coch', neu'n aelod o'r Cydffederasiwn Diwydiannau Amaethyddol, neu Gynllun Gwarant Fferm Da Byw Cymru.

Nid yw "cydnabyddiaeth ar sail perfformiad" yn golygu bod y busnes bwyd anifeiliaid wedi'i eithrio'n llwyr o'r rhaglen arolygu – mae'n lleihau amlder cynnal yr arolygiadau, gan ystyried hanes cydymffurfio, risg a/neu'r camau unigol y mae busnes yn eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth. Gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid sy'n gymwys i gael cydnabyddiaeth ar sail perfformiad trwy fod yn aelodau o gynllun gwarant cymeradwy sy'n cael y nifer lleiaf o arolygiadau.

Yn achos sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid sy'n aelod o gynllun gwarant cymeradwy ond canfyddir nad oes ganddynt lefelau cydymffurfio boddhaol yn ystod arolygiad, bydd eu sgôr risg yn cynyddu yn unol â hynny, oni bai bod yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodir yn fach a gellir eu hunioni ar unwaith neu o fewn cyfnod rhesymol o gael ei nodi.

Os nad yw busnes bwyd anifeiliaid sy'n aelod o gynllun gwarant cymeradwy yn cyflawni lefelau cydymffurfio boddhaol bellach, bydd yn colli ei statws cydnabyddiaeth ar sail perfformiad, a rhaid hysbysu'r busnes am hyn.

Os bydd yr Awdurdod Bwyd Anifeiliaid yn penderfynu tynnu cydnabyddiaeth ar sail perfformiad oddi ar fusnes bwyd anifeiliaid sy'n aelod o gynllun gwarant cymeradwy, rhaid hysbysu'r ASB.

Yn 2023/24, mae 740 o'r 1346 o fusnesau bwyd anifeiliaid yn ardal yr awdurdod yn aelodau o gynllun gwarant cymeradwy a gydnabyddir gan yr ASB.

Cydnabyddiaeth ar sail Perfformiad a Strategaethau Gorfodi Amgen ar Sefydliadau Bwyd Anifeiliaid

Mae'r tabl canlynol yn nodi effaith ddisgwyliedig ymyriad cynllun sgôr risg ar fathau gwahanol o sefydliadau ac yn nodi a ellir ystyried cydnabyddiaeth ar sail perfformiad trwy gynllun gwarant cymeradwy neu Strategaethau Gorfodi Amgen.

| Disgrifiad o'r Busnes | Codau Cymeradwyo / Cofrestru Posibl sy'n Berthnasol i'r Busnes at ddibenion enghreifftiol yn unig | Cydymffurfiaeth Wael<br>Amlder Blynyddoedd Arolygiadau | Cydymffurfiaeth Amrywiol<br>Amlder Blynyddoedd Arolygiadau | Cydymffurfiaeth Foddhaol<br>Amlder Blynyddoedd Arolygiadau | Cydymffurfiaeth Fras neu Well<br>Amlder Blynyddoedd Arolygiadau / Strategaethau Gorfodi Amgen | Cydnabyddiaeth ar sail Perfformiad i Aelodau Cynlluniau Gwarant Cymeradwy<br>Amlder Blynyddoedd Arolygiadau / % sampl arolygu blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Fferm Âr | R14 | 3 | 4 | 5 | Strategaethau Gorfodi Amgen | 4% |
| Cynhyrchydd Cyd-gynhyrchion | R14 | 1 | 1 | 4 | 4 | 5 |
| Dosbarthwr<br><br>Mewnforiwr | Pob cod cymeradwy ynghyd â R1,R4,R3,R5,R7<br><br>Ddim yn berthnasol | 4 | 4 | 5 | Strategaethau Gorfodi Amgen | 2% |
| Ffermydd Da Byw | R13 | 3 | 4 | 5 | Strategaethau Gorfodi Amgen | 2% |
| Gwneuthurwr ychwanegion neu fwyd anifeiliaid sy'n defnyddio ychwanegion | Pob cod cymeradwy ynghyd â R1, R2, R3 i R4 ac R6 | 1 | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Cymysgydd Symudol | R4 | 1 | 1 | 2 | 4 | 5 |
| Cymysgydd ar y Fferm | R10 neu R11 | 2 | 4 | 5 | Strategaethau Gorfodi Amgen | 2% |
| Storfeydd | R9 | 2 | 3 | 5 | Strategaethau Gorfodi Amgen | 2% |
| Cyflenwr Bwyd dros ben | R7 | 2 | 4 | 5 | Strategaethau Gorfodi Amgen | 2% |
| Cludwr | R8 | 2 | 4 | 5 | Strategaethau Gorfodi Amgen | 2% |

Cytunwyd ar yr ymyriadau bwyd anifeiliaid canlynol ar gyfer 2023/24 yng Ngheredigion

| Categori Safle | Nifer y safleoedd y disgwylir iddynt gael ymyriad |
|---|---|
| Gwneuthurwr (A01-08 a R01-R04 & R07) | 2 |
| Cynhyrchydd cyd-gynhyrchion (R12) | 0 |
| Cymysgydd Symudol (R04) | 0 |
| Mewnforwyr | 0 |
| Storfeydd (R09) | 1 |
| Dosbarthwyr (A01-08, R01-03 & R05) | 7 |
| Cludwr (R08) | 0 |
| Cymysgydd ar y Fferm (R10 Atodiad II) | 0 |
| Cymysgydd ar y Fferm (R11) | 4 |
| Gwneuthurwr Bwyd Anifeiliaid Anwes (R06) | 0 |
| Cyflenwr deunyddiau bwyd anifeiliaid / bwyd dros ben (R07) | 3 |
| Ffermydd Da Byw (R13) | 169 |
| Ffermydd Âr (R14) | 2 |
| **Cyfanswm** | **188** |

### 3.2 Cwynion am Fwyd a Bwyd Anifeiliaid

Mae polisïau mewn perthynas ag ymchwilio i gwynion am fwyd a bwyd anifeiliaid yn eu lle a bydd swyddogion ymchwilio yn eu dilyn bob amser. Mae swyddogion yn dilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir yn y system rheoli dogfennau ar-lein RIAMS (System Gwybodaeth a Rheoli Rheoleiddiol) yn ogystal â rhoi sylw i'r Polisi Gorfodi Corfforaethol, Polisi Cydymffurfiaeth a Gorfodi: Gorfodi Cyfraith Bwyd, Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2021, Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2014, a Chanllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2016.

Mae cwynion defnyddwyr ynghylch bwyd anifeiliaid, safonau bwyd, cyfansoddiad, labelu a difwyno cemegol yn cael eu trin neu eu harwain gan y Tîm Safonau Masnach.

Y Tîm Iechyd yr Amgylchedd sy'n ymdrin â chwynion defnyddwyr ynghylch ffitrwydd bwyd i'w fwyta, presenoldeb deunydd estron mewn bwyd, neu halogiad microbiolegol/ansawdd bwyd. Mae'r tîm hefyd yn delio â chwynion sy'n ymwneud â materion hylendid (safleoedd, practisau, staff) mewn busnesau bwyd.

Mae'r dangosydd perfformiad ar gyfer ymateb cyntaf i gwynion a dderbynnir gan y Gwasanaeth Bwyd mewn perthynas â materion bwyd yn seiliedig ar risg. Mae unrhyw gŵyn o natur risg uchel (er enghraifft, plâu neu wenwyn bwyd) yn cael sylw o fewn 1 diwrnod ond mae risg ganolig ac isel yn destun barn broffesiynol y Swyddog Bwyd Arweiniol. Mae mater bwyd risg canolig fel arfer yn cael sylw o fewn 10 diwrnod, ond gall cwynion risg isel eraill ddod i'r amlwg yn yr arolygiad hylendid bwyd nesaf.

Mae pob cwyn yn cael ei chofnodi ar gronfa ddata Tascomi. Yn 2022/23, derbyniwyd 644 o geisiadau am wasanaethau diogelwch bwyd o'i gymharu â 562 yn 2019-2020 yn y cyfnod cyn y pandemig.

Mae cynnydd amlwg yn y galw ar y Gwasanaeth am geisiadau gwasanaeth diogelwch a hylendid bwyd yn seiliedig ar nifer yr ymholiadau a dderbynnir, ac nid yw'n glir a allai hyn fod yn gysylltiedig â'r pandemig a/neu'r argyfwng costau byw sy'n effeithio ar fusnesau bwyd. Disgwyliwn allu prosesu'r cwynion hyn gyda'r adnoddau staff sydd ar gael, fodd bynnag, mae'n agwedd ar y gwasanaeth a gaiff ei monitro'n agos.

Bu cynnydd hefyd yn y galw am dystysgrifau iechyd allforio bwyd ar yr un diwrnod, neu fel arall cynnydd mewn ceisiadau brys. Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno gwasanaeth ar yr un diwrnod i gwrdd â'r galw hwn a fydd yn denu ffi ar gyfer gwaith ychwanegol y mae angen ei wneud.

### 3.3 Egwyddor Awdurdod Cartref a'r Cynllun Prif Awdurdod

Egwyddor Awdurdod Cartref

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn llwyr gefnogol i'r Egwyddor Awdurdod Cartref. Mae Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd yn croesawu'r cyfle i weithredu fel yr Awdurdod Cartref a/neu Gychwynnol ar gyfer y busnesau cynhyrchu bwyd sydd wedi'u lleoli neu sy'n gweithredu yn y sir. Er bod rhai o'r cynhyrchwyr bwyd yn dosbarthu eu cynnyrch y tu allan i'r sir, maent yn fusnes un safle heb unrhyw unedau neu safleoedd ychwanegol. O ganlyniad, mae'r Gwasanaeth yn gweithredu mewn rhinwedd anffurfiol fel yr Awdurdod Cartref ar gyfer y mentrau hyn.

Cynllun Prif Awdurdod

Mae'r Awdurdod yn llwyr gefnogol i'r Cynllun Prif Awdurdod. Nid yw'r Awdurdod yn gweithredu fel Prif Awdurdod ar gyfer unrhyw fusnesau bwyd sy'n gweithredu yn ardal yr Awdurdod ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddilyn unrhyw ganllawiau neu gynlluniau arolygu a gyhoeddir gan y Prif Awdurdod ar gyfer busnesau sy'n ymwneud â'r bartneriaeth sy'n masnachu yn ardal yr Awdurdod.

### 3.4 Cyngor i Fusnesau

Oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, nid yw Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd yn ymateb mwyach i geisiadau am wasanaeth sy'n geisiadau am gyngor ac arweiniad yn unig trwy gyswllt uniongyrchol gan swyddog â'r defnyddiwr gwasanaeth. Yr unig eithriad i hyn yw'r cyngor a roddir i safleoedd sy'n ceisio cymeradwyaeth fel cynhyrchydd bwyd. Mae'r broses hon yn cymryd cyfran sylweddol o amser swyddogion a dylai gael sylw wrth ystyried y baich cyffredinol ar y gwasanaeth.

Mae staff canolfannau galwadau wedi'u hyfforddi i gefnogi busnesau trwy gyfeirio galwyr at lenyddiaeth berthnasol sydd ar gael o dudalennau gwe Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach Cyngor Sir Ceredigion a thudalennau gwe ac adnoddau lawrlwythiadwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

### 3.5 Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Mae rhaglenni samplu wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith er mwyn:

- asesu ansawdd microbiolegol y bwyd a'r bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ac a gynigir i'w werthu,
- pennu safonau cyfansoddiadol a chywirdeb disgrifiadol bwyd a bwyd anifeiliaid.

Samplu Hylendid Bwyd

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyfrannu at yr arolygon samplu penodol a gynhyrchir gan Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru. Yn 2022-2023 bydd y Gwasanaeth Bwyd yn cymryd rhan ym mhob arolwg cyhoeddedig y Fforwm.

Mae arolygon penodol y Fforwm yn targedu pryderon neu dueddiadau cenedlaethol a allai gyflwyno materion diogelwch bwyd. Ar hyn o bryd y rhain yw:-

- Saladau Parod i'w Bwyta (saladau cymysg neu gynhwysion unigol, gyda neu heb ddresin, gan gynnwys colslo ac ati a chaws)

Bydd y gwasanaeth yn parhau i samplu bwyd o safleoedd sydd wedi dangos arferion gwael yn ystod arolygiadau. Mae'r safleoedd cymeradwy hefyd yn cael eu samplu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod y bwyd a gynhyrchir yn bodloni safonau diogel.

Samplu Safonau Bwyd

Cymerir samplau safonau bwyd i sicrhau bod bwyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol o ran cyfansoddiad, ansawdd, difwyno, honiadau camarweiniol a materion labelu cyffredinol.

Mae cyllideb gyfyngedig gan y Gwasanaeth ar gyfer samplu safonau bwyd. Nodir blaenoriaethau gan ystyried gwybodaeth leol a chenedlaethol, risgiau i ddefnyddwyr o ran diogelwch neu golled economaidd, a risgiau a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a nodwyd trwy hysbysrwydd lleol a chenedlaethol. Bydd Ceredigion yn parhau i gefnogi unrhyw weithgareddau samplu rhanbarthol/cenedlaethol a gydlynir gan yr ASB.

Ar gyfer 2023/24, mae'r rhaglen samplu bwyd fel a ganlyn:

- Arolwg diogelwch alergenau (Medi 2023 – Mawrth 2024): bydd 10 sampl yn cael eu cymryd i brofi am bresenoldeb wyau a chnau mwnci mewn prydau a archebir o sefydliadau tecawê.
- Arolwg metelau trwm mewn wyau (Medi – Mawrth): bydd 10 sampl yn cael eu cymryd i brofi presenoldeb (a lefelau) metelau trwm megis plwm, mewn wyau a werthir dros gât y fferm.

Samplu Bwyd Anifeiliaid

Mae cyllid awdurdodau lleol ar gyfer samplu bwyd anifeiliaid yn cael ei ddyrannu gan yr ASB. Mae samplu yn canolbwyntio ar borthladdoedd mynediad felly nid oes unrhyw gynlluniau i samplu bwyd anifeiliaid yng Ngheredigion yn ystod 2023/24. Fodd bynnag,

bydd y Gwasanaeth yn cynnal samplau adweithiol yn seiliedig ar unrhyw wybodaeth ddatblygol y mae'n ei derbyn yn ystod y flwyddyn, a/neu'n cymryd rhan mewn unrhyw brosiect/arolygon samplu rhanbarthol a gydlynir gan yr ASB.

### 3.6 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

Yn ystod 2022-23 derbyniodd yr Adain Gwasanaethau Masnachol 241 o hysbysiadau am achosion o glefydau trosglwyddadwy a gadarnhawyd. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y niferoedd o glefydau trosglwyddadwy a adroddwyd cyn y pandemig.

Ar hyn o bryd mae staff o'r Tîm Diogelu'r Cyhoedd yn cael eu cefnogi gan staff y Gell Diogelu Iechyd sy'n cynnal y mwyafrif o'r ymchwiliadau cychwynnol sy'n dilyn hysbysiad o achos o glefyd trosglwyddadwy a wnaed i'r Awdurdod.

Mae swyddogion o'r Gell Diogelu Iechyd a Diogelu'r Cyhoedd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi a sgrinio pobl sy'n dioddef o glefydau trosglwyddadwy yn gyflym er mwyn atal heintiau rhag lledaenu i'r gymuned.

Mae'r polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau sy'n ymwneud â Rheoli ac Ymchwilio i achosion o Glefydau Trosglwyddadwy wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Polisi ar Reoli Clefydau Trosglwyddadwy a gedwir yn electronig ar system rheoli dogfennau RIAMS.

Darperir gwasanaeth y tu allan i oriau swyddfa arferol ar sail ewyllys da yn dibynnu ar argaeledd swyddogion.

### 3.7 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Mae holl aelodau Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd sy'n gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn derbyn 'Rhybuddion Bwyd' a 'Rhybuddion Bwyd Anifeiliaid' yr ASB trwy system rheoli dogfennau RIAMS. Mae pob Swyddog yn cael dyfeisiau symudol sy'n derbyn e-byst 24 awr y dydd a 7 diwrnod yr wythnos.

Bydd y Rheolwr Corfforaethol yn penderfynu ar ymateb y gwasanaeth mewn perthynas ag unrhyw hysbysiadau a dderbynnir, yn dibynnu ar eu natur.

Bydd Swyddogion Dynodedig yn cysylltu â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn absenoldeb y Rheolwr Corfforaethol. Mae disgwyl i staff fod ar gael i ymateb 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Nid yw trefniadau ffurfiol wedi cael eu mabwysiadu ac ar hyn o bryd darperir y gwasanaeth ar sail ewyllys da yn dibynnu ar argaeledd swyddogion.

Cynhelir gweithdrefnau Rhybudd Bwyd yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014 a Chanllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2012.
Cynhelir gweithdrefnau Rhybudd Bwyd Anifeiliaid yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2014 a Chanllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2016.

**3.8 Cyswllt â Sefydliadau Eraill**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau cyswllt effeithiol â sefydliadau perthnasol eraill i sicrhau cysondeb yn y dull gorfodi yng Ngheredigion. Mae trefniadau cyswllt ffurfiol ac anffurfiol wedi'u sefydlu gyda:-

- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dadansoddwr Cyhoeddus, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Sefydliad Siartredig Safonau Masnach.
- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru
- Bydd y Rheolwr Corfforaethol Diogelu'r Cyhoedd neu gynrychiolydd enwebedig yn mynychu holl gyfarfodydd Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru.
- Bydd y Rheolwr Corfforaethol Diogelu'r Cyhoedd neu gynrychiolydd enwebedig, yn mynychu holl gyfarfodydd Panel Arbenigol Clefydau Trosglwyddadwy Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru.
- Bydd y Rheolwr Corfforaethol neu gynrychiolydd enwebedig yn mynychu holl gyfarfodydd Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd De Orllewin Cymru.
- Cynrychiolir Tîm Diogelu'r Cyhoedd ar Grŵp Cyswllt Pysgod Cregyn De Cymru.
- Cynrychiolir Tîm Diogelu'r Cyhoedd ar Dasglu Clefydau Trosglwyddadwy De Cymru.
- Cynrychiolir Tîm Diogelu'r Cyhoedd ar Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru.

Rheolwr Corfforaethol Diogelu'r Cyhoedd sy'n gyfrifol am reolaeth gorfforaethol y Gwasanaeth Trwyddedu, a'r Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu sy'n gyfrifol am ei reolaeth weithredol o ddydd i ddydd. Mae trefniadau ymgynghori yn eu lle mewn perthynas â cheisiadau am Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro, trwyddedau lluniaeth hwyr y nos, trwyddedau gwirodydd, ac ati o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Mae gweithdrefn wedi cael ei chyflwyno ar gyfer ymateb y Tîm Diogelu'r Cyhoedd i geisiadau am ganiatâd cynllunio.

Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, sefydlodd Cyngor Sir Ceredigion Grŵp Gweithgareddau a Digwyddiadau. Mae'r grŵp cyswllt hwn, sy'n cynnwys cydweithwyr o ystod eang o wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Datblygu Economaidd a Chymunedau, Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol, ac ati, yn cwrdd sawl gwaith y flwyddyn i drafod ac ystyried materion sy'n gysylltiedig â digwyddiadau amrywiol a gynhelir ar draws y sir, yn amrywio o farchnadoedd ffermwyr, gwyliau, digwyddiadau rali, ac ati, sy'n cynnwys yr Awdurdod Lleol.

## ADRAN 4: ADNODDAU

### 4.1 Dyraniad Ariannol

Y dyraniad cyllideb ar gyfer Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yw £1,265,576

Yn seiliedig ar y dyraniad staffio amcangyfrifedig (cyfwerth ag amser llawn) i gyflawni'r rhaglen fwyd (yn cynnwys hylendid a safonau), y costau staffio ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn yw £246,059. Mae Tîm Diogelu'r Cyhoedd yn cwmpasu pob maes Safonau Masnach, Trwyddedu, Iechyd yr Amgylchedd (ac eithrio Tai) ac Iechyd Anifeiliaid, felly gall y dyraniad newid yn seiliedig ar newid ym mlaenoriaethau iechyd y cyhoedd.

### 4.2 Dyraniad Staffio

Hylendid Bwyd

Mae Swyddogion Diogelu'r Cyhoedd yn rhannu eu hamser ar draws nifer o ddisgyblaethau Diogelu'r Cyhoedd gan gynnwys Hylendid Bwyd, Safonau Masnach, Iechyd a Diogelwch, Clefydau Heintus, Diogelu'r Amgylchedd, Iechyd y Cyhoedd, gweithgareddau Trwyddedu ac Iechyd Anifeiliaid.

Mae'r amser y mae pob Swyddog yn ei dreulio ar bob disgyblaeth yn dibynnu ar gymhwyster, profiad, ac awdurdodiad y swyddog ym mhob maes penodol, yn ogystal â chyfarwyddyd gan y Rheolwr Corfforaethol.

Ar hyn o bryd mae 9 Swyddog yn gymwys ym maes hylendid bwyd sy'n cyfateb i 3.9 o staff cyfwerth ag amser llawn. Ar hyn o bryd mae 9 Swyddog yn gymwys ym maes safonau bwyd sy'n cyfateb i 1.16 o staff cyfwerth ag amser llawn. O'r rheini, mae 7 Swyddog wedi'u hawdurdodi i gynnal arolygiadau hylendid a safonau deuol.

Er mwyn cyfrifo'r galw ar y gwasanaeth i gyflawni'r arolygiadau gofynnol ar yr amlder cywir, cynhaliwyd ymarfer cofnodi amser yn y gorffennol. Cafodd y ffigurau hyn eu hadolygu a'u diwygio yn 2023. Cyfrifwyd y gwerthoedd a gofnodwyd ar gyfer arolygiadau a gynhaliwyd ar safleoedd ar draws yr holl gategorïau risg, gan gynnig modd rhagweld y baich amser sy'n gysylltiedig â chyflawni ein rhwymedigaethau statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24.

Cyfrifwyd bod angen 664 o ddiwrnodau swyddog i gwblhau'r rhaglen arolygu hylendid bwyd a safonau bwyd yn 2023-24.

Mae dilyn i fyny ceisiadau gwasanaeth hylendid bwyd a safonau bwyd, cyflwyno cynllun gorfodi amgen a darparu tystysgrifau allforio i allforwyr bwyd yn y sir yn creu baich ychwanegol o 229 o ddiwrnodau swyddogion. Mae hyn yn golygu mai cyfanswm yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth hylendid bwyd a safonau bwyd yw 893 o ddiwrnodau swyddogion. Mae'r adroddiad hwn yn nodi mai dim ond 814 o ddiwrnodau swyddogion sydd ar gael i gwblhau'r gwaith, gan roi diffyg o 79 o ddiwrnodau swyddogion.

Fodd bynnag, mae £20,000 ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r Gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i fynd i'r afael â'r diffyg. Mae hyn wedi arwain at gaffael gwasanaethau contractwr arbenigol i gynnal yr arolygiadau gofynnol. Bydd gwasanaethau'r contractwr yn cyfrannu'r hyn sy'n cyfateb i 86 o ddiwrnodau swyddogion, yn seiliedig ar arolygiad o safleoedd Categori C cyfartalog ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd cyfun. Mae'r cyfraniad hwn yn golygu y dylai'r gwasanaeth fod â gwarged o 7.2 o ddiwrnodau swyddogion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Bydd y nifer dros ben o 7.2 o ddiwrnodau swyddogion yn gyfraniad bach at ddarparu lefel o wydnwch gwasanaeth a fyddai'n cynnig modd ymateb i weithgareddau gwaith heb eu cynllunio, e.e. ymchwiliad mawr i achosion o glefydau trosglwyddadwy. Gyda chyn lleied o warged, mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bosibl y bydd gallu'r tîm i gwblhau'r rhaglen arolygu wedi'i gyfaddawdu o hyd.

<u>Hylendid Bwyd Anifeiliaid</u>

Mae Swyddogion o'r Timau Diogelu'r Cyhoedd amrywiol sy'n cyflawni dyletswyddau hylendid bwyd anifeiliaid yn rhannu eu hamser ar draws nifer o ddisgyblaethau eraill gan gynnwys hylendid bwyd, safonau masnach, iechyd anifeiliaid, clefydau heintus, diogelu'r amgylchedd.

Mae gan y Gwasanaeth 1.2 o staff cyfwerth ag amser llawn wedi'u neilltuo i gyflwyno rhaglen arolygu bwyd anifeiliaid ranbarthol flynyddol yr ASB. Ar hyn o bryd mae 2 Swyddog wedi'u hawdurdodi'n llawn ac yn gymwys i gyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd anifeiliaid; mae hyn yn cyfateb i 0.25 o staff cyfwerth ag amser llawn, a 10 Swyddog i gynnal gweithgareddau gorfodi amgen a/neu arolygiadau risg isel, yn bennaf ar ffermydd da byw nad ydynt yn cymysgu, e.e. safleoedd R13; mae hyn yn cyfateb i 0.95 o staff cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, oherwydd absenoldebau staff, e.e. absenoldeb mamolaeth, a hyfforddiant a datblygu staff newydd, dim ond 0.85 o staff cyfwerth ag amser llawn sydd ar gael ar hyn o bryd yn 2023/24 i gyflawni'r rhaglen y flwyddyn hon.

Ers 2015, mae dyletswyddau gorfodi bwyd anifeiliaid yn cael eu hariannu'n uniongyrchol trwy'r ASB. Mae'r ASB yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg i bennu nifer a natur yr ymyriadau sydd i'w darparu gan bob awdurdod lleol, ac mae'n talu'n uniongyrchol ar gyflawni.

Mae'r Awdurdod yn cael cyllid gan yr ASB ar gyfer pob arolygiad bwyd anifeiliaid y mae'n ei gynnal fel rhan o'r rhaglen arolygu hylendid bwyd anifeiliaid ranbarthol. Dylid nodi, fodd bynnag, os bydd digwyddiad neu ymchwiliad bwyd anifeiliaid mawr, mae'r ASB yn disgwyl i'r Awdurdod ariannu ei hun.

Mae cyllid ar gyfer yr arolygiadau blynyddol yn cynnwys taliadau chwarterol gan yr ASB ar ôl derbyn ffurflenni chwarterol ac anfonebau ar gyfer yr arolygiadau a gynhaliwyd. Er mwyn derbyn cyllid, mae'r Gwasanaeth yn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth bob blwyddyn rhwng yr ASB a thri o'n hawdurdodau bwyd anifeiliaid cyfagos, sef Powys, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin i ddarparu'r rhaglen arolygu bwyd anifeiliaid ar gyfer rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Ar gyfer 2023/24, mae 188 o arolygiadau bwyd anifeiliaid wedi'u dyrannu i Geredigion eu cwblhau fel rhan o raglen y flwyddyn hon. Yn seiliedig ar gyfraddau ariannu'r flwyddyn ddiwethaf, bydd rhaglen arolygu y flwyddyn hon yn darparu tua £29,121.

### 4.3 Cynllun Datblygu Staff

Gofynion Hyfforddiant Cyfraith Bwyd

Rhaid i'r holl swyddogion bwyd awdurdodedig gael o leiaf 20 awr o hyfforddiant parhaus perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymwys i gyflawni'r gweithgareddau y maent wedi'u hawdurdodi i'w cyflawni. Yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (Gorffennaf 2021), mae'r gofyniad hyfforddi fel a ganlyn:

- 10 awr ar faterion pwnc a nodir ym Mhennod 1 o Atodiad II i Reoliad (UE) 2017/625 ac ar rwymedigaethau'r Awdurdod Bwyd yn deillio o'r Rheoliad hwn, sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y mae wedi'u hawdurdodi i'w cyflawni; a
- 10 awr ar faterion proffesiynol eraill

Gofynion Hyfforddiant Cyfraith Bwyd Anifeiliaid

Rhaid i bob swyddog bwyd anifeiliaid awdurdodedig gael hyfforddiant parhaus perthnasol i sicrhau ei fod yn parhau'n gymwys i gyflawni'r gweithgareddau y mae ganddo awdurdod i'w cyflawni. Yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Hydref 2014), mae angen o leiaf 10 awr y flwyddyn yn seiliedig ar egwyddorion datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau eu bod yn parhau'n gymwys.

Mae'r holl staff, fel rhan o'r cynllun Arfarnu Blynyddol Corfforaethol, yn cael asesiad anghenion hyfforddi blynyddol gyda'u rheolwyr llinell gan ystyried gofynion y Codau Ymarfer perthnasol. Mae'r asesiad hwn wedi'i gynllunio i lenwi unrhyw fylchau a nodwyd yn eu gwybodaeth neu sgiliau ar gyfer y rôl y maent yn debygol o'i llenwi dros y flwyddyn i ddod a hefyd i annog staff i feddwl ymlaen ac ystyried beth y mae angen iddynt ei wneud i baratoi eu hunain ar gyfer rolau yn y dyfodol a datblygu gyrfa bosibl.

Mae'r pandemig wedi cyflymu datblygiad yn y farchnad o ddulliau dysgu o bell. Erbyn hyn gall y gwasanaeth fanteisio ar gyrsiau o bell dros Teams, ac yn ogystal mae'n tanysgrifio i becyn hyfforddi ar-lein lle gall swyddogion gyflawni hyfforddiant yn hyblyg yn eu hamser eu hunain.

Mae'r Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach Cymru yn darparu rhestr o ofynion hyfforddi swyddogion i'r ASB yn flynyddol. Mae'r Awdurdod yn cyfrannu at y broses hon. Oherwydd prinder cenedlaethol o hyfforddiant Diogelu'r Cyhoedd priodol (gan gynnwys Swyddogion Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd), mae cynllun yn cael ei ystyried i gynnig cynlluniau prentisiaeth i hyfforddi staff newydd.

Mae datblygiad staff yn digwydd trwy hyfforddiant ffurfiol a drefnir trwy gyrsiau allanol, gan ddefnyddio cyrsiau hyfforddi ar-lein (ardystiedig) neu a ddarperir o fewn yr Adran a chan staff sy'n parhau i orfodi a gweinyddu'r ddeddfwriaeth.

## ADRAN 5: ASESU ANSAWDD

**5.1 Asesu Ansawdd a Monitro Mewnol**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod yr angen i fesur effeithiolrwydd ei ddyletswyddau diogelwch bwyd. Felly mae'r Gwasanaeth yn cynnal nifer o weithgareddau i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud mewn modd cyson a manteisir ar gyfleoedd i adnabod a gweithredu gwelliannau.

Er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb ein gweithgareddau ac yn unol â Chytundeb Fframwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd, mae gweithdrefnau wedi cael eu datblygu i gysoni'r prosesau.

Mae monitro ansawdd ein polisïau a'n gweithdrefnau yn cael ei asesu mewn nifer o ffyrdd, sef:-

- Archwiliad mewnol o weithdrefnau wedi'u dogfennau a chyfarwyddiadau gwaith trwy archwiliad mewnol;
- Archwiliadau/asesiadau a gynhelir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- Adolygiad o gwynion corfforaethol a chanmoliaeth am y gwasanaeth.
- Adrodd ar fesurau Perfformiad Lleol i'r Bwrdd Perfformiad
- Monitro risg gwasanaeth

Rydym wedi ymrwymo i gynnwys cwsmeriaid yn y broses barhaus o wella gwasanaethau ac yn cydnabod yr angen i gael dulliau strwythuredig o geisio barn defnyddwyr gwasanaeth a'r canfyddiad o'r gwasanaeth.

## ADRAN 6: ADOLYGU

### 6.1 Adolygu yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth

Bob blwyddyn bydd Cynlluniau Busnes yn cael eu paratoi a'u gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd sy'n cynnwys yr amcanion a'r mesurau perfformiad sydd i'w cyflawni trwy gydol y flwyddyn. Mae'r amcanion a'r mesurau perfformiad yn cynnwys tasgau sy'n benodol i'r Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, ac mae'r rhai a nodwyd ar gyfer 2023-24 fel a ganlyn:

Tasg

Cyflwyno rhaglen ymyrryd cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid lawn ar gyfer 2023-24 yn unol â'r Cod Ymarfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid i gyflawni dyletswyddau statudol.

Mesurau perfformiad:

- Nifer y busnesau newydd risg uchel sy'n destun arolygiad hylendid bwyd.
- Nifer y sefydliadau bwyd risg uchel sy'n destun arolygiad hylendid bwyd

Yn ystod y flwyddyn adroddir ar berfformiad y gwasanaeth i Fwrdd Perfformiad sy'n cynnwys uwch reolwyr yr Awdurdod Lleol, Arweinydd y Cyngor a Chadeiryddion y Pwyllgorau Craffu gwahanol.

Mae'r Bwrdd yn craffu perfformiad y Gwasanaeth bob chwarter yn erbyn y tasgau a'r mesurau perfformiad sydd wedi eu gosod.

### 6.2 Nodi unrhyw Amrywiad o'r Gwasanaeth

Mae systemau adolygu perfformiad o fewn yr Awdurdod yn ein galluogi i adnabod unrhyw ddiffygion yn erbyn targedau yn ystod y flwyddyn. Rhoddir ystyriaeth i ffactorau a all effeithio ar berfformiad/diffygion a pha gamau adferol y gall fod angen eu cymryd i ddatrys unrhyw faterion.

Mae perfformiad mewn perthynas â chynnydd o ran cyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun Busnes yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Perfformiad bob chwarter.

### 6.3 Meysydd i'w Gwella

Mae'r Gwasanaeth wedi dogfennu gweithdrefnau a pholisïau mewnol ac mae'n adolygu nifer y gweithdrefnau sydd wedi'u dogfennu yn rheolaidd.

Mae meysydd i'w gwella yn y Gwasanaeth Bwyd yn cynnwys:

- Defnyddio a datblygu aelodau staff presennol i fod yn gymwys ym mae bwyd/bwyd anifeiliaid er mwyn cynyddu capasiti'r Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid;

- Parhau i adolygu, diweddaru a chyfuno gweithdrefnau a pholisïau;
- Parhau i wella ansawdd y data a gedwir ar y gronfa ddata a gwella dulliau adrodd;
- Cynnal a gwella'n barhaus ansawdd ymyriadau Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a gwybodaeth a phrofiad Swyddogion sy'n gwneud y gwaith hwn;
- Gwella'r cyswllt a'r cydgysylltu ag awdurdodau ac asiantaethau eraill;
- Codi proffil y gwasanaeth gyda chwsmeriaid ac Aelodau;
- Ffyrdd y gall y gwasanaeth gefnogi busnesau lleol yn well trwy roi cyngor a gwybodaeth.

Atodiad 1
Strwythur Uwch Reolwyr Cyngor Sir Ceredigion

**01/09/2023**

# PRIF WEITHREDWR: EIFION EVANS

## CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL : BARRY REES

- Sicrhau bod blaenoriaethau ac amcanion strategol corfforaethol sy'n darparu gwasanaethau diogel, effeithlon ac effeithiol o ansawdd uchel i drigolion Ceredigion yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u gwerthuso
- Gweithio'n greadigol ac yn strategol er mwyn cyflawni'r safonau uchaf posibl o ran perfformiad gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion

## CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: JAMES STARBUCK

- Bod yn Gyfarwyddwr Corfforaethol a darparu arweinyddiaeth strategol o fewn y Cyngor gan sicrhau bod pob gwasanaeth yn cydymffurfio ag amcanion a safonau strategol y Cyngor ac yn eu cefnogi.
- Dirprwyo ar ran y Prif Weithredwr yn ôl yr angen
- Darparu arweinyddiaeth a chyngor i hyd at chwe Swyddog Arweiniol Corfforaethol a rheoli eu perfformiad

## SWYDDOGION ARWEINIOL CORFFORAETHOL (7)

- Bod yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol ac yn gynghorwr arweiniol i'r Cyngor ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â'u swyddogaethau penodol yn unol â'r rhestr isod.
- Darparu cyswllt allweddol â'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a gweithio gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol eraill i sicrhau bod amcanion strategol a chorfforaethol y Cyngor yn cael eu cydlynu a'u gweithredu'n effeithiol ar draws pob maes gwasanaeth


## SWYDDOGION ARWEINIOL CORFFORAETHOL (6)

- Er bod gan y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol gyfrifoldeb penodol dros reoli ac arwain portffolio o feysydd gwasanaeth, mae ganddynt gyfrifoldeb corfforaethol hollbwysig hefyd i sicrhau bod gweithgarwch a gweithredoedd pob gwasanaeth yn cydymffurfio ag amcanion a safonau strategol y Cyngor ac yn eu cefnogi
- Gweithio'n greadigol ac yn strategol er mwyn cyflawni'r safonau uchaf posibl o ran perfformiad gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion


| YSGOLION A DYSGU GYDOL OES | | CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU | CYLLID A CHAFFAEL | POLISI, PHERFFORMIAD A DIOGELU'R CYHOEDD | ECONOMI AC ADFYWIO | PRIFFYRDD A GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL | PORTH CYNNAL – GWASANAETHAU ARBENIGOL GYDOLOES | PORTH GOFAL – YMYRRAETH WEDI'I THARGEDU | PORTH CYMORTH CYNNAR | POBL A THREFNIADAETH | CYSWLLT CWSMERIAID | GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DYSGU GYDOL OES | YSGOLION | | | | | | | | | | | |
| **Elen James** (Secondiad) | **Clive Williams** (Secondiad) | **Elin Prysor** | **Duncan Hall** | **Alun Williams** | **Russell Hughes-Pickering** | **Rhodri Llwyd** | **Ricky Cooper** | **Donna Pritchard** | **Greg Jones** (Secondiad) | **Geraint Edwards** | **Alan Morris** | **Lowri Edwards** |
| *Prif Swyddog Addysg | Dirprwy Brif Swyddog Addysg | *Swyddog Monitro | *Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) | | | | *Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | | | *UBRG<br>*Swyddog Priodol ar gyfer Cofrestru Sifil | *Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| • Addysg ôl-16<br>• Presenoldeb, cynhwysiad a chymorth ymddygiad<br>• Lles disgyblion<br>• Unedau Cyfeirio Disgyblion<br>• Derbyn addysg heblaw yn yr ysgol<br>• Dysgu Gydol Oes a Sgiliau<br>• Diwylliant<br>• Arlwyo<br>• Darpariaeth cyn-ysgol<br>• Cynnig gofal plant | • Gwella Ysgolion<br>• Cyflawniad<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Derbyn i Ysgolion ac Apeliadau<br>• Llywodraeth-wyr<br>• Rhaglen Ysgolion Cynaladwy | • Cyfreithiol<br>• Llywodraethu Corfforaethol<br>• Archwilio Mewnol<br>• Gwasanaeth Crwneriaid | • Caffael, Comisiynu a Thaliadau<br>• Cyllid Craidd (Dirprwy Swyddog 151)<br>• Cyllid Gwasanaethau<br>• Refeniw ac Asesiad Ariannol | • Partneriaethau Strategol, Ymgysylltu ac Ymchwil<br>• Cwynion, Canmoliaethau a Rhyddid Gwybodaeth<br>• Diogelu'r Cyhoedd<br>• Perfformiad ac Ymchwil Gorfforaethol<br>• Adsefydlu ffoaduriaid<br>• Argyfyngau sifil a pharhad busnes | • Twf a Menter<br>• Cynllunio<br>• Eiddo | • Cynnal a Chadw Priffyrdd<br>• Datblygu Priffyrdd<br>• Gwasanaethau Amgylcheddol Lleol<br>• Gwasanaethau Trafnidiaeth | Gwasanaethau arbenigol gan gynnwys:<br>• Diogelu strategol<br>• Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol<br>• Lles meddyliol a chamddefnyddio sylweddau<br>• Gofal wedi'i gynllunio<br>• Cymorth estynedig | • Tîm Derbyn a Brysbennu Porth Gofal<br>• Gwasanaethau ymyrraeth wedi'i thargedu<br>• Gwasanaethau Maethu<br>• Gwasanaethau preswyl a gofal dydd (*Unigolyn Cyfrifol)<br>• Storfeydd Cyfarpar Cymunedol Integredig<br>• Tîm Dyletswydd Argyfwng | • Canolfannau Llesiant<br>• Cymorth ac Atal<br>• Ymyrraeth Gynnar<br>• Gwasanaeth-au Tai | • Adnoddau Dynol - Cynghori a Gweinyddu<br>• Cyflogau, Buddion a Systemau<br>• Dysgu a Datblygu<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Ymgysylltu â gweithwyr a lles gweithwyr | • Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu<br>• Cyswllt Cwsmeriaid<br>• Archifau a Rheoli Gwybodaeth<br>• Gwasanaethau Llyfrgelloedd<br>• Cofrestru Sifil | • Gwasanaethau Democrataidd<br>• Safonau'r Gymraeg<br>• Cyfieithu<br>• Cyfathrebu Allanol<br>• Gwasanaethau Etholiadol<br>• Cymorth i Wasanaethau Corfforaethol<br>• Rheoli Prosiectau |

*** mae hyn yn dynodi Rolau Statudol**

Atodiad 2: Strwythur tîm gweithredol ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd



Atodiad 3: Strwythur tîm gweithredol ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid



**CYNGOR SIR Ceredigion**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 22 Tachwedd 2023 |
| **Teitl:** | Gwaharddiad ar werthu a chyflenwi rhai cynhyrchion plastig untro yng Nghymru yn dod yn gyfraith. |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu am ddeddfwriaeth newydd sy'n gwahardd gwerthu a chyflenwi rhai cynhyrchion plastig untro yng Nghymru. |
| **Y rheswm pam fod y Pwyllgor Craffu wedi gofyn am yr wybodaeth:** | Amherthnasol |

**Cefndir**

Mae plastig yn cymryd cannoedd o flynyddoedd i dorri i lawr ac yn achosi difrod i'n cefnforoedd, ein hafonydd a'n tir. Mae llygredd plastig hefyd yn achosi allyriadau nwyon tŷ gwydr oherwydd y ffordd caiff ei weithgynhyrchu a'i waredu.

Pan ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y gwaharddiad yn 2020, nododd fod tua 226 miliwn o unedau o gyllyll a ffyrc plastig yn cael eu gwerthu bob blwyddyn yng Nghymru, ynghyd â 173 miliwn o wellt plastig, 5.7 miliwn o drowyr plastig, 26 miliwn o gwpanau polystyren, 30 miliwn o ffyn cotwm plastig ac 1 miliwn o ffyn plastig ar gyfer balwnau.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn cyflwyno Cam 1 o'r gwaharddiad ar fusnesau a sefydliadau yng Nghymru i werthu neu gyflenwi rhai cynhyrchion plastig untro i ddefnyddwyr – a daeth i rym ar 30 Hydref 2023.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i fusnesau a sefydliadau gyflenwi'r cynhyrchion canlynol:

- Platiau plastig untro
- Cytleri plastig untro – fel cyllyll, ffyrc a llwyau
- Trowyr plastig untro ar gyfer diodydd
- Cwpanau wedi'u gwneud o rai mathau o bolystyren
- Cynwysyddion cludfwyd wedi'u gwneud o rai mathau o bolystyren
- Ffyn plastig ar gyfer balwnau
- Ffyn cotwm plastig untro
- Gwellt yfed plastig untro – ar wahân i bobl sydd eu hangen i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol.

Bydd y gwaharddiad yn effeithio ar fanwerthwyr, gwerthwyr bwyd, siopau cludfwyd a'r diwydiant lletygarwch a bydd yn berthnasol i gyflenwadau dros y cownter ac ar-lein. Fodd bynnag, mae nifer o eithriadau, er enghraifft caniateir i fferyllfeydd barhau i ddarparu gwellt plastig mewn achosion lle mae unigolion eu hangen i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol. Bydd eithriadau eraill yn gweld ffyn cotwm â choesau plastig yn dal i gael eu defnyddio mewn lleoliadau gofal iechyd a chaniateir cyflenwi llwyau plastig gyda meddyginiaethau hylifol er mwyn mesur dos.

Bydd gwaharddiadau Cam 2 yn dod i rym erbyn Ebrill 2026. Bydd hyn yn effeithio ar gyflenwad y cynhyrchion canlynol:

- Bagiau siopa plastig untro
- Caeadau polystyren ar gyfer diodydd a chynwysyddion bwyd
- Cynhyrchion wedi'u gwneud o fath o blastig a elwir yn blastig ocso-ddiraddadwy

Rhagwelir, fel yn achos cyflwyno’r tâl am fagiau siopa untro rai blynyddoedd yn ôl, y bydd y gyfraith newydd yn ymwreiddio’n ddidrafferth, gyda chydymffurfiaeth lawn yn cael ei chyflawni.

O ganlyniad i waharddiadau tebyg a gyflwynwyd eisoes mewn mannau eraill yn y DU (yr Alban yn 2022 a Lloegr ar 1 Hydref 2023), rhagwelir y bydd y busnesau mawr hynny sy’n masnachu ar draws y gwahanol weinyddiaethau eisoes wedi cyflwyno’r newidiadau angenrheidiol. Yn ddiweddarach, pe bai angen cymryd camau gorfodi yn achos unrhyw ddiffyg cydymffurfio parhaus, yna mae'r Ddeddf yn darparu nifer o opsiynau gorfodi sy'n cynnwys sancsiynau sifil yn ogystal ag erlyniad.

Mae’r Ddeddf hefyd wedi cyflwyno pwerau gorfodi newydd i awdurdodau lleol er mwyn gorfodi’r ddeddfwriaeth newydd yn effeithiol. Dim ond swyddogion a benodir gan awdurdodau lleol yng Nghymru all arfer y pwerau gorfodi sydd wedi’u cynnwys yn y Ddeddf i orfodi’r gwaharddiad ar gynhyrchion plastig untro.

Felly, mae swyddogion Diogelu’r Cyhoedd, sef swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu, angen awdurdodiad o dan Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ac unrhyw reoliadau cysylltiedig i gyflawni’r swyddogaeth hon ar ran Cyngor Sir Ceredigion. Er mwyn i hyn ddigwydd bydd angen i’r Cyngor ddirprwyo’r swyddogaeth hon i’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu’r Cyhoedd.

Bydd swyddogion Diogelu’r Cyhoedd y Cyngor yn parhau i weithio gyda busnesau lleol i sicrhau cydymffurfiaeth â’r gofynion newydd, gan gynnig cyngor a’u cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf trwy’r cyfundrefnau arolygu presennol. Fodd bynnag, os bydd angen, bydd y cyngor yn cymryd camau gorfodi yn erbyn y rhai sy’n mynd ati’n fwriadol i beidio â chydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol.

**<u>Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol:</u>**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** Naddo
**Os naddo, nodwch pam.**
**Crynodeb o’r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:**
**Cydweithio:**

**Cynnwys:**
**Atal:**
**Integreiddio:**

**Argymhelliad:**
Er gwybodaeth.

**Rheswm dros y penderfyniad:**
Er gwybodaeth.

**Enw Cyswllt:** Carwen Evans, Anne-Louise Davies

**Swydd:** Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu

**Dyddiad yr adroddiad:** 30/10/2023

**Atodiad A:** Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cynhyrchion plastig untro - Mae’r gyfraith yn newid am rai cynhyrchion plastig yng Nghymru. Canllaw drafft (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# DEDDF DIOGELU'R AMGYLCHEDD (CYNHYRCHION PLASTIG UNTRO) (CYMRU) 2023

## Canllawiau ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau ar blastig untro yng Nghymru



## CYNULLEIDFA

Mae'r ddogfen ganllaw ddrafft hon wedi'i chynllunio ar gyfer busnesau a sefydliadau y bydd angen iddynt gydymffurfio â gwaharddiadau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.

## TROSOLWG

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau statudol ar gyfer Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (y Ddeddf).

Gwneir y canllawiau hyn o dan adran 2(3) o'r Ddeddf, sy'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi canllawiau ar:

(a) y cynhyrchion plastig untro a waherddir o dan y Ddeddf; a

(b) cymhwyso unrhyw esemptiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf.

## CAMAU I'W CYMRYD

Bydd angen i fusnesau a sefydliadau roi'r gorau i gyflenwi'r cynhyrchion sydd wedi'u gwahardd a nodir yn y Ddeddf erbyn y dyddiadau a restrir. Nid yw hynny'n golygu na allwch ddechrau gwneud paratoadau ar gyfer y gwaharddiadau os ydych am wneud hynny.

**Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:**

Ansawdd yr Amgylchedd Lleol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: **singleuseplastic@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48695, ISBN digidol 978-1-83504-908-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys

2 Gwaharddiadau ar blastig untro yng Nghymru

6 Beth yw'r troseddau o dan y Ddeddf?

7 Sut rydw i'n cydymffurfio â'r gwaharddiadau?

8 A oes unrhyw esemptiadau?

9 Pam rydym wedi ychwanegu esemptiadau?

10 Beth yw'r opsiynau amgen i blastig untro?

12 Cefnogaeth i fusnesau

13 Atodiad A. Diffiniadau

16 Atodiad B. Disgrifiad o'r Deunyddiau

17 Atodiad C. Gwaredu cynhyrchion

# Gwaharddiadau ar blastig untro yng Nghymru

## Pam rydym yn gwahardd cynhyrchion plastig untro?

Mae tystiolaeth a gasglwyd o arolygon sbwriel traeth yn dangos mai plastig yw'r math mwyaf cyffredin o ddeunydd sbwriel sy'n cael ei ganfod ar draethau Cymru. Er ei bod yn anodd gwybod weithiau o le mae'r plastig hwn wedi dod, fel arfer mae'n gysylltiedig â chynhyrchion y mae pobl yn eu defnyddio i fwyta ac yfed "wrth fynd". Gan fod y cynhyrchion hyn yn aml yn cael eu darparu i bobl am bris isel, neu am ddim, maen nhw fel arfer yn cael eu taflu i ffwrdd yn ddifeddwl, a gall hyn achosi niwed i fywyd gwyllt a'n hamgylchedd. Mae eraill yn cael eu gwaredu yn y ffordd anghywir i lawr y toiled, er enghraifft ffyn cotwm.

Er mwyn helpu i atal y difrod amgylcheddol hwn, mae llawer o gymunedau a busnesau ledled Cymru eisoes wedi dechrau troi eu cefnau ar blastig untro diangen. Nod ein gwaharddiadau yw adeiladu ar y cam hwn ac atal y llif o blastigau niweidiol i'n hamgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru eisiau symud ein cymdeithas ymlaen oddi wrth y diwylliant gwastraffus hwn ac annog pobl i ailddefnyddio cynhyrchion lawer mwy er mwyn helpu i leihau lefel y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu. Ein nod yw creu Cymru fwy cynaliadwy, un rydym yn falch o'i throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

## Sut rydym yn gwahardd cynhyrchion untro yng Nghymru?

Er mwyn helpu Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael a llygredd plastig, pasiwyd Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (y Ddeddf) gan Senedd Cymru ar 6 Rhagfyr 2022. Mae'r Ddeddf yn cynnwys tabl sy'n rhestru nifer o gynhyrchion plastig untro sy'n cael eu taflu'n sbwriel yn aml ac sydd i'w gwahardd yng Nghymru (ar wahân i esemptiadau penodol). Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys manylion pa gynhyrchion sydd wedi'u cynnwys a'r hyn sydd angen ei wneud i gydymffurfio â'r gyfraith pan ddaw i rym.

Bydd y Ddeddf hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu cynnyrch plastig untro eraill at y rhestr hon os oes angen gweithredu er mwyn mynd i'r afael â difrod amgylcheddol a achosir gan gynhyrchion plastig untro eraill sy'n dod o fewn y diffiniadau yn Adran 1 y Ddeddf. Gwneir hynny drwy gyflwyno rheoliadau newydd a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud.

## Beth sy'n cael ei wahardd a phryd?

Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf yn cwmpasu 10 o gynhyrchion plastig untro penodol a'r cynhyrchion plastig untro hynny sydd wedi'u gwneud o blastig ocso-ddiraddiadwy. Er mwyn sicrhau bod gan fusnesau, sefydliadau a'r cyhoedd ddigon o amser i baratoi ar gyfer y gwaharddiadau hyn, rydym yn eu cyflwyno fesul cam. Amlinellir manylion y camau hyn a'r cynhyrchion sy'n cael eu gwahardd ym mhob un o'r camau hynny yn y canllawiau isod.

# GWAHARDDIADAU CAM 1

## o 30 Hydref 2023

**Bydd cyflenwi'r cynhyrchion plastig untro a restrir isod yn cael ei wahardd yng Nghymru.**



**Platiau plastig untro**




**Cytleri plastig untro**



**Troyddion diodydd plastig untro**



**Ffyn plastig ar gyfer balŵns**



**Ffyn cotwm plastig untro**



**Cynwysyddion bwyd tecawê sydd wedi'u gwneud o bolystyren ymestynedig neu bolystyren allwthiedig**



**Cwpanau wedi'u gwneud o bolystyren ymestynedig neu bolystyren sbwng allwthiedig**



**Gwellt yfed plastig untro***

*gydag esemptiadau i bobl y mae eu hangen arnynt er mwyn bwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol.

# GWAHARDDIADAU CAM 2

Ar hyn o bryd mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer gwahardd bagiau siopa plastig untro, caeadau cwpanau a chaeadau cynwysyddion bwyd wedi'u gwneud o bolystyren a chynhyrchion plastig wedi'u gwneud o blastig ocso-ddiraddiadwy. Gan y bydd rhai o'r gwaharddiadau hyn yn gofyn am newidiadau i'r rheoliadau presennol ac amser ychwanegol i fusnesau a sefydliadau ddod o hyd i ddewisiadau amgen, ni fydd y cynhyrchion hyn yn cael eu gwahardd yng ngham un ar 30 Hydref 2023.

Rydym yn disgwyl i'r gwaharddiadau hyn gael eu cyflwyno erbyn **Gwanwyn 2026**.

Bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi cyn i'r gwaharddiadau ddod i rym ar gyfer y cynhyrchion hyn.

## Beth mae gwaharddiad yn ei olygu?

Mae'n golygu na fyddwch yn cael gwerthu na rhoi am ddim, i ddefnyddiwr yng Nghymru, unrhyw un o'r cynhyrchion plastig untro a ddisgrifir yn y canllawiau hyn, oni bai bod esemptiad.

## A fydd gwaharddiadau pellach yn y dyfodol?

Bydd. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cynyddu'r math o gynhyrchion plastig untro a fydd yn cael eu gwahardd yng Nghymru. Rydym yn anelu at wahardd bagiau plastig unotro, caeadau polystyren ar gyfer diod a chynwysyddion bwyd a chynhyrchion wedi'u creu o blastig ocso-ddiraddadwy erbyn Gwanwyn 2026. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ynghylch y gwaharddiadau hyn cyn iddynt gael eu cyflwyno.

Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr hon os oes angen gweithredu er mwyn mynd i'r afael â difrod amgylcheddol a achosir gan gynhyrchion plastig untro eraill. Bydd angen gwneud unrhyw newidiadau drwy gyflwyno rheoliadau newydd a bydd hyn yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar eu hystyriaethau yn flynyddol cyn gwneud unrhyw newidiadau.

## A yw cynhyrchion untro di-blastig yn cael eu gwahardd hefyd?

**NI** fydd y gwaharddiad yn berthnasol i gynhyrchion sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau hyn sydd wedi'u gwneud o fathau eraill o ddeunyddiau, er enghraifft cytleri pren neu ffyn cotwm gyda bonyn cardbord.

Fodd bynnag, bydd y gwaharddiad **yn** berthnasol os yw'r cynnyrch amgen di-blastig wedi'i **orchuddio, ei leinio neu ei lamineiddio â phlastig**. Er enghraifft, bydd plat untro wedi'i wneud o bapur wedi'i orchuddio neu ei leinio â haen o blastig yn cael ei wahardd.

## Pa fath o blastig sy'n cael ei gynnwys yn y gwaharddiad?

Gellir dod o hyd i fanylion am y mathau o blastig sydd wedi'u cynnwys yn y gwaharddiad ar y 10 cynnyrch plastig untro penodol yn **Atodiad A** (Tudalen 14). Er y bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion plastig untro sy'n cael eu gwahardd wedi'u gwneud o blastig **"synthetig"** traddodiadol (plastig sy'n deillio o olew crai, nwy naturiol neu lo), mae'r Ddeddf yn caniatáu i gynhyrchion a wneir o fathau eraill o blastig untro gael eu cynnwys hefyd. Gall hyn gynnwys:

- **plastigau bio** sy'n disodli'n uniongyrchol gynnyrch cyfatebol a wnaed gyda thanwydd ffosil, gan fod ganddynt yr un strwythur cemegol a phriodweddau.
- Plastigau y **gellir eu compostio** sydd wedi'u gwneud o danwydd ffosil lle mae risg i'r plastig halogi'r ffrwd ailgylchu. Yn aml, mae angen amodau penodol arnynt cyn iddynt ddiraddio (weithiau dim ond yn rhannol y maen nhw'n diraddio a gall hyn arwain at ficroblastigau) a gall eu prosesau gweithgynhyrchu ddefnyddio cemegau gwenwynig.

Y rheswm am hyn yw y gall rhai plastigau bio a phlastigau y gellir eu compostio achosi problemau, er eu bod yn cael eu marchnata'n aml fel opsiwn ecogyfeillgar.

## I bwy y mae'r gwaharddiad yn berthnasol?

Mae'r gwaharddiad yn berthnasol i gyflenwi cynhyrchion untro i ddefnyddwyr yng Nghymru ac mae'n effeithio ar bob busnes a sefydliad, ac unrhyw berson sy'n berchen ar fusnes, yn ei reoli neu sydd â rheolaeth sylweddol dros y busnes, y sefydliiad neu'r ymgymeriad fel:

- Corff corfforaethol (busnes neu gwmni)
- Partneriaeth
- Person sy'n unig fasnachwr
- Corff llywodraethol neu ddarparwr gwasanaethau cyhoeddus arall (Er enghraifft ysgol neu gyngor)
- Elusen, clwb, syndicet neu sefydliad gwirfoddol.

**NID** yw'r gwaharddiad yn berthnasol i gyflenwi'r cynhyrchion hyn rhwng busnesau neu sefydliadau. Er enghraifft, gall cyfanwerthwr barhau i gyflenwi gwellt plastig untro i fwyty (gweler manylion am esemptiadau isod).

Dyma enghreifftiau o'r rhai y bydd angen iddynt roi'r gorau i gyflenwi cynhyrchion plastig untro i ddefnyddwyr (os nad oes esemptiadau):

- Busnesau lletygarwch a manwerthu – Er enghraifft, caffis, bariau, bwytai, gwestai, siopau tecawê, archfarchnadoedd, siopau ar-lein, masnachwyr marchnad, gwerthwyr ar-lein, gweithredwyr stondinau bwyd, sinemâu a/neu wyliau.
- Sefydliadau a chwmnïau dielw – Er enghraifft, ysgolion, elusennau, cyrff llywodraethol, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau iechyd a/neu glybiau chwaraeon.

# Beth yw'r troseddau o dan y Ddeddf?

**Pan ddaw'r gwaharddiadau i rym, yng Nghymru, bydd gwneud y canlynol yn drosedd:**

- Cyflenwi neu gynnig cyflenwi unrhyw un o'r cynhyrchion plastig untro sydd wedi'u gwahardd (gan gynnwys eu cyflenwi yn rhad ac am ddim) i ddefnyddwyr yng Nghymru, oni bai bod esemptiad (mae manylion am y rhain ar gael isod)
- Arddangos unrhyw un o'r cynhyrchion plastig untro sydd wedi'u gwahardd (gan gynnwys gwellt yfed) neu ganiatáu i gwsmeriaid helpu eu hunain iddynt
- Rhwystro yn fwriadol swyddog awdurdod lleol (Cyngor) pan fydd yn cynnal archwiliad o'ch safle.

## Deall beth fydd y gyfraith yng Nghymru

Mae busnesau a sefydliadau'n atebol am unrhyw droseddau a gyflawnir gan eu cyflogai/cyflogeion. Felly, cyfrifoldeb busnesau neu sefydliadau yw sicrhau bod y rhai sy'n gweithio iddynt yn deall pa gynhyrchion plastig untro sy'n cael eu gwahardd ac a oes unrhyw esemptiadau ar waith.

**NID** yw meddu ar gynhyrchion plastig untro sydd wedi'u cynnwys yn y gwaharddiadau yn drosedd. Cyflawnir y drosedd **dim ond** pan gyflenwir y cynhyrchion i ddefnyddiwr yng Nghymru neu pan gynigir y nwyddau i'w cyflenwi ar safleoedd yng Nghymru.

Mae yn drosedd i fusnesau neu sefydliadau drefnu bod y cynnyrch yn cael ei ddanfon i ddefnyddiwr mewn cyfeiriad yng Nghymru, hyd yn oed os yw'r busnes y tu allan i Gymru.

**NI** fydd prynu cynnyrch sydd wedi'i wahardd neu ei gyfyngu pan fyddwch y tu allan i Gymru yn drosedd.

**NID** yw'r drosedd yn berthnasol i unigolion sy'n cyflenwi cynhyrchion i unigolion eraill. Er enghraifft, ni fydd yn drosedd rhoi plât plastig untro i aelod o'ch teulu os oes gennych chi un gartref. Mae'r gwaharddiad yn bwriadu tynnu'r cynhyrchion hyn o'r gadwyn gyflenwi cyn iddynt gyrraedd y defnyddiwr.

Bydd y gwaharddiadau'n cael eu gorfodi gan yr awdurdodau lleol (cynghorau) ac mae ganddynt bwerau i fynd i mewn i safle a'i archwilio, gwneud pryniannau prawf a mynd â nwyddau sydd wedi'u gwahardd oddi yno.

Os byddwch yn cyflawni trosedd, efallai y byddwch yn ymddangos gerbron Llys Ynadon ac os cewch eich canfod yn euog, gall y Llys osod dirwy ddiderfyn. Fel arall, efallai y byddwch yn destun cosbau sifil.

# Sut rydw i'n cydymffurfio â'r gwaharddiadau?

**Dylai busnesau a sefydliadau gymryd camau nawr i ddechrau cynllunio ar gyfer y gyfraith newydd drwy ddilyn y cyngor isod.**

## O 30 Hydref 2023:

- Rhoi'r gorau i ddarparu cynhyrchion plastig untro sydd wedi'u gwahardd i gwsmeriaid
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gwaharddiadau ac yn cydymffurfio â'r gyfraith. Dylid darparu hyfforddiant i'w helpu i ddeall effaith y gyfraith newydd ar eu gwaith
- Dweud wrth gwsmeriaid am y newidiadau hyn
- Os oes gennych gynhyrchion plastig untro ar ôl i'r gwaharddiadau ddod i rym, siaradwch â chyflenwyr, eich cyngor lleol neu gymdeithas fasnach am sut i'w hailgylchu
- Unwaith y bydd y gwaharddiadau mewn grym, bydd busnesau a sefydliadau'n gyfrifol am dalu unrhyw gostau i ailgylchu neu waredu'r stoc sydd ar ôl.

# A oes unrhyw esemptiadau?

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru gynnwys esemptiadau rhag y gwaharddiadau, os nodwyd bod angen neu os oes pryder penodol. Mae hyn yn cynnwys y gallu hefyd i ddileu neu ddiwygio esemptiadau presennol pe bai angen newid o'r fath.

Mae manylion yr esemptiadau presennol wedi'u darparu isod. Sylwch y bydd manylion am esemptiadau mewn perthynas â bagiau siopa plastig untro yn cael eu cynnwys unwaith y bydd y gwaharddiadau hynny'n dod i rym.

| Cynnyrch Plastig Untro | Esemptiad |
|---|---|
| **Gwellt yfed** | **Fferyllfeydd**<br>• Gall fferyllfeydd cymunedol, gan gynnwys fferyllfeydd ar-lein, barhau i werthu gwellt yfed neu becynnau o wellt yfed i ddefnyddwyr sy'n dweud bod eu hangen arnynt am resymau iechyd neu anabledd.<br>**Busnesau**<br>• Gellir eu darparu mewn cysylltiad â darparu gofal i rywun arall. Er enghraifft, gall rhywun sy'n darparu gofal iechyd, gofal meddygol neu ofal cymdeithasol ddarparu un os ydyw'n credu'n rhesymol fod angen un am resymau iechyd neu anabledd.<br>• Gellir eu gwerthu neu eu darparu am ddim gyda bwyd neu ddiod i berson sy'n dweud bod angen y gwelltyn arno am resymau iechyd neu anabledd, i fwyta neu yfed y bwyd neu'r ddiod.<br>• Gwellt a ddefnyddir ar gyfer gofal meddygol neu driniaeth. |
| **Cwpanau** | Cwpan sydd heb ei gwneud o bolystyren ymestynedig neu bolystyren sbwng allwthiedig. |
| **Cynwysyddion bwyd tecawê** | Cynhwysydd bwyd tecawê sydd heb ei wneud o bolystyren ymestynedig neu bolystyren sbwng allwthiedig. |

**Nodwch: Os oes angen gwelltyn arnoch, NI fydd angen i chi ddarparu prawf o'r angen i gael gwelltyn plastig untro.**

# Pam rydym wedi ychwanegu esemptiadau?

## Gwellt yfed

Rydym yn cydnabod y bydd angen i rai pobl gael defnyddio **gwellt plastig untro** i'w helpu i fwyta neu yfed yn annibynnol. Er mwyn sicrhau y gall hyn ddigwydd, gall busnesau a sefydliadau (*gan gynnwys fferyllfeydd*) barhau i gyflenwi gwellt yfed i'r rhai sydd eu hangen. Drwy wneud hyn, rydym yn sicrhau hefyd fod busnesau a sefydliadau'n cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu addasiadau rhesymol o dan y gofynion a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Dylid nodi bod stocio a chyflenwi gwelltyn plastig untro yn fater i fusnes neu sefydliad unigol.

## Cwpanau a chynwysyddion bwyd tecawê

Mae'r esemptiadau hyn yn golygu **NAD** yw cwpan neu gynhwysydd bwyd tecawê sydd wedi'i wneud o ddeunydd gwahanol i bolystyren ymestynedig neu bolystyren sbwng allwthiedig wedi'i gynnwys yn y gwaharddiad. Nid yw mathau eraill o gwpanau tecawê a chynwysyddion bwyd wedi'u cynnwys yn y gwaharddiad, hyd yn oed os ydynt wedi'u gwneud o ddeunyddiau plastig eraill.

# Beth yw'r opsiynau amgen i blastig untro?

Credwn fod y gwaharddiadau'n rhoi cyfle i bobl feddwl yn wahanol am y ffordd y maen nhw'n ceisio byw eu bywydau o ddydd i ddydd. Yn hytrach na phrynu a chyflenwi cynnyrch untro i gwsmeriaid, gallai busnesau a sefydliadau gyflenwi cynnyrch y gellir ei ailddefnyddio er mwyn lleihau gwastraff. Lle nad yw hyn yn bosibl gallai busnesau a sefydliadau gyflenwi cynnyrch untro nad ydynt yn blastig.

Gallai dewis cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio helpu i arbed arian, yn ogystal â bod o fudd i'r amgylchedd. Mae astudiaethau'n dangos, ar gyfer y cynhyrchion sy'n cael eu gwahardd, bod cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio yn well i'r amgylchedd o'u cymharu ag opsiynau amgen untro di-blastig.

**Rydym wedi dyfeisio system goleuadau traffig i ddangos pa fathau o gynhyrchion sy'n well i'r amgylchedd.**

| **Cynnyrch Plastig Untro** (Wedi'u gwahardd) | **Cynnyrch Untro Di-blastig** (Yn well i'r amgylchedd) | **Cynnyrch y gellir ei Ailddefnyddio** (Y gorau i'r amgylchedd) |
|---|---|---|
| **Platiau Plastig** | Papur/Bagasse (cansen siwgr) | Ceramig/Pren/Plastig Caled y Gellir ei Ailddefnyddio |
| **Cytleri Plastig** | Pren | Metel/Plastig Caled y Gellir ei Ailddefnyddio |
| **Troyddion Diodydd Plastig** | Pren/Papur | Metel/Plastig Caled y Gellir ei Ailddefnyddio |
| **Gwellt Yfed Plastig** | Papur | Metel/Plastig Caled y Gellir ei Ailddefnyddio |
| **Ffyn Cotwm â choes blastig** | Papur | Plastig y Gellir ei Ailddefnyddio (Silicon) |
| **Ffyn Plastig ar gyfer Balŵns** | Papur/Pren | AMHERTHNASOL |
| **Cwpanau wedi'u gwneud o bolystyren** | Papur/Bagasse | Gwydr/Plastig Caled y Gellir ei Ailddefnyddio/Ceramig |
| **Cynwysyddion bwyd tecawê wedi'u gwneud o bolystyren** | Cardbord/Bagasse | Metel/Plastig y Gellir ei Ailddefnyddio |

*(Ceir rhestr o'r deunyddiau hyn yn Atodiad B)*

## Pa fath o gynhyrchion a ddylwn i eu defnyddio?

Pan nad oes modd newid i opsiynau amgen y gellir eu hailddefnyddio, rydym yn annog y defnydd o gynhyrchion untro wedi'u gwneud o ddeunyddiau sy'n bioddiraddio'n hawdd, fel papur, pren a chardbord. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o astudiaethau Dadansoddi Cylchred Oes, sy'n argymell yr opsiynau amgen gorau ar gyfer diogelu'r amgylchedd.

Mae Dadansoddi Cylchred Oes yn ein galluogi i gymharu effaith amgylcheddol cynhyrchion a wneir o wahanol fathau o ddeunyddiau. Rydym wedi defnyddio **adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd ar Life Cycle Inventories of Single Use Plastic Products and their Alternatives** a'r adolygiadau mwy diweddar o **Ddadansoddi Cylchred Oes gan y Cenhedloedd Unedig** i gefnogi ein hargymhellion ar gyfer cynhyrchion amgen sy'n well i'n hamgylchedd.

# Cefnogaeth i fusnesau

Busnes Cymru yw gwasanaeth cymorth busnes dwyieithog Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu cyngor, gwybodaeth a gwasanaeth cyfeirio cyffredinol ac amrywiol i fusnesau er mwyn annog pobl i fynd ati mewn ffordd gynaliadwy i greu, tyfu a datblygu microfusnesau a busnesau bach a chanolig.

Mae Busnes Cymru hefyd yn darparu meysydd arbenigol o gyngor a chymorth ar bynciau fel effeithlonrwydd adnoddau.

Mae'n bwysicach nag erioed defnyddio adnoddau'n effeithiol, o ran lleihau gorbenion, ac i wthio Cymru ymlaen tuag at economi gynaliadwy carbon isel, gwastraff isel.

Mae Cynghorwyr Effeithlonrwydd Adnoddau Busnes Cymru ar gael i gefnogi busnesau i fabwysiadu neu wella strategaethau amgylcheddol. Maen nhw'n cydweithio â busnesau i greu busnes cydnerth sy'n effeithlon o ran adnoddau drwy ddarparu amrywiaeth o gyngor, a chymorth un-i-un. Maen nhw'n darparu mynediad hefyd i weithdai ar faterion fel defnyddio llai o ddeunyddiau crai er mwyn helpu i leihau'r risg o brinder deunyddiau, ysgogi arloesedd a chydnerthedd, a helpu busnesau i gyrraedd marchnadoedd newydd.

**Maen nhw hefyd yn gwneud y canlynol:**

- helpu busnesau i leihau gorbenion a chynyddu proffidioldeb;
- helpu busnesau i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd, diogelwch ac amgylcheddol;
- gwella delwedd y busnes gyda chwsmeriaid, cyflogeion a'r gymuned leol; a
- gwella'r gweithle a'r amgylchedd lleol.

## I gael rhagor o gymorth neu gyngor busnes, gallwch gysylltu â:

**Ffôn:** 03000 603 000

**E-bost:** Businesssupport@llyw.cymru

Neu ewch i Wefan Busnes Cymru
Cysylltu â ni | Busnes Cymru (llyw.cymru)

Oriau agor Llinell Gymorth Busnes Cymru ar gyfer galwadau yw 10am – 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio ar wyliau cyhoeddus.

# Atodiad A: Diffiniadau

Er mwyn helpu i ddeall beth mae'r gwaharddiadau'n ei olygu a pha gynhyrchion sydd wedi'u cynnwys, rydym wedi rhoi trosolwg o rannau allweddol y Ddeddf isod.

## Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud cynnyrch plastig?

Mae hwn yn gynnyrch sydd wedi'i wneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol o blastig, gan gynnwys cynhyrchion sydd â leinin neu orchudd plastig. Er enghraifft, mae plât papur gyda gorchudd plastig wedi'i wahardd.

## Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud plastig?

Mae plastig yn golygu deunydd sy'n cynnwys polymer, ac eithrio gludydd, paent neu inc, ac mae'n cynnwys deunydd ac ynddo bolymer sydd â sylweddau eraill wedi'u hychwanegu ato.

Gall polymer fod yn brif elfen strwythurol cynnyrch. Nid yw'n cynnwys polymer naturiol sydd heb ei addasu'n gemegol.

Mae hyn yn golygu bod cynhyrchion plastig **wedi'i wneud o danwydd ffosil**, a phlastig sydd wedi'i wneud o **bolymerau naturiol** sy'n disodli'n uniongyrchol unrhyw gynnyrch cyfatebol wedi'i wneud o danwydd ffosil, gan fod yr un strwythur cemegol a phriodweddau ganddynt, wedi'u cynnwys yn y gwaharddiad. **Gall** hyn gynnwys **plastig bioddiraddadwy** a phlastig **y gellir ei gompostio**.

Sylwch y bydd angen i chi ofyn am ragor o gyngor oddi wrth eich cyflenwr er mwyn penderfynu a yw'r math o blastig a ddefnyddir yn y cynnyrch sydd wedi'i gynnwys yn ein deddfwriaeth yn cael ei wahardd.

## Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud untro?

Mae hyn yn golygu unrhyw gynnyrch sydd heb ei ddylunio na'i weithgynhyrchu i'w ddefnyddio fwy nag unwaith cyn cael ei waredu.

## Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud cyflenwi?

Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n gwerthu neu'n darparu am ddim unrhyw gynnyrch sydd wedi'i wahardd i ddefnyddwyr yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ar safle yng Nghymru (er enghraifft siop) neu drwy drefnu i'w ddanfon i ddefnyddiwr yng Nghymru (er enghraifft ar-lein).

## Diffiniad o gynhyrchion sydd i'w gwahardd yn ystod Cam 1

Mae'r rhain yn gynhyrchion a fydd yn cael eu gwahardd o 30 Hydref 2023.

### Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud plât plastig untro?

Mae hwn yn llestr gwastad sydd wedi'i gynllunio i ddal bwyd i'w fwyta ond **NID** ar gyfer ei weini.



### Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud cytleri plastig untro?

Mae cytleri yn golygu fforc, cyllell, llwy, gweill bwyta neu fath arall o offer (er enghraifft "spork") sydd wedi'i ddylunio i'w ddefnyddio i fwyta neu weini bwyd.

**NID** yw llwyau sy'n dod gyda meddyginiaethau wedi'u cynnwys yn y gwaharddiad.



### Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud tröydd diod plastig untro?


Mae hon yn ffon sydd wedi'i dylunio i'w defnyddio i droi diod poeth neu oer neu fwyd hylifol.
Mae troyddion diodydd sydd wedi'u gwneud o ddeunydd sydd wedi'i orchuddio, ei leinio neu ei lamineiddio â phlastig wedi'u cynnwys hefyd.



### Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud gwelltyn plastig untro?

Gwelltyn a ddyluniwyd i'w ddefnyddio i fwyta bwyd hylifol neu i yfed diod, gan gynnwys gwellt sydd ynghlwm wrth gartonau. Mae gwellt wedi'u gwneud o ddeunydd sydd wedi'i orchuddio, ei leinio, neu ei lamineiddio â phlastig hefyd wedi'u cynnwys. Mae yna esemptiadau (gweler isod).

**Esemptiad:**



- Gall fferyllfeydd manwerthu barhau i werthu gwellt neu becynnau o wellt i ddefnyddwyr sy'n dweud bod eu hangen arnynt am resymau iechyd neu anabledd.
- Gellir eu darparu mewn cysylltiad â darparu gofal i rywun arall. Er enghraifft, gall rhywun sy'n darparu gofal iechyd, gofal meddygol neu ofal cymdeithasol ddarparu un os ydyw'n credu yn rhesymol fod angen un am resymau iechyd neu anabledd.
- Gellir eu gwerthu neu eu darparu am ddim gyda bwyd neu ddiod i berson sy'n dweud bod arno angen gwelltyn am resymau iechyd neu anabledd, i fwyta neu yfed y bwyd neu'r ddiod.
- Gwellt a ddefnyddir ar gyfer gofal meddygol neu driniaeth.

**NI** fydd angen i chi ddarparu prawf o'r angen i ddefnyddio gwelltyn plastig untro.

### Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud ffyn cotwm â choes blastig?

Mae ffon gotwm yn ffon fach, denau gyda gwlân cotwm ynghlwm wrth un pen neu'r ddau ben, ac maen nhw wedi'u dylunio i'w defnyddio ar gyfer deunyddiau cosmetig neu hylendid personol neu anifeiliaid.

**NID** yw swabiau fforensig a meddygol wedi'u cynnwys yn y gwaharddiad.



### Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud ffyn plastig ar gyfer balŵns?

Mae hon yn ffon, gan gynnwys unrhyw fecanweithiau sydd ynghlwm wrthi, sydd wedi'i dylunio i gael ei chysylltu â balŵn fel y gellir ei gario neu ei gynnal.

### Beth rydym yn ei olygu wrth ddweud polystyren ymestynedig neu bolystyren sbwng allwthiedig?

Polystyren lle mae'r deunydd polymerig yn cael ei ehangu ar unrhyw adeg yn ystod ei weithgynhyrchu drwy unrhyw fodd (fel gwres o stêm ac ehangu wrth oeri) gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng chwythu (fel bwtan, pentan a phropan).

### Cwpanau polystyren ymestynedig neu bolystyren sbwng allwthiedig



Cwpan sydd wedi'i wneud o bolystyren ymestynedig neu bolystyren sbwng allwthiedig. Mae cwpan yn rhywbeth sydd wedi'i ddylunio i'w ddefnyddio i ddal bwyd hylifol neu ddiod i'w fwyta/yfed. Er enghraifft, fe'i defnyddir yn aml ar gyfer bwyd a diodydd poeth, tecawê gan eu bod yn helpu i'w cadw'n gynnes. Fe'u defnyddir weithiau mewn siopau bwyd tecawê ar gyfer gweini ffa pob, pys neu saws cyri.

### Cynwysyddion bwyd tecawê polystyren ymestynedig neu bolystyren sbwng allwthiedig

Mae cynhwysydd bwyd tecawê yn golygu llestr ac eithrio plât (er enghraifft powlen, blwch, côn, pot dogn neu gynwysyddion tebyg i siâp cragen fylchog), sydd wedi'i ddylunio neu ei weithgynhyrchu i'w ddefnyddio i fynd â bwyd o'r man lle caiff ei ddarparu. Mae'r bwyd yn barod i'w fwyta heb unrhyw baratoi pellach, fel coginio, berwi neu gynhesu, ac fel arfer caiff ei fwyta ar unwaith.

Weithiau defnyddir y cynhyrchion hyn i weini bwydydd fel pysgod a sglodion, byrgyrs, cyw iâr wedi'i ffrïo a phrydau ochr fel ffa pob, pys slwtsh neu saws cyri.



# Atodiad B: Disgrifiad o'r Deunyddiau

**Bagasse:** y deunydd ffibrog sych a ffurfir ar ôl malu cansen siwgr yn fân i echdynnu ei sudd. Mae hwn yn ddeunydd ecogyfeillgar sy'n fioddiraddadwy.

**Bambŵ:** deunydd planhigyn sy'n tyfu'n gyflym ac yn para'n dda.

**Cardbord:** fel papur ond yn fwy trwchus ac yn para'n well. Mae'n cael ei wneud o ddeunyddiau naturiol.

**Gwydr:** caled a thryloyw, wedi'i wneud o dywod a gwres, mae'n para'n dda a gellir ei ddefnyddio fel opsiwn arall yn lle plastig untro.

**Metel:** elfen gemegol, fel haearn neu aur, neu gymysgedd o elfennau o'r fath, fel dur, sydd ar y cyfan yn galed ac yn gryf, ac y gall trydan a gwres deithio drwyddo. Gellir ailddefnyddio ac ailgylchu eitemau sydd wedi'u gwneud o fetel.

**Papur:** deunydd a weithgynhyrchir o fwydion coed.

**Plastig caled y gellir ei ailddefnyddio:** mae llawer o eitemau fel KeepCup wedi'u gwneud o blastig gyda'r bwriad o gael eu hailddefnyddio.

**Pren:** deunydd caled a ffibrog sy'n ffurfio prif sylwedd cangen neu foncyff coeden. Gellir ei brosesu a'i ddefnyddio ar gyfer platiau, cytleri a throyddion diodydd.

# Atodiad C: Gwaredu cynhyrchion

Pan fydd y gwaharddiad mewn grym, ni fydd busnesau na sefydliadau'n gallu cyflenwi'r cynnyrch sydd wedi'i wahardd mwyach a bydd angen iddynt ysgwyddo'r gost o waredu unrhyw stoc sydd heb ei ddefnyddio.

Er mwyn osgoi hyn, dylai busnesau roi'r gorau i brynu cynhyrchion plastig untro cyn i unrhyw waharddiad gael ei gyflwyno i osgoi cronni stoc.

Os oes stoc ar gael o hyd ar ôl i waharddiad ddechrau, byddem yn cynghori'r busnes neu'r sefydliad i gysylltu â'u cyngor lleol i weld pa gyfleusterau ailgylchu sydd ar gael i waredu'r stoc.

## Yr Hierarchiaeth Wastraff

Mae llyfryn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, **Arweiniad ynghylch Gweithredu'r Hierarchiaeth Gwastraff,** yn rhestru opsiynau atal a rheoli gwastraff yn ôl yr hyn sydd orau i'r amgylchedd. Mae tudalen 13 o'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth fanylach am beth i'w wneud gyda deunyddiau gwastraff penodol.

Rydym yn cydnabod bod rhai o'r cynhyrchion llai, fel cytleri, gwellt a throyddion yn anodd eu hailgylchu oherwydd eu maint a'u siâp. Dyma un o'r rhesymau pam eu bod wedi'u cynnwys yn y gwaharddiadau.

O ran y rhai eraill, fel y rhai sydd wedi'u gwneud o bolystyren, mae'r broses ailgylchu yn gymhleth, sy'n golygu nad oes modd ailgylchu pob polystyren. Gall busnesau a sefydliadau yn y DU drefnu cludwr trwyddedig i gasglu polystyren gwastraff a'i gludo i gyfleuster ailgylchu priodol lle bydd yn cael ei ddidoli, ei lanhau a'i ailgylchu os yw'n bosibl.

## Cymorth i adnabod gwahanol fathau o blastig

Mae'n ofynnol i gynhyrchion plastig gael marc arnynt sy'n nodi'r math o blastig y maent wedi'u gwneud ohono. Gall hyn helpu hefyd gyda gwaredu ac ailgylchu'n gywir.

| 1 PETE | 2 HDPE | 3 PVC | 4 LDPE | 5 PP | 6 PS | 7 OTHER |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Polyethylen Tereffthalad | Polyethylen Dwysedd Uchel | Polyfinil Clorid | Polyethylen Dwysedd isel | Polypropylen | Polystyren | Arall |

Eitem Agenda 5

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**Adroddiad i:** **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**

**Dyddiad y cyfarfod:** **22 Tachwedd 2023**

**Teitl:** Cynnig i weithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar eiddo Cyngor Sir Ceredigion

**Pwrpas yr adroddiad:** Argymell gweithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar safleoedd Cyngor Sir Ceredigion

**Y rheswm am y wybodaeth i'r Pwyllgor Craffu :**
N/A

**Cefndir**
O fewn Cyngor Sir Ceredigion, mae diogelu a chymeradwyo safonau uchel o les anifeiliaid, yn bennaf fel rhan o gefnogi'r diwydiant ffermio, ac i gefnogi'r rhai sy'n mwynhau cadw anifeiliaid fel anifeiliaid anwes. Mae'r awdurdod felly yn cefnogi ymgyrch yr RSPCA ar "roi anifeiliaid anwes fel gwobrau" drwy gynnig gweithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw ar eiddo Cyngor Sir Ceredigion.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r cyd-destun ar y gwaharddiad arfaethedig ar roi anifeiliaid byw (e.e. pysgod aur, ac ati) fel gwobrau fel y nodir yn ymgyrch y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) 2021.

Tra bod amrywiaeth o anifeiliaid yn cael eu rhoi'n wobrau yn flynyddol yng Nghymru ac ar draws y DU, pysgod aur sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag anifeiliaid fel gwobr. Mae pysgod aur yn profi straen yn rhwydd iawn ac mae'r pysgod sy'n cael eu hennill yn aml iawn yn dioddef o sioc, prinder ocsigen neu'n marw yn sgîl newidiadau yn nhymheredd y dŵr. Bydd nifer yn marw cyn i'w perchnogion newydd ddychwelyd adref.

Dylai cadw anifail fel anifail anwes gael ei gynllunio'n ofalus gydag ystyriaeth ddwys o flaen llaw. Dylai'r darpar berchennog gael dealltwriaeth eglur o'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol ac ystyried yn ofalus os oes ganddynt y cyfleusterau, amser, amgylchiadau ariannol a'r diddordeb i ofalu a pharau i ofalu ar ôl yr anifail i safon foddhaol cyn ei brynu.

Ers dechrau ymgyrch yr RSPCA, mae 13 o awdurdodau Cymru wedi cefnogi ymgyrch yr RSPCA, sef:-

- Pen-y-bont
- Caerffili

- Caerdydd
- Conwy
- Fflint
- Castell-nedd Port Talbot
- Casnewydd
- Sir Benfro
- Rhondda Cynon Taf
- Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Bro Morgannwg
- Wrecsam
- Merthyr Tudful

Nid yw Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr) yn gwahardd rhoi anifeiliaid byw fel gwobrau oni bai eu bod yn cael eu rhoi i blant heb bresenoldeb oedolyn. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n drosedd, yng Nghymru a Lloegr, i roi anifeiliaid byw i ffwrdd fel gwobrau os gellir credu'n rhesymol bod y person o dan 16 oed ac heb bresenoldeb oedolyn.

Fodd bynnag, mae rhai eithriadau yn adran 11 (3)-(6) o'r Ddeddf. Mae'n fater gwahanol yn yr Alban, lle mae'n drosedd, o dan Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006, i gynnig neu roi anifail i berson arall fel gwobr (beth bynnag fo'u hoedran), ac eithrio pan gaiff ei gynnig mewn cyd-destun teuluol..

Mae'r RSPCA o'r farn nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn mynd yn ddigon pell ac nad yw'n ymdrin â'r materion lles anifeiliaid sy'n gysylltiedig â'r arfer hwn, ac felly hoffent weld deddfwriaeth debyg i Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006 yn cael ei chyflwyno yng Nghymru a Lloegr; a'i gwneud yn drosedd rhoi anifail fel gwobr, beth bynnag fo'i oed, ac eithrio yng nghyd-destun y teulu.

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion gyfle i wahardd "anifeiliaid anwes fel gwobrau" ar safleoedd y Cyngor, mae'r sir felly'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o les anifeiliaid sy'n ymwneud â rhoi anifeiliaid byw fel gwobrau. Felly, o ystyried y ddeddfwriaeth bresennol, gall y Cyngor gyflwyno gwaharddiad drwy newid telerau ac amodau'r cytundebau i ddefnyddio eiddo'r Cyngor. Cefnogir yr adroddiad hwn gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer yr Economi ac Adfywio sy'n goruchwylio rheolaeth tir a chyfleusterau'r Cyngor.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw ddigwyddiad a gynhelir ar dir y Cyngor ar hyn o bryd yn cynnig Anifeiliaid Anwes fel Gwobrau. Cynhelir ffeiriau yn ystod yr Hydref yn Aberteifi, Aberaeron ac Aberystwyth, fodd bynnag, deallir nad yw pysgod aur yn cael eu rhoi fel gwobrau gan y gweithredwyr hyn.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam.**

Oes

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** **Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo safonau uchel o les anifeiliaid**

**Cydweithio: Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gydag asiantaethau statudol eraill fel Llywodraeth Cymru, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i sicrhau bod safonau lles anifeiliaid yn cael eu cynnal. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r RSPCA i hyrwyddo ein nodau a'n hamcanion a rennir.**

**Cyfranogiad:** **Mae'r argymhelliad yn gyson â gweithredoedd awdurdodau eraill sydd wedi gweithredu'r un peth, ac mae'n unol â disgwyliadau'r cyhoedd o ddiogelu lles anifeiliaid.**

**Ataliad:** **Mae'r gweithgarwch o wahardd rhoi anifeiliaid anwes fel gwobrau yn atal y posibilrwydd a fyddai'n effeithio'n negyddol ar les anifeiliaid.**

**Integreiddiad:** **Mae sicrhau rheolaethau ehangach ar les anifeiliaid yn unol ag amcanion a gynhwysir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**<u>Argymhelliad(ion):</u>**
1. Bod y pwyllgor yn argymell i'r Cabinet wahardd yn llwyr roi anifeiliaid byw fel gwobrau, ar unrhyw ffurf, ar dir y Cyngor.

**<u>Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**
Cynnal lefelau uchel o les anifeiliaid ledled Cyngor Sir Ceredigion trwy weithredu gwaharddiad ar yr arfer o roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar dir y Cyngor oherwydd y niwed posibl a achosir i'r anifeiliaid.

**<u>Enw Cyswllt:</u>** Carwen Evans/Heddwyn Evans

**<u>Swydd:</u>** Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd

**<u>Dyddiad yr Adroddiad:</u>** 10 Hydref 2023

**<u>Acronymau:</u>**
Dim

Atodiad 1 – Atodiad 1 – Llythyr gan Lesley Griffiths, AS/MS Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru

Letter to Local Authorities - Eng.pdf

Letter to Local Authorities - Cym.pdf

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LG/2024/23

Prif Swyddog Gweithredol
Awdurdodau Lleol Cymru

Medi 2023

Yng ngoleuni diddordeb cyhoeddus diweddar, hoffwn godi'r mater â chi o roi anifeiliaid fel gwobrau, yn enwedig pysgod aur.

Byddwch yn cofio fy mod wedi ysgrifennu atoch yn flaenorol ym mis Rhagfyr 2019, gan ofyn am adborth ar y mater hwn. Rwy'n falch o nodi'r cynnydd cadarnhaol yn y maes hwn ers hynny, a deall bod 12 o'n 22 o Awdurdodau Lleol, sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad drosodd, wedi gweithredu gwaharddiadau ar roi anifeiliaid fel gwobrau ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor.

Fodd bynnag, yn ddiweddar rwyf wedi cael gwybod am bryderon o'r newydd ymhlith y sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector am yr arfer hwn, pryderon rwy'n eu rhannu.

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae cyfrifoldeb ar berchnogion a cheidwaid anifeiliaid i sicrhau bod anghenion lles eu hanifeiliaid yn cael eu diwallu. Mae'n drosedd achosi dioddefaint diangen, ac mae hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n rhoi a derbyn y wobr.

**Rwyf yn ysgrifennu atoch fel un o'r 10 Awdurdod Lleol sydd weddill i beidio â gweithredu gwaharddiad, i ofyn a byddech yn ystyried gwahardd yr arfer hen ffasiwn hwn ar eich tir.**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gwerthfawrogi eich ymdrechion parhaus i hyrwyddo perchnogaeth anifeiliaid anwes cyfrifol ac i wrthod yr arfer hwn. Nid wyf yn teimlo bod lle i'r arfer hwn yn ein cymdeithas mwyach ac nid yw'n adlewyrchu ein gwerthoedd o ran lles anifeiliaid. Gellir anfon ymatebion at animalwelfarewales@llyw.cymru.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Atodiad 1: Cynghorau Lleol sydd wedi gwahardd rhoi anifeiliaid anwes fel gwobrau**

Pen-y-bont
Caerffili
Caerdydd
Conwy
Fflint
Castell-nedd Port Talbot
Casnewydd
Sir Benfro
Rhondda Cynon Taf
Bwrdeistref Sirol Torfaen
Bro Morgannwg
Wrecsam

 Eitem Agenda 6

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **22ain Tachwedd 2023** |
| **Teitl:** | **Cynllun Gweithredu wedi'i Ddiweddaru gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **1. Rhoi adroddiad am y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn Adroddiad AGC nawr ein bod chwe mis ar ôl yr Arolygiad.**<br>**2. Nodi'r cynnydd a chodi unrhyw bwyntiau o ddiddordeb.** |

**Rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**

**Gofynnodd y Pwyllgor Craffu i'r Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan AGC gael ei adolygu ar ôl cyfnod o chwe mis. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno gan fod y cyfnod hwn o amser bellach wedi mynd heibio.**

**Cefndir**

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad gwerthuso perfformiad o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion (yr Awdurdod Lleol) ym mis Mawrth 2023.

Diben yr arolygiad oedd adolygu perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion o ran arfer ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth fel y'i diffinnir o dan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn dilyn yr arolygiad hwn, ac ar ôl derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad fel ymateb cymesur, lluniwyd Cynllun Gweithredu i geisio mynd i'r afael â'r canfyddiadau ac i barhau i wneud gwelliannau pellach.

Ar ôl rhannu'r Cynllun Gweithredu â'r Pwyllgor i ddechrau ar 24ain Mai 2023, gofynnodd y Pwyllgor i'r Cynllun Gweithredu gael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Craffu Cymunedau Iachach ar ôl chwe mis ac yna flwyddyn ar ôl hynny er mwyn cynnal cynnydd a momentwm hyd at ei gwblhau.

**Sefyllfa Bresennol**

Mae'r Cynllun Gweithredu cyfredol yn ddogfen fyw weithredol a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith gwella yn dilyn Arolygiad AGC yn ogystal â monitro gwasanaethau'n barhaus sy'n ceisio gwella gwasanaethau a dathlu llwyddiant.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam.**

Nac oes, nid yw hwn yn bolisi nac yn strategaeth.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:**
**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**
**Integreiddio:**

**<u>Argymhelliad:</u>**

**Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**<u>Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**

**<u>Enw Cyswllt:</u>** Audrey Somerton-Edwards

**<u>Swydd:</u>** Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**<u>Dyddiad yr Adroddiad:</u>** 30ain Hydref 2023

**<u>Acronymau:</u>**

AGC – Arolygiaeth Gofal Cymru

| Thema | Cyf AGC | Cryfderau a Nodwyd |
|---|---|---|
| Pobl - Llais a Dewis | 2.1 | I lawer o bobl, caiff eu lleisiau eu clywed a chaiff eu canlyniadau personol eu cofnodi. Roedd enghreifftiau lle roedd ymarferwyr yn gweithio mewn ffordd gydweithredol a chyson â phobl i gefnogi'r pethau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael eu deall, bod eu llais wedi cael ei glywed a bod trefniadau cyfathrebu effeithiol a rheolaidd ar waith. Dywedodd 82% o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg pobl fod yr awdurdod lleol wedi eu trin ag urddas a pharch 'drwy'r amser' neu'r 'rhan fwyaf o'r amser'. |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.2 | Gall pobl gyfathrebu yn eu dewis iaith. Roedd tystiolaeth bod y cynnig rhagweithiol yn cael ei wneud ac roedd rheolwyr yn hyderus bod niferoedd digonol o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg i weithredu'r cynnig gweithredol |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.3 | Gwelsom fod gwasanaethau eirioli yn cael eu hystyried a'u cynnig yn rhagweithiol, yn enwedig yng nghyd-destun cynadleddau amddiffyn plant ac adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r ffaith bod y gwasanaethau hyn ar gael yn hwylus yn gryfder sy'n parhau o'n gwiriad sicrwydd blaenorol yn 2021. Mae eiriolwyr yn mynychu fforymau gwneud penderfyniadau yn rheolaidd er mwyn cyfleu safbwyntiau'r plant. Dywedodd rhai plant sy'n derbyn gofal wrthym am anawsterau roeddent yn eu cael weithiau wrth gael cymorth ac am ddiffyg tryloywder ynghylch eu hawliau a'u hawliadau. Roedd rhai o'r plant yn teimlo eu bod yn gwneud penderfyniadau heb gymorth ar adegau allweddol yn eu bywydau. Gall fod angen atgyfnerthu'r maes hwn ymhellach. Yn y gwasanaethau oedolion, roedd tystiolaeth bod pobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr anffurfiol i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae ymarferwyr yn y gwasanaethau oedolion yn deall pwysigrwydd gwasanaethau eirioli. Nododd y darparwr eiriolaeth ffurfiol efallai, ar adegau, y gallent fod wedi cymryd rhan yn gynharach |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.4 | Mae pobl yn cael y cyfle i deilwra a rheoli eu gofal a'u cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, yn yr un modd ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, mae'n anodd recriwtio cynorthwywyr personol i roi cymorth drwy daliadau uniongyrchol. Clywsom sut mae'r gwasanaeth wrthi'n ceisio recriwtio cynorthwywyr personol newydd drwy wefan a system feddalwedd newydd. |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.5 | Mae gan Geredigion weithlu ymroddedig sy'n ymateb i lwyth gwaith cynyddol o ran cymhlethdod ac o ran nifer yr achosion. Cyfeiriodd 77% o'r unigolion a ymatebodd i'n harolwg staff dienw at yr heriau hyn, ond gan nodi eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr. Clywsom hefyd fod y staff yn gwerthfawrogi hygyrchedd uwch-reolwyr. Dywedodd 74% o'r staff eu bod yn gallu ymdopi â'u llwythi gwaith. |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.6 | Mewn ymateb i'r heriau y mae'r awdurdod lleol yn eu hwynebu wrth recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, ceir ffocws ar ymdrechion i ddatblygu aelodau o staff mewnol. Yn galonogol, clywsom fod yr awdurdod lleol wedi bod yn gweithio'n agos â Phrifysgol Aberystwyth i geisio creu cwrs gwaith cymdeithasol i hyfforddi'r gweithlu sydd ei angen ar gyfer y dyfodol. At hynny, nodwn fod yr awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth ofalus i gyflogi gweithwyr o dramor. Byddent eisiau i'r gweithwyr hynny ymrwymo i ddysgu Cymraeg ac maent yn ymwybodol y bydd angen rhoi cymorth iddynt integreiddio i'r diwylliant lleol. |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.7 | Roedd y rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol ac yn cael cymorth i arwain. Penodiad dros dro yw'r unigolyn sy'n ymgymryd â swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae'r awdurdod yn chwilio am Gyfarwyddwr parhaol er mwyn rhoi gwell sefydlogrwydd i'r uwch-dîm arwain. |
| Atal | 3.1 | Mae uwch-reolwyr yn deall yn iawn bod y gallu i gael gafael ar ymyriadau cynnar a gwasanaethau atal yn allweddol er mwyn cynnal llesiant a lliniaru'r galw am wasanaethau gofal a reolir. Un o gryfderau Ceredigion yw'r ymrwymiad strategol a rennir i'r agenda ataliol, fel y gwelir yn y penderfyniad i drawsnewid i'r model LlGO. Mae hyn yn sicrhau ffocws ar annog annibyniaeth pobl a helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd pan fydd yn ddiogel iddynt wneud hynny. |
| Atal | 3.2 | Gwelsom enghreifftiau o asesiadau ac adroddiadau cynadleddau amddiffyn plant, a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn ac wedi'u hysgrifennu mewn ffordd y gallai'r plentyn neu berson ifanc ei deall. Mae ansawdd y rhan fwyaf o'r adolygiadau ar gyfer plant yn parhau'n gryfder o'n gwiriad blaenorol yn 2021. Caiff y cofnodion eu hysgrifennu'n uniongyrchol i'r plentyn, gan roi'r ymdeimlad o lythyr wedi'i bersonoli. Mae'r cofnodion hyn yn cydnabod dymuniadau'r plentyn ac yn esbonio canlyniadau a phenderfyniadau ei adolygiad mewn iaith syml. |
| Atal | 3.3 | Mae'r gweithwyr cymdeithasol yn amlwg yn anelu at feithrin cydberthnasau ystyrlon â phlant a theuluoedd, gyda phwyslais ar weithio'n uniongyrchol â phlant unigol. Gwelsom enghreifftiau o weithwyr cymdeithasol yn chwarae gemau â'r plant, yn lliwio gyda nhw ac yn chwarae pêl-droed er mwyn meithrin cydberthnasau. Gwelsom dystiolaeth gadarn o fyfyrio gan ymarferwyr, chwilfrydedd proffesiynol a phenderfyniadau clir mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. |
| Atal | 3.4 | O dan y model LlGO, mae amrywiaeth o wasanaethau ataliol wedi cael eu cyfuno o dan ambarél y PCC. Mae amrywiaeth a chapasiti'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir gan y trydydd sector, yn gryfder amlwg a nododd ein harolwg staff fod y gweithlu yng Ngheredigion yn eu gwerthfawrogi. Gwelsom enghreifftiau o gyfarfodydd a oedd wedi'u trefnu'n effeithiol er mwyn penderfynu pa wasanaethau sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi teuluoedd. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer canolfannau llesiant fel 'siop un stop' ar gyfer gwasanaethau gan gynnwys gwasanaethau hamdden, gwasanaethau tai a gwasanaethau ieuenctid. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n datblygu cyfeiriadur o adnoddau, gwasanaethau a chyfleusterau er mwyn i'r help cynnar sydd ar gael fod yn gliriach i staff a'r cyhoedd. |
| Atal | 3.5 | Clywsom, fel ymrwymiad i ddatblygu cysylltiadau cymunedol a chefnogi'r agenda ataliol, fod yr awdurdod lleol wedi cynyddu nifer y Cysylltwyr Cymunedol, gan weithio ar sail model ardaloedd bach drwy'r sir, er mwyn ceisio cysylltu pobl â gwasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn eu hardal leol gyda'r bwriad o gael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. |
| Atal | 3.6 | Er gwaethaf y galw uchel a'r rhestr aros am asesiadau therapi galwedigaethol, gwelsom rai enghreifftiau o allu'r gwasanaeth i ymateb yn brydlon. Roedd hyn yn cynnwys darparu cyfarpar i hybu annibyniaeth pobl gan eu galluogi i fyw yn eu cartrefi yn hirach. |
| Atal | 3.7 | Mae technoleg gynorthwyol, gan gynnwys darparu oriawr arddwrn i fonitro arwyddion iechyd hanfodol pobl a chwympiadau, yn strategaeth allweddol i gefnogi ymyriadau cynnar ac atal. Clywsom hefyd am brosiectau fel y PCC yn rhoi dyfeisiau 'Fitbit' i bobl ifanc i'w hannog i fod yn egnïol hyd yn oed pan nad oeddent yn ymgysylltu'n uniongyrchol â gwasanaethau. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn datblygu swyddfa i allu arddangos y ddarpariaeth technoleg gynorthwyol. |

| | | |
|---|---|---|
| Atal | 3.8 | Fel sy'n wir am y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae pwysau sylweddol ar gapasiti'r farchnad gofal cartref yng Ngheredigion. Er gwaethaf y galw hwn, mae rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Gwelsom fod y tîm galluogi yn canolbwyntio ar roi cymorth effeithiol i bobl adfer eu hannibyniaeth a'u galluogi i ddychwelyd adref yn unol â'u dymuniadau. |
| Llesiant | 4.1 | Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu plant a phobl ifanc ym mhob rhan o'r model LlGO. Roedd y gweithwyr cymdeithasol yn dangos dealltwriaeth dda o hanes a sefyllfa bresennol teuluoedd. Gwelsom weithwyr medrus a chymwys a oedd yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion diogelu plant a phobl ifanc. Mae'r penderfyniadau a wneir mewn perthynas â niwed sylweddol yn glir ac maent yn arwain at gamau gweithredu priodol. |
| Llesiant | 4.2 | Caiff plant eu gweld mor aml ag sydd ei angen gan eu gweithiwr cymdeithasol, yn unol â lefelau eu hanghenion a'r risgiau. Cydnabyddir effaith tlodi ar deuluoedd a rhoddir cymorth ariannol rheolaidd i rieni er mwyn iddynt allu mynychu sesiynau cyswllt. Gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr yn cynyddu nifer yr ymweliadau, gan gynnwys ymweld ar benwythnosau, ac yn rhoi cymorth dwys er mwyn bwrw ati i leihau risgiau diogelwch. Rhoddodd un rhiant ddisgrifiad pwerus o'r dull gweithredu a oedd ar waith gan nodi bod yr ymarferwyr yn "understanding, actually supporting me and letting me speak". Dywedodd hefyd fod adroddiadau cynadleddau bellach yn cydnabod cryfderau yn ogystal â risgiau. Mae hyn yn ategu ein canfyddiadau bod risgiau amddiffyn plant yn cael eu hystyried yn briodol a'u cydbwyso yn erbyn cryfderau teuluoedd. |
| Llesiant | 4.3 | Caiff Cynadleddau Grŵp Teulu eu defnyddio'n rheolaidd ac yn effeithiol i ffurfioli'r cymorth a roddir i rieni/gofalwyr ofalu am eu plant yn ddiogel. Yn yr achosion hyn, caiff canlyniadau da yn aml eu cyflawni ar gyfer y plant. Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i gadw plant gyda'u rhieni ac, er nad oedd hynny bob amser yn bosibl, gwelsom ganlyniadau da lle rhoddwyd cyfle i'r plant aros gydag aelodau o'r teulu estynedig. **Yn gadarnhaol, clywsom fod y trefniadau ar gyfer Cynadleddau Grŵp Teulu bellach yn cael eu hehangu i gynnwys gwaith gydag oedolion, er mwyn adlewyrchu'r model LlGO.** |
| Llesiant | 4.4 | Gwelsom enghreifftiau rhagorol o ymarferwyr yn cofnodi eu gwaith dadansoddi a'u rhesymeg gan ddangos eu bod wedi deall yr hyn a oedd yn ofynnol er mwyn helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau. Caiff safbwyntiau plant eu hystyried fel rhan o waith cynllunio a gwaith dadansoddi gwybodus gan weithwyr cymdeithasol i ystyried y risg o niwed. Mae'r cofnodion yn tynnu sylw at gryfderau yn ogystal â nodi'r pryderon a phrofiadau bywyd plant. Gwelsom enghreifftiau rhagorol o asesiadau risg amlasiantaeth, gan ddefnyddio dulliau arwyddion diogelwch ac amrywiaeth o adnoddau eraill i hwyluso gwaith uniongyrchol. |
| Llesiant | 4.5 | Mewn perthynas â diogelu oedolion, a oedd yn gryfder yn flaenorol, gwelsom rywfaint o amrywiadau yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos arferion diogelu amserol ac effeithiol a oedd yn gydnaws â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, gellid atgyfnerthu'r cofnodion drwy fynd ati'n gyson i nodi tystiolaeth o'r holl gamau rhesymol a gymerwyd i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses ddiogelu. |
| Partneriaeth | 5.1 | Clywsom negeseuon cyson gadarnhaol am y trefniadau gweithio mewn partneriaeth gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad. Ar lefel strategol, mae'r uwch-arweinwyr yn cydweithio i ymdrin â heriau adrannol trawsbynciol. Disgrifiodd un uwch-reolwr y strwythur uwch-reoli fel 'powerhouse' o ran cyflawni nodau. Yn allanol, clywsom am gydberthnasau gwaith rhagorol â'r arweinydd strategol yn y gwasanaethau iechyd cymunedol. Gwelsom dystiolaeth o bartneriaethau a oedd o fudd uniongyrchol i bobl, er enghraifft o ran datblygu cartrefi gofal i blant yng Ngheredigion sy'n golygu y gallant aros yn eu cymunedau eu hunain, a phrosiect y Borth, sef cyfarfod amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r gefnogaeth cywir ar yr adeg gywir. |
| Partneriaeth | 5.2 | Yn weithredol, mae trefniadau integreiddio a chydweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol yn amlwg ar draws timau. Mae strwythurau ar waith sy'n golygu y gall ceisiadau am ofal a chymorth gael eu hystyried mewn ffordd gydgysylltiedig mewn perthynas â gwasanaethau atal. Mae gwaith integredig â'r gwasanaethau iechyd a ddarperir gan dimau Brysbennu ac Asesu'r Porth Gofal yn sicrhau y gellir cyfeirio pobl tuag at y gweithiwr proffesiynol mwyaf perthnasol mewn modd amserol. Mae hyn yn annog proses o ystyried amgylchiadau pobl a risgiau mewn ffordd gyfannol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau brysbennu yn cael eu gwneud ar sail gwybodaeth. Er enghraifft, o ganlyniad i broses brysbennu effeithiol ac amserol a lwyddodd i atgyfeirio unigolyn at sylw'r tîm galluogi, llwyddwyd i ryddhau'r unigolyn hwnnw'n brydlon o'r ysbyty a rhoi cyfle iddo adennill ei annibyniaeth gartref heb fod angen gofal a chymorth ffurfiol. |
| Partneriaeth | 5.3 | Ceir lefelau presenoldeb da gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol mewn fforymau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys cynadleddau amddiffyn plant. Disgrifiodd ymarferwyr y prosesau ymgysylltu yn ystod y cyfarfodydd hyn fel prosesau 'eithriadol' a nodwyd enghreifftiau lle roedd pediatregwyr yn aml yn bresennol. Clywsom fod adroddiadau cynadleddau yn cael eu rhannu fel mater o drefn, ond mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu cofnodion cynadleddau mewn modd amserol ar ôl y cynadleddau. Roedd tystiolaeth o drefniadau cydweithio â gweithwyr iechyd i'w gweld yn ffeiliau nifer bach o'r plant anabl a welwyd ac o anghytuno iach rhwng gweithwyr proffesiynol ar brydiau. |
| Partneriaeth | 5.4 | Mae llawer o drefniadau partneriaeth cadarnhaol gan ysgolion. Er enghraifft, gwelsom lwybr clir a oedd yn galluogi plant sy'n derbyn gofal i gael gafael ar gymorth iechyd emosiynol drwy'r Cynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) a mentrau mwy cyffredinol fel arolygon i dargedu grwpiau penodol o blant a risgiau cyd-destunol ynghylch materion fel fêpio. Mae'n amlwg bod partneriaethau da ar waith rhwng ysgolion a gweithwyr ieuenctid, cwnselwyr ysgol a swyddogion cynhwysiant a bod y partneriaethau hynny o fudd i blant. |
| Partneriaeth | 5.5 | Dywedodd staff gwaith cymdeithasol wrthym fod amseroldeb ac ansawdd cyfraniadau partneriaid at asesiadau yn dda. Gwelsom enghreifftiau o drefniadau gweithio mewn partneriaeth amlasiantaethol effeithiol ac ymrwymiad i gefnogi teuluoedd a chadw plant o fewn eu teuluoedd. |
| Partneriaeth | 5.6 | Rhoddodd darparwyr adborth cadarnhaol ar eu cydberthnasau â'r tîm comisiynu. Soniwyd y gallai'r broses dendro fod yn heriol, ond nodwyd bod yr awdurdod lleol yn gefnogol ac yn cynnal gweithdai i symleiddio'r broses ac i esbonio'r disgwyliadau. Dywedodd darparwyr hefyd fod y tîm comisiynu yn barod i wrando ar eu barn ac i weithredu er mwyn gwella materion. |

| Thema | Cyf AGC | Meysydd i'w Gwella | Perchennog | Camau Gweithredu | Erbyn | Diweddariad 1 Medi 2023 | RAG | Adolygiad Craffu 1 Craffu Cymunedau Iachach 22 Tachwedd 2023 | RAG | Adolygiad Terfynol a Chwblhau | RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **The local authority must ensure people's voice is central to the work they undertake with people.** | DP | *Caiff y polisi cofnodi ei ddiwygio er mwyn cyfeirio'n benodol at y gofyniad i gofnodi'r angen am asesiad gofalwr a'r cynnig sy'n cael ei wneud. | 31.12.23 | Bydd y Polisi Cofnodi yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu trafodaethau gofalwyr ynghylch eu hanghenion. | | Heb ei gwblhau eto ond yn cael ei adolygu a bydd yn cael ei weithredu erbyn y dyddiad dyledus. | | | |
| | | | RC | *Sefydlu fforwm Profiadau Gofal - bydd y fforwm yn cydweithio â ni i gomisiynu gwasanaethau a datblygu polisïau a bydd cynrychiolydd o'r fforwm yn rhan o'r cyfweliadau ar gyfer rolau allweddol. | | Mae datblygiadau ar waith i sicrhau bod profiad plant sy'n derbyn gofal yn cael ei gymhathu i feysydd busnes yr awdurdod lleol. Bu buddsoddiad o'r Rhaglen Dileu Elw i gryfhau'r cymorth a gynigiwn i rai sy'n gadael gofal. Bydd penodi Rheolwr Tîm ar gyfer y rheini sy'n Gadael Gofal yn cryfhau'r cymorth i'r rheini sy'n gadael gofal a'r rheini sy'n gweithio gyda nhw. | | Cynhaliwyd y Cyfarfod Rhianta Corfforaethol cychwynnol ym mis Medi a oedd yn gydweithrediad rhwng Cynghorwyr a Swyddogion i godi proffil gweithgareddau Rhianta Corfforaethol ar draws y Cyngor. Bydd gweithgareddau pellach i ddatblygu gwaith y Cyfarfod Rhianta Corfforaethol yn cael eu cynnal trwy fis Tachwedd, Rhagfyr a Ionawr gyda Chyfarfod Rhianta Corfforaethol addas i'r diben yn cael ei sefydlu ym mis Chwefror 2024. | | | |
| | | | RC/EJ | *Cydweithio ag ysgolion i nodi a chefnogi gofalwyr ifanc mewn addysg. | | Bydd y gwaith hwn yn dechrau pan fydd y flwyddyn ysgol newydd yn dechrau | | Mae gwaith wedi dechrau gyda rhanddeiliaid allweddol, ond mae angen gwaith pellach i nodi gofalwyr ifanc trwy archwilio cyfleoedd o fewn PCC a Dysgu Gydol Oes. | | | |
| | 2.9 | **The local authority must ensure practitioners consistently comply with the general duty to promote the well-being of the carer, by explicitly offering carers assessments to people to discuss what support they require, with reasons for refusal of an assessment routinely recorded.** | | * Cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Perfformiad am y modd yr ydym yn cydymffurfio â'r gofynion o ran Asesiadau Gofalwyr gan gynnwys y wybodaeth yn y Cynlluniau Busnes. | | Pan fydd adolygiad yr Ombwdsmon wedi'i gwblhau rhoddir ystyriaeth i'w gynnwys yn y Cynllun Busnes | | Cytunwyd ar amserlen adolygiad thematig yn y Bwrdd Llesiant Gydol Oed a chaiff ei gwblhau o fewn y 12 mis nesaf | | | |
| | | | | * Adolygu pob dogfen i sicrhau eu bod yn nodi'r angen i gynnig Asesiad Gofalwr | | Mae hwn yn cael ei adolygu a bydd yn cynnwys unrhyw argymhellion o adolygiad yr Ombwdsmon. Hefyd mae hyn yn cael ei ail-fframio o fewn datblygiad yr Arwyddion Diogelwch. | | Fel yr uchod | | | |
| | | | | **Donna Pritchard fydd y Swyddog Arweiniol dynodedig wrth i'r gwaith datblygu gofalwyr gael ei wneud. Bydd y rôl hon yn cael ei hailystyried ar ddiwedd adolygiad yr Ombwdsmon.** | | Greg Jones bellach yw'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer gweithgarwch gofalwyr di-dâl ers iddo gael ei benodi ym mis Mehefin 2023. | | | | | |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.10 | **Rhaid i'r awdurdod lleol gynyddu'r ddarpariaeth seibiannau byr ledled y sir er mwyn helpu i ddiwallu anghenion llesiant rhieni a gofalwyr.** | SH/NL | *Mae'r gwaith hwn yn cael sylw fel rhan o'r trafodaethau am Seibiantgarwch / Seibiannau Gofal yn y Grŵp Llywio Gofalwyr, y Gymuned a Heneiddio'n Dda | 31.03.2024 | Mae'r gwaith hwn wedi dechrau. | | | | | |
| | | | NL | * Mae'r prosiect Dileu Elw yn canolbwyntio ar recriwtio gofalwyr maeth gan gynnwys seibiannau byr. | | Mae cyllid Dileu Elw wedi'i fuddsoddi yn y gwasanaeth maethu. Mae menter genedlaethol Maethu Cymru hefyd yn cael ei chyrchu i gynyddu nifer y gofalwyr maeth prif ffrwd a gofalwyr seibiant byr a gofalwyr seibiant. | | Mae adolygiad Cyfleoedd Dydd a Seibiant wedi'i gwblhau a bydd drafft terfynol yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 22ain Tachwedd 2023 ac i'r Cabinet ar 5ed Rhagfyr. Mae'r tîm Maethu yn parhau i symud ymlaen gyda'r gwaith o recriwtio swyddog a fydd yn cefnogi recriwtio gofalwyr maeth gan gynnwys gofalwyr maeth seibiant byr. | | | |
| | | | NL/ASE | Sicrhau bod gofalwyr wedi cael eu cynrychioli'n briodol wrth gymeradwyo gofalwyr maeth ar gyfer seibiannau byr, Llety â Chymorth a lleoliadau Cysylltu Bywydau fel y gellir gwerthfawrogi anghenion y gofalwr yn llawn. Bydd cynrychiolaeth ar y panel hefyd yn cynnig sicrwydd y bydd y plentyn/perthynas yn derbyn gofal o ansawdd da. | | Mae cynrychiolydd gofalwyr maeth ar Banel Maeth Ceredigion. Pan fydd y Paneli Llety â Chymorth a Chysylltu | | Fel y diweddariad diwethaf | | | |
| | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl - Llais a Dewis | 2.12 | **Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried ei strategaeth ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol yn ofalus er mwyn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod ganddo weithlu digonol a chynaliadwy, gyda'r capasiti a'r gallu i gyflawni cyfrifoldebau statudol yn gyson.** | RC/GE | * Mae sylw yn cael ei roi i hyn fel rhan o Ffrwd Waith Recriwtio a Chadw Llesiant Gydol Oed ac mae'n cael ei fonitro fel rhan o'r grŵp sy'n cyfrannu at Fwrdd y Rhaglen Llesiant Gydol Oed | 30.09.2023 | Mae'r mater recriwtio a chadw yn weithredol ac yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys yr hysbysebion treigl, gweithgarwch recriwtio a gomisiynwyd a'r ateb prydlon i'r holl ymholiadau. Mae'r angen i recriwtio ar draws yr holl rolau gofal cymdeithasol yn cael ei gydnabod a'i flaenoriaethu o fewn y gwasanaeth gydol oed a llesiant a chydweithwyr yn adran Pobl a Threfniadaeth. Mae'r sgôr goch yn cydnabod yr heriau difrifol wrth recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwys, therapyddion galwedigaethol a staff gofal a phreswyl. | | Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau o ran recriwtio gweithwyr cymdeithasol â chymwysterau addas yn barhaol. Mae'r heriau hefyd yn berthnasol ar gyfer recriwtio ymarferwyr â phrofiad addas fel Gweithwyr Asiantaeth. Mae'r Awdurdod Lleol yn archwilio opsiynau, gan gynnwys recriwtio dramor a defnyddio Asiantaethau i gefnogi gweithgareddau recriwtio. Bydd Strategaeth Datblygu'r Gweithlu yn llywio'r gwaith hwn ymhellach ond yn yr un modd, mae'r sgôr goch yn cydnabod yr heriau difrifol o recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwys, therapyddion galwedigaethol a staff gofal a phreswyl. Yn gadarnhaol, rydym wedi gallu recriwtio Rheolwr y Tîm o fewn y tîm Therapi Galwedigaethol. | | | |
| | | | | * Caiff y Strategaeth ei hadolygu fel rhan o Gynllun diwygiedig y Gweithlu. | | Mae'r Cynllun Gweithlu sydd newydd ei gyhoeddi yn cydnabod ac yn adlewyrchu heriau recriwtio. | | Yn parhau i gael ei ddatblygu. | | | |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.13 | **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff ymarfer ei oruchwylio mewn modd cadarn gan y tîm rheoli ac y cynhelir sgyrsiau myfyriol, gan gofnodi digon o wybodaeth i ddangos y penderfyniadau a wnaed.** | RC | *Mae gwybodaeth wedi'i rhannu ynglŷn â'r polisi goruchwylio diwygiedig ac mae sylw wedi'i roi i hyn yn y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd | 30.06.2023 | Cyhoeddwyd y polisi goruchwylio newydd ei lansio gan y cyfathrebu mewnol. Ymgymerwyd â'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd drwy ymgynghori â'r gweithlu cyfan. Bydd cyfathrebu mewnol yn rhoi gwybod am y lansiad ffurfiol. | | Mae Polisi Goruchwylio newydd wedi'i lansio ond bydd gweithgarwch parhaus o ran sicrhau ansawdd yn cefnogi'r naratif bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd arferion, myfyrio a dadansoddi sy'n cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau a'r ymyriadau a ddarperir i bobl. | | | |
| | | | Swyddog Sicrhau Ansawdd | * Mae angen cynnal Archwiliad Thematig er mwyn medru deall y darlun llawn | | Mater o arfer cofnodi yw hwn a fydd yn destun adolygiad thematig. | | Mae ystod lawn o gamau gweithredu blaenoriaethol Gweithgarwch Archwilio wedi'u cynhyrchu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd Llesiant Gydol Oed. Dros y 12 mis nesaf bydd y gweithgarwch sicrhau ansawdd yn cael ei gyflwyno yn y meysydd gwasanaeth blaenoriaethol sy'n triongli ansawdd a safon arferion a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar bobl Ceredigion. | | | |
| | | | | * Mae angen diweddaru'r Polisi Cofnodi | | Fel yr uchod | | Fel yr uchod. | | | |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.14 | **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ganddo weithlu cymwys a hyderus.** | | * Caiff Dadansoddiad o'r Anghenion Hyfforddi ei gwblhau bob blwyddyn, ac mae arfarniadau hefyd yn cael eu cwblhau. Bydd yr Arfarniad Blynyddol yn ystyried yr holl anghenion hyfforddi gan gynnwys y rhai gorfodol a'r rhai arbenigol. | 30.09.2023 | Mae cylch yr Arfarniad Blynyddol wedi cychwyn gyda phwyslais cryf ar gefnogi'r gweithlu i gwblhau hyfforddiant yn unol â'u harbenigedd ac i nodi anghenion hyfforddi yn y dyfodol. | | | | | |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.15 | Nododd y staff fod cefnogaeth gan gyfoedion o fudd iddynt ac y byddent yn croesawu mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb mewn swyddfeydd. Clywsom y gall fod yn anodd trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar gyfer gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant oherwydd diffyg cyfleusterau addas. Roedd hyn yn cynnwys cynadleddau amddiffyn plant lle mae'r teulu wedi nodi y byddai'n well ganddynt gyfarfod wyneb yn wyneb. **Mae hyn yn rhywbeth y dylai'r awdurdod lleol ei ystyried.** | | * Mae'r swyddfeydd bellach ar agor a gall y staff gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. | | Mae'r model hybrid ar waith. | | Mae swyddfeydd yn parhau ar agor sy'n cefnogi gweithio hybrid. | | | |
| | | | | * Mae'r lleoliadau ar gyfer Cynadleddau Amddiffyn Plant yn brin ond maent ar gael. Bydd y Rheolwr Tîm Sicrwydd Ansawdd yn cwblhau archwiliad o'r lleoliadau addas sydd ar gael ar gyfer Cynadleddau Amddiffyn Plant a bydd yn cyflwyno'r opsiynau sydd ar gael fel y gallwn eu hystyried. | | Mae lleoliadau newydd ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant wedi'u nodi. Fodd bynnag, mae lle o hyd i wella nifer y lleoliadau addas i'w defnyddio ar gyfer cynadleddau wyneb yn wyneb | | Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi lleoliadau addas ar draws y Sir drwy weithio gyda sefydliadau partner, gan gynnwys y 3ydd sector. | | | |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.16 | **Rhaid i'r awdurdod lleol lunio a gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd cadarn.** | ASE | * Mae'r ymgynghoriad ynghylch y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd bellach wedi dod i ben ac mae'r adborth a ddaeth i law yn cael ei ystyried. Caiff newidiadau eu gwneud i gryfhau'r dulliau gweithredu lle bynnag bo hynny'n briodol. | 30.06.2023 | Fframwaith Sicrhau Ansawdd i'w lansio 1 Hydref 2023. | | Fel uchod, cytunwyd ar y fframwaith sicrhau ansawdd ac mae ar waith. | | | |
| | | | | * Mae swydd y Swyddog Sicrwydd Ansawdd wedi ei hysbysebu | | Gwnaed apwyntiad | | Fel yr uchod | | | |
| | | | | * Mae swydd y Swyddog Cymorth Sicrwydd Ansawdd wedi ei hysbysebu | | Cynhelir cyfweliadau ddechrau mis Medi. | | | | | |
| | | | | * Caiff cynllun gwaith ar gyfer archwiliad thematig ei ddatblygu. | | Cynllun gwaith arfaethedig i'w gyflwyno i Fwrdd Rhaglen Llesiant Gydol Oed ar 25.09.2023 | | | | | |
| Pobl - Llais a Dewis | 2.17 | **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau yr ymatebir i gwynion yn gyson yn unol â'r amserlenni a bennir yn "Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014", a bod y gwersi a ddysgir o ymateb i gwynion yn ysgogi gwelliannau.** | RC | * Datblygu traciwr ar gyfer adolygu holl gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhan o gyfarfodydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol rheolaidd gyda'r Rheolwr Cwynion, er mwyn adolygu ymatebion a sicrhau bod amserlenni yn cael eu gwireddu, o bob persbectif. Bydd y cyfarfodydd adolygu yn cael eu cynnal bob pythefnos. | 30.06.2023 | Bellach mae cyfarfod bob pythefnos rhwng Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Rheolwr Cwynion i drafod a chydlynu gweithgarwch cwynion. | | Cynhelir y cyfarfodydd hyn yn rheolaidd rhwng y Tîm Cwynion a Sylwadau o Ganmoliaeth gan Gwsmeriaid a'r DSS. | | | |
| | | | | * Bydd perchnogaeth y traciwr yn gorwedd gyda Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn partneriaeth â'r Rheolwr Cwynion. | | Fel yr uchod | | Fel yr uchod | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | * Bydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd mewn sefyllfa i gasglu a gweithredu'r hyn a ddysgir o gwynion, drwy wersi cyswllt log a ddysgwyd trwy Ddysgu a Datblygu, a thrwy Adolygu Polisïau | | Bydd y gwaith hwn yn dechrau pan fydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd yn dechrau yn ei swydd ar 1 Hydref 2023. Bydd y wybodaeth a gesglir o'r cyfarfodydd monitro a gynhelir rhwng y Rheolwr Cwynion a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gymorth i adnabod themâu a thueddiadau sy'n cyfrannu at wella gwasanaethau. Y nod yw lleihau nifer y cwynion trwy ddysgu oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau. | | Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddwyn ymlaen o ystyried bod y swyddog Sicrhau Ansawdd wedi dechrau yn ei swydd ym mis Hydref 2023. | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| Atal | 3.9 | **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau presennol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael ymateb amserol yn gyson pan fyddant yn cysylltu ag ef.** | | *Ailedrych ar y protocol rhwng Clic a'r Timau Brysbennu Porth Gofal a Gwaith Cymdeithasol er mwyn sicrhau mynediad at y rhai sy'n arwain ar achosion | 30.09.2023 | Mae adolygiad cynhwysfawr o Lwybrau a Phrotocolau yn cael ei gynnal. Yn ystod mis Medi, mae cyfres o weithdai wedi'u trefnu i gynnwys rheolwyr o bob rhan o'r gwasanaeth Llesiant Gydol Oed. Y diben yw atgyfnerthu'r angen am drosglwyddo achosion yn effeithlon a nodi cyfleoedd i feithrin gallu. | | Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. | | | |
| | | | | * Angen sicrhau bod adborth yn cael ei roi i'r atgyfeirwyr ar yr adeg y gwneir penderfyniad | | Gweler uchod | | Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a bydd yn cael ei gefnogi gan waith y Swyddog Sicrhau Ansawdd. | | | |
| | | | | * Angen nodi Sicrhau Ansawdd thematig ar gyfer y broses. | | Gweler uchod | | Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo | | | |
| Atal | 3.10 | **Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd y camau gofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amserlenni ar gyfer adolygiadau statudol a sicrhau y caiff pob gweithiwr proffesiynol perthnasol ei wahodd i gymryd rhan**, gan ei fod yn colli'r cyfle i sicrhau bod ei adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl. | RC | * Datblygu cynllun gweithredu penodol a rhaglen waith i ddatrys achosion sy'n cronni | 31.01.2024 | Gweler uchod | | Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. | | | |
| Atal | 3.11 | **Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio mewn modd strategol a gweithredol gyda'i bartneriaid i ystyried ffyrdd o liniaru'r sefyllfa.** | DP | * Mae gweithgor eisoes wedi'i sefydlu ac mae'r broses dendro yn cael ei hadolygu | 30.06.2023 | Roedd y broses dendro wedi'i hadolygu a'r arferion wedi'u diwygio yn unol â hynny | | | | | |
| Atal | 3.12 | **Dylai'r awdurdod lleol ymgysylltu â phobl sy'n profi nam ar y synhwyrau i glywed eu llais er mwyn dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau.** | HW | * Mae ffrwd waith Technoleg ac Offer Cynorthwyol yn canolbwyntio ar y Gwasanaeth Synhwyraidd gyda'r bwriad o ailgynllunio'r gwasanaeth | 31.03.2024 | Mae penodiad y Rheolwr Gofal a Alluogir gan Dechnoleg a Gwasanaethau Synhwyraidd wedi cryfhau'r dull gweithredu o ddefnyddio technoleg yn y lleoliadau gofal. Mae'r ffrwd waith yn parhau i fod yn weithredol. | | Mae'r ffrwd waith yn parhau i ganolbwyntio ar y rhaglen hon ac mae cynllun gweithredu gwasanaethau wedi'i ddatblygu i ddatblygu gwasanaethau ymhellach. | | | |
| Atal | 3.13 | **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn deall y gyfradd ailatgyfeirio uchel, er mwyn i'r arweinwyr allu bod yn dawel eu meddwl bod achosion yn cael eu cau/cyfeirio'n briodol ac er mwyn darparu tystiolaeth glir bod rheolwyr yn goruchwylio'r sefyllfa.** | TJ | * Bydd hyn yn rhan o gylch y flwyddyn gyntaf o adolygiadau thematig i'r Swyddog Sicrhau Ansawdd, ond mae hefyd yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd fel rhan o'r gwaith parhaus o fonitro'r broses Brysbennu ac Asesu Porth Gofal Plant. Nodwyd yr ystadegyn ailgyfeirio cyn yr arolygiad. | 31.03.2024 | Mae'r data hwn yn cael ei ddadansoddi fel rhan o'r gwaith Llwybrau a Phrotocolau sy'n mynd rhagddo | | Mae gwaith ar hyn yn parhau i fynd rhagddo. Un maes gwaith allweddol a nodwyd yw cipio data a gwybodaeth yn briodol i hysbysu'r gwasanaeth mewn perthynas ag atgyfeiriadau. | | | |
| Atal | 3.14 | **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r broses o ryddhau gorchmynion gofal.** | ASE | * Mae eisoes yn rhan o'r Strategaeth Cydweithredu, Dysgu ac Addasu ac yn ymgorffori cynllun clir i gefnogi lleihau neu atal plant rhag cael eu lletya gan yr awdurdod lleol. Mae Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar yn allweddol yn hyn o beth. | 30.06.2023 | Mae cyllid Dileu Elw wedi cael ei ddefnyddio i brynu gallu ychwanegol o ran gwasanaethau cyfreithiol i ryddhau gorchmynion gofal lle mae plant bellach yn ddiogel gartref neu gyda theulu neu Warcheidwaid Arbennig. | | | | | |
| | | | | * Ar hyn o bryd mae dirymu penderfyniadau ynghylch 10 o blant yn cael eu hystyried. | | Diddymwyd 8 gorchymyn gofal a newidiwyd 3 gorchymyn gofal yn Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig. | | | | | |
| Atal | 3.15 | **Dylid parhau i roi blaenoriaeth i ymdrechion i recriwtio gofalwyr maeth.** | NL | * Mae recriwtio Gofal Maeth yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Grŵp Llywio Plant a'r Gwaith Dileu Elw. Dyrannwyd rhagor o gyllid ychwanegol i Geredigion drwy Faethu Cymru (02.05.2023) er mwyn cryfhau a datblygu'r seilwaith ar gyfer gofalwyr maeth. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar Integreiddio Maethu gyda MyAccount a fydd yn cefnogi'r broses recriwtio er mwyn helpu'r nodwedd adrodd ddyddiol ehangach at ddibenion rhyddhau capasiti. | 30.06.2023 | Mae gwaith ochr yn ochr â'n cynlluniau mewnol a menter Maethu Cymru yn parhau gyda chyllid i gefnogi recriwtio wedi'i ddyrannu o'r gronfa genedlaethol i ddatblygu gwasanaethau ymhellach. | | Dim diweddariad pellach | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | * Mae Cynllun Ymgysylltu Gofalwyr Maeth yn ei le er mwyn caniatáu rhannu syniadau arloesol rhwng swyddogion a gofalwyr maeth. | | Mae Cyfarfodydd Ymgysylltu Rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng swyddogion a gofalwyr maeth i gynhyrchu syniadau arloesol i recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth. | | Fel y diweddariad blaenorol | | | |
| Atal | 3.16 | Cafwyd sylwadau cymysg gan ddarparwyr y trydydd sector ynghylch trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda rhai yn datgan y gellid cydnabod pa wasanaethau sydd ar gael yn well a gwneud mwy i'w cydgysylltu ar lefel strategol. Gallai fod o fudd i'r awdurdod lleol gynnal ymarfer mapio i ddeall amrywiaeth gwasanaethau'r trydydd sector gyda'r nod o annog mwy o gydweithio. | | * Mae'r Panel Contractau wedi'i sefydlu i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd contractau ac i benderfynu a yw gwerth am arian yn cael ei gyflawni. | 30.06.2023 | Mae'r Panel Contractau a'r dogfennau ategol bellach wedi'u sefydlu a byddant yn dechrau ym mis Medi 2023. | | Wrthi'n mynd rhagddo | | | |
| | | | | * Mae angen i hyn fod yn rhan o adolygiad grantiau'r trydydd sector, gyda'r bwriad o resymoli cyllid. Bydd gwaith y Panel Cysylltiadau yn cynorthwyo i gasglu'r wybodaeth hon at ddibenion rhesymoli. | | Gweler uchod | | | | | |
| | | | | * Dylai Strategaethau Gwasanaethau i Gleientiaid hefyd benderfynu ar yr angen am wasanaethau | | Gwaith yn mynd rhagddo | | | | | |
| Atal | 3.17 | **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff cynlluniau eu diweddaru'n unol â safonau statudol.** | RC | *Angen deall y problemau sy'n achosi i amserlenni lithro, yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn adroddiadau monitro'r Swyddog Adolygu Annibynnol, yw a yw hyn yn dal yn wir nawr bod Innovate mewn lle. Bydd yn adolygu yn dilyn adrodd ar ddata Ch4 i ddadansoddi'r perfformiad. | 30.09.2023 | Mae angen mwy o ddadansoddi yn y maes hwn. Er bod amserlenni wedi gwella. | | Mae gwaith yn parhau yn y maes hwn gyda chydweithio agos rhwng y Rheolwr Corfforaethol a Rheolwr Gwasanaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol. Mae angen dadansoddiad pellach yn y maes hwn er bod yr amserlenni yn parhau i wella. | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | RC | * Angen protocol er mwyn i Ymgynghorwyr Personol wella amserlenni ar gyfer Cynlluniau Llwybr Pobl sy'n Gadael Gofal. | | Bydd yr adolygiad hwn yn dechrau pan ddaw Rheolwr y Tîm i'w swydd ar ôl 18 Medi 2023. | | Mae cynnydd yn y maes hwn yn datblygu gyda recriwtio parhaol i swydd Rheolwr y Tîm o fewn y Tîm Gadael Gofal. Byddant yn gallu parhau i ddatblygu'r gwaith hwn a rhoi dadansoddiad pellach o angen. | | | |
| Llesiant | 4.5 | Mewn perthynas â diogelu oedolion, a oedd yn gryfder yn flaenorol, gwelsom rywfaint o amrywiadau yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos arferion diogelu amserol ac effeithiol a oedd yn gydnaws â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, gellid atgyfnerthu'r cofnodion drwy fynd ati'n gyson i nodi tystiolaeth o'r holl gamau rhesymol a gymerwyd i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses ddiogelu. | EU/RC | Cynhelir adolygiad o'r arferion presennol o'r dechrau i'r diwedd er mwyn asesu effeithiolrwydd yr arferion presennol a nodi unrhyw feysydd y mae angen eu cryfhau er mwyn annog cyfranogiad y person sydd mewn perygl. | 30.06.2023 | Mae datblygiad yr Arwyddion Diogelwch wedi rhoi cyfle i ymarferwyr a rheolwyr adolygu arferion i gefnogi effeithiolrwydd a gweithrediad. Mae'r gwaith yn parhau ond mae'r ansicrwydd o ran WCCIS yn risg. | | Mae momentwm ymwreiddio gwaith yr Arwyddion Diogelwch ar draws y sefydliad yn parhau gyda chyflwyno'r Llysgenhadon Arferion Arwyddion Diogelwch a bellach fforwm arferion rheolaidd lle mae arferion da yn cael eu dathlu. Mae peth ansicrwydd ynghylch heriau a galluogrwydd WCCIS ar hyn o bryd ond mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu teclynnau sy'n cefnogi cyflwyno arferion yn uniongyrchol i bobl. | | | |
| Llesiant | 4.6 | **Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau presennol i sicrhau y caiff canlyniadau atgyfeiriadau eu rhannu â'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos ac y caiff cofnodion eu rhannu â'r unigolion a oedd yn bresennol mewn modd amserol.** | TJ a'r holl reolwyr sy'n gwneud penderfyniadau | Mae angen sicrhau bod atgyfeirwyr yn cael eu hysbysu ar adeg gwneud penderfyniad o fewn Brysbennu Porth Gofal a bod adborth yn cael ei gofnodi. | 30.06.2023 | Mae hyn yn rhan o Adolygiad y Llwybrau a Phrotocolau. | | | | | |
| | | | ASE/EU | Angen sicrhau bod cofnodion yn cael eu cymeradwyo mewn modd amserol a'u dosbarthu yn ôl yr angen o fewn canllawiau arferion da. | | Mae cymorth i fusnesau wedi'i gryfhau i fynd i'r afael â'r mater hwn. | | | | | |
| | | | TJ | Datblygu cyfres adrodd, hefyd angen canolbwyntio ar ôl-groniad o achosion yn cau | | Mae'r set ddata ar gyfer y gwasanaeth wedi'i hadrodd wrth Fwrdd Llesiant Gydol Oed ac mae'r ôl-groniad wedi gwella ac yn parhau i gael sylw. | | | | | |
| Llesiant | 4.7 | **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau goruchwylio cadarn ar waith ar gyfer arferion diogelu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.** | RC/EU | Mae angen ei adolygu | | Mae'r Adolygiad Amddiffyn Plant Cryno wedi gweithredu fel prawf yn y maes hwn. Mae adborth wedi nodi nad yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi nodi gwendidau yng Ngheredigion. Fodd bynnag, cynhelir archwiliad llawn o weithdrefnau sy'n ymwneud â phlant ac oedolion. | | Fel rhan o'r cynllun archwilio cadarn, bydd y maes gwaith hwn yn ffocws i'r gwaith hwn er mwyn rhoi sicrwydd a thystiolaeth bod arferion yn y maes hwn yn parhau'n gryf. Fel y nodwyd, ni nodwyd dim gwendidau yng Ngweithgarwch Arolygiaeth Cymru a bydd yn parhau i fod yn ffocws i weithgareddau'r arolygiaeth yn y dyfodol yn unol â chyflwyno gweithgareddau arolygu yn y dyfodol. | | | |
| Llesiant | 4.8 | **Mae'r awdurdod lleol yn rhoi prosesau amddiffyn plant ar waith mewn modd amserol ond rhaid iddo sicrhau y caiff cyfranogiad amlasiantaeth ei ystyried cyn gynted â phosibl.** | Bydd pob rheolwr yn cyfrannu at yr archwiliad | Cynnal archwiliad thematig o drafodaethau a chyfarfodydd strategaeth i ddeall lefelau presenoldeb yn unol ag amserlenni statudol. | 30.06.2023 | Cynhaliwyd adolygiad o'r mater hwn ar gyfer Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ac adroddwyd arno drwy'r Grŵp Gweithredol Lleol. | | | | | |
| Llesiant | 4.9 | **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig ag asesiadau oedolion er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn yr holl ofynion statudol craidd a amlinellir yn Rhan 3 o'r Cod Ymarfer (Asesu Anghenion Unigolion).** | EU/Swyddog Sicrhau Ansawdd | * Ymdrinnir â'r gwaith hwn fel rhan o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac archwiliadau thematig. Mae adolygiad dogfen yn cael ei gynnal o dan y rhaglen ddatblygu Arwyddion Diogelwch. | 30.09.2023 | Bydd hyn o fewn cylch gorchwyl y Swyddog Sicrhau Ansawdd pan fydd ei ddyletswyddau'n cychwyn. | | Fel y nodwyd yn gynharach. | | | |
| Llesiant | 4.10 | **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ei bolisi cofnodi er mwyn cynnwys trefniadau goruchwylio cadarn gan reolwyr i wneud yn siŵr y caiff pob cofnod ei gynnal yn briodol.** | EU/Swyddog Sicrhau Ansawdd | *Adolygiad polisi i fod yn rhan o rôl y Swyddog Sicrhau Ansawdd<br>*Cyfathrebu cyffredinol i reolwyr mewn perthynas â chanlyniad yr arolygiad a'r meysydd dysgu trwy weithdai | 30.09.2023 | | | Fel y nodwyd uchod. | | | |
| Partneriaeth | 5.7 | Ceir tystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthnasau gwaith proffesiynol â phobl ar sail cydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Fodd bynnag, mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â phobl a gofalwyr ar ganlyniadau a gaiff eu llunio ar y cyd mewn rhai meysydd gwasanaeth. Fel y crybwyllwyd eisoes yn gynharach yn yr adroddiad, mae angen cynnwys asesiadau ac egwyddorion Deddf 2014 fel rhan amlycach o ymarfer, yn enwedig wrth gwblhau asesiadau cymesuredd. Ar adegau, caiff y cymorth ei arwain gan y gwasanaeth a'i roi ar ffurf weithredol yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig a'r canlyniadau y mae'r unigolyn am eu cyflawni. | Bydd pob rheolwr yn cyfrannu at yr archwiliad | Cynhelir archwiliadau thematig er mwyn mesur mewnbwn teuluoedd i'w cynlluniau, a chymesuredd asesiadau. | | Mae'r Asesiad Cymesur wedi'i adolygu ac yn cael ei ddefnyddio. | | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Partneriaeth | 5.8 | **Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei strategaeth gyfathrebu er mwyn sicrhau bod ei fodel yn ddealladwy ac yn hygyrch.** | | Dolen i Ffrwd Waith Cyfathrebu - Datblygu gwefan | 30.09.2023 | Mae gwaith gydag asiantaethau partner yn mynd rhagddo i'w cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth o'r model Llesiant Gydol Oed. | | | | | |
| Partneriaeth | 5.9 | Ar y cyfan, mae darparwyr o'r farn bod yr awdurdod lleol wedi bod yn glir ynghylch ei weledigaeth o'r model LlGO. Fodd bynnag, nawr bod y broses ailstrwythuro wedi'i chwblhau, nid yw rhai ohonynt yn glir ynghylch y sefyllfa bresennol o fewn rhai timau. Dylai'r awdurdod lleol ystyried rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w bartneriaid am y trefniadau gweithredol presennol. | | * Cynllun Cyfathrebu i gael ei ddiweddaru, i sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r strwythur newydd a rolau timau a gwasanaethau o fewn y model. Bydd diweddaru'r wefan o gymorth yn y maes hwn. Byddwn yn ystyried hwyluso gweithdy ar draws Llesiant Gydol Oes ar gyfer darparwyr trydydd sector. | | Fel yr uchod. | | | | | |
| Partneriaeth | 5.10 | Nododd rhai darparwyr nifer y gweithwyr asiantaeth a oedd yn gweithio fel rhan o rai o'r timau, a all effeithio ar ansawdd atgyfeiriadau ac sydd wedi atal cyfarfodydd rhag cael eu cynnal pan nad yw'r gweithwyr wedi'u lleoli yng Ngheredigion. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw penderfyniadau i gyflogi staff asiantaeth sy'n gweithio y tu allan i Geredigion yn achosi unrhyw rwystrau neu oedi o ran rhoi cymorth i bobl. | Rheolwyr Corfforaethol | Bydd cylch gorchwyl yn cael ei adolygu ar gyfer pob cyfarfod Gofal a Llesiant Gydol Oed, a chytuno ar y dull gweithredu parhaus o gynnal cyfarfodydd hybrid. | | Cwblhawyd | | | | | |

Y cynnig o ran asesu Gofalwyr a chynlluniau cymorth
Llais - gofalwyr ifanc, oedolion sydd wedi dioddef camdrin honedig
Ail-atgyfeiriadau

Polisi Cofnodi
Polisi Gofalwyr

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Tachwedd 2023** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol – 2022-2023** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Adrodd i'r Cyngor ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y flwyddyn 2022-2023** |

**Y rheswm pam mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**

**Nid yw'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am yr adroddiad ond fe'i cyflwynir yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

**Cefndir**

Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ddiffinio yn Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o dan y "Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol".

Nod yr Adroddiad Blynyddol yw creu darlun cyflawn o Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion, gan roi adborth amserol ar gyfer prosesau cynllunio a chyllido.

Mae'r adroddiad yn disgrifio sut mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngheredigion wedi perfformio yn ystod y flwyddyn 2022-2023.

Bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i helpu i lywio eu gwerthusiad annibynnol nhw o Geredigion yn ogystal â'u gwaith arolygu.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam.**

Naddo, nid polisi neu strategaeth yw hwn.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:**
**Cydweithio:**
**Cynnwys:**

**Atal:**
**Integreiddio:**

**<u>Argymhelliad / Argymhellion:</u>**

**Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**<u>Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:</u>**

**<u>Enw Cyswllt:</u>** Audrey Somerton-Edwards

**<u>Swydd:</u>** Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

**<u>Dyddiad yr Adroddiad:</u>** 30 Hydref 2023

**<u>Acronymau:</u>**

AGC – Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW yw'r acronym Saesneg)

Cyngor Sir Ceredigion

Audrey Somerton-Edwards



# Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion – Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol 2022/2023

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Cyflwyniad** | **3** |
| | Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig Llesiant Gydol Oes | 5 |
| 2 | **Crynodeb o'r Perfformiad** | **6** |
| | Crynodeb o'r Gwasanaethau Oedolion a Chomisiynu | 6 |
| | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 15 |
| 3 | **Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?** | **23** |
| | Strategaeth Anabledd Dysgu 2018-2023 a Chynllun Gweithredu Gwella | 24 |
| | Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | 26 |
| | Wythnos Genedlaethol Diogelu | 28 |
| | Cymorth i Ofalwyr ac Ymgysylltu | 29 |
| | Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a Chymorth Cynnar Ceredigion | 31 |
| | Gwasanaethau Cymorth ac Atal Ceredigion | 34 |
| | Gweithgarwch Arolygiaeth Gofal Cymru | 36 |
| | Cwynion a Chanmoliaeth | 38 |
| 4 | **Hyrwyddo a gwella llesiant y rhai rydym yn eu helpu** | **48** |
| | Gwasanaethau Tai Awdurdod Lleol Ceredigion | 50 |
| | Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham? | 54 |
| 5 | **Sut rydym ni'n gwneud yr hyn a wnawn** | **55** |
| | Sut ydym wedi cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu gofal cymdeithasol? | 55 |
| | Ein hadnoddau ariannol a sut ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol | 61 |
| | Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd | 62 |
| 6 | **Gwybodaeth bellach a dogfennau allweddol** | **65** |

# 1. Cyflwyniad

Pleser mawr gennyf yw cyhoeddi adroddiad blynyddol 2022-23. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon, Sian Howys oedd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei gwaith cyn ymddeol ym mis Tachwedd 2022. Ymunais â Chyngor Sir Ceredigion ym mis Ebrill 2022 ac ymgymerais â rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro ar 01 Tachwedd 2022, wrth i'r gwaith o recriwtio Cyfarwyddwr parhaol fynd rhagddo.
.

Yn unol â disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gyhoeddi adroddiad am ddyletswyddau'r Awdurdod Lleol o ran y Gwasanaethau Cymdeithasol dros y flwyddyn flaenorol.

Dyma ein cyfle i werthuso ein perfformiad a thynnu sylw at wersi y mae angen eu dysgu a gwelliannau y mae angen eu gwneud. Hefyd, mae'n gyfle i amlinellu arferion da a dathlu llwyddiannau.

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r hyn sydd ar y gweill dros y flwyddyn nesaf.

Nid yw'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhai hawdd i bobl Ceredigion nac ychwaith i weithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y pandemig yn hynod heriol i'n gofalwyr, ein cartrefi preswyl, y gweithwyr hynny a oedd yn ymweld â phobl yn eu cartrefi ac i'r holl weithwyr eraill. Mae effaith y pandemig yn parhau, a gallwn weld yr heriau sydd wedi codi yn sgil yr argyfwng costau byw. Rydym wedi ymgodymu â heriau sylweddol o fewn y gweithlu ac rydym wedi cymryd camau cadarn a phendant i fynd i'r afael â nhw.

Wrth edrych yn ôl ar y 12 mis diwethaf, yr hyn sy'n fy nharo yw pa mor heriol y mae pethau wedi bod ar draws holl wasanaethau Llesiant Gydol Oes. Bu'r galw cynyddol ar draws ein gwasanaethau yn sylweddol ac yn barhaol. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysau ar draws ein cymunedau. Rhaid ystyried effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol diwallu anghenion sy'n fwyfwy cymhleth, delio â heriau costau byw ac ymdrin â materion yn dilyn Covid. Mae hyn oll wedi cael effaith sylweddol ar fywydau pobl gan achosi oedi o ran sicrhau bod pobl yn medru cael triniaeth drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Serch hynny, rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hunan angerdd ac ymrwymiad staff y gwasanaeth Llesiant Gydol Oes i wneud eu gorau glas i ddarparu gwasanaethau i gymunedau Ceredigion. O ystyried y pwysau hyn, mae ein perfformiad yn 2022-23 wedi bod yn eithriadol.


Rydym wedi parhau i weithio gyda theuluoedd i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym yn parhau i weithio gyda theuluoedd i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Rydym wedi parhau i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi gan sicrhau nad oes angen iddynt fynd i ofal preswyl cyn pryd. Er gwaethaf heriau mawr yn y farchnad Gofal Cartref, mae ein gweithlu wedi gweithio oriau ychwanegol gan weithio ar eu diwrnodau i ffwrdd er mwyn cadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi tra bo ein tîm comisiynu yn gweithio gyda'r farchnad i aildrefnu a recriwtio. Mae'r her hon yn parhau. Rydym wedi parhau i groesawu technoleg ar draws ein gwasanaethau i wella effeithlonrwydd a sicrhau diogelwch i'n cymunedau.

Yn ystod Mawrth 2023, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolygiad Gwerthuso Perfformiad a dynnodd sylw at ein cryfderau ar draws y gwasanaeth cyfan. Roedd yr adroddiad terfynol yn cydnabod bod y meysydd yr oeddem yn ceisio eu gwella yn cyd-fynd â'u barn nhw am y gofynion. Roedd yn foddhaol gweld y rheoleiddiwr yn cymeradwyo ein cynlluniau a'n datblygiadau.

Rydym yn croesawu adborth ynghylch yr adroddiad hwn oddi wrth bob un o'n rhanddeiliaid.

Bu'n bleser mawr i mi fod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion dros y 12 mis diwethaf.

# Y Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig Llesiant Gydol Oes




Yn ystod 2022-23, gwnaed cynnydd sylweddol o ran mynd ati i weithredu ein Model Gwasanaethau Integredig Llesiant Gydol Oes.

Yn ystod 2021, cymeradwywyd y Strategaeth Gydol Oes a Llesiant ar gyfer 2021-27. Rhaglen uchelgeisiol ar gyfer newid oedd hon er mwyn cyflawni ein pum Amcan Strategol allweddol:

- Hyrwyddo iechyd a llesiant cadarnhaol a chefnogi pobl i helpu eu hunain
- Mynd ati'n gymesurol wrth gynnig gofal a chymorth a reolir
- Amddiffyn unigolion a'u cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- Cryfhau teuluoedd er mwyn i blant a phobl ifanc gael aros gyda'u teulu
- Galluogi unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau eu hunain

Mae'r model wedi'i adolygu ac mae rhai newidiadau strwythurol wedi'u gwneud i sicrhau bod y gwasanaethau Llesiant Gydol Oes yn darparu gwasanaethau yn effeithiol ac yn effeithlon.

Ym mis Mawrth 2023, cawsom adborth oddi wrth Arolygiaeth Gofal Cymru a oedd yn cydnabod gwerth y model Llesiant Gydol Oes a'i ddull arloesol o weithredu wrth ddiwallu anghenion y gymuned ym mhob cyfnod o fywyd. Cyhoeddwyd yr adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar 18 Mai 2023.

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiwyd ar hyrwyddo hinsawdd o gydweithio a chydweithredu ar draws y tri Phorth er budd y gymuned. Llwyddwyd i wneud hyn drwy fynd ati i sicrhau bod y gweithlu a'r aelodau etholedig yn deall ein busnes a bod modd iddynt gyfrannu at y cynlluniau a'r datblygiadau wrth i fodel integredig y Gwasanaeth Llesiant Gydol Oes aeddfedu.

Audrey Somerton-Edwards
Cyfarwyddwr Statudol Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal

# 2. Crynodeb o'r Perfformiad


Mae Adran 145, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn amlinellu ein dyletswyddau o ran adrodd ar berfformiad swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r wybodaeth isod yn nodi sut yr ydym wedi perfformio ym mhrif feysydd y gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

## Crynodeb o'r Gwasanaethau Oedolion a Chomisiynu

Mae perfformiad y gwasanaethau i oedolion yn foddhaol a rhoddir blaenoriaeth i'r angen i gadw at ganllawiau a phrotocolau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol mewn cydweithrediad â'r asiantaethau sy'n bartneriaid er mwyn diwallu anghenion oedolion.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein prif feysydd gwasanaeth megis CLIC ar gyfer gwneud y cyswllt cychwynnol a chyfeirio pobl at y Porth Gofal am gyngor a chymorth gan frysbennu ac asesu anghenion mewn modd cymesurol. Mae'r meddylfryd o gynnig cymorth cynnar wedi'i ymgorffori ym model y Gwasanaeth Llesiant Gydol Oes. Manteisir ar bob cyfle i ymyrryd yn gynnar drwy ddefnyddio gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar. Mae parhau i wneud hyn yn golygu nad yw anghenion yn cael eu huwchraddio i lefelau lle bo angen ymyrraeth statudol.


### Diogelu Oedolion




Bu gostyngiad yng nghanran yr ymholiadau Amddiffyn Oedolion a gwblhawyd o fewn saith diwrnod gwaith yn ystod 2022-2023.


Y prif reswm am hyn yw y bu pwysau a heriau sylweddol ar wasanaethau yn ystod y cyfnod hwn o ran capasiti'r gweithlu. Gan fod rhai aelodau o'r staff yn weithwyr asiantaeth ac nad oeddent yn byw yn lleol, bu rhywfaint o oedi o ran staff yn mynd allan i ymweld â phobl yn y gymuned i siarad â nhw fel rhan o'r Ymholiad Diogelu. Serch hynny, cafodd achosion risg uchel eu blaenoriaethu a chymerwyd camau amserol yn ôl yr angen i sicrhau diogelwch pobl.

### Oedolion sy'n cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl




Y cyfnod o amser ar gyfartaledd (diwrnodau) y bydd oedolion (65 oed neu'n hŷn) yn cael cymorth mewn cartreif gofal preswyl

Mae gofal preswyl yn darparu amryw o opsiynau ar gyfer unigolion sydd angen gofal 24 awr. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau tymor byr, dros dro a pharhaol. Mae amrywiol opsiynau o ran gofal preswyl ar gael, gan ddibynnu ar anghenion yr unigolyn. Mae Ceredigion yn rhedeg pum cartref gofal preswyl ei hun (Mawrth 2023) ac mae'n comisiynu nifer o gwmnïau preifat yng Ngheredigion a rhai ymhellach i ffwrdd.




Oedran cyfartalog yr oedolion sy'n cael eu derbyn i gartrefi gofal preswyl


### Cyngor a Chymorth i Oedolion

Dechreuodd y CYNLLUN PEILOT O RAN YR OEDI YN ACHOS LLWYBRAU GOFAL ym mis Tachwedd 2022 a dyma oedd dechrau'r fframwaith newydd ar gyfer adrodd ynghylch oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbyty, trefn a oedd wedi'i hatal ar ddechrau'r pandemig. Bydd oedi yn achos llwybrau gofal yn digwydd pan fydd claf mewnol yn defnyddio gwely un o ysbytai'r GIG, ac er ei fod yn barod i symud ymlaen i'r cam gofal nesaf, mae'n cael ei atal rhag gwneud hynny am un neu fwy o resymau. Y diffiniad diwygiedig ar gyfer cofnodi oedi yw:

> "unrhyw glaf a oedd yn barod yn glinigol i ddychwelyd adref neu symud ymlaen i'r cam nesaf o ofal a brofodd oedi o fwy na 48 awr wrth drosglwyddo"


Bu gostyngiad bach yn nifer yr achosion o oedi wrth ryddhau rhwng 2021-22 a 2022-23. Nid oedd y ffigurau wedi dychwelyd i'r hyn a oeddent yn y cyfnod cyn y pandemig a'r rheswm am hyn oedd y newid yn y diffiniad ynghylch 'oedi wrth drosglwyddo gofal' a'r modd y mae hyn yn cael ei adrodd. Mae'r llif o ran rhyddhau cleifion wedi gwella oherwydd bod mwy o gapasiti o fewn y gwasanaethau

gofal cartref ac ailalluogi lle bo modd i'r rheiny sydd ag anghenion llai cymhleth gael eu rhyddhau yn fwy sydyn gan fod cefnogaeth ar gael. Mae'r gwelyau cam i lawr yng Nghartref Tregerddan hefyd wedi cefnogi'r rheiny sydd wedi'u rhyddhau ac sydd angen cymorth 24 awr wrth iddynt wella o salwch difrifol. Caiff y person ei ryddhau i'r gwely cam i lawr am gyfnod o hyd at 6 wythnos. Mae hyn wedi caniatáu i asesiadau gael eu gwneud ar ôl i'r person wella'n llawn a dangos eu bod yn medru cyflawni dyletswyddau hyd eithaf eu gallu.




**Canlyniadau asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn**

Pan fydd angen cyngor a chymorth ar oedolion, caiff yr holl atgyfeiriadau newydd i'r awdurdod eu hanfon ymlaen i wasanaeth brysbennu ac asesu integredig y Porth Gofal. Mae gan y Porth Gofal wasanaeth brysbennu integredig ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae'r gwasanaeth brysbennu integredig yn cynnwys uwch weithiwr cymdeithasol, nyrs, therapydd galwedigaethol a ffisiotherapydd. Bydd y gweithwyr hyn yn cynnal asesiadau holistaidd sy'n gymesur gan ganolbwyntio ar fesurau atal ac ymyrraeth gynnar a fydd yn lleihau'r angen am ofal a chymorth statudol hirdymor.




**Outcomes of new assessments completed for adults during the year**



- Ystyr 'unrhyw ddull arall' yw'r canlyniadau cenedlaethol eraill ar gyfer asesiadau nad ydynt yn ymwneud â 'chynlluniau gofal a chymorth' neu 'unrhyw anghenion cymwys'.
- Nid oes unrhyw anghenion gofal a chymorth i'w diwallu.= Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.
- Gellir diwallu anghenion trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. = Roedd modd diwallu'r anghenion trwy ddulliau eraill.
- Gellir diwallu'r anghenion trwy ddarparu gwasanaethau ataliol. = Roedd modd diwallu'r anghenion trwy ddulliau eraill.
- Gall anghenion gael eu diwallu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolion eu hunain (gyda neu heb gymorth gan eraill). = Roedd modd diwallu anghenion trwy ddulliau eraill.

- Gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu fel arall ddiwallu'r anghenion. = Roedd modd diwallu anghenion trwy ddulliau eraill.
- Dim ond trwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth (lle bo'r anghenion yn gymwys) y gellir diwallu anghenion. = Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth yr oedd modd diwallu anghenion.

Porth Gofal yw hwb integredig Ceredigion ar gyfer gwneud penderfyniadau, pennu lefel yr angen ym mhob achos a sicrhau'r canlyniadau gorau i'r unigolion hynny. Mae Porth Gofal wrth galon gwasanaethau sy'n sicrhau bod trigolion yn derbyn yr ymyrraeth sydd orau ar gyfer eu hanghenion, neu eu bod yn cael eu cyfeirio at gymorth cynnar neu wasanaethau arbenigol.

**Amcanion Porth Gofal yw:**

- bod oedolion yn aros yn eu cymuned a'u cartref eu hunain, gan fod mor annibynnol â phosib a gwella eu sefyllfa iechyd a'u hansawdd bywyd.

**Yr hyn y mae Porth Gofal yn ei gynnig:**

- Gwasanaeth ymatebol i drigolion Ceredigion.
- Asesiad o anghenion ar sail cryfderau gan ganolbwyntio ar ddewis a rheolaeth y defnyddiwr gwasanaethau drwy ddefnyddio fframwaith Arwyddion Diogelwch.
- Gostyngiad yn yr amser y mae gweithwyr Gofal Cymdeithasol yn ei dreulio ar benderfynu a yw person yn gymwys am wasanaethau statudol.
- Gwasanaeth sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n bodloni gofynion statudol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Gwasanaeth diogel sy'n nodi dinasyddion bregus sy'n agored i risg, ac sy'n ymateb yn effeithiol.

**Yr hyn y mae Porth Gofal yn ei gyflawni:**

- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn y gymuned, sy'n gwella'r cyswllt rhwng pobl a'u cymunedau.
- Annog dull cytbwys o asesu anghenion gan sicrhau bod dinasyddion wrth galon y sgyrsiau, y penderfyniadau a'r sgwrs "beth sy'n bwysig".
- Brysbennu atgyfeiriadau yn amlddisgyblaethol er mwyn nodi'r gweithiwr proffesiynol cywir i ymateb e.e. ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol neu weithiwr gofal cymdeithasol, i sicrhau'r ymateb iawn ar yr adeg iawn.
- Darparu asesiad mwy cyson a chydlynus o ofal a chymorth.
- Gwella llif y wybodaeth rhwng gwasanaethau gan arwain at benderfyniadau cyflymach ynghylch anghenion pobl a'r cymorth iddynt.
- Llai yn mynd i'r ysbyty drwy ddarparu gwasanaeth ailalluogi ymatebol a chyflym.
- Darparu gwasanaeth mewngymorth i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal drwy ryddhau pobl o'r ysbyty yn amserol.
- Ymrwymo i weithio'n integredig gyda phwyslais ar adsefydlu cadarnhaol i'r dinasyddion.


Mae pobl yn parhau i dderbyn cyngor arbenigol ar yr adeg y daw'r atgyfeiriad i law ac mae model arwyddion diogelwch yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r sgyrsiau gyda'r unigolion gan ganolbwyntio ar gryfderau a gwytnwch y person. Yn ystod y broses o gwblhau asesiad cymesurol, darperir gwybodaeth a chyngor a cheir trafodaethau ynglŷn ag adsefydlu gan fod Porth Gofal yn cydweithio'n agos â gwasanaethau therapi. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi medru cau nifer o atgyfeiriadau yn dilyn asesiad cymesurol gan fod gwybodaeth, cyngor a chymorth wedi'u darparu, atgyfeiriadau wedi'u gwneud i'r trydydd sector neu fod yr achos wedi'i isgyfeirio i gymorth therapi ar gyfer

adsefydlu. Os yw'n ymddangos bod gan rywun anghenion mwy cymhleth, caiff asesiad gofal cymdeithasol ei gynnal lle bydd gweithiwr yn gwneud asesiad cynhwysfawr.  Yn dilyn yr asesiad hwn, mae'n bosib y bydd y canlyniadau'r un fath ac yn dilyn cymorth ataliol megis galluogi, mae'n bosib y bydd yr unigolion dan sylw wedi adennill eu hannibyniaeth ac ni fydd angen cynllun gofal a chymorth arnynt ac ni fydd angen darparu gwasanaeth hirdymor ar eu cyfer.


### Darparu Gofal Cartref

Yn ystod y cyfnod rhwng 04-04-2022 a 27-03-2023, amrywiodd nifer y bobl a oedd yn aros am ofal cartref rhwng 70 a 105.

### Rhestr Aros ar gyfer Gofal Cartref - 2021/2022



Rhestr Aros ar gyfer Gofal Cartref - 2022/2023





Yn ôl y darparwyr, roedd y broses o recriwtio staff newydd wedi parhau'n sefydlog ond yn anffodus roeddent yn colli rhai staff yn yr un modd. Roedd y ffigwr net o ran colli / ennill staff ar draws y darparwyr yn aml yn negyddol. Roedd y staff yn nodi amrywiol resymau dros adael y gwasanaeth. Un o'r prif resymau oedd y ffaith nad oeddent yn medru parhau i dalu'r gost o redeg cerbyd. Hefyd, ymhlith y rhesymau eraill a roddwyd oedd tâl isel; y ffaith nad oeddent yn addas ar gyfer gwaith gofal (effaith ar iechyd corfforol/meddwl), costau gofal plant anfforddiadwy ac effaith Covid 19.


Cafodd y trafodaethau yn y cyfarfodydd rheolaidd rhwng y darparwyr a'r Cyngor Sir a'r trafodaethau yn ystod y sesiynau galw heibio anffurfiol a gynhaliwyd dros yr haf, gan gynnwys yr holl bryderon ac ymholiadau a godwyd, eu rhannu a'u gwyntyllu ar y lefel uchaf gan gynnwys y Prif Weithredwr. Cafodd y darparwyr sicrwydd bod eu lleisiau yn cael eu clywed ar y lefelau uchaf.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y bobl a oedd yn derbyn gofal cartref yn **2022**.


Cafwyd gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn derbyn gofal cartref yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022 ac arhosodd y ffigurau yn go debyg yn ystod ail hanner y flwyddyn, sef o gwmpas tua 277.




Mae'r graff isod yn dangos nifer y bobl a oedd yn derbyn gofal cartref yn **2023**:
Roedd cyfanswm nifer y bobl a oedd yn derbyn gofal cartref wedi aros yn sefydlog sef tua 277 yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a Rhagfyr 2022 ond roedd y cyfanswm wedi cwympo i gyfartaledd o 265 yn chwarter olaf y flwyddyn.



2022/2023




| | Cyfanswm yr oriau o ofal cartref a brynwyd gan y sector annibynnol | Unigolion sy'n derbyn gofal wedi'i gomisiynu |
|---|---|---|
| 2017/2018 | 239470.73 | 551 |
| 2018/2019 | 241300.18 | 571 |
| 2019/2020 | 234499.18 | 540 |
| 2020/2021 | 209780.61 | 487 |
| 2021/2022 | 192088.00 | 278 |
| 2022/2023 | 187068.4 | 275 |

Tîm Galluogi 2022/2023

| 2022/23 | Cyfanswm yr atgyfeiriadau | Galluogi | Hirdymor | Wedi cau | Wedi cychwyn |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill-22 | 60 | 41 | 19 | 15 | 45 |
| Mai-22 | 43 | 28 | 15 | 18 | 25 |
| Mehefin-22 | 40 | 29 | 11 | 18 | 22 |
| Gorffennaf-22 | 54 | 41 | 13 | 26 | 28 |
| Awst-22 | 57 | 36 | 21 | 34 | 23 |
| Medi-22 | 35 | 20 | 15 | 6 | 29 |
| Hydref-22 | 48 | 33 | 15 | 18 | 30 |
| Tachwedd-22 | 33 | 22 | 11 | 12 | 21 |
| Rhagfyr-22 | 27 | 19 | 8 | 16 | 11 |
| Ionawr-23 | 42 | 28 | 14 | 16 | 26 |
| Chwefror-23 | 52 | 42 | 10 | 33 | 19 |
| Mawrth-23 | 23 | 27 | 6 | 4 | 19 |
| CYFANSWM | 514 | 366 | 158 | 216 | 298 |

Rydym yn parhau i fwynhau perthynas waith dda â’r darparwyr sy'n rhoi sail dda i ni adeiladu arni. Mae hyn yn caniatáu i ni weithio’n agos â’r farchnad drwy’r cyfan. Mae’r darparwyr yn parhau i roi gwybod bod eu cyfarfodydd rheolaidd gyda Chyngor Sir Ceredigion yn fuddiol ac yn llawn gwybodaeth. Gall y darparwyr godi materion pwysig a gellir nodi tueddiadau a'u huwchgyfeirio pan fydd angen gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn rhanbarthol.

Mae gennym nifer o ardaloedd anghysbell a diarffordd lle mae’n anodd iawn caffael gofal. Er mwyn rhyddhau’r pwysau mewn rhai meysydd a chynorthwyo â’r broses o ryddhau cleifion o ysbytai, rydym yn parhau i ddefnyddio ein tîm Galluogi mewnol i gefnogi â’r gwaith o ddarparu gofal cartref gan bontio rhwng yr achosion hirdymor a’r sawl sy’n cael eu rhyddhau o ysbytai.

Ar 27/03/2023, roedd 12 o ddarparwyr a oedd wedi'u comisiynu yn darparu tua 3943.88 awr o ofal bob wythnos. Roedd gwasanaeth galluogi mewnol Cyngor Sir Ceredigion yn cefnogi 36 o bobl ag anghenion gofal hirdymor.

Yn gyffredinol, mae ein darparwyr gofal cartref wedi gallu cydweithio i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn rhannau o’r sir. Mae sawl un o'n darparwyr yn cynnig gwasanaethau gofal yn sir Benfro, sir Gaerfyrddin a Phowys ac maent yn gallu llanw’r bylchau yn eu rotas ar draws ffiniau’r siroedd.

## Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Ar draws y Gwasanaeth Llesiant Gydol Oes, rydym wedi parhau i gydweithio â'r Gwasanaeth Ysgolion a'r asiantaethau sy'n bartneriaid i gefnogi plant bregus a'u teuluoedd. Ein hamcan yw ymyrryd a darparu cymorth cynnar ar y cyfle cyntaf. Rydym wedi nodi bod anghenion teuluoedd bregus bellach yn fwyfwy cymhleth yn sgil y pandemig ac effaith yr argyfwng costau byw.

Mae nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion wedi codi'n raddol yn ystod 2022-23 ac erbyn diwedd y flwyddyn, roedd 52 o blant ar y gofrestr. Ar ddiwedd blwyddyn 2021-22, 45 o enwau oedd ar y gofrestr. Yn dilyn y pandemig, mae cymdeithas unwaith eto yn fwy agored ac rydym wedi medru gweld mwy o blant a chael mynediad atynt. Serch hynny, mae'r pwysau a roddwyd ar y teuluoedd yn ystod y cyfnod hwnnw yn parhau i effeithio arnynt. Ymhlith y categorïau risg a nodwyd fwyaf aml oedd cam-drin domestig, iechyd meddwl rhieni a chamddefnyddio sylweddau neu niwed emosiynol /seicolegol.

Erbyn 31 Mawrth 2023, roedd nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu i 132. Mae hyn yn cymharu â 101 ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn monitro'r cynnydd hwn yn agos er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithio gyda'r teulu cyfan fel ffordd o sicrhau bod modd iddynt gael eu hail-uno'n ddiogel, lle bynnag bo hynny'n bosibl. Os nas oes modd i'r plant hynny fod yn ddiogel gartref gyda'u teulu, fel rhieni corfforaethol cyfrifol, rydym yn gwneud ein gorau glas i'w cefnogi a'u harwain nhw.


Yn ystod 2022-23, cafwyd cynnydd yn nifer y plant ar eu pen eu hunain a gyfeiriwyd at Geredigion drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol a oedd yn ceisio lloches. Mae hyn wedi cyfrannu at y cynnydd mawr yn nifer y plant sydd yn ein gofal.

Mae diffyg lleoliadau addas ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi bod yn thema gyson yn lleol fel y bu ar draws Cymru. Ein hamcan yw lleihau ein dibyniaeth ar y ddarpariaeth 'sy'n gwneud elw' drwy ganolbwyntio ar opsiynau lleol o ansawdd da sy'n gost-effeithiol. Rydym wedi dechrau ar y gwaith o ehangu a datblygu ein lleoliad mewnol ein hunain a chefnogi adnoddau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Ngheredigion yn aros yng Ngheredigion gan fod yn agos at eu teulu, eu hysgol a'u cymuned leol.

Rydym yn datblygu darpariaeth o ran gofal preswyl a llety â chymorth ac rydym yn dwysáu ein hymdrechion i recriwtio gofalwyr maeth lleol.


Fel bob amser, mae ein gweithlu a'n gofalwyr maeth wedi bod yn ddiwyd iawn gan gynnig cefnogaeth arbennig i blant a'u teuluoedd gan wneud llawer mwy na'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl ohonynt, ac rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am hyn.

Canlyniad yr Asesiadau




Canlyniadau asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn


Cwblhawyd 2,138 o asesiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y mwyafrif llethol angen cyngor a chymorth yn hytrach nag unrhyw Gynllun Gofal a Chymorth ffurfiol. Mae Cyngor Ceredigion wedi datblygu Asesiad Cymesurol, sy'n ein galluogi i ddefnyddio un ffurflen ar gyfer ymholiadau y gellir eu datrys trwy gyngor, fodd bynnag os canfyddir trwy sgwrs bod angen cymorth i deulu yna gellir cofnodi'r penderfyniad hwn. Yna gellir defnyddio'r wybodaeth i gefnogi asesiad llawnach o anghenion plentyn heb i deuluoedd orfod ailadrodd gwybodaeth y maent wedi'i rhoi.





Outcomes of new assessments completed for children during the year

Mae tystiolaeth glir o fwy o alw ac ochr yn ochr â hyn, cynnydd mewn cymhlethdod. Nid yw hyn o reidrwydd yn cael ei adlewyrchu yn y siart ond mae nifer yr asesiadau newydd lle na nodwyd dim anghenion cymwys wedi haneru o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

## Plant sy'n Derbyn Gofal





Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i gynyddu ac yn ogystal â'n plant o Geredigion rydym bellach yn rhan o'r cynllun trosglwyddo cenedlaethol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches. Mae'r niferoedd cynyddol yn golygu bod llawer o'n plant yn byw y tu allan i Geredigion. Mae hyn oherwydd bod lleoliadau'n gyfyngedig yng Ngheredigion a dim lleoliadau preswyl yn y sir. Mae daearyddiaeth Ceredigion yn aml yn golygu hyd yn oed gyda phlant mewn awdurdodau lleol cyfagos eu bod yn dal yn ddigon agos i fynychu eu hysgol a bod yn rhan o'u cymuned. Mae gwaith wedi'i wneud ar ryddhau gorchmynion gofal gan fod nifer o blant yn cael eu lleoli gydag aelodau'r teulu ac yn ffynnu fel y gallwn ryddhau gorchmynion gofal yn hyderus.





Mae canran y plant sy'n cael eu dychwelyd adref yn parhau'n isel, a esbonnir hyn gan nifer o ffactorau o'r penderfyniad i ddod â phlant i mewn i ofal yw'r un cywir. I'r cymhlethdod o amgylch anghenion rhieni ac er mwyn sefydlu sefydlogrwydd i blant, nid yw'r amserlen ar gyfer rhieni yn gwneud y newidiadau gofynnol yn cyd-fynd ag anghenion y plentyn.

## Y Gofrestr Amddiffyn Plant



Canran yr ailgofrestriadau o blant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant awdurdodau lleol


Bu gostyngiad bach o 12.5% yn 20-21 i 10.0% yn 22-23 mewn perthynas ag ailgofrestru plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol. Ers i gyfyngiadau COVID gael eu codi'n llawnach yn y cyfnod 2021-22, a bod plant/pobl ifanc yn dychwelyd i addysg a bod gan asiantaethau allanol fwy o gysylltiad â phlant/pobl ifanc, cafwyd canran uchel o ailgofrestriadau ac roedd yna deuluoedd mwy o faint penodol lle'r oedd nifer neu'r holl blant o fewn un teulu yn cael eu hailgofrestru. Bu gostyngiad bach yng nghanran yr ail-gofrestriadau yn ystod 22-23, ond mae'n dal yn uchel ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â hyn ac i sicrhau pan fydd plant yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr, bod y newidiadau a wneir yn y teulu a chan y teulu yn fwy cynaliadwy. Hefyd, mae mwy o fynediad at gymorth cam i lawr i blant a theuluoedd, a fyddai'n atal yr angen i ailgofrestru.



**Hyd yr amser ar gyfartaledd ar gyfer yr holl blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn**

Yn ystod y cyfnod 2022-23 roedd yn fwy posibl gweithio gydag asiantaethau partner i gymryd camau gyda phlant a theuluoedd a oedd wedi bod ar y gofrestr am gyfnod hwy, ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn yr amser y mae plant wedi bod ar y gofrestr amddiffyn plant mewn perthynas â 2020-21 ond cynnydd bach o 21-22. Fodd bynnag, mae cymhlethdod achosion a lefel y risg gyffredinol i blant a gyflwynir yn dal yn uchel ac yn golygu bod plant ar y gofrestr am gyfnod hwy.

**Plant sy'n derbyn gofal – sefydlogrwydd lleoliadau**




**Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn**

Mae nifer y plant sy'n profi 3 lleoliad neu ragor yn parhau i fod yn rhy uchel, er bod gostyngiad o'r llynedd ac yn ôl i ganran blynyddoedd blaenorol mae'n faes sydd angen mwy o waith. Mae'r nifer cyfyngedig o leoliadau ynghyd â lleoli plant hŷn ag anghenion cymhleth yn aml yn golygu bod angen nifer o leoliadau cyn y gellir dod o hyd i leoliad hirdymor addas i blentyn.


Mae hyfforddiant ychwanegol gyda gofalwyr maeth er mwyn rhoi'r sgiliau iddynt i ddiwallu anghenion plant ac yn ein cyfarfodydd paru rydym yn nodi rhai o'r heriau yr ydym yn ymwybodol ohonynt. Mae'r galw ar leoliadau yn enwedig lleoliadau maeth wedi arwain yn gynyddol at lai o gynigion i blant iau fyth a fyddai wedi cael eu rhoi mewn gofal maeth yn awtomatig o'r blaen. Rydym yn aml yn gorfod defnyddio lleoliadau preswyl ac yna unwaith yr ydym yno, yn negodi i ddod o hyd i leoliad maeth. Gall hyn ochr yn ochr â lleoliad brys wedyn gyfrannu at y ffigur o 3 lleoliad.

Mae angen mwy o hyfforddiant i staff o fewn lleoliadau preswyl gan fod gennym ystod o ddarparwyr a'n profiad, ac mae gofal plant yn amrywio yn enwedig o ran sut maent yn ymateb i ymddygiad heriol. Rydym yn ceisio comisiynu darparwyr sy'n ystyriol o drawma ac sy'n defnyddio dull adferol o weithredu, fodd bynnag mae'r farchnad ofal yn golygu bod y galw yn fwy na'r ddarpariaeth, felly mae'r opsiynau'n gyfyngedig iawn wrth ddod i nodi lleoliadau.

Yr hyn sy'n gadarnhaol i'n plant yw bod gan y mwyafrif o Blant sy'n Derbyn Gofal un lleoliad ac ar y cyfan mae'r mwyafrif helaeth o blant yn parhau i fod wedi ymgartrefu yn eu lleoliadau, fodd bynnag mae angen canolbwyntio o hyd ar y rheini sy'n ansefydlog am ba bynnag reswm.


**Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal**
Mae gadael gofal yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at grŵp o blant sydd rhwng 16 a 18 oed ac sydd wedi bod mewn gofal o'r blaen ond nad ydynt bellach yn "derbyn gofal" yn gyfreithiol gan yr Awdurdod Lleol.  Pan fydd plant yn gadael gofal, mae dyletswydd arnom o hyd i gynorthwyo'r bobl hyn tan eu bod yn 21 oed, neu'n 25 oed os ydynt mewn addysg llawn amser neu os oes anabledd ganddynt.

Mae Ymgynghorwyr Personol sy'n gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn gweithio'n galed i sicrhau bod y plant sy'n gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'n bwysig bod y bobl ifanc hyn yn gallu cael y sgiliau i fynd â nhw i fyd oedolion. Mae'r heriau i'r plant hyn yn fwy na'r plant hynny o deuluoedd sefydlog a chefnogol, sy'n wynebu anawsterau i gael gwaith neu addysg yn yr un modd.





**Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal**

Mae'n braf gweld canran y bobl ifanc sy'n parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Rydym yn ariannu cymorth ymarferol i'r bobl ifanc hyn gan ddefnyddio Grant Dydd Gŵyl Dewi.





**Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal**



**Canran y bobl sy'n gadael gofal sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn**

Mae darpariaeth tai ar gyfer pob person ifanc yn her ond yn fwy felly i'n pobl sy'n gadael gofal nad oes ganddynt rieni cefnogol sefydlog yn aml. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl sy'n gadael gofal gyda'n gwasanaeth tai a darparwyr tai. Mae'r bobl ifanc yn cael eu cefnogi pan fo methiant o ran tai, gall hyn yn aml fod oherwydd perthnasoedd yn chwalu, diweithdra a phroblemau y tu hwnt i reolaeth y person ifanc. Mae'r fenter Pan Fydda i'n Barod wedi rhoi cymorth ychwanegol i bobl ifanc sy'n cyrraedd 18 oed ac yn gallu byw gyda'u gofalwyr maeth fel lletywyr nes eu bod yn barod i bontio i annibyniaeth.

**Ymgyrch Encompass**




Daeth Ymgyrch Encompass yn fyw yng Ngheredigion ym mis Tachwedd 2019. Mae wedi bod yn gweithio'n gyson dda ers ei lansio, gan rannu gwybodaeth bob dydd gydag Ysgolion (neu wrth i hysbysiadau ddod i law). Cafwyd rhai hysbysiadau o bryd i'w gilydd ynghylch teuluoedd gan awdurdodau cyfagos ar y ffin â Cheredigion, ond mae'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei hanfon ymlaen fel y bo'n briodol. Ers y cyfnod clo, mae rhannu gwybodaeth wedi newid o alwadau ffôn i e-byst, ac yna diwygiwyd y Protocol Rhannu Gwybodaeth i ddarparu ar gyfer hyn. Fodd bynnag, nodir nad yw'r hysbysiad e-bost llawn yn cael ei rannu ag ysgolion yn ei gyfanrwydd, mae pob adroddiad yn cael ei olygu i gynnwys manylion y dioddefwr/troseddwr honedig yn unig. Manylion y plant, a oeddent yn bresennol ai peidio, amser/dyddiad a chrynodeb o'r digwyddiad. Mae ysgolion yn cael eu briffio'n llawn ynghylch y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i blant sydd wedi dod i gysylltiad â digwyddiadau naill ai yn eu cartrefi, neu o fewn eu perthnasoedd eu hunain, gan gynnwys Sbectrwm (Hafan Cymru) a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru. Er mwyn sicrhau bod Ysgolion yn cadw golwg lawn ar ddiogelwch a lles eu disgyblion, mae Gwasanaeth Diogelu'r Ysgol yn parhau i rannu hysbysiadau hefyd drwy gydol gwyliau'r ysgol, felly nid yw wedi'i gyfyngu i amser tymor yn unig. Mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn adlewyrchu nifer yr atgyfeiriadau a gafwyd, sy'n dangos cynnydd blynyddol ers 2020.

# 3. Sut mae pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?

Mae Gwasanaethau Llesiant Gydol Oed Cyngor Sir Ceredigion wedi parhau i weithio ochr yn ochr â'r holl asiantaethau ac unigolion i wella a thrawsnewid ein gwasanaethau gyda'u mewnbwn. Rydym wedi ymgysylltu'n ffurfiol mewn partneriaeth a thrwy drefniadau rhanbarthol ar lefel sefydliadol gyda:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Heddlu Dyfed Powys
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Archwilio Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Ar lefel unigol rydym wedi hwyluso nifer o ymgynghoriadau ac adolygiadau i helpu i arwain a chyfrannu at ein cynlluniau i wella gwasanaethau ar:

- Ofal Cartref
- Cyfleoedd Dydd a Chyfleoedd Seibiant
- Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adolygiad Cyflym Amddiffyn Plant
- Cynllun Gweithredu Strategaeth Dementia Rhanbarthol
- Adolygiad Gofal Heb ei Drefnu Archwilio Cymru

Er mwyn sicrhau cyfranogiad rydym wedi helpu pobl i gael mynediad at ymgynghoriadau trwy:

- Gyfarfod â phobl wyneb yn wyneb â siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn ôl yr angen
- Cyfarfod â phobl yn rhithwir
- Siarad â phobl ar y ffôn
- Fe wnaethom hwyluso arolwg ar-lein ac ar bapur. Roedd yr holl arolygon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ogystal ag mewn fformat hawdd ei ddeall.
- Anfonodd pobl wybodaeth ychwanegol atom fel adroddiadau trwy e-bost
- Fe wnaethom osod posteri o amgylch y gymuned mewn mannau y mae pobl yn ymweld â nhw
- Helpodd Cysylltwyr Cymunedol o'r Cyngor aelodau'r cyhoedd gyda'r arolwg

Credwn yn gryf fod y dull hwn o weithredu wedi hybu llais a rheolaeth i gymuned Ceredigion.

Yn ystod 2022-23 fe wnaethom barhau i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i grwpiau sy'n agored i niwed ac i ddadansoddi canlyniadau cwynion a sylwadau o ganmoliaeth am ein gwasanaethau.

# Strategaeth Anabledd Dysgu 2018-2023 a Chynllun Gweithredu Gwella

Mae Ceredigion yn cymryd rhan weithredol yn y Grŵp Gwella Bywydau Rhanbarthol. Bob yn ail fis mae'r grŵp hwn yn cynnal cyfarfod busnes a chyfarfod sy'n cael ei arwain a'i gadeirio gan y *Dream Team*. Mae'r *Dream Team* yn grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau, a gefnogir gan *Pembrokeshire Peoples First*, sy'n cefnogi'r grŵp rhanbarthol yn weithredol, yn enwedig gyda'r defnydd o Gyllid Gofal Integredig.

Cafodd Gwasanaethau ar gyfer Plant Anabl, Atal a Throsglwyddo eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mhedwerydd chwarter 2019-2020. Cynhaliwyd arolygiad AGC ym mis Mawrth 2023 a edrychodd ar bob tîm yn y model Llesiant Gydol Oed.

<u>Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu</u>

**Sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn gallu bod yn glir ynghylch pa gymorth y gallant ei gael, sut a phryd a ble.**

- Mae gan rai staff lwythi achosion sy'n adlewyrchu'r model Llesiant Gydol Oed, ac mae eraill yn dal i fod yn eu rôl oedolyn/plentyn i raddau helaeth. Mae hyfforddiant yn cael ei ystyried ynghylch sut y gallwn gefnogi'r gweithlu i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i fod yn hyderus wrth weithio mewn ffordd Llesiant Gydol Oed.
- Mae'r wefan ar gyfer gwybodaeth am anableddau wedi'i chychwyn ond yn y dyddiau cynnar iawn y mae hyn, a'r gobaith yw y bydd hwn yn ganllaw hawdd i bobl weld lle gallant fynd i gael cymorth a fydd yn cynnwys dolenni i'r 3ydd sector.

**Paratoi a chefnogi staff i gwblhau a chofnodi asesiadau a chynlluniau gofal o ansawdd da sy'n bodloni'r holl ofynion statudol gan gynnwys anghenion cyfathrebu'r plentyn**

- Mae goruchwyliaeth fisol staff ar waith i sicrhau ansawdd achosion byw.
- Defnyddio proffiliau 1-dudalen ar gyfer plant ar eu cofnod WCCIS.

**Paratoi a chefnogi staff i nodi, asesu a rhoi cymorth pan fo angen i ofalwyr yn unol â gofynion statudol.**

- Mae staff yn nodi gofalwyr ac yn cynnig asesiad o anghenion cymorth i ofalwyr
- Mae hyfforddiant staff ynghylch asesiadau gofalwyr wedi'i gwblhau.
- Bydd staff yn cofnodi'r rheswm dros wrthod asesiad gofalwr os yw hyn yn wir.
- Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda thîm y gofalwyr Gydol Oed a chymorth cymunedol i gyfeirio gofalwyr i'r cyfeiriad cywir.

**Sefydlu'r Gofrestr Anabledd i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'i defnyddio i fod yn sail i ddatblygiad gwasanaethau yn y dyfodol a chomisiynu strategol.**

- Mae'r gofrestr bellach yn fyw ac ar wefan Cyngor Sir Ceredigion i deuluoedd gofnodi eu data.
- Bydd hyn yn cael ei adolygu bob chwarter i nodi a llywio datblygiadau a gofynion gwasanaethau yn y dyfodol.

**Gwell darpariaeth gwasanaethau ac ystod o wasanaethau cymorth sydd ar gael i blant anabl a'u teuluoedd yn unol â'u hanghenion.**

- Mae ymgynghoriad cyhoeddus sy’n mynd rhagddo am seibiannau byr i weld beth yw anghenion defnyddwyr gwasanaethau Ceredigion.  Gobeithir cyflawni hyn erbyn diwedd y flwyddyn.
- Mae DASH wedi cael y contract i gynnig penwythnosau seibiant i rai o'r bobl ifanc y nodwyd bod angen y ddarpariaeth hon arnynt. Effeithiwyd ar y ddarpariaeth seibiant oherwydd prinder staff.
- Bydd Ceredigion yn prynu rhagor o gyfleoedd seibiant oddi wrth DASH yn ôl y galw unwaith y bydd y nifer o benwythnosau a brynwyd dan gontract wedi dod i ben.
- Rydym wedi cyflogi 2 weithiwr prosiect yn y tîm i’w galluogi i wneud gwaith uniongyrchol a chynnig cymorth ymarferol pellach i unigolion a theuluoedd yn unol â’u hanghenion asesedig.

**Mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n effeithiol i roi cymorth ac yn adolygu ac yn datblygu trefniadau comisiynu presennol ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd.**

- Mae manyleb gwasanaeth yn cael ei gweithredu.
- Cynhelir cyfarfod olrhain bob wythnos rhwng Cymorth Estynedig a chydweithwyr iechyd i drafod achosion a nodi'r person mwyaf addas i weithio gyda'r person ifanc.
- Mae perthnasoedd gwaith agos yn parhau gydag iechyd gyda digon o her pan fo angen.

**Gall plant a phobl ifanc gael mwy o gymorth ar gyfer annibyniaeth.**

- Cytunwyd ar gyllid o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i ddatblygu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol
- Gweithio’n agos gydag addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ddatblygu pecyn cymorth gwell i bobl ifanc sy’n dymuno gadael addysg ysgol yn 16 oed.

**Datblygu fframwaith effeithiol o ran sicrhau ansawdd, wedi'i ategu gan oruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr o'i swyddogaethau a'i brosesau craidd.**


- Mae templed a dulliau Arwyddion Diogelwch yn cael eu defnyddio wrth oruchwylio staff.
- Fframwaith Sicrhau Ansawdd i'w ddatblygu fel teclyn archwilio i reolwyr gynnal gwiriadau archwilio ar hap ar gyfer achosion.
- Mae rheolwyr wedi cael hyfforddiant ynghylch sgiliau goruchwylio.
- Rhaglen gymorth atal a rheoli heintiau i reolwyr mewn Cymorth Estynedig.


**Mae llais a dewis pobl yn cael eu clywed**

- Bydd cyfarfodydd ymgynghori niwrowahanol yn cael eu sefydlu yng Ngheredigion – cynhelir y 1af ym mis Medi 2023. Nod hyn yw sicrhau bod gennym lais y bobl wrth edrych ar y gwasanaethau a gynigir.
- Mae angen sefydlu grŵp plant i glywed llais y plentyn.

## Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ddigwyddiadau trawmatig sy'n effeithio ar blant. Gallai'r rhain ddigwydd wrth ddod i oed, wrth gael eu cam-drin neu wrth fyw mewn cartref sy'n cael ei effeithio gan drais domestig, camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl neu broblemau troseddol. Mae plant sy'n dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn fwy tebygol o ddatblygu ystod o glefydau cronig a dioddef o les meddyliol gwaeth.




Yn y flwyddyn 2020-2021 cynigiwyd cyfleoedd hyfforddi i staff er mwyn sicrhau ein bod ni, yng Ngheredigion, yn gallu ymyrryd yn gynharach a helpu ein gweithwyr proffesiynol i ofalu am blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'u cefnogi. Roedd hyn yn dilyn y 1829 o staff rheng flaen a gafodd eu gwneud yn ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod y flwyddyn flaenorol yn dilyn dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar draws gwasanaethau.

Er bod COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar hyfforddiant oherwydd cyfyngiadau hyfforddwyd llawer o staff mewn profiadau niweidiol yn ystod plentyndod i ddatblygu eu dealltwriaeth o effaith trawma a'r effeithiau ar blant a phobl ifanc. Gwnaeth llawer o staff hyfforddiant *Team Teach* (rheoli ymddygiad cadarnhaol) ac felly hefyd y rhaglen STAR sy'n ymdrin â cham-drin domestig a pherthnasoedd parchus. Rhoddwyd hyfforddiant therapi Tynnu Llun a Siarad i 13 aelod o staff i allu cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod yn dioddef o drawma neu iechyd meddwl gwael.

Rhoddwyd Ymwybyddiaeth o Hunan-niwed a Hunanladdiad oherwydd natur yr atgyfeiriadau sy'n cael eu hanfon am gymorth i blant a phobl ifanc mewn ysgolion ac yn y gymuned.

Roedd cyrsiau eraill yn cynnwys 'Cwnsela Creadigol', Model Gwella o Drawma, (datblygwyd y model mewn ymateb i anghenion cymhleth plant a phobl ifanc â sawl profiad niweidiol yn ystod plentyndod).

Yn ystod y flwyddyn 2022-2023 rhoddwyd hyfforddiant *Team Teach* i nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd gan mai nhw oedd yn gyfrifol am drefnu'r hyfforddiant yn uniongyrchol gyda *Team Teach*. Gofynnwyd i ysgolion nodi faint o staff oedd angen hyfforddiant Lefel 1 a Lefel 2 ac roedd y nifer oddeutu 460 ym mis Mawrth 2023.

Cafodd 11 aelod arall o'r tîm staff Cefnogi ac Atal hyfforddiant Model Gwella o Drawma ym mis Mawrth gan barhau ag ymrwymiad y sir i sicrhau bod staff yn ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn gallu ymateb i anghenion cymhleth y plant a'r bobl ifanc hynny.

Cafodd hyfforddiant oedd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mai 2022 ei roi gan Bartneriaeth Dulliau Adferol Cymru ar gyfer staff Cymorth ac Atal ynghyd â Dirprwy Bennaeth un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd yn y sir fel rhan o gynllun peilot gyda'r bwriad o gyflwyno hyfforddiant Partneriaeth Dulliau Adferol Cymru y flwyddyn nesaf.  Mater i'r ysgolion fydd trefnu'n uniongyrchol gyda Phartneriaeth Dulliau Adferol Cymru.

Yn ystod y flwyddyn 2022-2023, rhoddwyd hyfforddiant *Team Teach* i nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd gan mai nhw oedd yn gyfrifol am drefnu'r hyfforddiant yn uniongyrchol gyda *Team Teach*. Gofynnwyd i ysgolion nodi faint o staff oedd angen hyfforddiant Lefel 1 a Lefel 2 ac roedd y nifer oddeutu 460 ym mis Mawrth 2023.

Yn ystod chwe wythnos olaf tymor yr haf daeth cyllid ar gael gyda'r bwriad o gefnogi'r staff oedd angen yr hyfforddiant i allu ei gael.  Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd cyfanswm o 46 o bobl a oedd yn cynnwys gofalwyr maeth, cynorthwywyr addysgu, penaethiaid, dirprwy benaethiaid a chynorthwywyr gofal o gyfleusterau preswyl i enwi ond ychydig, trwy Lwybrau Cymorth, Porth Cymorth Cynnar yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Ysgolion.

Mae gweddill y cyllid wedi golygu bod nifer o ddyddiadau hyfforddi wedi'u rhoi ar y system archebu fewnol er mwyn i staff ysgolion allu trefnu dyddiadau cyfleus iddynt eu hunain.  Gwneir hyn yn uniongyrchol gyda'r tîm Dysgu a Datblygu a'r Gwasanaeth Ysgolion.  Y targed yw i gynifer o ysgolion â phosibl sicrhau bod eu staff wedi cael yr hyfforddiant hwn er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu ar draws yr awdurdod.

Oherwydd bod y garfan gychwynnol wedi cynnwys y rheini mewn swyddi uwch reolwyr mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol ac mae holl staff ysgolion bellach yn gallu archebu'n uniongyrchol ar unrhyw un o'r sawl dyddiad sydd ar gael eu hunain.

Trefnodd y tîm Dysgu a Datblygu ddyddiadau ar gyfer yr hyfforddiant 'Cyflwyniad i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gan ddefnyddio Realiti Rhithwir'. Mae'r hyfforddiant wedi'i anelu at staff rheng flaen sy'n gweithio gydag aelodau o'r gymuned a allai fod wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.  Mae gan yr awdurdod 14 o bensetiau VR ac erbyn diwedd Gorffennaf 2023 roedd cyfanswm o 41 aelod wedi mynychu'r hyfforddiant.  (Bydd y tîm Dysgu a Datblygu yn cyflwyno dyddiadau pellach yn unol â'r galw.)

Yn ogystal â'r dyddiadau hyn mae 3 aelod o'r tîm Cymorth ac Atal yn cwblhau diwrnod o 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' ac ers hynny maent wedi hyfforddi eu timau, tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal, tîm Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu a thîm Cymorth a Chyrhaeddiad. Mynychodd 3 aelod arall o'r tîm Cymorth i Deuluoedd a Rhianta hefyd y diwrnod 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' ac ers hynny maent wedi hyfforddi eu timau.

Mynychodd dau hyfforddwr y gynhadledd 'Cymunedau sy'n Ystyriol o Drawma' a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth a chynhalion nhw weithdy gan ddefnyddio'r clustffonau yno.  Mae penaethiaid y sir i fod i gael yr hyfforddiant yn ystod mis Medi ynghyd â Rheolwyr Timau.

Mae yna hefyd fodiwlau e-ddysgu ar gael i holl staff Ceredigion ac un o'r rhain yw 'Gofyn a Gweithredu' sydd yn benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol i'w helpu i adnabod yr arwyddion y gall plentyn neu berson ifanc fod yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a

sut i ofyn a gweithredu ar unrhyw ddatgeliad ac adrodd yn unol â hynny. Hyd at ddiwedd Gorffennaf 2023 roedd 190 o staff wedi dewis cwblhau'r modiwl e-ddysgu.

Ers dechrau'r flwyddyn academaidd hon mae cyfanswm o 19 o bobl wedi'u hyfforddi mewn technegau is-gyfeirio *Team Teach*. Mae'r rhain yn cynnwys aelodau o'r Tîm Ymgysylltu a Chyrhaeddiad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed mewn ysgolion ac yn y gymuned, staff o rai o'r ysgolion uwchradd a gofalwyr maeth. Mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi trefnu nifer o ddyddiadau ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant hwn yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf ac mae wedi'i drosglwyddo i'r ysgolion a'r adrannau perthnasol i bobl archebu lle ar y cwrs pan fyddant yn gallu. Mae Llwybrau Cymorth, o fewn Porth Cymorth Cynnar, yn cysylltu'n rheolaidd â'r Gwasanaeth Ysgolion i sicrhau bod y tystysgrifau yn cael eu hanfon at y bobl berthnasol mewn modd amserol. Mae un o ysgolion mwyaf y sir wedi trefnu sesiynau gyda'r hwyr ar gyfer yr hyfforddiant oherwydd logisteg pobl yn gorfod gyrru ar draws y sir. Mae ysgolion, ar y cyfan, wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn am yr hyfforddwyr.
Y tymor diwethaf, cynhaliwyd peilot o gyfarfodydd timau o amgylch y disgybl, y rhiant a'r lleoliad gyda 3 ysgol ac mae'r cyfarfodydd cyntaf wedi'u cynnal y tymor hwn. Diben y cyfarfodydd hyn yw nodi disgyblion o oedran cynnar sydd mewn perygl o ymddieithrio o'u haddysg, dod yn NEET ac y mae angen ymyrraeth benodol arnynt. O ganlyniad i ddefnyddio gwybodaeth y proffil asesu bregusrwydd, mae nifer o blant a phobl ifanc wedi'u nodi ac wedi'u trafod gyda gweithwyr proffesiynol i ganfod pa gymorth y gellid ei gynnig yn gynharach. Bydd y cyfarfodydd hyn yn parhau bob tymor ac maent yn gysylltiedig yn uniongyrchol â Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid Llywodraeth Cymru.

## Wythnos Genedlaethol Diogelu - Tachwedd 2022

Bu Grŵp Gweithredol Ceredigion yn cydweithio ag Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i gyflwyno rhaglen o weithgareddau i gefnogi Wythnos Genedlaethol Diogelu. Canolbwyntiodd digwyddiadau a chyfathrebiadau yn ystod yr wythnos ar themâu penodol.

Roedd un o uchafbwyntiau'r wythnos yn cynnwys lansio a dathlu adnodd hyfforddiant diogelu ac animeiddiad fideo ar gyfer gweithwyr proffesiynol, a gynhaliwyd yn Stadiwm Parc-y-Scarlets yn Llanelli. Roedd yr animeiddiad fideo wedi'i greu gan blant a phobl ifanc o Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys ac fe'i lansiwyd yn ffurfiol gan Gomisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes.

Yn ystod yr wythnos, cafwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnwys cynadleddau a gweminarau a gododd ymwybyddiaeth ac a amlygodd faterion sy'n effeithio ar blant ac oedolion sy'n wynebu risg. Roedd hyn yn cynnwys cynhadledd aml-asiantaeth ar Gam-drin Domestig a gynhaliwyd gan Heddlu Dyfed Powys, gweminar a ailedrychodd ar rai o'r themâu sy'n gysylltiedig ag Adolygiad Ymgyrch Jasmine i esgeuluso pobl hŷn mewn cartrefi gofal a digwyddiad wedi'i anelu'n benodol at ysgolion a staff addysg, i hybu iechyd a lles emosiynol cadarnhaol plant ar ôl y pandemig. Mewn gweminarau eraill, roedd pwyslais ar ddysgu o adolygiadau achosion gyda phwyslais ar ddiogelu plant sy'n byw gyda Gofalwyr Maeth, Mabwysiadwyr a Gwarcheidwaid Arbennig, a nododd pam mae'n rhaid i ymarferwyr a rheolwyr "feddwl am y teulu" bob amser a gweld yr oedolyn a'r plentyn.

Cefnogwyd y rhaglen ranbarthol hefyd gan ddigwyddiadau cenedlaethol a gynhaliwyd ledled Cymru gyfan. Roedd hyn yn cynnwys lansio safonau hyfforddi aml-asiantaeth newydd sy'n cael eu harwain gan Ofal Cymdeithasol Cymru a chynhaliwyd digwyddiad, a gynhaliwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol mewn cydweithrediad â'r Uned Atal Trais ar lunio dyfodol Diogelu yng

Nghymru.  Cynhaliwyd nifer o seminarau a gweithdai rhithwir gyda swyddogion Ceredigion yn bresennol drwy gydol yr wythnos yn archwilio'r pynciau hyn, wedi'u hategu gan ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan.

## Cymorth i Ofalwyr ac Ymgysylltu

Yn ystod 2021-22 fel rhan o'r trawsnewid tuag at y Model Gydol Oed a Llesiant, unodd dau dîm bach, Uned y Gofalwyr a Phorth y Gymuned i greu Tîm y Gofalwyr a Chymorth Cymunedol.  Mae'r gwaith i gefnogi gofalwyr wedi'i ddatblygu ac wedi'i fireinio yn ystod 2022-23.

Eleni fe wnaethom gynhyrchu adroddiad blynyddol Gofalwyr a Chymorth Cymunedol.  Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ehangder y gwaith a wnaed gan Dîm y Gofalwyr a Chymorth Cymunedol a'i bartner a gomisiynwyd Gofalwyr Ceredigion Carers, ynghyd â'r effaith gadarnhaol ar y rheini sy'n cael gwasanaethau.

Mae rhoi gwybodaeth o ansawdd uchel i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ganolog i waith y tîm ac mae'n galonogol gweld bod nifer y gofalwyr di-dâl sydd wedi'u cofrestru ar y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc wedi cynyddu, sy'n golygu bod gan ragor o ofalwyr di-dâl y sir afael ar wybodaeth fel Cylchgrawn y Gofalwyr.

Mae'r tîm hefyd wedi bod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â chymunedau Ceredigion gan drefnu digwyddiadau, sesiynau galw heibio gyda'n Cysylltwyr Cymunedol ac wedi cefnogi mentrau'r Mannau Cynnes, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf unwaith eto i'r rheini sy'n mynychu.

Dyma flas ar sut mae'r gwasanaethau wedi datblygu yn ystod 2022-23:

DARPARU GWYBODAETH, CYNGOR A CHEFNOGAETH

Beth wnaethom ni?

- Argraffu a dosbarthu **4250** o gylchgronau ar draws Ceredigion.
- Cynyddu aelodaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr **14%** i **1888** o ofalwyr.
- Dosbarthu Siarter Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr di-dâl i **100%** o aelodau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr.
- Cynyddu aelodaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc **144%** i **151** o ofalwyr ifanc.
- Dosbarthu **3000** o lyfrynnau Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc i ysgolion ar draws y sir.
- Cefnogi Gofalwyr Ceredigion i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i **805** o oedolion sy'n ofalwyr a darparu **2016** awr o ofal i roi seibiant i ofalwyr o'u rôl fel gofalwyr.
- Gweithio gyda Gofalwyr Ceredigion i gefnogi **158** o ofalwyr ifanc i gael bywyd y tu hwnt i'w rôl fel gofalwyr.

Ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws y sir

2022-23 yw'r flwyddyn gyntaf, ers y pandemig COVID, i'r tîm allu trefnu a mynd i ddigwyddiadau cyhoeddus. Rydym wedi cynnal a bod i 96 o ddigwyddiadau ar draws Ceredigion.

- **49** o ddigwyddiadau galw heibio cymunedol
- **243** o bobl wedi dod i'r digwyddiadau galw heibio cymunedol
- Wedi bod i **24** o ddigwyddiadau a drefnwyd gan bartneriaid
- **16** o ddigwyddiadau thema wedi'u trefnu gan y tîm
- Wedi cymryd rhan mewn **7** grŵp sy'n mynd i'r afael â chaledi

**Dadansoddiad o waith ymgysylltu'r Cysylltwyr Cymunedol yn 2022/23**

- Derbyniodd y Cysylltwyr Cymunedol **607** o ymholiadau / atgyfeiriadau drwy CLIC.

Y 3 phrif reswm cysylltodd pobl â'r Cysylltwyr Cymunedol oedd:

- Unigrwydd ac arwahanrwydd (137)
- Ceisiadau am fathodyn glas (108)
- Materion yn ymwneud â chostau byw (68)

| Gogledd Ceredigion – 177 atgyfeiriad | Canolbarth Ceredigion – 220 atgyfeiriad | De Ceredigion – 210 atgyfeiriad |
|---|---|---|
| 47<br>21<br>17 | 53<br>38<br>21 | 49<br>37<br>30 |

- O'r **137** cleient a ofynnodd am gymorth oherwydd unigrwydd ac arwahanrwydd nid oedd gan **117** unrhyw deulu na ffrindiau y gallent ddibynnu arnynt am gymorth.
- Cysylltodd **78** o ofalwyr di-dâl â'r Cysylltwyr Cymunedol am gymorth
  - Roedd **49** ohonynt eisoes yn aelodau o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr cyn cysylltu â'r gwasanaeth, ac
  - Ymunodd **26** â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr yn dilyn cyswllt â'r Cysylltwyr Cymunedol.
- Cafodd **13** o ofalwyr di-dâl eu cyfeirio at Borth Gofal i gael asesiad o anghenion gofalwr.

**DATBLYGU SEIBIANNAU CYNALIADWY I OFALWYR**

**Cerdyn Gofalwyr Ceredigion**

- Rhoddwyd **189** o gardiau newydd i oedolion, cynnydd o **136%** ers y flwyddyn flaenorol.
- Rhoddwyd **55** o gardiau newydd i ofalwyr ifanc, cynnydd o **500%.**
- Mae cyfanswm o **394** o ofalwyr di-dâl yng Ngheredigion yn defnyddio Cerdyn Gofalwyr Ceredigion i gael mynediad at gyfleusterau hamdden am ddim yn y sir.

**Cronfa Gofalwyr Ceredigion**

Gwnaeth gofalwyr gais am hyd at £150 i wella eu hiechyd a'u llesiant.

- **£116,197** wedi'i ddyfarnu.
- **591** o geisiadau unigol a theuluol wedi'u prosesu.
- **776** o ofalwyr wedi elwa.

**Ar beth wariodd gofalwyr yr arian?**

1. Seibiannau byr a gwyliau (179)
2. Therapïau a sesiynau mewn sba (84)
3. Chwaraeon, ffitrwydd a gweithgareddau awyr agored (67)
4. Dillad (56)
5. Technoleg (52)

6. Garddio (42)

**Tîm Amlasiantaeth Y Borth**
Mae'r Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol wedi meithrin cysylltiadau da a pherthnasoedd gwaith cryf ymhlith aelodau'r Tîm Amlasiantaeth sydd wedi bod yn hynod o hawdd mynd atynt pan fo angen cymorth pellach. Rydym wedi dod i adnabod tîm y feddygfa'n dda ac o safbwynt dysgu rydym bellach yn deall rolau gweithwyr proffesiynol megis Nyrsys Admiral, Nyrsys Ardal, a Gweithwyr Proffesiynol eraill sy'n Berthynol i Iechyd. Mae gennym hefyd syniad gwell o'r hyn y maent yn ei gyfrannu at ofal unigolyn, pan fo'r person hwnnw ar ei daith yn gorfforol ac yn feddyliol ac mae hyn yn bwydo i'n gwaith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. Mae unrhyw rwystrau a oedd yn bodoli eisoes rhwng ein tîm a'n cydweithwyr iechyd bellach wedi cael eu dileu drwy gymryd rhan yn y prosiect hwn.

- Gwelwyd cyfanswm o **150** claf gan Dîm Amlddisgyblaeth Y Borth a Thregaron.
- Cyfeiriwyd **19** claf yn uniongyrchol at y Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol.
- **9 – 60+,** ystod oedran y cleifion a gefnogwyd.

Y canlyniadau i'r cleifion:
- Cefnogwyd **58%** i ymuno â grwpiau cymdeithasol yn yr ardal leol.
- Cyfeiriwyd **21%** at wasanaeth cymorth i ofalwyr a gomisiynwyd i gael cymorth dwys.
- Cefnogwyd **16%** i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl.
- Cefnogwyd **11%** i gael mynediad at gymorth ymarferol gartref gan y Groes Goch ac Age Cymru.
- Cefnogwyd **11%** i gael mynediad at gymorthfeydd Cyngor ar Bopeth.
- Cefnogwyd **5%** i gael mynediad at Geir Cefn Gwlad er mwyn cael cymorth gyda thrafnidiaeth.

**Ehangu rhagnodi cymdeithasol yng Ngheredigion**
Ym mis Ionawr 2023, yn dilyn cydnabyddiaeth eang o lwyddiant Tîm Amlasiantaeth Y Borth, cysylltodd Meddygfa Tregaron â ni gyda chynnig i sefydlu tîm tebyg. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn ei gamau cychwynnol, ac rydym yn ffyddiog ynghylch y buddion posib y bydd yn eu cynnig i gleifion a chymuned Tregaron yn ystod 2023 - 2024.

## Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd a Chymorth Cynnar Ceredigion

Mae Tîm Rhianta a Chymorth i Deuluoedd Ceredigion yn cynnwys y Tîm o Amgylch y Teulu, Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd, Cyfarfodydd Grŵp Teulu a Dechrau'n Deg, ac mae'n darparu cymorth cynnar i'r teuluoedd a'r plant sydd fwyaf agored i niwed yng Ngheredigion. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio gyda'r teulu cyfan yn hytrach na chanolbwyntio ar unigolyn. Pan fo angen dull amlasiantaethol, gall y Tîm o Amgylch y Teulu weithio gyda'r teulu i nodi a mynd i'r afael â'r materion a nodwyd drwy ddilyn dull sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn adeiladu cydnerthedd y teulu.

**Tîm o Amgylch y Teulu**
Yn 2022-23 cwblhaodd y Tîm o Amgylch y Teulu 192 o asesiadau JAFF, ac roedd 13 ohonynt yn ymwneud â phlant â gofyniad dysgu ychwanegol penodol neu anabledd.

Yn flynyddol, mae tua 48% (tua 94) o'r ceisiadau yn ail-atgyfeiriadau (yn aml flynyddoedd yn ddiweddarach) pan fydd teuluoedd yn cyrraedd cyfnod bywyd gwahanol ac yn cael eu hystyried yn effeithiol yn yr achosion blaenorol ac yn gofyn am gymorth unwaith eto.

O ran yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Tîm o Amgylch y Teulu a Chymorth i Deuluoedd, nodwyd bod gan 79 o'r atgyfeiriadau bryderon ynghylch camddefnyddio sylweddau gyda chyfran o'r rhain hefyd yn dangos ffactorau eraill a fyddai'n cyfrannu at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Cynyddodd nifer y ceisiadau sy'n cael eu prosesu o fewn pum diwrnod gwaith i 57% sy'n adlewyrchu'r cynllunio a'r newidiadau a roddwyd ar waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cynhelir cyfarfodydd dyrannu yn wythnosol bellach lle caiff atgyfeiriadau eu trafod a'u dyrannu i'r gweithiwr priodol.

**Cymorth i Deuluoedd**
Mae ein darpariaeth Cymorth i Deuluoedd nad yw'n rhan o Dechrau'n Deg, yn cynnwys carfan fach o Weithwyr Cymorth i Deuluoedd sy'n cynorthwyo teuluoedd drwy ganolbwyntio ar roi cymorth rhianta.

Eleni derbyniodd ein Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd 358 o atgyfeiriadau. O'r rheini, cafodd 240 ymyraethau rhianta o fewn grŵp neu becynnau cymorth un i un. Cyfeiriwyd 6 theulu at gymorth mwy addas a gwrthododd 22 y cymorth neu'r gwahoddiad i fynychu rhaglen rhianta.

Yn ystod y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, cynhaliwyd tua 20 o raglenni rhianta mewn grŵp a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth a chynhaliwyd y rhain naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb ar draws Ceredigion. Darparwyd rhaglenni megis Cysylltiadau Teuluol, Cysylltiadau Teuluol ar gyfer rhieni plant sydd ag anabledd neu angen ychwanegol, *Talking Teens,* Y Blynyddoedd Rhyfeddol - Babanod a'r Blynyddoedd Rhyfeddol – Plant Bach.

Darparwyd rhaglenni rhianta strwythuredig eraill ar draws y sir gan gynnwys Iaith a Chwarae, SPACE (Cefnogi Rhieni a Phlant yn Emosiynol), Tylino Babi, Yr Ymennydd sydd ar Fai, GroBrain Babanod, GroBrain Plant Bach a Helpu Fi, Helpu Ti.

Dywedodd 54% o'r teuluoedd a dderbyniodd ymyrraeth y bu gwelliant o ran eu llesiant, eu cydnerthedd a'u sgiliau rhianta.

Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau bellach yn cael eu cyflwyno wyneb yn wyneb mewn lleoliadau ar draws Ceredigion. Mae cyrsiau megis ein Rhaglen Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistig a Gweminar Diogelwch Ar-lein a Chwarae Gemau yn parhau i gael eu cynnal ar-lein, oherwydd eu natur. Cyfranna siaradwyr gwadd at y Rhaglen Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistig bob wythnos. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn cefnogi teuluoedd fel rhan o'r llwybr asesu Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistig a thu hwnt, felly, mae cynnal y rhaglen ar-lein yn caniatáu i'r gweithwyr proffesiynol hyn gymryd rhan. Mae eu cynnal ar-lein hefyd yn cwtogi'r costau ac amser teithio ac yn galluogi i deuluoedd sydd angen y cymorth fynychu waeth ble maent yn byw yng Ngheredigion. Mae'r Rhaglen Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistig hefyd yn darparu cymorth cymheiriaid rhithwir i rieni sy'n wynebu heriau tebyg gyda'u plant.

Yn ystod gwanwyn 2022, aeth staff i Hyfforddiant SPACE. Mae'n rhaglen sy'n cefnogi rhieni a phlant sydd wedi profi trawma yn eu bywydau ac yn rhoi strategaethau i'w cefnogi. Ers cael eu hyfforddi i gyflwyno'r rhaglen, darparwyd pedair Rhaglen SPACE yng Ngheredigion a bu adborth y

rhieni'n gadarnhaol iawn. Nododd un sylw "*Mae'r cwrs wedi fy helpu i rannu fy meichiau a chael cymorth gan aelodau eraill y grŵp ac roedd o gymorth mawr".*

Mae Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd yn parhau i gefnogi teuluoedd ar sail un i un ac maent yn creu rhaglen gymorth sydd wedi'i theilwra ar gyfer anghenion y teulu unigol. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal sesiynau galw heibio yng Nghanolfan Deuluol Penparcau ar gyfer teuluoedd i helpu gydag ymddygiad heriol, caledi, a chreu man diogel iddynt gwrdd â rhieni eraill mewn sefyllfaoedd tebyg.

Mae Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy nodi bylchau mewn hyfforddiant a thrwy hynny derbyn yr hyfforddiant perthnasol.

Yn y gwasanaeth mae gennym hefyd fynediad at Gydlynydd Cyfarfodydd Grŵp Teulu, a'i rôl yw cefnogi teuluoedd yn yr Hwb Ymyrraeth Gynnar. Ar hyn o bryd mae chwe achos sydd ar agor ac yn derbyn cefnogaeth.

**Darpariaeth Dechrau'n Deg**
Lansiwyd y Rhaglen Dechrau'n Deg yng Nghymru yn 2006/7 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed yn yr ardaloedd lle cynigir y rhaglen. Mae'r cynllun Dechrau'n Deg yn seiliedig ar godau post / Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) ac mae'n darparu'r gwasanaethau canlynol i blant o dan 4 oed a'u teuluoedd / gofalwyr:

1. Gofal plant rhan-amser o ansawdd a ariennir yn llawn (12.5 awr yr wythnos) ar gyfer plant 2-3 oed
2. Gwasanaeth Ymweliadau Iechyd Gwell
3. Mynediad at wasanaethau rhianta
4. Cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Yn ystod 22/23, gwnaethom ehangu darpariaeth lawn Dechrau'n Deg i Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Penparc 1 (ardal Llechryd) ac mae'r defnydd o'r cynnig wedi bod yn gadarnhaol ac yn gyson. Yn ystod 22/23, rhoddodd Llywodraeth Cymru ganiatâd i ni ehangu i godau post newydd yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd eisoes yn rhan o Dechrau'n Deg fel bod yr holl godau post o fewn yr ardaloedd hynny'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg. Yn sgil hyn mae 117 yn fwy o blant yn gymwys ar gyfer gwasanaethau Dechrau'n Deg.

Yn ystod y flwyddyn, bwriwyd ymlaen i gynllunio ar gyfer ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg a bydd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lefel Is newydd yn dod o dan yr elfen hon o'r rhaglen yn 2023/24.

Darparwyd gwasanaethau Dechrau'n Deg o'r Canolfannau Plant Integredig yn Aberystwyth ac Aberteifi a dyma le lleolwyd y staff amlasiantaeth.

**Peilot Braenaru Integreiddio Gwasanaethau Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar**
O ran ein peilot braenaru Integreiddio Gwasanaethau Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar, gwnaed cynnydd da yn ystod 2022-2023 gyda darpariaeth mewn 5 ardal yn y sir, a hynny'n gysylltiedig â chanolfannau teuluol y trydydd sector. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar le ac wedi'i dargedu at gefnogi plant 0-7 oed a'u teuluoedd. Mae'r cymorth yn debyg i'r hyn a ddarperir gan Dechrau'n Deg, fodd bynnag nid yw'n cynnwys yr elfen o ofal plant wedi'i ariannu. Mae'r dull yn dod â gweithwyr

proffesiynol ynghyd o amrywiaeth o ddisgyblaethau i greu timoedd rhithiol i gefnogi teuluoedd yn eu hardaloedd.

Fel rhan o’r rhaglen beilot braenaru, ysgrifennwyd Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a’r Blynyddoedd Cynnar ac ymgynghorwyd ynghylch y Strategaeth yn rhanbarth Hywel Dda. Mae’r strategaeth yn ceisio hyrwyddo integreiddio a bydd yn cael ei lansio yn ystod 23/24.

**Canolfan Deuluol Penparcau**
Gwnaed defnydd da o Ganolfan Deuluol Penparcau yn ystod 22/23. Roedd y gweithgareddau’n cynnwys 6 sesiwn ar ôl ysgol a gynhaliwyd dros 2 fis ar gyfer plant rhwng 4 ac 11 oed (oed ysgol gynradd). Trefnwyd y gweithgareddau hyn yn sgil adborth a dderbyniwyd gan rieni a oedd yn nodi yr hoffent i’r Ganolfan drefnu gweithgareddau ar gyfer eu plant hŷn. Roedd llawer yn bresennol yn y sesiynau (ar gyfartaledd roedd 8 teulu yn bresennol). Yn ogystal, trefnom ni Sesiynau Crefft Nadoligaidd a oedd yn agored i’r rhieni fynychu, a chynhaliwyd y rhain ym mis Rhagfyr. Nid oedd strwythur ar gyfer y sesiynau, roedd gweithgareddau coginio a chrefft ar gael i’r rheini os oeddent eisiau cymryd rhan, neu roedd croeso iddynt ddod i gwrdd â rhieni eraill. Bu llawer yn bresennol yn y rhain hefyd ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

Cynhaliwyd nifer o raglenni rhianta yn y Ganolfan Deuluol, ar gyfer rhieni sydd â phlant newydd anedig hyd at blant sydd yn eu harddegau. Roedd y rhain yn cynnwys Stori a Sbri, Rhaglen Maethu Cysylltiadau Teuluol, Rhaglen Cysylltiadau Teuluol Anghenion Ychwanegol neu Anabledd, Yr Ymennydd sydd ar Fai, *Talking Teens* a SPACE.

Rydym hefyd wedi cefnogi sefydliadau partner o fewn yr awdurdod lleol a’r trydydd sector drwy gynnal cyfarfodydd yn y Ganolfan Deuluol. Roedd y sefydliadau’n cynnwys Tîm Cyswllt Plant sy’n Derbyn Gofal, Gwasanaethau Tiwtora Addysg, Cyfarfodydd Grŵp Teulu, a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru.

# Gwasanaethau Cymorth ac Atal Ceredigion

Mae'r Gwasanaeth Cymorth ac Atal yn cynnwys timau amlddisgyblaeth gyda'r nod cyffredinol o ddarparu dulliau dan arweiniad plant, pobl ifanc a theuluoedd i alluogi i blant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau ehangach gael eu grymuso, i gyflawni, i ddatblygu'n bersonol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol, a bod y gorau y gallant fod. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Arwyddion Diogelwch yn sail i bopeth a wnawn. Mae ein timau yn darparu cymorth cyffredinol a phenodol, gan gynnwys:

- **Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu;** Gwaith ieuenctid mewn ysgolion, dilyniant addysg, dysgu achrededig a chyfranogiad

Mae Gweithwyr Ieuenctid sydd wedi’u lleoli mewn ysgolion yn ymgysylltu â phobl ifanc 11-18 oed mewn cyd-destunau cyffredinol a phenodol. Mae Gweithwyr Ieuenctid yn ceisio adeiladu a chynnal perthynas ystyrlon â phob disgybl ysgol; mae hynny'n cynnwys disgyblion a atgyfeiriwyd yr ystyrir eu bod mewn perygl o ymddieithrio o addysg brif ffrwd oherwydd un neu lu o resymau.

Mae Gweithwyr Ieuenctid yn meithrin perthynas yn seiliedig ar ymgysylltu gwirfoddol. Drwy weithio gydag unigolion gall Gweithwyr Ieuenctid ddylunio cynllun wedi'i deilwra sy'n cynnig cymorth ar sail anghenion personol, cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yr unigolyn. Gellir darparu hyn o fewn a thu allan i amgylchedd yr ysgol a gall fod yn gymorth penodol a chyffredinol.

- **Cymorth a Chyrhaeddiad;** Mentora cynradd / uwchradd, pontio, llesiant emosiynol, anogaeth ac allgymorth

Mae'r Mentoriaid Sgiliau Plant a Phobl Ifanc yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n gallu ymddwyn yn heriol oherwydd eu profiadau cymdeithasol ac emosiynol. Mae mentoriaid yn darparu cymorth i blant a phobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a lleoliadau addysgol eraill.

Mae mentoriaid yn hyrwyddo dull cyfannol sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn deall yn well y rhesymau pam fod plant yn gweld eu hamgylchedd presennol yn heriol. Gwneir hyn mewn lleoliadau un i un ac mewn grwpiau bach. Mae hyn er mwyn helpu i reoli eu hemosiynau, gan sianelu eu hegni'n gadarnhaol trwy ganolbwyntio ar lwyddo, yn addysgol ac yn bersonol.

- **Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal**; cymorth 16-24, gwaith allgymorth cymunedol, canolfannau ieuenctid, darpariaethau penodol a chyffredinol

Mae ein tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal yn darparu ymyriadau wedi'u targedu a chyffredinol gyda'r nod o fynd i'r afael â'r ffactorau risg posibl neu faterion sylfaenol megis materion teuluol, cymdeithasol, personol, addysgol, neu iechyd meddwl ac emosiynol a allai eu rhoi mewn risg uwch o droseddu ac aildroseddu. Y nod hefyd yw eu hatal rhag bod angen ymyrraeth statudol bellach, megis gwasanaethau iechyd meddwl proffesiynol, ymyrraeth feddygol bellach a hyd yn oed cymorth tai er enghraifft.

Mae'r darpariaethau'n amrywio ac yn cynnwys gweithgareddau allgymorth, symudol ac ar wahân, canolfannau ieuenctid a chlybiau, a rhaglenni a phrosiectau cydweithredol wedi'u targedu.

- **Llwybrau Cymorth**; ymyriadau gydol oed, dyraniadau, sgrinio, sicrhau ansawdd, dadansoddi data a pherfformiad, cymorth o ran adnoddau

Y tîm Llwybrau Cymorth yw'r porth ar gyfer yr holl atgyfeiriadau i Borth Cymorth Cynnar a'i wasanaethau p'un a ydynt yn dod trwy Clic neu'n cael eu brysbennu gan Borth Gofal. Mae'r tîm yn rhoi cymorth uniongyrchol i bob gwasanaeth ym Mhorth Cymorth Cynnar i nodi, dyrannu, monitro a gwerthuso ymyriadau neu gymorth.

Mae'r tîm yn cefnogi'r protocolau 'camu i fyny a chamu i lawr' drwy weithio gyda Phorth Cynnal a Phorth Gofal i sicrhau cymorth amserol ac effeithiol i blant / pobl ifanc, oedolion a theuluoedd/gofalwyr.

Mae'r tîm hefyd yn helpu i oruchwylio data a phrosesau sicrhau ansawdd gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar, gan sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion dinasyddion mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

**Ciplun o'r gwasanaeth yn 2022/23:**

- Roedd **627** o blant a phobl ifanc yn agored i gael cymorth.
- **150** o ddisgyblion ar gyfartaledd yn cael cymorth wythnosol gan Weithiwr Ieuenctid yn yr ysgol.
- Mentoriaid Sgiliau wedi cefnogi **160** o ddisgyblion bob wythnos ar gyfartaledd.

- **23** o ddisgyblion oedran cynradd yn cael cymorth 1:1 wythnosol gyda **20** arall yn defnyddio rhaglenni anogaeth wythnosol yn y gymuned.
- Caewyd **154** o ymyraethau a oedd yn cynnwys cymorth gan fentoriaid oherwydd cafwyd canlyniad cadarnhaol h.y. ailintegreiddio, cyfeirio.
- **170** o ddisgyblion y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio / cael eu gwahardd wedi cymryd rhan mewn prosiectau wedi'u targedu fel Llwybrau, Cwrs Phoenix, Tonic Surf ac ati.
- **62** o ddisgyblion wedi'u huwchgyfeirio i Banel Strategol PCC ar gyfer camu i fyny / uwchgyfeirio i wasanaeth statudol oherwydd cymhlethdod.
- **32** o ddisgyblion agored i niwed oedd mewn perygl o ymyrraeth statudol yn cael eu monitro bob wythnos.
- **80** o blant a phobl ifanc ar gyfartaledd yn cael mynediad i weithgareddau cyffredinol ac allgyrsiol bob wythnos (clybiau amser cinio ac ar ôl ysgol, clybiau ieuenctid a rhaglenni cymunedol).
- **273** o blant a phobl ifanc wedi cael mynediad i raglenni gweithgareddau yn ystod gwyliau.
- **185** o bobl ifanc 16-25 oed wedi'u cefnogi drwy Ysbrydoli neu gymorth un i un gan y tîm gwaith ieuenctid cymunedol oherwydd ffactorau sy'n effeithio ar eu llwybr i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant megis camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, a digartrefedd ieuenctid. **87** o weithdai wedi'u darparu gyda **68** o bobl ifanc yn dechrau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn llwyddiannus a **46** o bobl ifanc yn adrodd cynnydd o ran hunan-effeithiolrwydd a hyder. Roedd prosiect Y Fan yn hyrwyddo ymgysylltu cadarnhaol gydag ardaloedd gwledig / ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd o fewn y gwasanaeth.
- **1** aelod ychwanegol o staff wedi ymuno â'r gwasanaeth, cyfradd cadw **97%.**
- Cefnogwyd **8** aelod o staff i gwblhau'r cymhwyster gwaith ieuenctid lefel 3, a chefnogwyd **4** aelod o staff i gwblhau cymwysterau lefel uwch o fewn y gwasanaeth.
- Ymarfer Arwyddion Diogelwch wedi'i weithredu mewn prosesau atgyfeirio, dyrannu a monitro.

## Gweithgarwch Arolygiaeth Gofal Cymru

Ym mis Ionawr 2023, cawsom wybod gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) y byddai Arolygiad Gwerthuso Perfformiad yn cael ei gynnal.

Rhwng 27 Chwefror 2023 a 10 Mawrth 2023, cynhaliwyd gwerthusiad trylwyr o berfformiad ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

Darparwyd adborth ar lafar ar 16 Mawrth 2023 a derbyniwyd y fersiwn ddrafft o'r adroddiad ysgrifenedig ar 6 Ebrill 2023. Ymatebodd yr Awdurdod Lleol yn ffurfiol i'r adroddiad drafft ar 21 Ebrill 2023. Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw faterion a oedd angen eu newid yn sylweddol gan fod y cynnwys yn debyg iawn i'r adborth a gafwyd ar lafar.

Erbyn hyn, crëwyd Cynllun Gweithredu i ymateb i'r gwelliannau a argymhellwyd gan AGC yn yr adroddiad ac er mwyn adeiladu ar y cryfderau a nodwyd. Roedd mwyafrif llethol o'r camau gweithredu eisoes yn cael eu gweithredu gan fod y materion a godwyd gan AGC yn derbyn sylw cyn i'r adolygiad gael ei gyhoeddi.

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a'r Cabinet.

Cyhoeddwyd adroddiad AGC ar 18 Mai 2023.

Dyma oedd yr adolygiad thematig cyntaf ers gweithredu'r model Llesiant Gydol Oes. Mae'r model yn un arloesol ac yn ymateb i lesiant er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu a hynny ymhob cam o fywyd.

Yn ystod yr adolygiad, archwiliwyd pedwar maes a gwnaed y sylwadau canlynol:

Pobl – Llais a Rheolaeth
'I lawer o bobl, caiff eu lleisiau eu clywed'.
'Gall pobl gyfathrebu yn eu dewis iaith.'

Llesiant
'Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu plant a phobl ifanc ym mhob rhan o'r model Llesiant Gydol Oes.'

Atal
'Mae uwch-reolwyr yn deall yn iawn bod y gallu i gael gafael ar ymyriadau cynnar a gwasanaethau atal yn allweddol er mwyn cynnal llesiant'.

Partneriaethau ac Integreiddio
'Mae trefniadau integreiddio a chydweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol yn amlwg ar draws timau'.
Rydym yn hynod o falch fod y dull o ddarparu gwasanaethau drwy'r model Llesiant Gydol Oes wedi cael ei gydnabod fel dull effeithiol gan ein rheoleiddiwr.

# Cwynion a Chanmoliaeth

## Canmoliaeth

Derbyniwyd cyfanswm o **217 o ganmoliaethau** gan ddefnyddwyr gwasanaeth a/neu eu cynrychiolwyr yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae hyn yn fwy na dwbl y nifer o ganmoliaethau a gofnodwyd ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2021-2022 (cyfanswm o 104). Darperir rhai enghreifftiau o'r ganmoliaeth a dderbyniwyd isod.

| Maes Gwasanaeth | Canmoliaeth a dderbyniwyd |
|---|---|
| Porth Cynnal | 78 |
| Porth Gofal | 139 |
| Cyfanswm | 217 |

"Fel yr arfer, rydw i mor ddiolchgar am y ffordd wych yr ydych chi wedi ein helpu ni ac yn parhau i ddarparu cymorth. Mae eich effeithlonrwydd yn rhagorol ac mae eich cyngor ar bob mater yn gyfeillgar, yn drylwyr, ac yn galonogol iawn i mi. – *Iechyd Meddwl / Lles*

"Roedd (defnyddiwr gwasanaeth) yn ddiolchgar am y prynhawn ac wedi mwynhau cwrdd â ni i gyd, gan wybod bod y gefnogaeth yno pe bai ei hangen." – *Ymyrraeth Gynnar*

"Diolch o waelod ein calonnau am yr holl ofal a chariad a ddangosasoch ac a roesoch i X. Roedd mor hapus ac yn eich caru chi i gyd, rhoesoch flynyddoedd gorau ei fywyd iddo."– *Porth Gofal*

"Diolch am eich holl gymorth a chefnogaeth dros y misoedd diwethaf, roedd fy mam-gu a'r teulu cyfan yn ei werthfawrogi." – *Gwasanaethau Uniongyrchol*

"Mae'r ffordd gyfannol yr ydych chi'n ei ddefnyddio yn rhagorol a hoffwn pe bai eraill sy'n addysgu eu hunain er mwyn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn gallu cael rhywfaint o'ch mewnwelediad i sut y dylid gwneud pethau a chael yr amser a'r adnoddau i wneud hynny. Unwaith eto rydych chi'n weithiwr cymdeithasol hollol wych a dylai fod mwy fel chi." – *Lles Meddyliol*

"Rydym yn falch iawn o'r ymateb cyflym gan y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol. Roeddent yn cyfathrebu'n glir, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni drwy gydol yr amser, ac maent wedi darparu cymorth gwerthfawr i alluogi fy mam, sy'n 93 oed, i fod yn llawer mwy diogel a hyderus yn ei chartref ei hun. Mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol i mi ac i weddill y teulu, gan ein ni bod wedi bod yn poeni'n fawr amdani. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cymorth a'r gefnogaeth." – *Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol*

"Diolch am gynnig opsiynau amrywiol a diolch yn fawr am eich cymorth caredig." – *Gwasanaeth Brysbennu ac Asesu Integredig*

## Adroddiad Cwynion

### Cyflwyniad

Bydd yr adroddiad hwn yn cyfeirio'n benodol at yr holl **ganmoliaethau a chwynion yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol** a dderbyniwyd yn ystod 2022 – 2023. Bydd y data hwn hefyd yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor ar gyfer 2022-2023, ar lefel gorfforaethol, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach yn y flwyddyn.

Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r gofynion statudol a amlinellir yn **Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014** a **Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014** Llywodraeth Cymru. Mae'r rheoliadau hyn yn sail i **Bolisi Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol** y Cyngor ei hun, sydd i fod i gael ei adolygu yn ystod y flwyddyn i ddod. Cymeradwywyd y Polisi presennol gan Gabinet y Cyngor ar 17 Mawrth 2020, ac mae'n nodi'r cyfrifoldebau a osodwyd ar staff o fewn Gwasanaethau **Porth Cynnal** a **Phorth Gofal** a'r **Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth** corfforaethol. Mae hyn yn hyrwyddo atebolrwydd ac yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddatrys pryderon mor fuan â phosibl, ac os nad yw hyn yn bosibl, i sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor.

Mae'n hollbwysig bod proses gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu'n unol ag egwyddorion **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, yn ogystal â sicrhau bod y broses yn hygyrch i bawb, ac yn deg ac yn dryloyw.

### Gweithgarwch Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwneir pob ymdrech i ddatrys cwynion yn rhagweithiol, ac, yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn llwyddiannus. Mewn achosion o'r fath, cofnodir y mater fel 'pryder'. Fodd bynnag, mewn rhai achosion nid yw hyn yn bosibl, yn enwedig pan fo'r materion sy'n cael eu codi o natur ddifrifol neu gymhleth. Ymdrinnir â'r achosion hyn yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau cwynion ffurfiol y cyfeirir atynt uchod.

Mae gweithdrefn gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys **dau gam**, ac mae Rheolwyr Corfforaethol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol (h.y. Porth Cynnal a Phorth Gofal) yn gyfrifol am reoli cwynion yn erbyn eu meysydd gwasanaeth priodol, gan sicrhau bod y lefel briodol o benderfyniadau ac atebolrwydd ar waith. Mae'r Rheolwyr Corfforaethol yn ymdrechu i gyflawni canlyniadau ystyrlon ar gyfer cwynion a, lle bo angen, bydd mesurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod unrhyw welliannau i'r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu. Mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn annibynnol ar y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn cael ei reoli o fewn y Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, ac mae'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weinyddu'r broses gwyno.

Derbyniwyd cyfanswm o **60 'pryder'** yn ystod y cyfnod adrodd, a chafodd y mwyafrif o'r rhain eu datrys yn foddhaol heb fod angen eu huwchgyfeirio o dan y weithdrefn gwyno ffurfiol. Fodd bynnag, bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y **cwynion** yr ymchwiliwyd iddynt o dan gamau 1 a 2 yn ystod y flwyddyn adrodd.

Er gwybodaeth, Cam 1 yw'r unig gyfle sydd ar gael i Reolwyr Corfforaethol ymchwilio a/neu ddatrys cwyn. Mae'r rheoliadau statudol yn nodi bod yn rhaid penodi Swyddog Ymchwilio Annibynnol i gynnal ymchwiliadau yng Ngham 2 ac, mewn achosion sy'n ymwneud â phlant, mae Person Annibynnol hefyd yn cael ei gomisiynu i oruchwylio'r broses ymchwilio. Unwaith y bydd proses

gwyno'r Cyngor ei hun wedi cael ei disbyddu, mae gan achwynwyr yr hawl i gyfeirio eu cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) os ydynt yn dal yn anfodlon.

**Cyfanswm y cwynion a ddaeth i law yn ystod 2022-2023**


| Maes Gwasanaeth | Cam 1 | Cam 2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Porth Cynnal | 19 | 6 | **25** |
| Porth Gofal | 12 | 1 | **13** |
| | **31** | **7** | **38** |

Derbyniwyd cyfanswm o **38 o gwynion** mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2022-2023, sy'n dangos cynnydd wrth gymharu'r ffigurau hyn â'r cyfnod adrodd blaenorol. Yn ystod 2021-2022 aethpwyd i'r afael â chyfanswm o **22** o gwynion o dan bolisi cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae uwch staff Porth Gofal a Phorth Cynnal yn parhau i gydweithio'n agos â'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth trwy fynd ati i ddatrys unrhyw bryderon ac ymholiadau sy'n dod i law yn gynnar pan fo hynny'n briodol, ac mae hyn yn profi i fod yn strategaeth effeithiol. O'r 60 o bryderon yr ymdriniwyd â nhw yn rhagweithiol, dim ond 11 achos a aeth ymlaen i gael eu hymchwilio o dan Gamau 1 a/neu 2, mae hyn yn golygu bod **82% o'r holl bryderon a dderbyniwyd wedi cael eu datrys yn foddhaol** yn y lle cyntaf.

**Data cymharol**

Darperir data cymharol isod mewn perthynas â'r cwynion a dderbyniwyd gan Porth Cynnal a Phorth Gofal, ar gyfer y blynyddoedd 2020-2021 a 2021-2022 a'r cyfnod adrodd cyfredol - 2022-2023.



**Canlyniadau Cwynion fesul Gwasanaeth**
Ceir dadansoddiad o nifer y cwynion a'u canlyniadau isod, fesul maes perthnasol:

| Porth Cynnal | Heb eu cadarnhau | Wedi'u cadarnhau | Yn parhau/ wedi'u hatal dros dro / wedi'u dirwyn i ben |
|---|---|---|---|
| Gofal Wedi'i Gynllunio (Oedolion) (3) | | 1 | 2 |
| Gofal Wedi'i Gynllunio (Plant) (6) | 2 | 2 | 2 |
| Diogelu (Oedolion) (4) | 1 | | 3 |
| Diogelu (Plant) (4) | 1 | | 3 |
| Cymorth Estynedig (Oedolion) (6) | 1 | | 5 |
| Lles Meddyliol (Oedolion) (2) | 2 | | |
| **Cyfanswm** | **7** | **3** | **15** |

| Porth Gofal | Heb eu cadarnhau | Wedi'u cadarnhau | Yn parhau/ wedi'u hatal dros dro / wedi'u dirwyn i ben |
|---|---|---|---|
| Brysbennu ac Asesu Integredig (Oedolion) (6) | 2 | 1 | 2 |
| Brysbennu ac Asesu Integredig (Plant) (3) | 1 | 2 | |
| Gwasanaeth Ymyrraeth wedi'i Dargedu (3) | | | 3 |
| Gwasanaethau Uniongyrchol (1) | | 1 | |
| **Cyfanswm** | **3** | **5** | **5** |

<u>Amserlenni Cam 1</u>
O'r **31** cwyn a gofnodwyd yng Ngham 1, dim ond **16** a gafodd eu cwblhau (h.y. heb eu hatal dros dro, eu tynnu'n ôl na'u dirwyn i ben – eglurir hyn yn fanylach yn y dadansoddiad). Caewyd **7** o'r cwynion hyn o fewn yr amserlenni a ragnodwyd. Roedd y **9** arall wedi rhagori ar yr amserlenni.




<u>Amserlenni Cam 2</u>
Dim ond **5** o'r **7** cwyn a gafodd eu cofnodi yng Ngham 2 a aeth ymlaen i'r cam ymchwilio annibynnol, oherwydd bod dau achwynydd wedi penderfynu tynnu eu cwynion yn ôl. Roedd pob un o'r pum cwyn yr ymchwiliwyd iddynt wedi cymryd mwy o amser na'r amserlen a ragnodwyd sef 25 diwrnod gwaith.
Fodd bynnag, cydymffurfiwyd yn llawn â'r gofynion statudol i gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, a chyhoeddwyd ymatebion cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r ymchwiliad.

## Dadansoddiad a Chasgliadau

Yn gyntaf, datgelodd dadansoddiad agosach o'r **60 achos** a gofnodwyd yn wreiddiol fel **'pryderon'** mai **dim ond 11** o'r rhain a aeth ymlaen wedyn i'r **cam cwynion ffurfiol**. Mae hyn yn cefnogi'r manteision sy'n gysylltiedig â mabwysiadu dull '**datrys yn rhagweithiol**', lle bo modd. Cafodd y 49 o bryderon eraill (82%) eu datrys yn llwyddiannus heb fod angen cymryd camau pellach.

Mae'n amlwg bod **cynnydd** wedi bod yn nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2022-2023. Ar ôl derbyn **31 o gwynion Cam 1** yn y flwyddyn ddiwethaf, dyma'r lefel uchaf ers 2015-2016, pan dderbyniwyd 32 o gwynion Cam 1 mewn un flwyddyn. Cynhaliwyd **llai o ymchwiliadau Cam 2** yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac o ran canlyniadau, roedd cymhareb y cwynion a gadarnhawyd a'r rhai na chadarnhawyd yn weddol gytbwys.

Fodd bynnag, y ffactor mwyaf trawiadol yn adroddiad eleni yw bod cyfanswm o **20 o gwynion** heb eu cwblhau. Mae amrywiaeth o resymau y tu ôl i'r rhain, a bydd y rhain yn cael eu hegluro isod.

Mae 'cwyn' fel arfer yn cael ei chofnodi ar yr adeg y daw i law pan fernir ei bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhoi'r polisi ar waith ar unwaith: h.y. nid yw'n 'gais am wasanaeth am y tro cyntaf' neu teimlir bod y materion a godir yn ddigon difrifol bod ymyrraeth ar lefel Rheolwr Corfforaethol yn angenrheidiol.

Fodd bynnag, mae yna ffactorau eraill y mae angen eu hystyried ar ôl i gŵyn gael ei chofnodi'n ffurfiol, ond cyn i'r broses allu cychwyn yn weithredol, sef:

- sicrhau y ceir caniatâd priodol gan y defnyddiwr gwasanaeth (pan fydd eraill yn codi pryderon ar eu rhan)
- ystyried a oes unrhyw 'ymchwiliadau cydamserol' ar y gweill (h.y. a oes unrhyw achosion llys neu ymchwiliadau diogelu a allai gael eu peryglu gan ymchwiliad i gŵyn)
- canfod a oes modd dilyn y broses gwyno o gwbl (e.e. achosion lle mae'r achwynydd yn ceisio gwrthdroi penderfyniad a wnaed gan Lys)

Yn yr achosion hyn, efallai na fydd y gŵyn yn gallu symud ymlaen nes bod y gwiriadau angenrheidiol wedi'u cwblhau a gall hyn gymryd peth amser o bryd i'w gilydd, tra bod ymgysylltu dilynol rhwng y Gwasanaeth a'r achwynydd.

Roedd dadansoddiad o'r **20 o gwynion** na chawsant eu cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd yn dangos:

- Cafodd **3 chwyn** eu **datrys yn syth** ar ôl ymyrraeth y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer y Gwasanaeth perthnasol.
- Daethpwyd â **4 cwyn** i ben o ganlyniad i fethu â darparu **caniatâd** y defnyddiwr gwasanaeth.
- Mewn **5 achos**, methodd yr achwynydd ymgymryd â'r broses gwyno a chaewyd yr achosion wedi hynny.
- Roedd **4 cwyn** yn **parhau** neu **wedi'u huwchgyfeirio i Gam 2** cyn cwblhau cwyn Cam 1.
- Cafodd **3 achos** eu **tynnu'n ôl** gan yr achwynydd.
- Nid oedd modd symud ymlaen ag **1 gŵyn** oherwydd bod **ymchwiliadau eraill** yn cael blaenoriaeth.

Er bod hwn yn nifer digynsail o gwynion na chawsant eu cwblhau yn ystod y flwyddyn adrodd, rheolwyd yr achosion yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau statudol ac, er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw, ni thynnwyd y cwynion hyn oddi ar y system. Yn ogystal, rhannwyd yr holl gwynion gyda'r meysydd gwasanaeth perthnasol, a cheisiodd y Rheolwyr Corfforaethol a oedd yn gyfrifol ym mhob achos sicrhau nad oedd unrhyw faterion sylfaenol a oedd angen ymyrraeth neu ymchwiliad pellach.

Mae angen gwella amseroedd ymateb ar ddau gam y broses gwyno, er mai dim ond un achos aeth y tu hwnt i'r amserlen o chwe mis. Weithiau, mae'n anochel y bydd rhai cwynion yn cymryd mwy o amser i'w datrys na'r amserlen a bennwyd, a'r flaenoriaeth gyffredinol yw sicrhau bod cwynion yn cael eu hymchwilio'n drylwyr, a bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau o'r fath.

Derbyniodd Porth Cynnal nifer uwch o gwynion, yn bennaf oherwydd natur y gwasanaethau y maent yn eu darparu, a'u cymhlethdod.

O'r **18 cwyn** yr ymchwiliwyd iddynt yn llawn, cadarnhawyd 8 ohonynt. Er bod hyn yn gynnydd o gymharu â'r ffigurau a ddadansoddwyd yn ystod 2021-2022 (4 cwyn wedi'u cadarnhau), mae hyn yn cynrychioli 44% o'r holl gwynion yr ymchwiliwyd iddynt, sy'n dal yn welliant ar yr ystadegau ar gyfer 2020-2021, lle cadarnhawyd 58%. Yn ogystal, er bod bron i hanner yr holl gwynion yr ymchwiliwyd iddynt wedi cael eu cadarnhau, rhaid cydnabod hefyd nifer y pryderon a gafodd eu datrys yn llwyddiannus, a'r cwynion a dynnwyd yn ôl yn gynharach yn y broses oherwydd y gwaith a wnaed gan wasanaethau i unioni'r materion.

### Themâu a Thueddiadau

Mae **cyfathrebu gwael** yn parhau i fod yn ffactor cyson yn y rhan fwyaf o gwynion, ac mewn llawer o achosion, eir i'r afael â'r rhain yn brydlon ar lefel gwasanaeth i atal y materion rhag cael eu huwchgyfeirio'n ddiangen. Roedd hyn yn amlwg yn wir o ran y 49 o bryderon a ddatryswyd yn rhagweithiol, sy'n llawer uwch na'r nifer o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi hynny o dan y broses gwyno ffurfiol.

### Amserlenni

Fel y nodwyd mewn cyfnodau adrodd blaenorol, mae angen gwneud gwelliannau o ran amseroedd ymateb, yn enwedig yng Ngham 1 y broses gwyno. Mae gofyniad yng Ngham 1 i gynnig 'trafodaeth' rhwng yr achwynydd a'r Rheolwr Corfforaethol perthnasol. Felly, mae sicrhau bod rheolwyr ar gael yn parhau i fod yn her, yn ogystal â cheisio cydlynu pryd maen nhw a'r achwynydd ar gael. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol.

Mae hefyd wedi dod yn fwyfwy amlwg yn ystod y cyfnod adrodd bod ymdrin â chwynion yn wael wedi dod yn nodwedd amlwg yn y methiant i brosesu achosion yn hwylus. Mae ymdrechion helaeth yn cael eu gwneud i sicrhau gwell cyfathrebu rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth, ond mae rhai heriau wedi codi o ganlyniad i fwy o gwynion a gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth ar lefel gorfforaethol, yn ogystal ag yn achos y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn parhau i fod yn bryder parhaus sydd wedi cael ei uwchgyfeirio yn ôl yr angen.

### Dysgu Gwersi

Ym mhob achos lle bernir bod cwyn yn cael ei chadarnhau (naill ai yn ei chyfanrwydd neu elfennau penodol ohoni) mae'n hollbwysig bod argymhellion yn cael eu rhoi ar waith i ddysgu gwersi ac atal unrhyw ail-ddigwydd yn y dyfodol. Rhoddir enghreifftiau isod o rai o'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2022-2023:

- *Cytunwyd y byddai'r Gwasanaeth yn dechrau cofnod wythnosol o'r holl gyfathrebu, a fydd yn cael ei rannu gyda'r achwynydd a bydd cofnodion cyfarfodydd yn cael eu rhannu'n brydlon gyda'r partïon perthnasol. Dylai hyn gyfyngu ar lefelau pryder oherwydd diffyg cyfathrebu ac oedi wrth dderbyn dogfennau gan y gwasanaeth.*

- *Bydd staff perthnasol yn sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda phartïon â diddordeb cyn cyfarfodydd ffurfiol, fel bod pawb yn ymwybodol o fformat y cyfarfod a sut y disgwylir iddynt gyfrannu at hyn. Bydd y trafodaethau hyn yn cael eu recordio, a bydd cofnod ffurfiol yn cael ei roi i'r holl fynychwyr fel rhan o'r broses. Yn ogystal, atgoffwyd staff am bwysigrwydd gwneud cofnod byr o unrhyw sgyrsiau ffôn, yn unol â pholisïau perthnasol y Cyngor.*

- *Cwblhau asesiadau/adolygiadau ac asesiadau gofalwyr i'w hystyried ar ôl derbyn cwynion, er mwyn sicrhau bod lefel y ddarpariaeth gofal yn diwallu anghenion yr unigolyn yn ddigonol.*

**Cwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
Yn ystod 2022–2023 derbyniodd y Cyngor **un ar ddeg** o gysylltiadau newydd gan swyddfa OGCC yn ymwneud â chwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y rhain yn ymwneud ag achosion o fewn y gwasanaethau canlynol:

- Porth Cynnal (7)
- Porth Gofal (4)

Derbyniwyd mwy o atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon yn ystod 2022-2023, gyda dim ond 9 wedi'u derbyn yn 2021-2022.

Er nad oedd unrhyw gwynion a gyfeiriwyd at OGCC wedi arwain at ymchwiliad ffurfiol, roedd **wyth cwyn** a oedd angen ymyrraeth gan yr Ombwdsmon. Cafodd y cwynion hyn eu datrys drwy '***gytundebau Datrysiad Cynnar / Setliad Gwirfoddol*** y daethpwyd iddynt gyda swyddfa'r Ombwdsmon, a cheir manylion am y rhain yn y tabl drosodd.

## Achosion lle roedd angen ymyrraeth gan yr Ombwdsmon drwy Gytundebau Datrysiad Cynnar

| Gwasanaeth a Chyfeirnod | Crynodeb o'r Gŵyn | Camau Gweithredu y Cytunwyd arnynt |
|---|---|---|
| Porth Cynnal; Cymorth Estynedig ac Ymdrin â Chwynion<br><br>Cyfeirnod yr achos: 202200812 | Ymchwiliwyd i'r gŵyn yn annibynnol yn flaenorol o dan Gam 2; Fodd bynnag, roedd yr achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon gyda'r canlyniad.<br><br>Prif bryderon yr achwynydd oedd bod y Gwasanaeth wedi methu ag ymgymryd ag asesiadau priodol ac angenrheidiol i bennu hyd a lled anableddau dysgu perthynas iddi, a'i fod wedi methu ag ystyried gwybodaeth hanfodol a ddarparwyd yn ystod ymgynghoriad dros y ffôn. | Dywedodd yr Ombwdsmon y dylai'r Cyngor ymateb i'r ymholiadau ychwanegol a godwyd gan yr achwynydd, yn dilyn yr ymchwiliad annibynnol yng Ngham 2. |
| Porth Cynnal; Diogelu ac Ymdrin â Chwynion<br><br>Cyfeirnod yr achos: 202201388 | Ymchwiliwyd i'r gŵyn yn annibynnol yn flaenorol o dan Gam 2. Estynnwyd y broses hon yn ddiangen, a cheisiwyd eglurhad gan yr achwynydd ynghylch gwybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad ymchwiliad annibynnol.<br><br>Yn benodol, roedd yr achwynydd yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am y gyfraith achosion y cyfeiriwyd ati, yr oedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi seilio ei benderfyniad arni wrth ddarparu gofal i berthynas yr achwynydd. | Cytunodd y Cyngor i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch y gyfraith achosion a ystyriwyd gan y Gweithiwr Cymdeithasol ar yr adeg y gwnaed penderfyniadau ynghylch darparu gofal.<br><br>Yn ogystal, cafodd cytundeb cynharach i ddyfarnu taliad 'Amser a Thrafferth' oherwydd y broses gwynion hir, ei anwybyddu ar y pwynt y cyhoeddwyd yr ymateb ffurfiol. Felly anrhydeddodd y Cyngor ei benderfyniad cynharach yn hyn o beth, a chydnabu'r anghyfleustra ychwanegol a achoswyd gan orfod mynd at yr Ombwdsmon i gael y wybodaeth y gofynnwyd amdani. |
| Porth Cynnal; Cymorth Estynedig<br><br>Cyfeirnod yr achos: 202200853 | Cwyn bod y Cyngor wedi methu â gweithredu telerau cytundeb Datrysiad Cynnar a gynhaliwyd ym mis Medi 2020 yn briodol. Roedd hyn yn cynnwys methiant y Cyngor i gwblhau Asesiad Gofalwr yn llawn, ac am yr ansicrwydd parhaus ynghylch telerau a threfniadau Gofal Seibiant. Roedd yr Achwynydd hefyd yn ddig ei bod yn ymddangos bod gan y Cyngor ddull anghyson o godi Taliad Uniongyrchol. | Cytunodd y Cyngor i fynd ar drywydd y trefniadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol mewn perthynas â chynnal Asesiad Gofalwr. Comisiynwyd Gweithiwr Cymdeithasol Annibynnol i gwblhau'r dasg hon.<br><br>Cytunodd y Cyngor hefyd i ysgrifennu at yr achwynydd o fewn chwe wythnos i roi esboniad llawn ynghylch dull y Cyngor o ddarparu gofal seibiant. |

| | | |
|---|---|---|
| Porth Gofal; Brysbennu ac Asesu Integredig ac Ymdrin â Chwynion<br><br>Cyfeirnod yr achos: 202205115 | Cwyn ynghylch methiant y Cyngor i gymryd o ddifrif y pryderon a godwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth am y darparwr gofal a gomisiynwyd i'w chynorthwyo. Gwnaeth yr Achwynydd gŵyn yn uniongyrchol i'r darparwr gofal, ond roedd ei ymateb yn anghyflawn ac yn anghywir.<br><br>Gwrthododd y Cyngor ymchwilio i'r gŵyn oherwydd ei fod yn fodlon ag ymateb y darparwr gofal ac nad oedd angen unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon yn anghytuno – gan ddyfarnu nad oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i dderbyn y gŵyn yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). | Cytunodd y Cyngor i gysylltu â'r achwynydd i gael ei chwyn a rhoi ymateb a oedd yn gyson â'r weithdrefn gwyno statudol. |
| Porth Cynnal; Cymorth Estynedig ac Ymdrin â Chwynion<br><br>Cyfeirnod yr achos: 202206613 | Cysylltodd yr achwynydd â'r Ombwdsmon oherwydd bod y Cyngor wedi methu ag ymchwilio i'r cwynion a gyflwynwyd ganddi ym mis Chwefror 2022. | Derbyniodd y Cyngor ei fod wedi methu ag ymchwilio i'r cwynion a godwyd a chytunodd i gychwyn Cam 1 y broses gwyno ar unwaith. Ymddiheurwyd hefyd am y methiant hwn wrth ymdrin â'r gŵyn a chytunwyd ar daliad unioni i gydnabod y drafferth a'r amser a fuddsoddwyd gan yr achwynydd er mwyn i'w chwyn gael ei hystyried. |
| Porth Gofal; Gwasanaeth Brysbennu ac Asesu Integredig ac Ymdrin â Chwynion<br><br>Cyfeirnod yr achos: 202202005 | Cwyn bod y Cyngor wedi methu â darparu diweddariadau rheolaidd ac ystyrlon ynghylch ei chwyn. | Cytunodd y Cyngor i roi ymddiheuriad ffurfiol ac esboniad am yr oedi a brofodd yn ystod ei chwyn. Cytunwyd hefyd y byddai'r ymateb ffurfiol yn cael ei ddarparu o fewn pedair wythnos i benderfyniad yr Ombwdsmon, ac y byddai taliad o £100 yn cael ei roi i gydnabod y drafferth a'r amser a fuddsoddwyd gan yr achwynydd wrth wneud ei chwyn i'r Ombwdsmon. |
| Porth Cynnal; Cymorth Estynedig ac Ymdrin â Chwynion<br><br>Cyfeirnod yr achos: 202107463 | Yn dilyn ymchwiliad annibynnol yng Ngham 2 o Weithdrefn Gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol, cysylltodd yr achwynydd â'r Ombwdsmon oherwydd bod y Cyngor wedi methu â gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Swyddog Ymchwilio Annibynnol.<br><br>Yn ogystal, roedd y Cyngor wedi methu â rhoi gwybod iddo na fyddai ymchwiliad diogelu llawn yn cael ei gynnal; er i'r materion a nodwyd yn ystod y gŵyn gael eu hystyried yn ystod Cyfarfod Pryderon Proffesiynol, o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. | Trwy Gytundeb Setliad Gwirfoddol, cynigiodd yr Ombwdsmon y dylai'r Cyngor a'r Gwasanaeth Cymorth a oedd yn ymwneud â'r gŵyn wreiddiol, gyfarfod â'r achwynydd a'i fab (defnyddiwr gwasanaeth) yn ffurfiol i egluro'r penderfyniad diogelu ac i drafod unrhyw fesurau ychwanegol a fyddai'n hwyluso dysgu yn y dyfodol.<br><br>Cytunwyd hefyd bod angen ymddiheuriad uniongyrchol am y diffyg cyfathrebu ar ôl i'r ymchwiliad Cam 2 ddod i ben. Cytunodd y Cyngor â'r cynnig hwn a chymerwyd y camau gweithredu angenrheidiol. |

| | | |
|---|---|---|
| Porth Cynnal: Gwasanaeth Diogelu ac Ymdrin â Chwynion<br><br>Cyfeirnod yr achos: 202107158 | Cwyn am fethiant y Cyngor i gau achos diogelu yn brydlon, a gafodd ôl-effeithiau ar allu'r achwynydd i ailafael mewn cyfrifoldebau gwaith penodol. Dywedodd yr Achwynydd hefyd na aethpwyd i'r afael â'i chwyn yn briodol unwaith iddi ddwyn y materion hyn i sylw'r Cyngor. | Derbyniodd y Cyngor gyfrifoldeb llawn am yr oedi a brofodd yr achwynydd mewn perthynas â'r achos diogelu, a bod hyn wedi'i waethygu ymhellach gan y methiant i ymdrin â'i chwyn yn effeithiol. At hynny, derbyniodd y Cyngor nad oedd wedi gwerthfawrogi'n llawn yr effaith a gafodd y materion hyn ar yr achwynydd.<br><br>Cytunodd y Cyngor i roi ymddiheuriad corfforaethol am y camweinyddu a nodwyd gan yr Ombwdsmon a darparu iawndal ariannol o £725 i gydnabod yr anghyfiawnder a'i rhwystrodd rhag dychwelyd i'w dyletswyddau o fewn sefydliad ieuenctid, ac am ymdrin â'r gŵyn yn wael – gan gynnwys y drafferth a'r amser a fuddsoddwyd ganddi wrth fynd ar drywydd ei chwyn. |

# 4. Hyrwyddo a gwella llesiant y rhai yr ydym yn eu helpu

**Y chwe safon ansawdd a ddefnyddir i fesur perfformiad yr Awdurdod Lleol yn erbyn y canlyniadau llesiant yw:**

1. Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.
2. Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol pobl.
3. Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.
4. Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.
5. Rhoi cymorth i bobl ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.
6. Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael mwy o lesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Drwy gydol 2022-23 rydym wedi gweithio i gynnal a datblygu ym mhob un o'r gwasanaethau Llesiant Gydol Oes:

**Porth Cymorth Cynnar**

- Canolfannau Lles – cyfleusterau sy'n gwella'r cynnig gweithgarwch corfforol a hamdden craidd gyda mannau cyfarfod, ymgynghori a thriniaeth. Bydd y Ganolfan Les yn ymgorffori gwasanaethau sy'n ystyried ac yn gwella agweddau corfforol, cymdeithasol, emosiynol a meddyliol lles unigolyn ac yn cyfrannu at alluogi unigolion i gyflawni eu potensial llawn.
- Datblygu a darparu ymhellach weithgareddau ac ymyriadau cymunedol gydol oes cyffredinol a phenodol i alluogi grymuso, gwydnwch ac annibyniaeth.
- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol a sefydliadau'r sector gwirfoddol i ddatblygu ystod o wasanaethau i ddiwallu'r anghenion sy'n esblygu o fewn ein cymunedau i gefnogi a galluogi unigolion a theuluoedd yng Ngheredigion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau y gallent eu hwynebu.

**Porth Gofal:**

- Mae'r gwasanaeth cymorth Taliadau Uniongyrchol wedi'i ddatblygu'n fewnol ac mae'n gweithredu'n effeithlon
- Gofal Cartref – wedi'i gryfhau i recriwtio a chadw darparwyr newydd i weithio ar draws Ceredigion
- Maethu – mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Maethu Cymru i gefnogi recriwtio, cadw a hyfforddi gofalwyr maeth
- Mae adolygiad annibynnol o Gyfleoedd Gwasanaethau Dydd wedi'i gynnal - bydd y cynllun gweithredu yn cael ei lunio'n fuan

**Porth Cynnal:**

- Datblygu dulliau atal ac adfer ar draws Gwasanaethau Porth Cynnal a'r Model Llesiant Gydol Oes a gydag asiantaethau partner sy'n canolbwyntio ar les meddyliol, cam-drin domestig, a chamddefnyddio sylweddau
- Mae Strategaeth Ddiogelu ar gyfer Lleihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi cael ei gweithredu.
- Mae'r ddarpariaeth llety diogel i blant a llety i rieni a babanod lleol yn agos at gael ei chwblhau.
- Ymgorffori arferion Arwyddion Diogelwch
- Adolygwyd y strwythur Lles Meddyliol, Camddefnyddio Sylweddau a Sicrwydd Ansawdd Diogelu i wella effeithlonrwydd.

**Heriau o ran y Gweithlu**

Mae ffocws parhaus wedi bod ar recriwtio gyda nifer o ymgyrchoedd yn fewnol ond hefyd cefnogi darparwyr allanol gydag ymgyrchoedd.

Mae'r heriau o recriwtio a chadw staff allweddol, yn benodol gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol wedi bod yn sylweddol trwy gydol 2022-2023, fodd bynnag cydnabyddir bod hwn yn fater cenedlaethol ac mae cyfleoedd o ran gweithio rhanbarthol wedi'u harchwilio. Mae gan y Cyngor strategaeth ar gyfer ateb yr her hon gan gynnwys y dulliau canlynol:

- Cynyddu nifer yr hyfforddeiaethau gwaith cymdeithasol
- Cynnig cyfleoedd cymwysterau a llwybrau dysgu i'r staff presennol
- Lleoliadau myfyrwyr
- Adolygu rolau a gwerthuso swyddi
- Ailwampio ein dulliau hysbysebu – ymgyrchoedd dwys a newydd i ymuno â Cheredigion
- Defnyddio staff asiantaeth lle bo angen ochr yn ochr â staff Ceredigion

**Cefnogi Llesiant Staff**

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymorth ymatebol, hygyrch a chynhwysol i staff:

- Swyddog Iechyd a Lles Gweithwyr
- Pecyn Cymorth i Weithwyr
- Iechyd Galwedigaethol
- Dull ymatebol gan gynnwys arolygon/holiaduron llesiant, trafodaethau gyda rheolwyr a thimau, proses arfarnu symlach, sesiynau galw heibio
- Gweithgarwch a chefnogaeth ar draws y sefydliad gan gynnwys, gwybodaeth ar y fewnrwyd, Dydd Mercher Llesiant, gweithgareddau, gweminarau llesiant, staff gwarchod
- Gweminarau iechyd a llesiant pwrpasol, cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Rheolwr Corfforaethol/Rheolwyr Cofrestredig
- Cymorth i staff unigol mewn cartrefi gofal
- Cryfhau'r polisi goruchwylio

## Gwasanaethau Tai Awdurdod Lleol Ceredigion

O dan yr ymyriadau digartrefedd, yn 2022-23 agorwyd 708 achos lle bu cysylltiadau oherwydd credir bod aelwydydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref ar y diwrnod. Mae'r ffigwr hwn ychydig yn is na'r hyn a recordiwyd yn 2021/22 (737).

O'r 708 o achosion a agorwyd, darparwyd cyngor a chymorth i 32.6% (231) a'u helpu i atal bod yn ddigartref. Mae hyn yn cynrychioli lleihad yn nifer yr achosion sy'n cael eu cyflwyno i dderbyn cyngor a chymorth mewn cymhariaeth â 2021/22. Er hyn, roedd nifer yr achosion a ddatblygwyd i fod yn asesiad llawn o dan a62 Deddf Tai (Cymru) 2014, yn uwch na 2021/22 h.y. 477 o achosion.

O ganlyniad i'r asesiadau hyn, llwyddwyd i atal a/neu leddfu 207 achos. Roedd y cyfanswm a recordiwyd o nifer yr achosion a gafodd eu hatal yn 2022/23 yn uwch, mewn cymhariaeth â'r nifer o achosion a gafodd eu hatal yn 2021/22 h.y canlyniadau o 189 a 142, yn y drefn honno. Roedd canlyniadau cyfanswm nifer yr achosion a gafodd eu lleddfu yn debyg i ffigwr y nifer yn 2021/22.

Mae'r nifer o gleientiaid a dderbyniodd gymorth trwy ddulliau ariannol gan gynnwys eu cyfeirio, yn parhau'n sefydlog. Fodd bynnag, mae llawer o achosion lle nad yw talu ôl-ddyledion na chynorthwyo person i gael budd-daliadau ychwanegol yn atal digartrefedd. Mae hyn oherwydd bod llawer o resymau nad sy'n ymwneud ag arian dros fod yn ddigartref, fel y gwelir yn y tabl isod gyda'r 'colli llety' sy'n cynnwys yr achos mwyaf sef rhesymau dadfeddiannu heb fai (achosion wedi'u hasesu dan a62 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014). Felly, cyflawnwyd mwyafrif y canlyniadau atal llwyddiannus trwy ddarparu llety amgen.

| | |
|---|---|
| Rhiant, ffrind neu berthynas arall yn gwrthod neu'n methu cynnig llety bellach | 21% |
| Tor perthynas gyda phartner | Treisgar 5%<br>Di-drais 10% |
| Trais am resymau eraill | 4% |
| Colli llety, h.y, landlord wedi cyflwyno hysbysiad | 33% |
| Ôl-ddyledion rhent | 3% |
| Llety presennol yn anfforddiadwy | 0.6% |
| Llety presennol yn anaddas (h.y., rhy llawn/ rhesymau meddygol) | 6% |
| Rhyddhau o'r carchar | 5% |
| Mewn sefydliad / gofal (e.e. rhyddhau o'r ysbyty) | 2% |
| Arall. Gan gynnwys digartref mewn argyfwng, dychwelyd o dramor, cysgu allan. | 8% |

Mae Gwasanaeth Opsiynau Tai yn parhau i weithio trwy'r dull 'Cynnwys Pawb' yn dilyn arweiniad wrth Lywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei weithredu trwy gyfraith yn y dyfodol agos, gan gymryd lle 'anghenion blaenoriaeth'. Felly, nid oes bellach unrhyw berson sengl nad sy'n agored i niwed yn cael eu troi i ffwrdd yn ystod y cam cychwynnol a'r cam gweithredu llawn. Golyga hyn fod y Gwasanaeth Opsiynau Tai wedi bod mewn galw uchel ar gyfer llety dros dro, a recordiwyd nifer y rheiny sy'n byw mewn llety dros dro ar ddiwedd y mis rhwng 75 a 84 tŷ yn 2022/23, gyda'r mwyaf o gartrefi llety dros dro ar gyfer pobl sengl (63% ar yr 31/03/2023).

Ar gyfer y flwyddyn 2022-23 o dan y Gwasanaeth Addasiadau mae 86 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, 20 o Addasiadau Mân Waith, a 61 o Grantiau Diogel, Cynnes a Sicr wedi'u darparu a chafodd 650 Ymateb Brys ei wneud.

Wrth symud ymlaen, bydd argaeledd contractwyr i gwblhau'r gwaith addasu a chynnydd yng nghostau deunyddiau yn effeithio ar nifer y Grantiau Cyfleustra i'r Anabl sy'n medru cael eu darparu.

Mae datblygiad ar gyfer Fframwaith i Gontractwyr yn cael ei lunio ar hyn o bryd yn y gobaith y bydd ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Rydym yn rhagweld y bydd mwy o gontractwyr yn ymuno i ddarparu'r gwaith addasu, a fydd yn helpu i leddfu ychydig o bwysau cyflenwi'r gwasanaeth.

O dan waith y gofrestr tai ar gyfer y flwyddyn 2022-23, derbyniwyd 1276 o Geisiadau Cofrestr Tai ar draws y pedair cofrestr (fforddiadwy, cyffredinol, pobl hŷn a hygyrch).

***Pa wahaniaeth mae'r gwasanaeth wedi ei wneud?***
Mae cyfanswm yr achosion wedi gostwng ychydig, ond mae nifer yr achosion sydd wedi datblygu i asesiad llawn ac angen ymyrraeth mwy dwys wedi cynyddu, sydd wedi'i adlewyrchu yn y nifer uwch o ganlyniadau atal sy'n galluogi'r gwasanaeth i atal digartrefedd.

Yn sgîl y dibyniaeth gynyddol ar llety dros dro ynghyd â diffyg argaeledd llety fforddiadwy yn y sir, mae'r Gwasanaethau Tai wedi mabwysiadu newidiadau dros dro am gyfnod byr o amser mewn cytundeb â'r landlordiaid partner (RSLs) er mwyn blaenoriaethu dyraniadau i dai cymunedol i bobl sydd â dyletswyddau digartref ac mewn llety dros dro. Bu'r newidiadau dros dro i'r polisi Dyrannu'n gymorth i'r tîm Opsiynau Tai i fodloni'r gofynion am lety dros dro yn ogystal ag ailgartrefu'n llwyddiannus aelwydydd mewn llety parhaol a gyfrannodd at y gyfradd llwyddiant rhyddhad uwch ar gyfer 2022/23.

Mae'r cynllun gwarant i landlordiaid wedi dod yn weithredol gan gynnig adnodd ychwanegol i atal digartrefedd ac i hwyluso'r cyfnod wrth symud ymlaen i lety yn y sector preifat.

Mae grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a grant Diogel, Cynnes a Sicr wedi cynorthwyo cleientiaid i fyw'n annibynnol yn eu cartref.

Mae cyfanswm o 240 o ymgeiswyr wedi sicrhau tai o'r Gofrestr Tai. Cafodd 79 (33%) o bobl eu dyrannu i'r rheiny oedd yn ddyledus i ddigartrefedd. Mae'r ganran wedi cynyddu ychydig yn sgîl newidiadau dros dro i'n polisi dyrannu. Roedd hyn yn caniatáu i ymgeiswyr mewn llety dros dro a/neu â dyletswydd digartrefedd, i gael cynnig llety parhaol goruwch popeth arall ar y Gofrestr Tai, lle bynnag ei bod yn bosibl, ac i gefnogi ymyrraeth gynnar ac agenda atal.

Yn sgîl y cynnydd yn y rheiny sy'n dibynnu ar lety dros dro ynghyd â chynnydd yn nifer yr achosion rheiny sydd â photensial uchel o fod yn ddigartref, yn sgîl yr argyfwng costau byw a ffoaduriaid Wcrain, am gyfnod byr bydd y Gwasanaeth Tai yn gweithio gyda'r partner RSL i flaenoriaethu dyraniadau i dai cymunedol ar gyfer pobl sydd â dyletswydd digartref ac mewn llety dros dro.

***Pa mor dda ydym ni wedi'i wneud?***
**Tai - Digartrefedd**

Cyfanswm y canlyniadau atal digartrefedd: 180 (mae hyn yn cynnwys achosion y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, achosion nas llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, achosion nad oeddent yn cydweithredu, achosion a wrthododd gymorth, achosion a dynnwyd yn ôl, ac achosion a dynnwyd yn ôl yn sgil colli cysylltiad).

Canlyniadau lle y llwyddwyd i atal digartrefedd: 124. Felly, llwyddwyd i atal 68.9% o'r aelwydydd a oedd yn wynebu digartrefedd rhag bod yn ddigartref. (Cwrdd â tharged o 65% ac ychydig yn well na 67.6% y llynedd). O'r 180 o aelwydydd, tynnodd 25 aelwyd (13.9%) allan o'r gwasanaeth ac felly nid oedd Opsiynau Tai yn gallu cynorthwyo na sefydlu canlyniad.

Cyfanswm y canlyniadau rhyddhad: 173 (mae hyn yn cynnwys rhyddhad llwyddiannus, rhyddhad aflwyddiannus, gwrthod cymorth, methu cyd-weithredu, tynnu'n ôl neu tynnu'n ôl yn sgîl colli cysylltiad).

Canlyniad rhyddhad llwyddiannus: 83. Felly darparwyd mesurau rhyddhad llwyddiannus i 47.9% o aelwydydd o fewn 56 diwrnod. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd sylweddol yn y gyfradd llwyddiant parhad o'i chymharu â 2021/22 a oedd yn 33.7%. O'r 173 o aelwydydd, ni lwyddodd 57 (32.9%) ohonynt i gyrraedd canlyniad llwyddiannus o fewn 56 diwrnod, ac felly aethant ymlaen i gam nesaf y broses opsiynau tai h.y. ymchwiliad a75, gwnaeth 32 (18.5%) o gleientiaid dynnu allan o'r gwasanaeth.

**Tai - Addasiadau**
Yn ystod y flwyddyn 2022-23 darparwyd cartref diogel i 817 o ymgeiswyr anabl a bregus i barhau i fyw'n annibynnol gan arwain at well ansawdd bywyd.

**Effeithlonrwydd Ynni**
Yn ystod y flwyddyn cafodd cyfanswm o 420 o gleientiaid naill ai welliannau i'w cartrefi trwy fentrau Effeithlonrwydd Ynni a/neu gyngor Effeithlonrwydd Ynni i wella eu sefyllfa ariannol a'u gwariant.

Cyhoeddwyd 145 Datganiad Hyblygrwydd ECO4 i aelwydydd cymwys am gyllid (Hydref 2022 i Mawrth 2023), gyda Phympiau Gwres Ffynhonnell Aer, Solar ffotofoltäig a'r gwahanol fathau o inswleiddio fel y prif fesurau effeithlonrwydd ynni sydd wedi'u gosod.

Cynorthwywyd cyfanswm o 275 o aelwydydd â thlodi tanwydd gan y Gronfa Cartrefi Cynnes Categori 3/LOT 1 – Prosiect Effeithlonrwydd Ynni ac Atebion sy'n Gysylltiedig ag Iechyd rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, gyda buddion wedi'u cadarnhau (gwell sefyllfa ariannol) i'r aelwydydd o £250,793.00 (tua £912 i bob cartref).

Cyngor Sir Ceredigion oedd enillwyr Gwobrau Rhanbarthol Effeithlonrwydd Ynni Cymru 2023 ac fe'u dyfarnwyd yn 3ydd yng Ngwobrau Effeithlonrwydd Ynni Rhanbarthol Cenedlaethol 2023.

**Tai – cofrestr**
Cafodd 1083 o Geisiadau Tai eu gweithredu ar y Gofrestr Tai gan alluogi ystyriaeth ar gyfer dyraniadau tai cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, gwnaed gwelliannau i geisiadau ac adnewyddu ceisiadau gan sicrhau gwybodaeth gywir a chyfredol i'n partneriaid RSL.

**Cyflenwi tai fforddiadwy sydd ar gael ar draws pob math o ddeiliadaeth**
Mae'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yn rhan o raglen ddatblygu dreigl 3 blynedd sy'n cynnwys sawl ffrwd ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r rhaglen ddatblygu yn seiliedig ar ddadansoddiad anghenion wedi'i ddiweddaru'n rheolaidd o'r Cofrestrau Tai gyda'r nod o ddarparu cymysgedd o dai cymdeithasol a chanolig ledled Ceredigion

ochr yn ochr â phartneriaeth gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n datblygu'r cynlluniau.

*Pa wahaniaeth y mae'r amcan hwn wedi'i wneud?*
Mae'r nifer o unedau Rhentu Cymdeithasol sy'n cael eu darparu yn debygol o gynyddu bob blwyddyn dros y 3 blynedd nesaf gyda dyraniad hael cyllideb yr SHG ar gyfer y rhaglen 3-blynedd. Bydd hyn yn galluogi Ceredigion i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o 20,000. Mae datblygiadau'n cael eu targedu er mwyn cynorthwyo i gyrraedd yr anghenion sydd wedi'u cydnabod o fewn y Sir. Mae'r ystod o opsiynau deiliadaeth fforddiadwy hefyd yn cael eu cynyddu er mwyn cynorthwyo i fynd i'r afael ag anghenion tai amrywiol o fewn y Sir.

Yn ystod y flwyddyn roedd cyfanswm o 27 uned Tai Cymdeithasol wedi'u darparu gan ein partneriaid Cymdeithasau Tai sy'n gweithredu o fewn Ceredigion. Mae hyn yn lleihad o'r blynyddoedd diweddar gan fod argaeledd ariannol cynlluniau wedi bod yn heriol yn sgîl cynnydd sylweddol mewn costau adeiladu ac argaeledd contractwyr sydd oll yn ôl-effeithiau'r pandemig. Wrth symud ymlaen gyda chyllideb o £22.7m dros 3 blynedd, mae yna rai cynlluniau mawr a chyffrous yn rhan o'r rhaglen a fydd yn caniatáu darpariaeth aruthrol o dai cymdeithasol yng Ngheredigion ar draws y blynyddoedd nesaf, os bydd amodau'r farchnad yn caniatáu.

*Cyfrannu at ddatblygu ac integreiddio'r model Porth Gofal – Ymyrraeth Gynnar a Llesiant*
Mae Gwasanaeth Porth, yn sicrhau bod pob achos yn cael ei ddyrannu i'r ymyriadau priodol mewn modd amserol. Mae hyn wedi mynd o nerth i nerth ac wedi galluogi'r gwasanaeth i fonitro'r galw a'r canlyniadau yn effeithiol. Bydd y wybodaeth hon a gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau eraill o fewn model TAW yn amhrisiadwy wrth i ni gynnal adolygiad llawn ac ail-gomisiynu'r holl wasanaethau a ariennir gan HSG sy'n gweithredu yng Ngheredigion yn y flwyddyn i ddod.

*Sicrhau bod anghenion llety trigolion yn cael eu bodloni*
Mae'r Gwasanaeth Tai yn parhau i weithio tuag at sicrhau bod anghenion llety preswylwyr yn cael eu bodloni. Drwy gydol y flwyddyn cynhaliwyd 397 o arolygiadau o Dai Amlfeddiannaeth drwyddedig i sicrhau bod safonau diogelwch yn cael eu bodloni. Derbyniwyd 211 o ymholiadau llety rhent preifat gan arwain at 89 ymweliad i sicrhau bod safonau diogelwch yn cael eu bodloni, ac ymchwiliwyd i 4 achos o aflonyddu a throi allan yn anghyfreithlon.

Mae codi cyfyngiadau Cofid ynghyd â chyflenwad llawn o staff yn y Tîm Safonau Tai wedi caniatáu lleihau'r ôl-groniad o arolygiadau HMO a fu'n cronni yn sylweddol yn ystod y pandemig.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn gweld parhad yn y ddarpariaeth o’r gwasanaethau fel model Llesiant Gydol Oes er mwyn cyflawni’r pum amcan llesiant:

- Hyrwyddo iechyd a lles cadarnhaol a chefnogi pobl i hunan-gefnogi
- Cryfhau teuluoedd fel bod plant a phobl ifanc yn aros gyda’u teuluoedd
- Darparu dulliau cymesur o ran gofal a chymorth a reolir
- Diogelu unigolion a'u cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- Galluogi unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cymuned.

Rydym ni eisiau:

- Parhau i gryfhau ein gweithlu drwy recriwtio, addysg a hyfforddiant i wella a chryfhau ein harfer i fodloni gofynion cyflawni'r amcanion llesiant.
- Gweithredu Cyfleoedd Gwasanaeth yn ystod y Dydd
- Gofal seibiant i blant ac oedolion
- Gweithio gyda darparwyr Gofal Cartref i gynyddu'r ddarpariaeth sydd ar gael ar draws y sir
- Cynyddu nifer y cynorthwywyr personol i ddarparu gwasanaethau Talu Uniongyrchol
- Gweithredu'r Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r Strategaeth Dementia Rhanbarthol
- Cynyddu nifer y gofalwyr maeth cymeradwy mewnol
- Sefydlu darpariaeth lleoliad preswyl i blant
- Cynyddu nifer y gofalwyr sy’n cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Cymorth i Ofalwyr a’r Gymuned
- Defnyddio gwasanaethau ymyrraeth gynnar i gadw plant gartref
- Lleihau nifer y plant sydd yn ein gofal
- Lleihau nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
- Datblygu ein gwasanaethau i Ymateb yn Gyflym i Hunanladdiad neu mewn perygl o Hunanladdiad a'u teuluoedd a'u ffrindiau

# 5. Sut rydym ni'n gwneud yr hyn a wnawn


## Sut ydym wedi cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu gofal cymdeithasol

Mae'r model Llesiant Gydol Oes yn parhau i ymgorffori'r ddarpariaeth o ystod eang o hyfforddiant sy'n cefnogi sefydlu, datblygiad proffesiynol parhaus, a gofynion rheoleiddiol y rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth.


Mae dadansoddiad blynyddol o'r angen i ddysgu yn cael ei gynnal ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol sy'n gofyn i dimau mewnol a darparwyr allanol i adnabod yr angen i hyfforddi a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. Mae cyfarfodydd hefyd yn cael eu cynnal er mwyn annog a chefnogi cyfathrebu gyda darparwyr allanol, sydd wedi profi i fod o fudd wrth dargedu ar gyfer adnoddau. Enghraifft o hyn yw comisiynu a chyflwyno'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.

Mabwysiadir dull cyfunol o ddarparu hyfforddiant; Cyflwynir sesiynau gan hyfforddwyr ar-lein, cedwir sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer meysydd pwnc penodol er enghraifft, Trin â Llaw, Bws Dementia a Phrofiad Realiti Awtistiaeth. Yn ogystal, mae modiwlau e-ddysgu ar feysydd ymarfer craidd ar gael ar draws y sector.

Er gwaethaf heriau recriwtio a chadw cenedlaethol a lleol, mae'r gweithlu wedi parhau i gael mynediad at hyfforddiant a chynnig cyfleoedd datblygu. Mae prinder staff a phwysau darparu gwasanaethau wedi gweld presenoldeb hyfforddiant yn gostwng ychydig eleni, fodd bynnag, mae hyn yn cael ei liniaru rhywfaint gan y nifer cynyddol sy'n cwblhau cyrsiau e-ddysgu. Mae buddsoddiad y blynyddoedd blaenorol yn y System Rheoli Dysgu newydd, Pwll Dysgu Ceredigion bellach yn dangos tystiolaeth o adennill y buddsoddiad. Mae'r system ddwyieithog sy'n hawdd i'w defnyddio bellach yn cynnig 31 modiwl e-ddysgu i'r sector sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau megis Diogelu, Awtistiaeth, Deddf Galluedd Meddyliol, Atal a Rheoli Clefyd a Syndrom Tourette. Mae datblygiad modiwlau e-ddysgu a chyfradd cwblhau'r cyrsiau'n cynyddu bob blwyddyn. Mae rhaglen e-ddysgu bwrpasol hefyd wedi'i datblygu ac wedi'i chreu er mwyn cefnogi Cynorthwywyr Personol gan gynnwys Iechyd a Diogelwch yn y Cartref ac Ymwybyddiaeth Cymorth Cyntaf. Mae'r graffiau isod yn arddangos y nifer o gyrsiau e-ddysgu sydd wedi'u cwblhau a'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant bob blwyddyn:




Internal- Staff Gofal Cymdeithasol Mewnol External- Staff Gofal Cymdeithasol Allanol




Fodd bynnag, mae cyllid Grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (SCWWDP) yn parhau yn graidd i ddarparu hyfforddiant. Mae costau cynyddol hyfforddiant angen blaenoriaeth gynyddol a ffocws ar ofynion gorfodol a rheoleiddiol. Mae cyfanswm o 394 o ddigwyddiadau a gyflwynwyd gan hyfforddwyr wedi'u cyflwyno sy'n cwmpasu meysydd craidd gofal cymdeithasol/arferion gwaith cymdeithasol ac iechyd a diogelwch.

Mae 67 aelod o staff mewnol wedi cael cefnogaeth i ennill cymwysterau ar draws amrywiaeth o feysydd gan gynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwaith Cymdeithasol, Rhaglen Datblygu Rheolwr Tîm, Gwobr Addysgwr Ymarfer, Asesu Gwneud Penderfyniadau ac Aseswr Dibynadwy, mae 56 aelod arall o staff yn parhau i weithio tuag at gymwysterau.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i gefnogi cynllunio ar gyfer olyniaeth y gweithlu. Darparwyd sesiynau gwybodaeth ar-lein i hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal cymdeithasol/gwaith cymdeithasol yn ogystal â Chynllun Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant y Cyngor. Cymhwysodd 2 aelod o staff fel Gweithwyr Cymdeithasol yn 2022 ac mae 17 arall yn cael eu cefnogi ar hyfforddiant cymhwyso ar gyfer gwaith cymdeithasol gan gynnwys y Dystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol sy'n cynnwys dau fodiwl cyntaf y radd gwaith cymdeithasol.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth ehangach o ddementia yn ogystal â gyrfaoedd mewn gofal cymdeithasol, mae mentrau wedi cynnwys cynnig profiad Bws Dementia i bob ysgol uwchradd sirol, Coleg Addysg Bellach lleol, Gofalwyr, Cynorthwywyr Personol, Aelodau Etholedig, ac Uwch Grŵp Arweinyddiaeth y Cyngor.

Rydym yn ceisio arloesi a datblygu’r hyfforddiant yr ydym yn cynnig yn barhaus, ac yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, rydym erbyn hyn wedi cynnwys realiti rhithiol fel rhan o’n darpariaeth hyfforddi. Mae hyfforddiant ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac Ymarfer ar Sail Trawma bellach yn ymgorffori'r defnydd o Bensetiau Realiti Rhithiol ac mae wedi derbyn adborth eithriadol. Bydd y cynnig hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

I gefnogi'r 'Cynnig Gweithredol', mae 18 o staff gofal cymdeithasol wedi cael cymorth i ymgymryd â chyrsiau Cymraeg a ddarperir gan Diwtor Cymraeg Gwaith y Cyngor. Mae'r modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi parhau i gael ei hyrwyddo gyda'r nifer uchaf o gyflawniadau mewn blwyddyn o 258 o staff gofal cymdeithasol mewnol a 94 o staff gofal cymdeithasol allanol.

**Proffil Iaith ein Gweithlu Gydol Oes:**

**Porth Cymorth Cynnar:**

| TROSOLWG | Nifer o bobl | % o bobl |
|---|---|---|
| Di-Gymraeg | 49 | 20.85% |
| Siaradwyr Cymraeg | 186 | 79.15% |
| **CYFANSWM** | **235** | **100%** |

| BWLCH GOFYNION | Nifer o bobl | % o bobl |
|---|---|---|
| Bwlch yng ngofynion ALTE | 83 | 34.87% |
| Cwrdd â gofynion ALTE | 154 | 64.71% |
| **CYFANSWM** | **235** | **100%** |

| PERSON- SIARAD A GWRANDO | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o bobl | 2 | 15 | 32 | 30 | 66 | 90 | **235** |
| % o bobl | 0.85% | 6.38% | 13.62% | 12.77% | 28.09% | 38.30% | **100.00%** |
| PERSON - YSGRIFENNU | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| Nifer o bobl | 6 | 23 | 39 | 43 | 52 | 72 | **235** |
| % o bobl | 2.55% | 9.79% | 16.60% | 18.30% | 22.13% | 30.64% | **100.00%** |
| PERSON - DARLLEN | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
| Nifer o bobl | 4 | 22 | 35 | 45 | 48 | 61 | **235** |
| % o bobl | 1.70% | 9.36% | 14.89% | 19.15% | 20.43% | 34.47% | **100.00%** |

Porth Cynnal:

| TROSOLWG | Nifer o bobl | % o bobl |
|---|---|---|
| Di-Gymraeg | 57 | 52.78% |
| Siaradwyr Cymraeg | 51 | 47.22 |
| CYFANSWM | **108** | **100%** |

| BWLCH GOFYNION | Nifer o bobl | % o bobl |
|---|---|---|
| Bwlch yng ngofynion ALTE | 57 | 52.78% |
| Gweddol | 50 | 46.30% |
| Anhysbys | 1 | 0.93% |
| CYFANSWM | **108** | **100.00%** |

| PERSON – SIARAD A GWRANDO | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o bobl | 3 | 27 | 27 | 15 | 13 | 23 | **108** |
| % o bobl | 2.78% | 25.00% | 25.00% | 13.89% | 12.04% | 21.30% | **100.00%** |
| **PERSON - YSGRIFENNU** | **0** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | |
| Nifer o bobl | 10 | 31 | 23 | 11 | 13 | 20 | **108** |
| % o bobl | 9.26% | 28.70% | 21.30% | 10.19% | 12.04% | 18.52% | **100.00%** |
| **PERSON - DARLLEN** | **0** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | |
| Nifer o bobl | 10 | 27 | 25 | 9 | 16 | 21 | **108** |
| % o bobl | 9.26% | 25.00% | 23.15% | 8.33% | 14.81% | 19.44% | **100.00%** |

Porth Gofal:

| TROSOLWG | Nifer o bobl | % o bobl |
|---|---|---|
| Di-Gymraeg | 155 | 47.84% |
| Siaradwyr Cymraeg | 169 | 52.16% |
| **CYFANSWM** | **324** | **100%** |

| BWLCH GOFYNION | Nifer y bobl | % o bobl |
|---|---|---|
| Bwlch yng ngofynion ALTE | 165 | 50.93% |
| Gweddol | 155 | 47.84% |
| Anhysbys | 3 | 0.93% |
| #MULTIVALUE Gwerth Cyfunol | 1 | 0.31% |
| **CYFANSWM** | **348** | **100.00%** |

| PERSON – SIARAD A GWRANDO | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o bobl | 29 | 73 | 53 | 66 | 34 | 69 | **324** |
| % o bobl | 8.95% | 22.53% | 16.36% | 20.37% | 10.49% | 21.30% | **100.00%** |
| **PERSON - YSGRIFENNU** | **0** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | |
| Nifer o bobl | 64 | 69 | 64 | 54 | 28 | 44 | **324** |
| % o bobl | 19.75% | 21.30% | 19.75% | 16.67% | 8.64% | 13.58% | **100.00%** |
| **PERSON - DARLLEN** | **0** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | |
| Nifer o bobl | 56 | 65 | 62 | 45 | 43 | 53 | **324** |
| % o bobl | 17.28% | 20.06% | 19.14% | 13.89% | 13.27% | 16.36% | **100.00%** |

# Ein hadnoddau ariannol a sut ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

-

Roedd setliad Ariannol y Cyngor wrth Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer 2022/23 llawer yn well na 2021/22. Ar y cyfan, roedd cyllid craidd LlC o £119.4m yn gynnydd o 8.9% o'r flwyddyn flaenorol, er bod Ceredigion islaw cyfartaledd Cymru o 9.4%.

Roedd y cyngor yn parhau â bwlch yn y gyllideb yn sgîl pwysau costau sylweddol. Er hyn, tra'n £1.3m, roedd hwn yn llawer llai na'r blynyddoedd cynt ac roedd hyn wedi'i daclo trwy weithredu corfforaethol a oedd yn ffocysu ar gyfleoedd i reoli costau Teithio, Ffioedd a Thaliadau a'r Trysorlys. Ychwanegwyd swm munud olaf wrth LlC ym mis Chwefror 2022 trwy ail-agor setliad Grant Cynnal Refeniw (RSG) 2021/22 a oedd hefyd yn cynnwys swm o £239k ar gyfer cefnogi'r sector Gofal yn y Cartref.

Gyda'r model gweithredu Llesiant Gydol Oes mewn lle-roedd gan y Porth Gofal, Porth Cynnal a Phorth Cymorth Cynnar Gyllideb Wreiddiol gyfunol o £46.7m yn 2022/23. Roedd hwn yn 28% o Gyllideb Wreiddiol 2022/23 y Cyngor o £165.8m (cynnydd o 25% yn 2021/22). Cydnabuwyd y gost gynyddol o Ofal Cymdeithasol ar draws y Gwasanaethau Pyrth a oedd yn £7.1m, yn rhan fawr (57%) o bwysau ariannol cyffredinol y Cyngor o £12.3m ar gyfer 2022/23. Yn cael ei gynnwys o fewn pwysau ariannol Gofal Cymdeithasol ar gyfer 22/23 oedd:

- Mae polisi newydd LlC yn sicrhau bod Gweithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig yn derbyn Cyflog Byw Gwirioneddol (£9.90 yr awr). Mae hwn yn elfen fawr o'r gost flynyddol o £2.168m o godiad chwyddiant ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir-a oedd yn eithriadol ar 8.87% ar gyfer Gofal yn y Cartref / Byw gyda Chefnogaeth, 9.13% (interim) ar gyfer Gofal Preswyl a 11.15% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.
- Gwnaeth y Cyngor fuddsoddi £857k fel buddsoddiad sefydlu cychwynnol ar gyfer strwythur staffio y model Llesiant Gydol Oes ar gyfer Blwyddyn 1, gyda buddsoddiad pellach i ddilyn ym Mlwyddyn 2 o £224k yn 23/24.
- Cychwynnwyd adolygiad allanol llawn o ffioedd lleoliad Pobl Hŷn ym mis Ionawr 2022 - a gynhaliwyd a'i hwyluso gan Laing Buisson. Daeth hyn i ben gyda chynnydd pellach ar ben y codiad interim o 9.13% rhwng 8.1% a 20.9% ar draws y 4 prif gategori ffi. Arweiniodd hyn at fuddsoddiad ychwanegol o £520k yn y sector a ffioedd lleoliad y Cyngor ar gyfartaledd y 3ydd uchaf yng Nghymru.
- Gwnaed buddsoddiad o £513k hefyd yn y sector Taliadau Uniongyrchol trwy gynyddu'r gyfradd graidd fesul awr o £11 i £12.50 yr awr, cyn effaith bellach y Cyflog Byw Go Iawn.
- Roedd tuedd hefyd yn dod i'r amlwg o gynnydd sylweddol mewn niferoedd yn y maes Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd yn golygu bod angen cydnabod pwysau costau o £743k

Ar y cyfan, roedd perfformiad terfynol y Cyngor ar gyfer 2022/23 mewn safle a oedd wedi adennill yn ariannol, gyda sefyllfa ariannol cyffredinol y Cyngor yn parhau i fod yn bositif a gwydn. Fe wnaeth gwasanaethau Pyrth Llesiant Gydol Oes droi allan gyda gorwariant o £1.577m, a ddeilliodd yn bennaf o'r Porth Cynnal (£1.650m o orwariant) sef rhan uchaf y model Llesiant Gydol Oes.

Mae tueddiadau cyferbyniol uwch yng nghostau Gofalu ar ôl Plant y sir (gorwariant o £295k), costau cynyddol o leoli Pobl Hŷn (£576k yn uwch na'r gyllideb) a chynnydd yng nghostau lleoli Dysgu Anabl (£1,056m yn uwch na'r gyllideb. Gwelir defnydd cynyddol o staff asiantaeth gweithwyr cymdeithasol a staff asiantaeth Cartref Gofal, er hyn yn 22/23 roedd hyn wedi'i gynnwys yn bennaf gan arbedion mewn mannau eraill o fewn y gwasanaeth Llesiant Gydol Oes h.y. swyddi gwag / swyddi gwag parhaol / gwasanaethau Dydd. Mae atodiadau i'r farchnad hefyd erbyn hyn yn talu am rai swyddi Gweithwyr Cymdeithasol, sydd ar hyn o bryd yn cael eu hariannu gan gronfeydd wrth gefn (£198k).

Ar ddiwedd y flwyddyn, gosodwyd swm o £1.0m yn gorfforaethol o'r neilltu i gronfa amcanion llesiant corfforaethol Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach. Roedd hyn yn gysylltiedig â phenderfyniad gan y Cabinet i ddod o hyd i Gartref Gofal sector preifat yn Aberystwyth yn ystod 2023/24.

Wrth edrych ymlaen at 2023/24 a thu hwnt, mae'r heriau ariannol sy'n gwynebu'r Cyngor a gwasanaethau Pyrth yn parhau yn sylweddol gan ystyried pwysau ariannol â deinameg y boblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r amrywiaeth o bwysau ariannol sy'n gwynebu'r Cyngor ar gyfer 23/24 yn gyfanswm o £22m (£10.9m yn gysylltiedig â gwasanaethau Pyrth Llesiant Gydol Oes), sy'n cyfateb i gyfradd chwyddiant o dros 13%. Mae'r pwysau ariannol hyn yn cynnwys cynnydd o £1 i'r Cyflog Byw Gwirioneddol i £10.90 i Weithwyr Gofal Cofrestredig yn ogystal â heriau dyfarnu cyflog staff cyffredinol, yr angen am fuddsoddiad pellach i'r sector Gofal Cartref yn barod ar gyfer fframwaith tendro newydd a niferoedd cynyddol o Blant sy'n Derbyn Gofal yn y sir a'r tu allan iddi, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoliadau ar gyfer Pobl Hŷn a lleoliadau Dysgu'r Anabl. Mae her recriwtio sylweddol o hyd ar gyfer rolau Gweithwyr Cymdeithasol proffesiynol a rolau mewn Cartrefi Gofal.

Yn nhermau buddsoddiad cyfalaf, mae amrywiaeth o fuddsoddiadau'n cael eu buddsoddi mewn gwasanaethau Pyrth. Mae hyn yn cynnwys ail-bwrpasu cyfleusterau Hamdden i Ganolfannau Lles, gyda Chanolfan Lles Llanbed y cyntaf o'r rhain i gael eu cwblhau yn 23/24. Mae hefyd cryn dipyn o fuddsoddiad cyfalaf yn cael ei fuddsoddi yn isadeiledd ein Cartref Gofal Awdurdod Lleol, gan gynnwys prosiect dementia yng Nghartref Gofal Hafan Deg yn ogystal â mentrau newydd sy'n cael eu datblygu ar gyfer 3 cyfleusterau Plant y Sir, gyda'r cyntaf i ddod ar y ffrwd tua diwedd 2023/24.

## Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Mae'r holl wasanaethau ar draws Gwasanaeth Llesiant Gydol Oes, yn gweithio o fewn fframwaith deddfwriaethol, rheoleiddiol, polisi ac arweiniad gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn atebol ac yn cydymffurfio.

<u>Llywodraethu Corfforaethol</u>

- Bwrdd Rhaglen Llesiant Gydol Oes
- Grŵp Arweiniol
- Pwyllgor Craffu Cymunedau Iachach
- Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
- Cabinet
- Cyngor Llawn

<u>Partneriaethau Allanol</u>

- Llywodraeth Cymru

- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canol a Gorllewin Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Archwilio Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Gwasanaeth Mabwysiadu Canol a Gorllewin Cymru

**Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru**

Mae Adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynhyrchu Cynlluniau Ardal sy'n amlinellu'r amrywiaeth a lefel y gwasanaethau a gaiff eu darparu yn eu hardal mewn ymateb i Asesiadau o'r Boblogaeth ranbarthol. Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu cynhyrchu bob 5 mlynedd a rhaid i'r cynlluniau cychwynnol gael eu cyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2019.

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership
Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd
Delivering Change Together




Mae Cynllun Ardal Gorllewin Cymru ar gyfer 2018-23, 'Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd' wedi cael ei gytuno gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'n cynnwys cyfres o ymrwymiadau strategol y bydd y Bartneriaeth yn gweithredu arnynt dros y pum mlynedd nesaf i gefnogi trawsnewid ac integreiddio gofal a chymorth yn y rhanbarth.

**Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru:**

CYSUR yw Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Acronym ar gyfer Diogelu Plant a Phobl Ifanc: Uno'r Rhanbarth yw CYSUR a dyma'r gair Cymraeg am dawelu'r meddwl hefyd.
Mae CYSUR yn gyfuniad o'r hen Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

CWMPAS yw Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Acronym ar gyfer Cydweithio a Chynnal Partneriaeth wrth Ddiogelu Oedolion yw CWMPAS a dyma hefyd y gair Cymraeg am sgôp neu gylch gwaith.
Mae cylch gwaith CWMPAS hefyd yn ymestyn ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

Sefydlwyd y trefniadau rhanbarthol i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn ystod 2022-2023, roedd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau i weithredu yn unol â'i rwymedigaethau statudol. Roedd swyddogion Cyngor Sir Ceredigion wedi cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r Bwrdd yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae datblygu atebion creadigol i rai o'r heriau sylweddol y mae'r gweithlu gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu ar lefel genedlaethol wedi bod yn faes allweddol arall o waith y Bwrdd eleni, yn ogystal â gweithredu polisïau a phrotocolau aml-asiantaeth allweddol.

Mae ymateb cydweithredol y Bwrdd i'r heriau parhaus, ynghyd â'n llwyddiannau a'n cyflawniadau, wedi parhau i ddangos pwysigrwydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'u gwaith yn diogelu plant ac oedolion sy'n gwynebu risg.

# 6. Gwybodaeth bellach a dogfennau allweddol

| Title | Location |
|---|---|
| Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | _media_gk3j1g4g_ maww-safeguarding |
| Adroddiad Blynyddol Uned Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion 2021-2022 | Gofalwyr a Chymorth Cymuned |
| Proffil Iaith Ceredigion | www.ceredigion.gov.uk/media/13131/adroddiad-monitro-blynyddol-safonaur-gymraeg-2022-23.pdf (ceredigion.gov.uk) |
| Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru | cym-Carers-Strategy -Final-20.10.20 (1).pd |
| Cynllun Ardal Gorllewin Cymru ar gyfer 2018-23, 'Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd' | BARODFINALWELSH -West-Wales-Area-P |
| Strategaeth Gydol Oes a Llesiant a Chynllun Gweithredu 2021-2027 | PowerPoint Presentation (ceredigion.gov.uk)<br>20211001-taw-strategy-action-plan-final-approved.pdf (ceredigion.gov.uk) |
| Adroddiad Statudol Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020-2021<br><br>Adroddiad Statudol Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-2022 | https://www.ceredigion.gov.uk/media/13423/adroddiad-blynyddol-cyfarwyddwr-statudol-y-gwasanathau-cymdeithasol-ar-gyfer-2020-2021.pdf<br><br>https://www.ceredigion.gov.uk/media/13424/adroddiad-blynyddol-cyfarwyddwr-statudol-y-gwasanathau-cymdeithasol-ar-gyfer-2021-2022.pdf |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **22 Tachwedd 2023** |
| **Teitl:** | **Cyflwyno i'r Pwyllgor ganfyddiadau'r adolygiad ynglŷn â thrawsnewid Gwasanaethau Dydd (Pobl Hŷn, Anableddau Dysgu, Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog, ac Awtistiaeth) a Darpariaeth Seibiant (Gydol Oes) Ceredigion** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Craffu ar ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd a'r Cynllun Gweithredu sydd wedi'i ddatblygu, gan wneud argymhellion i Gabinet Cyngor Sir Ceredigion.** |

**Rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth hon:**
**Er mwyn craffu ar yr adroddiad a'r Cynllun Gweithredu a gwneud argymhellion i Gabinet Cyngor Sir Ceredigion.**

**Cefndir**

Ar 6 Rhagfyr 2022, cymeradwyodd y Cabinet y dylem fwrw ymlaen i gynnal ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori ehangach yn 2023 gan ganolbwyntio ar ail-lunio'r cyfleoedd o ran y gwasanaethau dydd a'r ddarpariaeth seibiant. Wrth ymgysylltu ac ymgynghori, rhoddwyd ystyriaeth fanwl i brif egwyddorion y Strategaeth Llesiant Gydol Oes ochr yn ochr â'r Strategaethau Cenedlaethol a Rhanbarthol sy'n gysylltiedig ag Anableddau Dysgu, Plant sy'n Derbyn Gofal a chyfleoedd o ran seibiant ar sail gydol oes.

Bu i'r adolygiad ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol: -

- Cyfleoedd o ran gwasanaethau dydd i oedolion hŷn gan gynnwys y rheiny sy'n byw gyda diagnosis o ddementia
- Cyfleoedd o ran gwasanaethau dydd i unigolion sy'n byw ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anawsterau dysgu dwys a lluosog.
- Llwybrau pontio gydol oes ar gyfer y rheiny sy'n byw ag anableddau dysgu / awtistiaeth
- Darpariaeth seibiant (dydd a phreswyl) gydol oes

Cafodd ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori eang ei gynnal rhwng mis Mawrth a mis Awst 2023, Gwnaed y gwaith hwn gan gwmni annibynnol (*Practice Solutions Limited*) ac ariannwyd y gwaith drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Mae'r adolygiad yn rhan o waith y Cyngor wrth iddo gyflawni'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes ar gyfer 2021-2027 a'r cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig â hi. Gwnaeth y Cyngor gytuno i'r Strategaeth a'r cynllun gweithredu ym mis Hydref 2021. Comisiynwyd *Practice Solutions Ltd* i gefnogi'r Cyngor wrth iddo ymgynghori ynghylch y bwriad i drawsnewid y gwasanaethau. Hefyd, bu

i *Practice Solutions Ltd* gynnal ymchwil pen desg a hwyluso gweithgareddau ymgysylltu annibynnol sy'n sail i'r adroddiad hwn.

Defnyddiwyd dulliau cymysg yn yr adolygiad. Cynhaliwyd ymarfer pen desg i ddadansoddi adroddiadau ar wasanaethau lleol ynghyd ag adolygiad o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r dyletswyddau a roddwyd ar sefydliadau i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Bu ystod eang o randdeiliaid yn rhan o'r gwaith, gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal seibiant a chyfleoedd dydd, teuluoedd a gofalwyr, sefydliadau darparu gwasanaethau, gweithwyr y cyngor sy'n gweithio mewn canolfannau gofal cymdeithasol a chyfleoedd dydd, gweithwyr iechyd, pobl ag anableddau dysgu, pobl â dementia, plant a phobl ifanc a phobl sydd ag anghenion cymhleth. Dosbarthwyd arolwg i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd, gofalwyr di-dâl eraill, staff y Cyngor a staff yn y sefydliadau sy'n bartneriaid i'r Cyngor.

Paratowyd arolwg ar gyfer y cyhoedd a oedd ar gael ar wefan y Cyngor ac yn ystod y cyfnod ymgysylltu, cafwyd 205 o ymatebion. Ochr yn ochr â hynny, fe wnaeth Practice Solutions ymgysylltu â 206 o bobl wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cymerodd cyfanswm o 411 o bobl ran yn yr adolygiad.

Ar ôl cwblhau'r ymarferion ymgysylltu a'r ymarferion pen desg, dadansoddwyd y data a nodwyd y canfyddiadau allweddol canlynol. O'r canfyddiadau allweddol hyn datblygwyd nifer o argymhellion, er mwyn i'r Cyngor eu hystyried. Mae'r argymhellion yn cael eu nodi isod:

**Canfyddiadau allweddol yr adolygiad**

Roedd y safbwyntiau a fynegwyd gan gyfranogwyr yn yr adolygiad yn nodi bron pob mater a amlygwyd yn adolygiad cenedlaethol ADSS Cymru. Mae llawer o'r materion a wynebir yng Ngheredigion yn gyffredin i lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni chodwyd rhai materion a grybwyllwyd yn yr adolygiad cenedlaethol yn adolygiad Ceredigion. Yn fwyaf nodedig ymhlith y materion na thrafodwyd rhyw lawer arnynt oedd y defnydd o dechnoleg fideo, y cyfryngau cymdeithasol ac apiau cyfathrebu i gynyddu'r cyfleoedd o ran gwasanaethau dydd. Mewn rhai ardaloedd, arweiniodd hyn at greu grwpiau *WhatsApp* fel y gallai'r defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr barhau i gwrdd y tu allan i'r gwasanaethau ffurfiol.

Mae canfyddiadau allweddol adolygiad Ceredigion yn perthyn i sawl thema. Mae llawer ohonynt yn cael eu hailadrodd ar draws y grwpiau oedran a'r cleientiaid, ond roedd rhai yn fwy penodol i grwpiau cleientiaid unigol. Felly, nodir y themâu allweddol isod gan ddefnyddio penawdau. Oni nodir yn wahanol, maent yn gyffredin trwy'r gwasanaethau.

**Pwysigrwydd cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant**

Roedd cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant yn cael eu hystyried yn hanfodol i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac anghenion galwedigaethol y bobl hynny sy'n eu defnyddio ynghyd â diwallu eu hanghenion o ran gweithgareddau. Nodwyd hefyd eu bod yn hanfodol wrth alluogi gofalwyr di-dâl i barhau i ddarparu eu rôl hanfodol. Heb y gwasanaethau hyn, byddai gofalwyr yn ei chael hi'n anodd gofalu. Yn ogystal, heb ofalwyr di-dâl, ni fyddai gwasanaethau'n gallu llenwi'r bwlch hwn. Byddai hyn yn debygol o arwain at sefyllfa lle byddai angen ymyriadau gan wasanaeth statudol ar lawer o bobl yn enwedig y bobl hynny sydd ag anghenion cymhleth.

**Effaith COVID-19**

Yn debyg i'r sefyllfa mewn awdurdodau ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig, roedd y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar wasanaethau. Bu'n rhaid cau llawer o wasanaethau neu gyfyngu arnynt ac adroddwyd bod rhai pobl, yn enwedig y rhai a oedd yn byw mewn tai â chymorth, wedi colli eu gwasanaethau oherwydd rhoddwyd blaenoriaeth i'r bobl nad oeddent yn cael eu cefnogi. Nid yw'r gwasanaethau wedi dychwelyd i'r hyn a oeddent cyn COVID-19 ac nid yw rhai pobl a adawodd y gwasanaethau wedi dychwelyd. Canfu'r adolygiad cenedlaethol fod hyn yn gyffredin ledled Cymru. Roedd rhai gwasanaethau'n defnyddio technoleg megis cyfleusterau fideogynadledda a rhoddwyd cefnogaeth y tu allan i'r gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd, i lenwi'r bylchau. Cafodd nifer o fentrau a gynlluniwyd yn flaenorol eu cyflwyno'n gynharach gan rai awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r angen am gefnogaeth barhaus. Mae llawer o lefydd yng Nghymru wedi cadw'r dulliau hyn o weithredu wrth iddynt ailgynllunio gwasanaethau.

**Cymhlethdod ac angen haenedig**

Trwy'r adolygiad, un sylw a wnaed yn aml oedd nad yw un ateb yn addas i bawb. Mae anghenion a chwaeth pob unigolyn yn wahanol a cheir lefel uchel o gymhlethdod o ran anghenion gofal a threfniadau rhai pobl. Mae gan y bobl sydd angen gwasanaethau sbectrwm o anghenion, ac mae hyn yn gofyn am yr hyn sy'n cael ei alw'n ymateb haenedig.

Roedd y sylwebaeth yn yr adolygiad cenedlaethol yn awgrymu'n gryf bod yr anghenion yn fwy cymhleth am amrywiaeth o resymau, ac mae hyn yn effeithio ar y galw am wasanaethau a chapasiti'r gwasanaethau i ddiwallu anghenion.

Yng Ngheredigion, rhoddwyd disgrifiadau o bobl a oedd wedi dod yn fwy bregus yn ystod y cyfnod clo ac a oedd yn fwy pryderus ynglŷn â defnyddio'r gwasanaethau rhag ofn y byddent yn dal clefydau. Nid yw'r materion hyn yn unigryw i Geredigion ac adroddwyd amdanynt ar draws y wlad. Mae'r ffactorau hyn a'r ffaith bod anghenion pobl wedi datblygu i fod yn fwyfwy cymhleth yn dangos bod angen canolbwyntio ar unigolion a blaenoriaethu'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf a'u gofalwyr di-dâl.

**Trafnidiaeth**

Un mater a gafodd sylw mawr gan y rhanddeiliaid oedd trafnidiaeth. Amlygodd yr adolygiad cenedlaethol pa mor angenrheidiol yw trafnidiaeth a thynnodd sylw at effaith COVID-19, y mesurau a gyflwynwyd o ran pellter cymdeithasol a'r cynnydd diweddar mewn prisiau tanwydd ar y drafnidiaeth a oedd ar gael ar hyn o bryd a pha mor addas ydyw. Dangoswyd pa mor ganolog oedd y materion hyn mewn cymunedau gwledig. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn adolygiad Ceredigion yn amlygu hyn.

Roedd hwn yn bwnc byw i'r cyfranogwyr ac roeddent yn ystyried bod trafnidiaeth yn allweddol bwysig ar gyfer cael mynediad at wasanaethau. Cynigiwyd nifer o atebion posibl gan wahanol grwpiau. Wrth ddod o hyd i atebion ymarferol i'r her hon, mae'n bosib y bydd angen ystyried y rhain drwy strategaeth ffurfiol sy'n adlewyrchu anghenion gwahanol unigolion a grwpiau.

**Staffio**

Roedd pob sector wedi sôn am brinder staff. Yn y trydydd sector, dywedwyd bod y problemau wedi gwaethygu gan fod angen, oherwydd pwysau ariannol, gyflwyno contractau tymor byr a chontractau dim oriau. Mae hyn wedi arwain at staff yn gadael ac ofnau y gallai rhagor o staff adael. Dywedwyd

bod prinder Gweithwyr Cymdeithasol yn arwain at ddiffyg dilyniant mewn gofal i bobl sy'n defnyddio’r gwasanaethau a llai o gyswllt â gofalwyr a staff di-dâl mewn asiantaethau eraill. Amlygwyd problemau staffio yn yr adroddiad cenedlaethol ac mae'r materion a nodwyd yn genedlaethol yn amlwg yng Ngheredigion.

Mae cael staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy’n ymroddedig yn hanfodol i alluogi adferiad yn y gwasanaeth ar ôl COVID ac i gynorthwyo â’r gwaith o ailgynllunio gwasanaethau. Mae rhai o'r gwelliannau y mae rhai rhanddeiliaid yn gofyn amdanynt yn dibynnu ar y gweithlu sydd ar gael. Efallai y bydd hyn yn golygu y bydd angen adolygu’r gweithlu amlasiantaethol a chyflwyno dulliau gweithredu darbodus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i wneud y defnydd mwyaf o’r gweithlu cyfunol.

Mae’r adroddiad cenedlaethol yn nodi bod y gweithlu yn cael ei ystyried yn ased cyffredinol wrth drawsnewid gwasanaethau ond y gall aelodau'r gweithlu fod yn rhwystr i newid. Nodwyd y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar rai staff o ran hyfforddiant rheoli newid a hyfforddiant ynghylch canolbwyntio ar yr unigolyn a chyd-gynhyrchu. Efallai y bydd angen i Geredigion ystyried y materion hyn wrth ystyried trawsnewid gwasanaethau.

**Alinio gwasanaeth**

Roedd gan y staff a gymerodd ran yn y digwyddiad lawer iawn o barch at ei gilydd. Fodd bynnag, roeddent yn credu y gellid gwella’r modd y darperir gwasanaethau ac y gallent fod yn fwy effeithlon pe bai'r asiantaethau a'r staff yn cydweithio'n agosach. Gwnaed nifer o awgrymiadau gan gynnwys caniatáu i sefydliadau'r trydydd sector ddefnyddio adeiladau'r cyngor pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, gwneud mwy o ddefnydd o wasanaethau a gomisiynir gan y trydydd sector, darparu gofal iechyd a gofal personol mewn lleoliadau cyfleoedd dydd, cyflwyno dull mwy unedig o weithio gyda'i gilydd o ran cyfleoedd sy’n ymwneud â cyflogaeth â thâl drwy gydweithio fel cyflogwyr a gyda chyflogwyr, ac ystyried dulliau ar y cyd o ran defnyddio cyfleusterau cymunedol eraill.

**Cyfathrebu**

Roedd hon yn broblem i’r holl grwpiau a gyfrannodd. Roedd rhai o’r farn bod llai o gyfathrebu wedi bod yn ystod y pandemig rhwng yr asiantaethau a rhwng y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu gofalwyr a'r gwasanaethau eu hunain.

Tynnwyd sylw at gyfathrebu yng nghyd-destun cyflwyno’r cynigion hyn. Roedd rhai aelodau o staff o’r farn y byddai’n well pe byddai’r ymgysylltu wedi digwydd ynghynt . Nid oedd rhai yn gwybod am y cynigion tan iddynt gymryd rhan yn yr adolygiad hwn. Serch hynny, roedd pob sector wedi croesawu’r cyfle i fod yn rhan o’r adolygiad ac wedi croesawu’r cyfathrebu sydd wedi digwydd yn sgil hynny. Ar ben hynny, maen nhw wedi ymrwymo i gymryd rhan ac maen nhw am barhau i wneud hynny wrth i'r broses symud ymlaen. Fodd bynnag, roedd rhai pobl yn amheus a fydd y Cyngor wir yn gwrando ar eu barn a'u pryderon.

Dywedodd rhai fod y fforymau a'r trefniadau eiriolaeth a oedd yn bodoli o'r blaen wedi gwanhau yn ddiweddar. Teimlwyd y gellid ailedrych ar y rhain a'u hadfywio er mwyn caniatáu i bobl fel gofalwyr, y sawl sy'n defnyddio’r gwasanaethau a’r staff gael dweud eu dweud.

Bu i'r asiantaethau sy'n cydweithio â'r Cyngor feirniadu'r llinellau ffôn newydd a gyflwynwyd gan y Cyngor. Soniodd rhai pobl eu bod wedi aros yn hir cyn cael ateb a'u bod yn siarad â gweithwyr ar y ffôn gan oedd mor gyfarwydd â'r gwasanaethau ag yr oedd yr ymarferwyr unigol a'r bobl yr oedd gan staff asiantaethau eraill berthnasau gwaith agos â hwy cyn hynny.

**Taliadau uniongyrchol**

Cyfeiriodd llawer o grwpiau at daliadau uniongyrchol. Roedd y taliadau uniongyrchol yn cael eu hystyried fel rhywbeth cadarnhaol gan eu bod yn caniatáu mwy o hyblygrwydd, bod modd teilwra'r ddarpariaeth i anghenion unigol a'u bod yn cynnig mwy o ddewis. Fodd bynnag, roedd llawer yn eu hystyried yn rhy gymhleth ac nid oedd fawr ddim cefnogaeth yn cael ei chynnig i bobl fel y gallent reoli'r gwaith o'u gweinyddu. Hefyd, mae'r ffaith bod prinder cynorthwywyr personol ar gael y gellir defnyddio'r taliadau uniongyrchol i'w cyflogi yn effeithio'n sylweddol ar y buddion posibl yn yr hinsawdd gyflogaeth bresennol.

**Y cynigion i ailgynllunio gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion**

Cymysg oedd barn y rhai wnaeth gymryd rhan yn yr adolygiad ynglŷn â'r cynigion i ddiwygio'r gwasanaethau. Gwnaeth rhai o'r bobl groesawu'r cynigion, gan gydnabod yr angen i ddiwygio er mwyn cynnig gwasanaeth mwy cymunedol gan ddiwallu'r anghenion sy'n codi yn sgil newid yn y galw a'r galw a ddisgwylir yn y dyfodol. Roedd eraill yn amheus am ba mor ymarferol yr oeddent, yn bennaf o ran gofal gydol oes a'r ffaith y byddai grwpiau cleientiaid yn cymysgu o fewn yr un amgylchedd. Roedd y pryderon hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr angen am sgiliau penodol i weithio gyda grwpiau cleientiaid penodol a materion diogelu posibl. Nid oedd llawer a oedd yn amheus yn gwrthwynebu'n llwyr ond roeddent yn teimlo y byddai angen rheoli newidiadau o'r fath yn ofalus.

Yn fras, roedd pobl eisiau mwy o wybodaeth a manylion ar sut y byddai'r cynigion yn cael eu llunio a sut y byddai'r newidiadau'n cael eu cyflwyno. Byddai modd cynnal ymarferion ymgynghori i sicrhau y clywir barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu gofalwyr di-dâl a'r staff ym mhob sefydliad perthnasol a byddai hyn yn debygol o fod o gymorth wrth fynd i'r afael â'r ansicrwydd a'r pryderon sydd gan bobl.

Rhoddwyd croeso eang i'r bwriad i ehangu'r ystod o weithgareddau a gynigir ond roedd yr holl grwpiau o'r farn y dylai dewisiadau'r defnyddwyr gwasanaeth a'r cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fod wrth wraidd hyn.

O bwyso a mesur popeth, cytunodd y rhan fwyaf y byddai cael mwy o weithgareddau a fyddai'n canolbwyntio ar gyfleoedd ystyrlon sy'n datblygu sgiliau bywyd a chyflogaeth â thâl o bosibl yn rhywbeth cadarnhaol iawn. Dylai gweithgareddau o'r fath a gynigiwyd cyn y pandemig gael eu blaenoriaethu a'u hehangu yn y dyfodol. Croesawyd ymestyn yr oriau ond nid oedd llawer o grwpiau am weld hyn ar draul oriau craidd y gwasanaethau.

**Modelau both ac adain**

Yn ystod yr adolygiad cenedlaethol, trafodwyd y cysyniad o wasanaethau both ac adain yn aml. Mae llawer o'r materion a godwyd yn y trafodaethau hyn yn cyd-fynd â'r materion hynny a godwyd yng Ngheredigion, yn fwyaf nodedig defnyddio cymysgedd o wasanaethau dydd sy'n cynnig cymorth sy'n seiliedig ar le a mynediad at gyfleusterau cymunedol. Mae'r model both ac adain, sy'n defnyddio'r ganolfan ddydd fel adnodd cymunedol gyda chyfleusterau cymunedol eraill, yn cynnig cyfuniad o gyfleoedd sy'n seiliedig ar le a chyfleoedd cymunedol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau dydd a gofal seibiant. Trwy archwilio'r modelau hyn, byddem yn cefnogi'r hyn y mae'r defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd wedi'i ddweud o ran defnyddio dull cyfunol i ddiwallu

anghenion. Byddai'r ganolfan neu'r hwb yn caniatáu i bobl sydd ag anghenion gofal personol cymhleth a rhai heriau ymddygiadol dderbyn rhai agweddau ar y cymorth sydd ei angen arnynt mewn amgylchedd sy'n diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Byddai'r cymhorthion a'r addasiadau angenrheidiol hefyd ar gael iddynt yno.

**Cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion**

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru, yn fwyaf nodedig, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Mesur Iechyd Meddwl ynghyd â'r strategaethau a'r polisïau perthnasol, yn arddel egwyddorion cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion ac mae'n ddyletswydd statudol yn achos rhai pobl. Gall defnyddio cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ddarparu llais a chynnig dewis. Ar ben hynny, cafwyd nifer o drafodaethau ynghylch ehangu'r ystod o weithgareddau a'r mannau y dylai'r rhain ddigwydd a gall cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fod wrth galon y trafodaethau hyn. Dywedodd rhai staff fod cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eisoes yn cael eu defnyddio. Serch hynny, mae adolygiadau cenedlaethol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Mesur Iechyd Meddwl wedi cwestiynu ansawdd cyffredinol y Cynlluniau Gofal a Chymorth a'r Cynlluniau Gofal a Thriniaeth. Gallai parhau i adolygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar unigolion i sicrhau ansawdd felly arwain at fuddion o ran sicrhau pecynnau wedi'u teilwra ar gyfer unigolion a chyfrannu at brosesau rheoli newid.

Un mater a amlygwyd yn yr adolygiad cenedlaethol wrth ystyried cynlluniau unigol oedd nad yw anghenion y person sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u gofalwyr di-dâl bob amser yn cyd-fynd â'i gilydd yn llwyr. Yn aml, caiff y buddion sy'n deillio o gyfleoedd dydd a gofal seibiant i'r gofalwr di-dâl eu hystyried fel rhai sy'n rhoi seibiant iddynt. Mae hyn yn caniatáu iddynt weithio, ymgymryd â thasgau hanfodol a chael rhywfaint o amser iddyn nhw eu hunain gan gynnwys y cyfle i gwrdd â gofalwyr di-dâl eraill.

Fodd bynnag, wrth gynllunio ar gyfer addasu'r gwasanaethau a gynigir yn seiliedig ar ddymuniadau'r defnyddiwr yn hytrach na chanolbwyntio ar hyd, amlder a lleoliad y cymorth, gall hyn greu tensiynau rhwng y gwasanaethau, y staff ac yn benodol y gofalwyr di-dâl. Nid yw'n hawdd datrys hyn ond mae'r angen i gynllunio er budd pennaf y defnyddiwr gwasanaeth yn hanfodol a lle mae adolygu gwasanaethau'n arwain at rai o'r newidiadau hyn, bydd angen cynllunio ac ymgysylltu'n ofalus â defnyddiwr y gwasanaeth a'r gofalwr. Os yw hyn yn effeithio ar ofalwyr di-dâl, dylid mynd i'r afael â'u hanghenion a'u hasesu'n briodol hefyd. Canfu'r adolygiad nad yw hyn yn digwydd bob amser ar hyn o bryd.

**Pobl sydd â dementia ac sy'n colli eu cof**

Roedd y grŵp hwn o bobl yn teimlo nad oedd gwasanaethau'r Cyngor yn eu gwasanaethu'n ddigonol. Wrth i'r gwasanaethau gael eu datblygu, roeddent yn ffafrio derbyn cymorth mewn cyfleusterau cymunedol lle nad oes stigma a lle gellir cynllunio gofal seibiant ymlaen llaw.

**Oedolion ag anableddau dysgu**

Pwysleisiodd llawer o bobl yn y grŵp hwn bwysigrwydd trefn arferol, sicrwydd bod y gefnogaeth yn parhau, a'r angen am amgylchedd tawel.

**Plant a phobl ifanc**

Roedd plant a phobl ifanc yn glir eu bod yn ffafrio gweithgareddau sy'n cefnogi datblygu sgiliau, sy'n seiliedig ar wneud tasgau ac sy'n defnyddio adnoddau cymunedol. Nid ydynt ychwaith am gael eu

hatal rhag gwneud rhai gweithgareddau y mae plant nad ydynt yng ngofal yr awdurdod lleol yn medru cymryd rhan ynddynt, er enghraifft trampolinio.

**Pobl Ifanc mewn Cyfnodau Pontio**

Mynegodd y grŵp hwn awydd cryf i fynd i'r afael â'u hanghenion a'u hamgylchiadau newidiol yn gynharach yn eu llwybr gofal er mwyn atal bylchau mewn cefnogaeth. Byddai gwneud hyn hefyd yn golygu na fyddent yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau i oedolion wrth iddynt adael byd oedolion ifanc a symud i wasanaethau sydd wedi'u cyfeirio at oedolion o oedran gweithio.

**Newid enwau rhai canolfannau dydd.**

Ni wnaeth bron i hanner yr ymatebwyr, 43%, fynegi unrhyw farn ar y mater hwn. O'r rhai wnaeth fynegi barn, roedd mwyafrif bychan (25%) yn gwrthwynebu'r syniad. Ni ddylid cymryd yn ganiataol nad oedd y rhai na wnaethant ymateb yn gwrthwynebu'r syniad.

Os bydd y Cyngor yn dymuno symud ymlaen i newid enwau wrth gynnig newidiadau arfaethedig o ran defnydd ac ehangu'r gwasanaethau a gynigir ganddo, a'i fod yn dymuno cael sêl bendith y boblogaeth leol gan gynnwys y rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd, bydd angen iddo ofyn eto am farn y bobl ynglŷn â newid yr enw.

**Yr angen am newid**

Mae pob un o'r ffactorau canlynol yn awgrymu'n gryf bod angen diwygio'r gwasanaethau a ddarperir yng Ngheredigion: anghenion y defnyddwyr gwasanaeth yn dod yn fwyfwy cymhleth; effaith y pandemig; effaith costau tanwydd, bwyd ac adnoddau yn gyffredinol; nifer y staff sydd ar gael; newidiadau yn awydd y defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio mwy o wasanaethau yn y gymuned ac asedau cymunedol yn ogystal â gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd, heriau o ran trafnidiaeth, yr angen am fwy o aliniad o ran yr asiantaethau rhwng gofal cymdeithasol, y GIG a gwasanaethau'r trydydd sector. Nodwyd yr un ffactorau mewn rhannau eraill o Gymru fel y rhai a fyddai'n ysgogi newid.

Staff yw'r ased unigol mwyaf wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ac mae gofalwyr di-dâl yn darparu'r sylfaen a'r berthynas graidd honno sy'n cynnal y rheiny sy'n derbyn gwasanaethau dydd a gwasanaethau seibiant. Mae'n hanfodol felly bod staff a gofalwyr di-dâl yn gweithio ochr yn ochr â'r cyngor a'i bartneriaid wrth iddynt weithio i oresgyn yr heriau y mae gwasanaethau'n eu hwynebu. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt barhau i fod yn rhan o'r broses a bod eu lleisiau wir yn cael eu clywed.

Fodd bynnag, mae anghenion, dymuniadau, dewisiadau a lleisiau'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn hollbwysig. Rhaid iddynt fod yn rhan o'r ddeialog barhaus i sicrhau bod cynlluniau sydd wir yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu defnyddio i ddiwallu eu hanghenion mewn amgylchedd sy'n eu galluogi i dyfu a chyflawni eu potensial llawn.

Hefyd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, wrth i'r Cyngor a'r asiantaethau sy'n bartneriaid baratoi cynlluniau a bwrw ymlaen â'r newidiadau hyn yn y gwasanaethau y maent yn eu hystyried sy'n angenrheidiol, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn ystyried anghenion y rheiny fydd angen gwasanaethau yn y dyfodol a gwarantu bod y gwasanaethau hyn yn effeithlon, yn effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gynaliadwy.

**Argymhellion**

1. Dylai Cyngor Sir Ceredigion fwrw ymlaen â'i gynlluniau i ddiwygio'r cyfleoedd dydd a'r gwasanaethau gofal seibiant a ddarperir gan ddefnyddio'r adroddiad hwn a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

2. Dylai'r Cyngor ystyried datblygu rôl arweinydd trawsnewid i oruchwylio ac ysgogi'r broses rheoli newid a'r broses weithredu.

3. Dylai Cyngor Sir Ceredigion weithio gyda'r asiantaethau sy'n bartneriaid iddo gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector i sicrhau y gellir gwireddu unrhyw arbedion effeithlonrwydd posibl drwy waith cynllunio gweithredol a strategol ar y cyd. Bydd angen i'r gwaith hwn ystyried dulliau arloesol o rannu adnoddau.

4. Dylai Cyngor Sir Ceredigion adolygu ei brosesau o ran cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i sicrhau bod y rhain yn effeithiol, nad ydynt yn rhy fiwrocrataidd a'u bod wir yn cynnwys ac yn hyrwyddo lleisiau a dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth mewn cynlluniau sydd wedi'u teilwra'n unigol. Rhaid iddynt hefyd gyd-fynd ag unrhyw ddyletswyddau statudol sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Mesur Iechyd Meddwl. Dylai pawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn gael cynllun o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Lle bo angen, dylai'r Cyngor adolygu cynlluniau gofal a chymorth y bobl hynny yr oedd y newidiadau yn y gwasanaethau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig wedi effeithio arnynt. Dylai'r newidiadau roi blaenoriaeth i grwpiau penodol megis pobl sydd â dementia, gofalwyr a gofalwyr maeth gan y nodwyd nad oes digon o wasanaethau wedi'u datblygu ar eu cyfer.

5. Gan fod diwygio gwasanaethau yn effeithio ar yr hyn a ddarperir, mae angen i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau bod sylw yn cael ei roi i anghenion teuluoedd a gofalwyr di-dâl eraill gan gynnwys asesiadau ystyrlon a chefnogaeth ddigonol.

6. Dylai Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'i bartneriaid, ystyried mabwysiadu model both ac adain sy'n defnyddio canolfannau gwasanaeth fel hybiau neu ganolfannau cymunedol gan ddefnyddio ystod o gyfleusterau cymunedol i ddarparu cyfleoedd dydd a fyddai'n medru darparu'r gweithgareddau hynny y byddai pobl yn dymuno mynd iddynt, cyn agosed at eu cartrefi â phosibl. Dylai hyn gynnwys cefnogi a galluogi pobl i gael gwaith â thâl a chyfleoedd dysgu ffurfiol lle bo hynny'n briodol.

7. Dylai Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'i bartneriaid, ddatblygu strategaeth drafnidiaeth sy'n sicrhau bod y dulliau mwyaf effeithlon yn cael eu defnyddio i alluogi mynediad at gyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant. Bydd angen i hyn ystyried trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat ynghyd â thrafnidiaeth a ddarperir gan y Cyngor.

8. Wrth ddilyn ei agenda diwygio, bydd angen i'r Cyngor ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, staff y cyngor a'r rhai sy'n gweithio mewn asiantaethau eraill gan ymgynghori'n ffurfiol ac yn anffurfiol. Dylid adolygu'r fforymau a ddefnyddiwyd yn flaenorol i ymgysylltu â'r grwpiau hyn a lle bo'n briodol, dylid eu hailsefydlu fel y gellid gweithio mewn partneriaeth wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno.

9. Dylai'r Cyngor ystyried gofyn eto am farn pobl ar y cynnig i ailenwi ei ganolfannau dydd fel rhan o'i ymgynghoriad ehangach ar ddiwygio gwasanaethau.

Wrth gyflawni'r cynllun gweithredu, byddwn yn sicrhau y bydd y Gymraeg yn rhan annatod o bopeth a wnawn.

**Y Camau Nesaf**

- Cyflwyno'r wybodaeth i Grŵp Strategol Ceredigion Iachach a chreu Grŵp Datblygu Integredig ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r 3ydd Sector i oruchwylio'r modd y caiff y Cynllun Gweithredu ei roi ar waith.
- Rhannu canfyddiadau cychwynnol yr adolygiad â'r rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y defnyddwyr gwasanaeth, staff, teuluoedd, gofalwyr, y cyhoedd a sefydliadau yn y 3ydd sector.
- Datblygu rhestr adnoddau a chynllun cadarn ar gyfer y rhaglen er mwyn darparu cefnogaeth a sicrhau bod capasiti ar gael fel y gellid arwain y rhaglen drawsnewid sylweddol hon.
- Datblygu cynllun ymgysylltu a chyfathrebu cadarn, gan gefnogi a darparu cyfleoedd i gleientiaid a grwpiau gofalwyr i fod yn rhan weithredol o'r gwaith o ail-ddylunio'r modelau a llwybrau newydd.
- Gweithio gyda'r undebau wrth ddatblygu grŵp sy'n cynrychioli'r staff a fydd yn ymwneud â'r broses o archwilio a datblygu ffyrdd newydd o weithio gan gymryd rhan yn y broses honno.
- Dychwelyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach i gyflwyno Adroddiad Cynnydd Blynyddol.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, nodwch pam.**
Oes.
***Crynodeb:*** Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ar draws Cymru, a enwyd yn y Ddeddf, weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant gan gynnwys:

- Cymru o gymunedau cydlynus - Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da
- Cymru sy'n fwy cyfartal– Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).
- Cymru â diwydiant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

- Cymru iachach - Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae modd deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** Bydd Strategaeth Gydol Oes a Llesiant yr Awdurdod Lleol yn nodi'r weledigaeth am y 10 mlynedd nesaf. Ar y cyd â hyn mae nifer o strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n darparu mesurau a thargedau tymor byr a hir y bydd angen eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad.

**Cydweithio:** Bydd cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid wrth wraidd yr ymgynghoriad a'r cynllun gweithredu. Y cydweithio mwyaf fydd rhwng cydweithwyr yn y sector cyhoeddus gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sefydliadau Trydydd Sector a swyddogion ar draws yr awdurdod.

**Cynnwys:** Bydd rhanddeiliaid a phartneriaid yn rhan o'r gwaith cynllunio a'r cyfnod ymgynghori.

**Atal:** Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfleoedd i atal elfennau drwy archwilio cyfleoedd seibiant ehangach i gefnogi gofalwyr di-dâl.

**Integreiddio:** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod gofynion newydd ar bob sefydliad sy'n comisiynu a darparu gofal. Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn gweithio ar y cyd er mwyn ymateb i'r gofynion hynny, gwella gwasanaethau a'u huno cyn belled â phosib er mwyn iddynt fedru sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer ein dinasyddion.

Mae'r cynllun gweithredu yn gynllun integredig.

**Argymhelliad:**
Nodi'r adroddiad a chytuno ar unrhyw argymhellion i'r Cabinet.

**Rhesymau dros y penderfyniad:**
Er mwyn caniatáu i'r Awdurdod fwrw ymlaen â'r gwaith o ail-lunio gwasanaethau dydd a'r ddarpariaeth seibiant yn unol â'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant a'r ffactorau Cenedlaethol sy'n sbarduno newid.

**Enw Cyswllt:** Donna Pritchard

**Swydd:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Gofal

**Dyddiad yr adroddiad:** 1 Tachwedd 2023

CYNGOR SIR CEREDIGION

# Adolygiad o Gyfleoedd Dydd a Gofal Seibiant

Adroddiad v 5.1

**Practice Solutions Ltd**
Awduron: Ainsley Bladon

Hydref 2023

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ 3
Cyflwyniad ........ 10
Diben yr adroddiad ........ 11
Cefndir ........ 11
Methodoleg yr Adolygiad ........ 12
Cyd-destun polisi ehangach ........ 13
Adolygiad Cenedlaethol ADSS o Wasanaethau Gofal Seibiant a Chyfleoedd Dydd 2023 ........ 15
Crynodeb Ymgysylltu ........ 19
Crynodeb o themâu ymgysylltu eraill ........ 22
Yr Arolwg ........ 24
Ymatebion yr Arolwg ........ 25
Ymatebion i ystod ehangach arfaethedig o weithgareddau ........ 27
Ymatebion i newid oriau ........ 29
Ymatebion i'r cynnig ailenwi ........ 31
Ymatebion i gyfleoedd i rannu eich barn ........ 33
Ymateb i ddarpariaeth gweithgareddau ........ 34
Sylwadau Cyffredinol ........ 38
Adborth grŵp rhanddeiliaid ........ 42
Plant a Phobl Ifanc ........ 42
Pobl ifanc oedran pontio (16-24 oed): ........ 44
Oedolion ag anabledd dysgu ........ 48
Pobl â dementia ........ 53
Aelodau teulu a gofalwyr ........ 56
Gofalwyr Maeth ........ 59
Sefydliadau cymunedol sy'n darparu cefnogaeth i bobl ag anableddau ........ 60
Staff a Swyddogion Cyngor Ceredigion ........ 64
Gweithwyr Canolfan Ddydd Ceredigion ........ 67
Gweithwyr y GIG ........ 70
Argymhellion ........ 73
Atodiad A: Demograffeg ........ 74
Atodiad B: Rhestr o bobl y gwnaethom ni siarad â nhw ........ 78
Atodiad C – Taflen ........ 80
Atodiad Ch: Crynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd gan grwpiau rhanddeiliaid ........ 81

# Crynodeb Gweithredol

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal adolygiad o wasanaethau dydd a gofal seibiant. Mae hyn yn cael ei wneud i sicrhau bod y Cyngor yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol yn y ffordd orau. Mae'r gwaith a wnaed gan Attain ar ran Cyngor Sir Ceredigion i ddatblygu ei Brosiect Cynllun Ymgysylltu â Dementia a Gweithredu Gwasanaethau, yn rhagweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n byw yn y Sir â dementia oherwydd ei phoblogaeth sy'n heneiddio. At hynny, nododd adolygiad a gynhaliwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) yng Nghymru, gynnydd yng nghymhlethdod y rhai sydd angen cymorth gofal cymdeithasol oherwydd sawl ffactor. Fe wnaeth y cynnydd hwn yn nifer yr achosion a ragwelir o ddementia a lefelau cynyddol o gymhlethdod ymhlith plant, oedolion ac oedolion hŷn, gyfrannu at yr angen i'r Cyngor gynnal yr adolygiad hwn a datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag anghenion sy'n newid.

Mae'r adolygiad yn rhan o waith y Cyngor i gyflawni eu Strategaeth Lles Gydol Oes a'u cynllun gweithredu 2021-2027, y cytunwyd arno yn y Cyngor ym mis Hydref 2021. Comisiynwyd Practice Solutions Ltd i gefnogi dull ymgynghori'r cyngor o drawsnewid gwasanaethau, cynnal ymchwil desg a darparu gweithgareddau ymgysylltu annibynnol sy'n sail i'r adroddiad hwn.

Defnyddiwyd dulliau cymysg yn yr adolygiad. Cynhaliwyd ymarfer desg yn dadansoddi adroddiadau ar wasanaethau lleol, yn ogystal ag adolygiad o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio person-ganolog a'r dyletswyddau a roddwyd ar sefydliadau i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Roedd ystod eang o randdeiliaid yn cymryd rhan yn y gwaith, gan gynnwys pobl sy'n manteisio ar ofal seibiant a chyfleoedd dydd, teuluoedd a gofalwyr, sefydliadau darparu gwasanaethau, gweithwyr y cyngor sy'n gweithio mewn canolfannau gofal cymdeithasol a chyfleoedd dydd, gweithwyr iechyd a phobl ag anableddau dysgu, dementia, plant a phobl ifanc a'r rhai ag anghenion cymhleth. Dosbarthwyd arolwg yn eang i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau eu teuluoedd a gofalwyr di-dâl eraill, staff y cyngor a staff yn sefydliadau partner y cyngor.

Cychwynnwyd arolwg ymgynghori drwy wefan y cyngor ac roedd ar agor i'r cyhoedd drwy gydol y cyfnod ymgysylltu a chafwyd 205 o ymatebion. Ochr yn ochr â hynny, fe wnaeth Practice Solutions ymgysylltu â 206 o bobl wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cymerodd cyfanswm o 411 o bobl ran yn yr adolygiad.

Ar ôl cwblhau'r ymarferion ymgysylltu ac ymarferion desg dadansoddwyd y data a nodwyd y canfyddiadau allweddol canlynol. O'r canfyddiadau allweddol hyn datblygwyd nifer o argymhellion, er mwyn i'r cyngor eu hystyried. Mae'r argymhellion yn cael eu nodi isod:

## Canfyddiadau Allweddol

Roedd y safbwyntiau a fynegwyd gan gyfranogwyr yn yr adolygiad yn nodi bron pob mater a amlygwyd yn adolygiad cenedlaethol ADSS Cymru. Mae llawer o'r materion a wynebir yng Ngheredigion yn gyffredin i lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni chodwyd rhai materion a grybwyllwyd yn yr adolygiad cenedlaethol yn adolygiad Ceredigion. Yn fwyaf nodedig ymhlith y materion na wnaeth gynhyrchu llawer o drafodaeth oedd defnyddio technoleg fideo, cyfryngau cymdeithasol ac apiau cyfathrebu i gynyddu gwasanaethau cyfleoedd dydd. Mewn rhai ardaloedd fe fe wnaeth y dulliau hyn alluogi creu grwpiau WhatsApp er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr barhau i gwrdd y tu allan i wasanaethau ffurfiol.

Mae canfyddiadau allweddol adolygiad Ceredigion yn perthyn i sawl thema. Mae llawer ohonynt yn cael eu hailadrodd ar draws grwpiau oedran a chleientiaid, ond roedd rhai yn fwy penodol i grwpiau cleientiaid

unigol. Felly, nodir y themâu allweddol isod gan ddefnyddio penawdau. Oni nodir eu bod yn gyffredin trwy gydol gwasanaethau.

**Pwysigrwydd cyflogaeth dydd a gwasanaethau gofal seibiant**

Roedd gwasanaethau cyfleoedd dydd a gofal seibiant yn cael eu hystyried yn hanfodol i ddiwallu anghenion cymdeithasol, galwedigaethol a gweithgareddau y bobl hynny sy'n eu defnyddio. Nodwyd hefyd eu bod yn hanfodol wrth alluogi gofalwyr di-dâl i barhau i ddarparu eu rôl hanfodol. Heb y gwasanaethau byddai gofalwyr yn ei chael hi'n anodd gofalu a heb ofalwyr di-dâl ni fyddai gwasanaethau'n gallu llenwi'r bwlch hwn. Byddai hyn yn debygol o arwain at lawer o bobl angen ymyriadau gwasanaeth statudol yn enwedig ymhlith y bobl hynny ag anghenion cymhleth.

**Effaith COVID-19**

Yn yr un modd, roedd y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar wasanaethau awdurdodau ledled Cymru a'r DU. Bu'n rhaid i lawer gau neu gyfyngu ar wasanaethau ac adroddwyd bod rhai pobl, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tai â chymorth, wedi colli eu gwasanaethau oherwydd blaenoriaethu'r rhai nad oeddent yn cael eu cefnogi. Nid yw gwasanaethau wedi dychwelyd i lefelau cyn COVID-19 ac nid yw rhai pobl a adawodd wasanaethau wedi dychwelyd. Canfu'r adolygiad cenedlaethol fod hyn yn gyffredin ledled Cymru gyda rhai gwasanaethau'n defnyddio ychwanegiadau, megis fideogynadledda a chefnogaeth y tu allan i wasanaethau mewn lleoliadau, yn cael eu defnyddio i lenwi'r bylchau. Cafodd nifer o fentrau a gynlluniwyd yn flaenorol eu cyflwyno'n gynharach gan rai awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r angen am gefnogaeth barhaus. Mae llawer o leoedd yng Nghymru wedi cadw'r dulliau hyn fel rhan o ailgynllunio gwasanaethau.

**Cymhlethdod ac angen haenedig**

Trwy gydol yr adolygiad sylw a wnaed yn aml oedd nad yw un maint yn ffitio pawb. Mae hyn yn adlewyrchu unigoliaeth pobl o ran anghenion a chwaeth a'r ffaith bod lefel uchel o gymhlethdod yn bodoli yn yr anghenion a'r trefniadau gofal i rai pobl. Ymhlith pobl sydd angen gwasanaethau mae sbectrwm o anghenion yn bodoli, sy'n gofyn am ymateb haenedig.

Roedd sylwebaeth yn yr adolygiad cenedlaethol yn awgrymu'n gryf bod cymhlethdod yn cynyddu am amrywiaeth o resymau, ac mae hyn yn effeithio ar y galw am wasanaethau a chapasiti gwasanaethau i ddiwallu anghenion.

Yng Ngheredigion rhoddwyd disgrifiadau o bobl oedd wedi dod yn fwy bregus yn ystod y cyfnod clo ac yn fwy pryderus am ddefnyddio gwasanaethau rhag ofn halogiad. Nid yw'r materion hyn yn unigryw i Geredigion ond adroddwyd amdanynt ar draws y wlad. Mae'r ffactorau hyn a chymhlethdod cynyddol angen yn dangos ymhellach yr angen i ganolbwyntio ar unigolion a'r angen i flaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf a'u gofalwyr di-dâl.

**Trafnidiaeth**

Un mater a gafodd sylw parhaus gan randdeiliaid oedd trafnidiaeth. Amlygodd yr adolygiad cenedlaethol yr angen am drafnidiaeth ac effaith COVID-19 a'i bellter cymdeithasol a'r cynnydd diweddar mewn prisiau tanwydd ar argaeledd ac addasrwydd trafnidiaeth bresennol. Amlygodd natur ganolog y materion hyn mewn cymunedau gwledig. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn adolygiad Ceredigion yn amlygu hyn.

Roedd hwn yn bwnc byw i gyfranogwyr sy'n ystyried trafnidiaeth fel y ffwlcrwm mae mynediad at wasanaethau yn siglo arno. Cynigiwyd nifer o atebion posibl gan wahanol grwpiau. Bydd angen ystyried y rhain o bosibl drwy strategaeth ffurfiol sy'n adlewyrchu anghenion gwahanol unigolion a grwpiau i ddod o hyd i atebion ymarferol i'r her hon.

**Staffio**

Codwyd argaeledd staffio fel mater gan bob sector. Yn y trydydd sector disgrifiwyd problemau fel rhai sydd wedi gwaethygu gan yr angen oherwydd pwysau ariannol i gyflwyno contractau tymor byr a chontractau dim oriau. Mae hyn wedi arwain at staff yn gadael a pheryglon y gallai staff pellach adael. Adroddwyd bod argaeledd Gweithwyr Cymdeithasol yn arwain at ddiffyg parhad mewn gofal i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a llai o gyswllt â gofalwyr a staff di-dâl mewn asiantaethau eraill. Amlygwyd problemau staffio yn yr adroddiad cenedlaethol ac mae'r materion a nodwyd yn genedlaethol yn amlwg yng Ngheredigion.

Mae cael staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda, sy’n ymroddedig yn hanfodol i alluogi adfer gwasanaeth ar ôl COVID ac i gynorthwyo gydag ailgynllunio gwasanaethau. Mae rhai o'r gwelliannau mae rhai rhanddeiliaid yn chwilio amdanynt yn dibynnu ar y gweithlu sydd ar gael. Efallai y bydd hyn yn gofyn am yr angen i adolygu'r gweithlu amlasiantaeth a chymhwyso dulliau iechyd a gofal cymdeithasol darbodus i wneud y mwyaf o sut y gellir defnyddio’r gweithlu cyfunol.

Rhoddwyd gwybod i'r adroddiad cenedlaethol fod y gweithlu yn cael ei ystyried yn ased cyffredinol wrth drawsnewid gwasanaethau ond y gall aelodau'r gweithlu fod yn rhwystr i newid. Nododd y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar rai staff yn yr hyfforddiant rheoli newid a'r hyfforddiant cymhwyso dull sy’n canolbwyntio ar bobl a chyd-gynhyrchu. Efallai y bydd angen i Geredigion ystyried y materion hyn wrth iddynt ystyried trawsnewid gwasanaethau.

**Alinio gwasanaeth**

Roedd gan y staff a gymerodd ran yn y digwyddiad lawer iawn o barch at y naill a’r llall. Fodd bynnag, roeddent yn credu y gellid gwella darpariaeth gwasanaethau ac y gallent fod yn fwy effeithlon pe bai'r asiantaethau a'r staff yn cydweithio'n agosach. Gwnaed nifer o awgrymiadau gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector yn defnyddio adeiladau'r cyngor pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, mwy o ddefnydd o wasanaethau a gomisiynir gan y trydydd sector, darparu iechyd a gofal personol mewn lleoliadau cyfleoedd dydd, dull mwy unedig o weithio gyda'i gilydd i gyfleoedd cyflogaeth â thâl drwy gydweithio fel cyflogwyr a gyda chyflogwyr a dulliau ar y cyd o ddefnyddio cyfleusterau cymunedol eraill.

**Cyfathrebu**

Roedd hwn yn fater i’r holl grwpiau o gyfranogwyr. Roedd rhai yn teimlo bod cyfathrebu wedi dioddef yn ystod y pandemig rhwng asiantaethau a rhwng y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu gofalwyr a'r gwasanaethau eu hunain.

Amlygwyd y cyfathrebu sy'n benodol i gyflwyno'r cynigion. Roedd rhai staff yn teimlo y byddai'n well ganddynt fod wedi ymgysylltu ynghynt. I rai nid oeddent yn gwybod am y cynigion tan iddynt gymryd rhan yn yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, croesawodd pob sector eu rhan yn yr adolygiad a'r cyfathrebu mae hyn wedi'i hwyluso. Ar ben hynny, maen nhw wedi ymrwymo i gymryd rhan ac maen nhw am barhau i gymryd rhan wrth i'r broses symud ymlaen. Fodd bynnag, roedd rhai pobl yn amheus a fydd y Cyngor wir yn gwrando ar eu barn a'u pryderon.

Nododd rhai fod fforymau ac eiriolaeth oedd yn bodoli o'r blaen wedi gwanhau yn ddiweddar. Teimlwyd y gellid ailedrych ar y rhain a'u hadfywio er mwyn galluogi pobl fel gofalwyr, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a staff i ddweud eu dweud.

Fe wnaeth cyflwyno llinellau ffôn newydd gan y cyngor yn ennyn beirniadaeth gan asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ef. Disgrifiodd pobl arosiadau hir i fynd drwodd ac ymgysylltu â thrinwyr galwadau nad oeddent mor ymwybodol o wasanaethau ag ymarferwyr unigol a’r bobl yr oedd gan staff asiantaethau eraill berthnasau gwaith agos â hwy cyn hynny.

**Taliadau Uniongyrchol**

Cyfeiriwyd at daliadau uniongyrchol gan lawer o grwpiau. Roeddent yn cael eu hystyried yn gadarnhaol yn eu gallu i ganiatáu mwy o hyblygrwydd, teilwra'r ddarpariaeth i anghenion unigol a mwy o ddewis. Fodd bynnag, roedd llawer yn eu hystyried yn rhy gymhleth a heb fawr o gefnogaeth i bobl reoli’r gwaith o’u gweinyddu. At hynny, mae prinder cynorthwywyr personol i weithio gyda thaliadau uniongyrchol yn effeithio'n sylweddol ar eu buddion posibl yn yr hinsawdd gyflogaeth bresennol.

**Cynigion ailgynllunio gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion**

Roedd safbwyntiau ymhlith cyfranogwyr yr adolygiad ar y cynigion i ddiwygio gwasanaethau yn gymysg. Croesawodd rhai pobl y cynigion, gan gydnabod yr angen am ddiwygio i ymateb i gynnig gwasanaeth mwy cymunedol a diwallu anghenion newid yn y galw a galw yn y dyfodol. Roedd eraill yn amheus o'u gallu ymarferol yn fwyaf arwyddocaol ofal gydol oes, a chymysgu grwpiau cleientiaid o fewn yr un amgylchedd. Roedd y pryderon hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr angen am sgiliau penodol i weithio gyda grwpiau cleientiaid penodol a materion diogelu posibl. Nid oedd llawer a oedd yn amheus yn wrthwynebus ond yn teimlo y byddai angen rheoli newidiadau o'r fath yn ofalus.

Yn fras, roedd pobl eisiau mwy o wybodaeth a manylion ar sut y byddai'r cynigion yn cael eu cynllunio a sut y byddai'r newidiadau'n cael eu cyflwyno. Gellid hwyluso mewnbwn pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu gofalwyr di-dâl a'u staff ym mhob sefydliad perthnasol o fewn ymarferion ymgynghori a byddai'n debygol o gynorthwyo i fynd i'r afael ag ansicrwydd a phryderon pobl.

Croesawyd ehangu'r ystod o weithgareddau yn eang ond roedd pob plaid yn credu y dylai hyn gael ei sbarduno gan ddewis defnyddwyr gwasanaeth a chymhwyso cynllunio person-ganolog.

O ran cydbwysedd, cytunodd y rhan fwyaf y byddai cael mwy o weithgareddau yn canolbwyntio ar gyfleoedd ystyrlon sy'n datblygu cyflogaeth sgiliau bywyd a chyflogaeth â thâl o bosibl yn gadarnhaol iawn. Dylai gweithgareddau o'r fath a gynigiwyd cyn y pandemig gael eu blaenoriaethu a'u hehangu yn y dyfodol. Croesawyd ymestyn yr oriau ond nid oedd llawer o grwpiau am i hyn fod ar draul oriau gwasanaeth craidd.

**Modelau both ac adain**

Yn ystod yr adolygiad cenedlaethol trafodwyd y cysyniad o wasanaethau both ac adain yn aml. Mae llawer o'r materion a godwyd yn y trafodaethau hyn yn cyd-fynd â'r materion hynny a godwyd yng Ngheredigion, yn fwyaf nodedig defnyddio cymysgedd o gymorth gwasanaethau dydd sy'n seiliedig ar le, a mynediad at gyfleusterau cymunedol. Mae'r model both ac adain, sy'n defnyddio'r ganolfan ddydd fel adnodd cymunedol sy'n gysylltiedig â chyfleusterau cymunedol eraill, yn cynnig cyfuniad o gyfleoedd yn seiliedig ar le a chyfleoedd cymunedol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyfleoedd dydd a gofal seibiant. Gall archwilio'r modelau hyn gefnogi'n sylweddol y dewis a fynegwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd i ddull cyfunol o ddiwallu angen. Mae argaeledd yr hwb yn caniatáu darparu rhai agweddau ar gefnogaeth i bobl ag anghenion gofal personol cymhleth a rhai heriau ymddygiadol mewn amgylchedd sy'n diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas a gefnogir gan argaeledd y cymhorthion a'r addasiadau angenrheidiol.

**Cynllunio person-ganolog (PCP)**

Mae deddfwriaeth benodol i Gymru, yn fwyaf nodedig yr SSWBA a'r MHM ynghyd â strategaeth a pholisi, yn croesawu egwyddorion PCP ac i rai pobl mae'n ddyletswydd statudol. Gall darparu llais a dewis fod yn ddibynnol ar y defnydd o PCP. Ar ben hynny, gellir mynd i'r afael â llawer o'r trafodaethau ynghylch ehangu'r ystod o weithgareddau a'r lleoedd y dylai'r rhain ddigwydd ynddynt trwy gymhwyso PCP. Dywedodd rhai staff fod PCP eisoes yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae adolygiadau cenedlaethol SSWBA a'r MHM wedi cwestiynu ansawdd cyffredinol Cynlluniau Gofal a Chymorth a Chynlluniau Gofal a Thriniaeth. Gallai parhau i adolygu PCP i sicrhau ansawdd felly elwa o ran sicrhau pecynnau wedi'u teilwra ar gyfer unigolion a llywio prosesau rheoli newid.

Un mater a amlygwyd yn yr adolygiad cenedlaethol wrth ystyried cynlluniau unigol pobl oedd nad yw anghenion y person sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr di-dâl bob amser yn alinio'n llwyr. Yn aml, mynegir fod y buddion sy'n deillio o gyfleoedd dydd a gofal seibiant i'r gofalwr di-dâl fel rhai sy'n rhoi seibiant iddyn nhw. Mae'n eu galluogi i weithio, ymgymryd â'u tasgau hanfodol a chael rhywfaint o amser iddyn nhw eu hunain gan gynnwys y cyfle i gwrdd â gofalwyr di-dâl eraill.

Fodd bynnag, wrth gynllunio cynigion gwasanaeth diwygiedig nad ydynt o bosibl yn cynnig hyd, amlder neu leoliad cymorth i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau ond yn seiliedig ar eu dymuniadau, gall greu tensiwn rhwng gwasanaethau, staff ac yn arbennig gofalwyr di-dâl. Nid yw'n hawdd datrys hyn ond mae'r angen i gynllunio er budd gorau'r defnyddiwr gwasanaeth yn hanfodol a lle mae adolygu gwasanaethau'n arwain at rai o'r newidiadau hyn, bydd angen cynllunio ac ymgysylltu gofalus â defnyddiwr y gwasanaeth a'r gofalwr. Os yw hyn yn effeithio ar ofalwyr di-dâl, dylid mynd i'r afael â'u hanghenion a'u hasesu'n briodol hefyd. Canfu'r adolygiad nad yw hyn yn wir bob amser ar hyn o bryd.

**Pobl â dementia ac sy'n colli eu cof**

Roedd y grŵp hwn o bobl yn teimlo nad oedd gwasanaethau'r cyngor yn eu gwasanaethu'n ddigonol. Wrth i wasanaethau gael eu datblygu, eu dewis nhw yw derbyn cefnogaeth mewn cyfleusterau cymunedol heb stigma gyda'r gallu i gynllunio gofal seibiant ymlaen llaw.

**Oedolion ag anableddau dysgu**

Pwysleisiodd llawer o bobl yn y grŵp hwn bwysigrwydd trefn arferol, parhad cefnogaeth, a'r angen am amgylchedd tawel.

**Plant a Phobl Ifanc**

Roedd plant a phobl ifanc yn glir eu bod yn well ganddyn nhw weithgareddau sy'n cefnogi datblygu sgiliau, sy'n seiliedig ar weithgarwch ac yn defnyddio adnoddau cymunedol. Nid ydynt ychwaith am gael eu hatal rhag ymgymryd â rhai gweithgareddau y gall plant nad ydynt yng ngofal yr awdurdod lleol gymryd rhan ynddynt, er enghraifft trampolinio.

**Pobl Ifanc mewn Cyfnodau Pontio**

Mynegodd y grŵp hwn awydd cryf i fynd i'r afael â'u hanghenion a'u hamgylchiadau newidiol yn gynharach yn eu llwybr gofal er mwyn atal bylchau mewn cefnogaeth a'r angen i'w chael hi'n anodd cyrchu gwasanaethau oedolion wrth iddynt adael oedolaeth ifanc a symud i wasanaethau sydd wedi'u cyfeirio at oedolion o oedran gweithio.

**Newid enw ar gyfer rhai cyfleusterau canolfan ddydd.**

Ni wnaeth bron i hanner yr ymatebwyr, 43%, fynegi unrhyw farn ar y mater hwn. O'r rhai wnaeth fynegi barn, roedd mwyafrif bychan o 25% yn gwrthwynebu'r syniad. Ni ddylid cymryd yn ganiataol nad oedd y rhai na wnaethant ymateb yn gwrthwynebu'r syniad.

Os yw'r Cyngor yn dymuno symud ymlaen gyda newid enw i orfodi newidiadau defnydd arfaethedig ac ehangu ei gynnig gwasanaeth a'i fod yn dymuno gweithio gyda mandad gan y boblogaeth leol, y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd, bydd angen iddynt ail-ofyn am farn.

**Yr angen am newid**

Mae cymhlethdod cynyddol ymhlith defnyddwyr gwasanaeth, effaith y pandemig, effaith cost tanwydd, bwyd ac adnoddau yn gyffredinol, argaeledd staff sydd â chysylltiad proffesiynol a di-gysylltiad, newidiadau yn yr awydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio mwy o wasanaethau yn y gymuned ac asedau cymunedol yn ogystal â gwasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd, heriau trafnidiaeth, yr angen am fwy o aliniad asiantaethau rhwng y gofal cymdeithasol y GIG a gwasanaethau'r trydydd sector i gyd yn awgrymu'n

gryf bod angen diwygio darpariaeth gwasanaeth yng Ngheredigion. Nodwyd yr un ffactorau hyn mewn rhannau eraill o Gymru fel sbardunau ar gyfer newid.

Staff yw'r ased unigol mwyaf wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ac mae gofalwyr di-dâl yn darparu'r perthnasoedd sylfaenol a chraidd sy'n cynnal y rhai a wasanaethir o fewn gwasanaethau cyflogaeth dydd a gofal seibiant. Mae'n hanfodol felly bod staff a gofalwyr di-dâl yn gweithio ochr yn ochr â'r cyngor a'i bartneriaid wrth iddynt weithio i oresgyn yr heriau mae gwasanaethau'n eu hwynebu. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol eu bod yn parhau i fod yn rhan o'r broses ac wir yn cael eu clywed.

Fodd bynnag, mae anghenion a dymuniadau, dewisiadau a lleisiau'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau yn hollbwysig. Rhaid iddynt fod yn rhan o ddeialog barhaus i sicrhau bod cynllunio gwirioneddol person-ganolog yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu eu hanghenion mewn amgylchedd sy'n eu galluogi i dyfu a chyflawni eu potensial llawn.

At hynny, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, rhaid i'r cyngor a'i asiantaethau partner sicrhau wrth gynllunio a bwrw ymlaen â'r diwygiadau gwasanaeth hynny yr ystyrir eu bod nhw’n angenrheidiol eu bod yn ystyried anghenion y rhai y bydd angen gwasanaethau arnynt yn y dyfodol a bod y gwasanaethau hyn yn effeithlon, yn effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn gynaliadwy.

## Argymhellion

1. Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddilyn ei gynlluniau i ddiwygio'r ddarpariaeth cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant gan ddefnyddio'r adroddiad hwn a'i gynllun gweithredu cysylltiedig.

2. Dylai'r Cyngor ystyried datblygu rôl arweinydd trawsnewid sy'n goruchwylio i sbarduno'r prosesau rheoli a gweithredu newid.

3. Dylai Cyngor Sir Ceredigion weithio gyda'i asiantaethau partner gan gynnwys y GIG a darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector i sicrhau y gellir cyflawni unrhyw arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwneud drwy gynllunio gweithredol a strategol ar y cyd. Bydd angen i hyn gynnwys ystyried dulliau arloesol o rannu adnoddau.

4. Dylai Cyngor Sir Ceredigion adolygu ei brosesau cynllunio person-ganolog i sicrhau bod y rhain yn effeithiol, ddim yn rhy fiwrocrataidd ac wir yn dal a hyrwyddo lleisiau a dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth mewn cynlluniau wedi'u teilwra'n unigol ac yn unol ag unrhyw ddyletswyddau statudol sydd wedi'u hymgorffori yn yr SSWBA a'r MHM. Dylai pawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn gael cynllun person-ganolog o ansawdd uchel. Lle bo angen, dylai adolygu cynlluniau gofal a chymorth y bobl hynny sy’n cael eu heffeithio gan newidiadau gwasanaeth a gyflwynwyd yn ystod y pandemig. Dylai'r diwygiad roi sylw, fel mater o flaenoriaeth, i grwpiau fel y rhai â dementia, gofalwyr a gofalwyr maeth y nodwyd nad oes digon o gwasanaethau wedi'u datblygu ar eu cyfer.

5. Mae angen i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau, wrth i ddiwygio gwasanaethau effeithio ar y ddarpariaeth bod anghenion teuluoedd a gofalwyr di-dâl eraill yn cael sylw gydag asesiadau ystyrlon a darparu cefnogaeth ddigonol.

6. Dylai Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'i bartneriaid, ystyried mabwysiadu model both ac adain sy'n defnyddio canolfannau gwasanaeth fel canolfannau cymunedol tra'n defnyddio ystod o gyfleusterau cymunedol i ddarparu cyfleoedd dydd a all ddarparu'r gweithgareddau hynny yr hoffai pobl eu cyrchu mor agos at eu cartrefi â phosibl. Dylai hyn gynnwys cefnogi a galluogi pobl i gael gwaith â thâl a dysgu ffurfiol lle bo hynny'n briodol.

7. Dylai Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'i bartneriaid, ddatblygu strategaeth drafnidiaeth sy'n sicrhau bod y dulliau mwyaf effeithlon yn cael eu defnyddio i alluogi mynediad at gyfleoedd dydd a gwasanaethau

gofal seibiant. Bydd angen i hyn ystyried trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat ynghyd â thrafnidiaeth a ddarperir gan y Cyngor.

8. Wrth ddilyn ei agenda ddiwygio, bydd angen i'r Cyngor ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, staff y cyngor a'r rhai sy'n gweithio mewn asiantaethau eraill drwy ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol. Dylid adolygu fforymau a ddefnyddiwyd yn flaenorol i ymgysylltu â'r grwpiau hyn a lle bo'n briodol i alluogi prosesau gweithio mewn partneriaeth wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno.

9. Dylai'r Cyngor ystyried ail-ofyn am farn ar y cynnig i ailenwi ei ganolfannau dydd fel rhan o'i ymgynghoriad ehangach ar ddiwygio gwasanaethau.

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal adolygiad o wasanaethau dydd a gofal seibiant. Mae hyn yn cael ei wneud i sicrhau bod y Cyngor yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol yn y ffordd orau. Mae'n rhan o waith y Cyngor i gyflawni eu Strategaeth Llesiant Gydol Oes 2021-2027 a'i gynllun gweithredu cysylltiedig. Cytunwyd ar y rhain yn y Cyngor ym mis Hydref 2021. Nod y strategaeth yw darparu gwasanaethau a fydd yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion. Blaenoriaeth allweddol yw galluogi gwydnwch unigolion a theuluoedd.

Mae **Cam Gweithredu 4.2.5** yn y cynllun Gweithredu yn nodi’r bwriad i adolygu'r ystod o ddarpariaeth gofal seibiant ar gyfer darpariaeth gydol oes, darpariaeth dydd, gofal preswyl a darpariaeth trydydd sector, er mwyn datblygu cynllun ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol yn unol â model *gydol oes.* Y bwriad yw sicrhau bod ystod o **gymorth gofal seibiant priodol** ar gael i gynnal annibyniaeth a chefnogaeth i ofalwyr, gan leihau'r angen am wasanaethau gofal a chymorth tymor hwy.

Er bod Strategaeth Llesiant Gydol Oes Ceredigion, yn cwmpasu ystod o grwpiau cleientiaid, mae'n bwysig nodi gwaith cysylltiedig sy'n digwydd mewn gwasanaethau i'r bobl hynny sydd ag anabledd dysgu. Mae hyn yn cynnwys, Cynllun Cyflawni a Gweithredu Dysgu ac Anabledd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar 2022-26, ac adolygiad ADSS Cymru o wasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru fel yr amlinellwyd yn fanylach.

**Mae 'Gwasanaethau Cyfleoedd Dydd' yn cynnwys:**

- Gweithgareddau sy'n digwydd yn ystod yr wythnos, yn ystod y dydd mewn canolfannau dynodedig ledled Ceredigion.
- Pobl yn gallu manteisio ar weithiwr cymorth sy'n mynd â nhw allan i ymgymryd â gweithgareddau.
- Cyrchu digwyddiadau, hyfforddiant, gweithgareddau cymdeithasol, a mathau eraill o raglenni yn y gymuned

**Mae 'seibiannau i oedolion / Gofal Seibiant i ofalwyr' yn cynnwys:**

- Arhosiadau preswyl mewn cartref gofal
- Gweithgareddau dydd gan gynnwys gwasanaethau eistedd, mynd allan gyda gofalwr / taliad uniongyrchol sy'n rhoi cyfle i ofalwyr gael seibiant o'r rôl ofalu

**Mae 'Seibiannau Byr' yn cynnwys:**

- Mynd i weithgareddau sy'n cynnwys aros dros nos
- Ymweld â lleoedd lleol yng Ngheredigion
- Aros mewn gwesty, cartref preswyl neu lety hunanarlwyo
- Ymweld â lleoedd y tu allan i Geredigion fel cefn gwlad neu wyliau mewn dinas
- Treulio amser gyda phobl o oedran tebyg neu sydd â diddordebau tebyg, neu gyda ffrindiau

# Diben yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio beth fyddai pobl sy'n byw yng Ngheredigion yn hoffi i ddigwydd gyda gwasanaethau dydd a gofal seibiant yn y dyfodol. Mae'n disgrifio barn trigolion yng Ngheredigion - y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau nawr a'r rhai a allai ddefnyddio gwasanaethau yn y dyfodol. Clywsom gan bobl o bob oedran ac sydd ag amrywiaeth eang o anghenion a diddordebau. Fe wnaethom ddysgu mwy am y mathau o weithgareddau yr hoffai pobl gymryd rhan ynddynt, yr hyn maen nhw'n ei hoffi am wasanaethau nawr, a newidiadau y byddent yn eu gwneud wrth symud ymlaen.

Fe wnaethom ystyried deddfwriaeth a pholisi sy'n cyfeirio at sut y dylid cynllunio a darparu gofal pobl ac ystyried canfyddiadau dulliau cenedlaethol fel adroddiad Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) a oedd yn archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfeiriad y dyfodol ar gyfer gwasanaethau gofal seibiant a chyfleoedd dydd.

Gan ddefnyddio'r safbwyntiau a fynegwyd gan bobl yng Ngheredigion ynghyd â dadansoddiad desg o ffactorau sy'n dylanwadu ar ymarfer, mae nifer o gasgliadau wedi'u sefydlu ac argymhellion a wnaed i Gyngor Sir Ceredigion i ystyried beth ddylai ddigwydd yn y dyfodol.

## Cefndir

Yn draddodiadol, mae'r Cyngor wedi cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth i bobl yn ôl eu grŵp oedran neu eu hanghenion. Er enghraifft, mae'r tair canolfan diwrnod Canolfan Meugan, Canolfan Steffan a Chanolfan Padarn ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn ystod oriau rheolaidd yn ystod oriau rheolaidd yn ystod yr wythnos.

Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig cymorth i blant drwy ysgolion ac i bobl ifanc oed pontio drwy wasanaeth Camu M'laen, cynlluniau chwarae a seibiannau byr.

Mae enghreifftiau eraill o wasanaethau dydd a gofal seibiant yn cynnwys pobl â dementia yn cael gofal seibiant mewn cartref preswyl.

**Effeithiau Covid-19**

Yn ystod pandemig Covid, cafodd y gwaith o ddarparu gwasanaethau arferol ei atal oherwydd cyfyngiadau cenedlaethol a sefydlwyd platfform rhithwir yn cynnig galwadau lles i drigolion bregus. Rhoddodd staff arweiniad, cefnogaeth a chyngor yn ystod y cyfnod hwnnw, yn ogystal â gweithio ochr yn ochr ag ysgolion i gefnogi teuluoedd. Cynigiwyd cymorth i bobl oedd yn byw mewn llety â chymorth o'u cartrefi. Cadwyd rhestr adnoddau yn weithredol ar y rhyngrwyd trwy wefan y Cyngor i wneud trigolion yn ymwybodol o ffynonellau cymorth.

Ers llacio cyfyngiadau Covid, mae'r rhan fwyaf o wasanaethau wedi ailagor, gan gynnwys rhai gwasanaethau dydd a gwasanaethau gofal seibiant. Fodd bynnag, nid yw pob gwasanaeth wedi ailagor, ac mae hyn wedi creu heriau ar draws cymunedau o ran darparu gwasanaethau.

Mae'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes 2021-2027 yn nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion. Y nod yw '*galluogi darparu gwasanaethau a fydd yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion.*'

**Y cydrannau allweddol yw:**

- Darparu cymorth a chefnogaeth gynnar i atal dirywiad
- Ffocws ar ddatblygu sgiliau sy'n cefnogi annibyniaeth a lles
- Darparu mynediad hawdd at wybodaeth, cyngor a chymorth yn seiliedig ar angen

**Sefydlwyd y rhaglen Llesiant Gydol Oes yn 2021. Mae'n cynnwys pedwar gwasanaeth:**

- **Clic:** cymorth, gwybodaeth ac asesiad ar-lein a dros y ffôn
- **Porth Cymorth Cynnar:** gwasanaethau cymorth cynnar a lles
- **Porth Gofal**: Asesu a chymorth penodol fel gofal cartref a thaliadau uniongyrchol, maethu, gofal dydd a phreswyl. Mae Porth Gofal yn bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a sefydliadau'r trydydd sector. Mae tîm amlddisgyblaethol yn cynnig cefnogaeth i unigolion – gan ganolbwyntio ar hyrwyddo annibyniaeth
- **Porth Cynnal**: gwasanaeth i bobl o bob oed ag anghenion cymhleth sy'n derbyn gofal wedi'i gynllunio

Mae'r Cygor wedi bod yn meddwl am y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion mwy o bobl.

Ar 6 Rhagfyr 2022, cymeradwyodd y Cabinet benderfyniad y dylai'r Cyngor gynnal ymgynghoriad ehangach yn 2023 gan ganolbwyntio ar ail-ddylunio darpariaeth Gwasanaethau Dydd a Gofal Seibiant. Meddai'r Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion ac Aelod Cabinet dros Lesiant Gydol Oes.

> *"Mae pethau wedi newid yn fawr dros y blynyddoedd diwethaf. Felly, mae'n amser da i ymgynghori eto gyda'n defnyddwyr gwasanaeth a'n gofalwyr i weld sut y gallwn ni helpu orau yn y byd modern. Rydym ni wedi ymrwymo i wella bywydau ein holl bobl fregus yn y sir. Rydym ni'n credu mai'r ffordd orau o wneud hynny yw helpu pobl i fyw mor annibynnol ag y gallant, tra'n darparu gwasanaethau rhagorol pan fyddan nhw eu hangen."*

Yn dilyn hyn, fe wnaeth y Cyngor gontractio Practice Solutions Ltd. i ddarparu arbenigedd annibynnol ynghylch ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid a chefnogi'r adolygiad o gyfleoedd dydd a seibiant.

## Methodoleg yr Adolygiad

Roedd dull Practice Solutions yn defnyddio ystod o ddulliau i ddod i gasgliadau ac i lunio argymhellion.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- Dadansoddiad desg o adroddiadau lleol i ddarpariaeth gwasanaethau lleol
- Casglu manylion am randdeiliaid allweddol a mynediad at gyfranogwyr ymgysylltu
- Cynhyrchu arolwg, ei ledaenu i gyfranogwyr, coladu ymatebion a dadansoddi
- Cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu, wyneb yn wyneb, gan ddefnyddio fideogynadledda a galwadau ffôn.
- Casglu deunydd ysgrifenedig ychwanegol gan y bobl y buom yn siarad â nhw.
- Dadansoddiad o adroddiad cenedlaethol ADSS a'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi mwyaf perthnasol sy'n effeithio ar y ffordd mae cynllunio person-ganolog yn cael ei wneud.
- Dadansoddwyd yr holl wybodaeth a gasglwyd er mwyn cynhyrchu'r adroddiad hwn.

Gofynnodd y Cyngor i ni wneud argymhellion ynghylch pa gamau y gellir eu cymryd i gefnogi datblygiad gwasanaethau dydd a gofal seibiant. Ar ôl i ni edrych ar yr holl dystiolaeth ac ystyried beth fyddai fwyaf defnyddiol, fe wnaethom gytuno ar restr o argymhellion a gorffen ysgrifennu ein hadroddiad annibynnol. Bydd yn cael ei roi i'r Cyngor i'w ystyried ochr yn ochr â chynllun gweithredu datblygedig i'w ystyried o ran y camau nesaf.

## Cyd-destun polisi ehangach

Rydym ni wedi amlinellu'r cyd-destun polisi cenedlaethol eang mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal ynddo gan sicrhau bod ein hargymhellion yn cael eu hategu gan y meysydd polisi a amlinellir isod.

**Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu 7 nod llesiant a 5 ffordd o weithio. Mae'r dull hwn yn sail i'n dealltwriaeth a chyd-destun yr adolygiad hwn. Y nodau lles yw:

- Cymru Ffyniannus
- Cymru Gydnerth
- Cymru Fwy Cyfartal
- Cymru Iachach
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Y pum ffordd o weithio yw:

- **Hirdymor:** Pwysigrwydd cydbwyso'r anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i fodloni angen yn y tymor hir
- **Integreiddio:** Ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill
- **Ymglymiad:** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff
- **Cydweithio:** Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu rannau eraill o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles
- **Atal:** Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i fodloni eu hamcanion

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016. Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf yw:

- Llais a rheolaeth — rhoi'r unigolyn a'i anghenion, wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais iddynt, a rheolaeth i gyrraedd y canlyniadau sy'n eu helpu i gyflawni llesiant.
- Atal ac ymyrryd yn gynnar — cynyddu gwasanaethau ataliol o fewn y gymuned er mwyn lleihau'r cynnydd mewn angen critigol.
- Llesiant — cefnogi pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
- Cydgynhyrchu – annog unigolion i gymryd mwy o ran wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

**Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**

Ymhlith darpariaethau MHM mae Rhan 2 yn pennu dyletswyddau ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu Rheolwr Achos i bawb, o unrhyw oedran, gan ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Gall hyn gynnwys rhai pobl â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd fel anabledd dysgu, problemau camddefnyddio sylweddau a rhai pobl sy'n niwro-amrywiol, ac mae'n aml yn cynnwys y rhain. Mae'n rhaid i bobl sy'n

ddarostyngedig i ran dau o'r Mesur gael cynllun gofal a thriniaeth sy'n nodi sut y bydd eu gofal yn cael ei ddarparu.

Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau statudol sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf 2014 a Mesur 2010, rhaid i'r Cyngor fodloni'r anghenion hynny a nodwyd o fewn asesiadau unigol a chynlluniau gofal. Felly, bydd angen iddo adolygu a chynllunio ei wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a'r rhai a gomisiynir gan ddarparwyr gwasanaethau annibynnol a’r trydydd sector. Lle bo'n briodol, dylai ddiwygio'r ddarpariaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd darpariaeth gwasanaeth gan roi sylw dyledus i anghenion newidiol ac argaeledd adnoddau ariannol a gweithlu.

**Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad**

Mae Cynllun Cefnogi Ymddygiad yn rhoi canllaw cam wrth gam i ofalwyr ar reoli ymddygiad heriol. Mae'n seiliedig ar ganlyniadau asesiad ymddygiad. Dwy ran bwysig o'r cynllun yw:

1. Strategaethau rhagweithiol. Mae’r rhain yn cael eu defnyddio i sicrhau bod gan y person yr hyn maen nhw ei angen. Maen nhw hefyd yn disgrifio ffyrdd o ddysgu sgiliau cyfathrebu a sgiliau eraill i'r person.
2. Mae strategaethau adweithiol wedi'u cynllunio i gadw'r unigolyn a'r rhai o'u cwmpas yn ddiogel.

# Adolygiad Cenedlaethol ADSS o Wasanaethau Gofal Seibiant a Chyfleoedd Dydd 2023

Yn allweddol i ddatblygiad ein hargymhellion mae ystyriaeth a chyd-destun prosiectau cenedlaethol ehangach a gynhaliwyd yn ddiweddar. Rydym ni wedi amlinellu rhai o'r canfyddiadau allweddol sy'n sail i'n dealltwriaeth ac sy'n llywio ein dealltwriaeth. Comisiynodd ADSS Cymru adolygiad o wasanaethau gofal seibiant a chyfleoedd dydd gan ystyried effaith pandemig COVID-19 a'r angen i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn manteisio i'r eithaf ar ddulliau arloesol i wella a datblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau i'r rhai sy'n eu defnyddio, eu gofalwyr di-dâl a'r rhai a fydd yn defnyddio gwasanaethau o'r fath yn y dyfodol. Casgliadau'r adolygiadau oedd:

**Yr angen i adolygu cyfleoedd dydd, gwasanaethau gofal seibiant, a gwasanaethau seibiant byr**

Cyn y pandemig, roedd llawer o asiantaethau wedi nodi'r angen i adolygu ac o bosibl ddiwygio cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr i sicrhau bod model darpariaeth yn parhau i ddiwallu anghenion cyfredol.

Roedd rhai cyfranogwyr yn credu y byddai dadl genedlaethol ar ddyfodol cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr yn helpu i sicrhau newid mawr a chyflym. Roedd rhai o blaid gwerth posibl canllawiau cenedlaethol, tra bod eraill yn teimlo y gallai hyn rwystro mentrau lleol ac arwain at ganlyniadau anfwriadol.

**Effaith y pandemig ar gyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr**

Amharwyd yn ddirfawr ar ddarpariaeth cyfleoedd dydd a gwasanaethau arhosiad byr gan y pandemig. Gorfodwyd nifer o wasanaethau i gau am gyfnod. Ar ôl ailagor, mae rhai yn cynnig gwasanaeth llai o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig, er enghraifft cynnig llai o sesiynau neu sesiynau byrrach. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw nifer sylweddol o bobl wedi dychwelyd i wasanaethau ers iddynt ailagor, ac mae llawer o rai eraill wedi adrodd ers dychwelyd bod argaeledd gwasanaethau wedi lleihau o ran amlder a hyd yr amser pan fydd y gwasanaeth ar gael.

Roedd y graddau y caeodd gwasanaethau, hyd y cau a chyflymder ailagor yn amrywio ledled Cymru. Arweiniodd y pandemig at ddiwygiadau hanfodol i ddarpariaeth gwasanaethau o ganlyniad i ofynion cadw pellter cymdeithasol. Roedd rhai o'r newidiadau a gyflwynwyd yn cael eu hystyried cyn y pandemig, a chanfuwyd eu bod wedi cyflymu rhai newidiadau a gynlluniwyd. Wrth adolygu gwasanaethau fe wnaeth rhai asiantaethau ganfod nad oedd adeiladau oedd yn cael eu defnyddio cyn y pandemig yn addas i'r diben wrth symud ymlaen.

Cafodd yr amgylcheddau a'r model gwasanaeth eu cwestiynu hefyd gan rai. Roedd llawer o gyfranogwyr mewn grwpiau ffocws yn credu y gall gorddibyniaeth ar wasanaethau sy'n seiliedig ar leoedd, h.y., y rhai a ddarperir yn unig neu'n bennaf mewn adeilad neu grŵp penodol o adeiladau, arwain at fodelau 'sefydliadol' a datblygu dibyniaeth ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u teuluoedd.

Disgrifiodd llawer o wasanaethau fwy o ddefnydd o asedau cymunedol yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau lleol a mannau agored. Mae llai o fynediad at drafnidiaeth a ffafriaeth pobl wedi arwain at y duedd hon yn parhau i lawer. Fodd bynnag, mae niferoedd sylweddol yn dal i ddymuno gweld gwasanaethau'n dychwelyd i'r lefelau oedd yn cael eu cynnig cyn y pandemig.

Mewn rhai achosion, mae'r newidiadau hyn wedi'u cynnal ers i'r gwasanaethau ddechrau ar gyfnod adfer wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.

**Pwysau economaidd a phwysau ar y gweithlu**

Gellir mynd i'r afael â rhai o'r galluogwyr a'r rhwystrau a nodwyd gan gyfranogwyr drwy gynllunio effeithiol a rheoli newid, ond mae rhai rhwystrau yn codi o ffactorau strwythurol ac economaidd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu neu gomisiynu'r gwasanaethau. Wedi'u cynnwys yn y rhain mae'r pwysau chwyddiant a brofwyd yn ystod y misoedd diwethaf y teimlir eu bod nhw wedi gwaethygu llawer o'r heriau a wynebir.

Disgrifiwyd heriau'r gweithlu a diffyg cyllid fel pethau sy'n oedi neu'n atal gwasanaethau rhag newid. Byddai darparu ffrwd ariannu ganolog sy'n galluogi awdurdodau lleol a darparwyr i fod yn bartneriaid cyfartal, yn cynnig cyfleoedd i ysgogi a galluogi trawsnewid i ddigwydd. Ystyriwyd yn gyffredinol bod y gweithlu yn ased wrth drawsnewid gwasanaethau. Fodd bynnag, nododd gwasanaethau hefyd y gall aelodau o'r gweithlu fod yn rhwystr i newid. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai staff yn yr hyfforddiant rheoli newid a'r hyfforddiant cymhwyso dull sy'n canolbwyntio ar bobl a chyd-gynhyrchu.

**Mwy o gymhlethdod ymhlith y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau**

Nododd llawer o wasanaethau gynnydd yn anghenion cymhleth pobl sy'n cael eu cyfeirio atynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at y ffaith bod gan rai pobl a oedd wedi defnyddio gwasanaethau cyn y pandemig, anghenion mwy cymhleth wrth iddynt ddychwelyd i wasanaethau wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi. Mae hyn yn amlwg yn fater pwysig mewn perthynas â threfniadau comisiynu partneriaeth a chyd-gomisiynu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

**Cyflogaeth fel rhan o gyfleoedd dydd**

Codwyd pwysigrwydd cefnogi pobl ag anableddau i gael gwaith cyflogedig gan rai cyfranogwyr yn yr adolygiad; mae ymdeimlad nad yw hyn bob amser yn cael digon o amlygrwydd mewn modelau cymorth, er gwaethaf y manteision amlwg posibl i unigolion a'r gymdeithas ehangach.

Bydd angen cydweithio rhwng gwasanaethau dydd ac asiantaethau eraill, fel busnesau a gwasanaethau cyflogaeth, ac addysg, i ddarparu cyfleoedd o'r fath yn effeithiol, yn benodol, rolau a all lywio pobl drwy'r gwahanol lwybrau a ffrydiau cyllido i gyflawni cyflogaeth â thâl.

Mae angen i bolisïau cyfle cyfartal gael eu cymhwyso'n ehangach gan gyrff sector cyhoeddus a'u hyrwyddo mewn sectorau eraill i sicrhau bod sgiliau a galluoedd pobl ag anableddau yn cael eu cydnabod ac y gall y bobl hyn gyfrannu at yr economi leol. Gall adnoddau fel cyllid Mynediad at Waith hwyluso gwelliannau yn y maes hwn.

**Dulliau both ac adain**

Mae dulliau both ac adain a fabwysiadwyd mewn gwahanol feysydd yn cynnig dulliau cyfunol defnyddiol sy'n cyfuno cymorth yn y ganolfan, mynediad at gyfleusterau cymunedol a'r defnydd creadigol o dechnoleg i wella mynediad a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion.

**Technoleg a thrafnidiaeth**

Pan gaewyd gwasanaethau, cynyddodd y defnydd o dechnoleg, yn enwedig fideo-gynadledda a chynadledda ffôn, yn aruthrol. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ymgysylltu â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd a galluogi pobl i ddatblygu a chynnal eu rhwydweithiau eu hunain gan ddefnyddio grwpiau sgwrsio a gweithgareddau rhithwir eraill. Roedd hefyd yn cynorthwyo cyfathrebu rhwng ac o fewn y gwasanaeth. I rai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a rhai staff, roedd defnyddio technoleg ddigidol yn her, oherwydd sgiliau TG gwael a mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad at offer a/neu'r rhyngrwyd.

Cafodd trafnidiaeth a ddarparwyd gan wasanaethau ei leihau'n sylweddol yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn arbennig o heriol i'r rhai sy'n byw mewn lleoliadau gwledig. Oherwydd dewis rhai o'r rhai sy'n mynychu

gwasanaethau, pwysau costau cynyddol sy'n deillio o chwyddiant tanwydd, yn ogystal â'r ddyletswydd sydd gan awdurdodau lleol i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd, adroddwyd bod rhai darparwyr wedi lleihau'r defnydd o drafnidiaeth ac yn parhau i hyrwyddo mynediad at wasanaethau yn nes at adref.

**Cyfleoedd dydd fel gofal seibiant i aelodau'r teulu**

Thema a gynhaliwyd drwy'r adolygiad oedd cydnabod bod cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr yn aml o fudd i dderbynnydd y gwasanaeth a'u teuluoedd. Fodd bynnag, pan fydd gwasanaethau'n cael eu cynllunio ar gyfer unigolion, gall tensiwn godi yn aml rhwng buddiannau'r unigolyn a'u gofalwyr di-dâl o ran sut y bwriedir darparu'r gwasanaeth hwn. Mae'n bwysig cydnabod bod yn rhaid i ddymuniadau'r unigolyn a aseswyd ddod yn gyntaf a phan nad oes gan yr unigolyn hwnnw alluedd, yna rhaid i benderfyniadau fod er budd gorau'r unigolyn a rhaid i'r trefniadau hynny fod lleiaf cyfyngol â phosibl.

**Pwysigrwydd gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chyd-gynhyrchu gwasanaethau**

Wrth gyflwyno a gwerthuso newidiadau i wasanaethau, mae llawer o asiantaethau'n cydnabod pwysigrwydd cynllunio a chyd-gynhyrchu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae ymdeimlad clir bod dulliau o'r fath yn sylfaenol i ddiwygio gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Dylai egwyddorion cyd-gynhyrchu hefyd fod yn berthnasol i gynllunio, darparu ac adolygu modelau gwasanaeth strategol. Nid yw cyd-gynhyrchu a chanolbwyntio ar y person bob amser yn cael eu deall na'u cymhwyso'n effeithiol gan wasanaethau a'u staff. Mae angen hyfforddiant a datblygiad priodol i fynd i'r afael â hyn.

**Effaith y pandemig ar economi gymysg darpariaeth gofal**

Mae effaith y cyd-destun ariannol presennol ar roddion yn fygythiad dirfodol i nifer o asiantaethau trydydd sector sy'n ddibynnol neu'n rhannol ddibynnol ar roddion elusennol.

**Comisiynu cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant sy'n addas ar gyfer y dyfodol**

Er bod amrywiaeth y ddarpariaeth gwasanaeth wedi gwella, adroddir bod lefelau'r ddarpariaeth wedi gostwng yn dilyn y pandemig. Fodd bynnag, roedd y tîm adolygu yn ei chael hi'n anodd mesur y gostyngiad hwn yn y ddarpariaeth oherwydd diffyg data meintiol safonol oedd yn cael ei baratoi’n gyson ar ddarparu a defnyddio gwasanaethau.

Mae angen mwy o gydweithio o fewn, a rhwng asiantaethau, i gomisiynu ystod o gefnogaeth sy'n cynnwys adnoddau cymunedol y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cefnogi dilyniant i gyflogaeth â thâl. Mae'r angen am gydweithio yn arbennig o hanfodol wrth i bobl bontio trwy wahanol gyfnodau yn ystod eu bywyd, er enghraifft wrth adael yr ysgol neu'r coleg, symud i wasanaethau sy'n addas ar gyfer oedolion ifanc, neu'r rhai sy'n addas ar gyfer oedolion hŷn yn ddiweddarach. Er mwyn osgoi tarfu diangen ar fywydau pobl, mae rhai gwasanaethau wedi dechrau defnyddio dull pob oedran, yn seiliedig ar angen unigol, nid oedran cronolegol.

Nodwyd modelau o arfer effeithiol yn yr adolygiad. Gellir dysgu drwy archwilio'r hyn mae'r gwasanaethau hyn wedi'i gyflawni a sut y gwnaethant hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod na fydd dyblygu modelau o'r fath yn uniongyrchol i feysydd eraill bob amser yn briodol; er enghraifft, gall rhai dulliau fod yn fwy addas ar gyfer amgylcheddau trefol yn hytrach na gwledig. Bydd efelychu modelau presennol mewn ardal wahanol bob amser yn gofyn am gynllunio a rheoli newid yn effeithiol. Roedd rhai cyfranogwyr yn credu bod y ffaith nad yw cyfleoedd dydd a rhai gwasanaethau seibiant byr yn cael eu rheoleiddio yn amhriodol ac y gall hyn roi’r gwasanaethau hyn dan anfantais.

**Yr angen am ymgysylltu effeithiol**

Er mwyn cynyddu'r defnydd o gyfleusterau cymunedol lleol, nododd y gwasanaethau y bydd angen ymgysylltu'n well â chymunedau lleol ac arweinwyr cymunedol ac mae enghreifftiau o'n hymweliadau maes lle mae hyn wedi gweithio'n dda. Mae'n hanfodol sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y rhai

sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau a theuluoedd, yn cymryd rhan lawn yn y prosesau asesu, cynllunio, darparu ac adolygu, yn enwedig pan gynigir newidiadau i natur y ddarpariaeth.

**Galluogwyr a rhwystrau arloesedd**

Adroddodd rhai cyfranogwyr fod y pandemig yn dangos y gellir gwneud newidiadau heb gymhwyso biwrocratiaeth neu brosesau gormodol. Arweiniodd yr angen i wneud newidiadau cyflym at ymdeimlad o 'ganiatâd' i gymryd risgiau a chyflwyno modelau creadigol. Mae hyn yn darparu cynsail ar gyfer datblygu gwasanaethau mwy ystwyth wrth symud ymlaen.

Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r rhwystrau a'r galluogwyr i ddiwygio gwasanaethau a nodwyd yn yr adolygiad. Roedd y rhai sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc yn teimlo nad oedd yr iaith a ddefnyddiwyd, a materion a nodwyd, bob amser yn berthnasol i'w hardal. Yn unol â hynny, mae'r adroddiad wedi ceisio mynd i'r afael â'r materion a'r gwasanaethau hynny sy'n benodol i blant a'u teuluoedd.

Mae'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd wedi'u cynnwys yn yr SSWBA a'r MHM ynghyd â defnyddio BSPs yn cynnig y potensial ar gyfer cynllunio person-ganolog gwell. Mae dulliau cyd-gynhyrchu wrth wraidd y dulliau hyn a dylent sicrhau bod anghenion y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr di-dâl yn hollbwysig wrth wneud penderfyniadau.

Mae casgliadau'r adolygiad cenedlaethol yn uniongyrchol berthnasol i'r canfyddiadau yng Ngheredigion, gan fynd i'r afael â llawer o amcanion adolygiad Ceredigion.

Felly rhoddwyd ystyriaeth i'r newidiadau deddfwriaethol hyn a chanfyddiadau'r adolygiad cenedlaethol wrth ddadansoddi'r ystod eang o safbwyntiau a gasglwyd drwy ymarfer ymgysylltu Ceredigion.

# Crynodeb Ymgysylltu

Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi trosolwg o sut rydym ni wedi ymgysylltu â'r grwpiau rhanddeiliaid a nodwyd, a'r rhai a ddewisodd gymryd rhan. Cynhaliwyd yr ymgysylltiad rhwng mis Mawrth a mis Awst 2023. Cafodd ei ymestyn am 11 diwrnod arall (cyfanswm o 16 wythnos) i sicrhau ein bod ni'n gallu cwrdd â chymaint o bobl â phosibl. Yn ystod yr amser ymgysylltu ychwanegol cynigiwyd gweithdai ychwanegol i rieni a gofalwyr, i bobl na allent fynychu sesiynau blaenorol, ac i blant a phobl ifanc i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

**Beth wnaethon ni?**

Fe wnaethom ni ddarllen adroddiadau a dogfennau a oedd yn dweud wrthym ni am hanes y gwasanaeth.

Fe wnaethom ni gyfarfod â'r Cyngor i ddeall mwy am wasanaeth dydd a gofal seibiant Ceredigion. Rhoddodd y Cyngor restr gynhwysfawr o bobl a allai fod eisiau siarad â ni am eu barn, eu profiadau a'u barn.

Yn dilyn dadansoddiad rhanddeiliaid a nododd ystod eang o bartneriaid, cytunwyd y byddem yn cysylltu â phobl o ystod o grwpiau y cytunwyd arno. Mae rhagor o wybodaeth am y grwpiau o bobl y gwnaethom gysylltu â nhw ni i'w gweld yn Atodiad B. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau dydd a gofal seibiant nawr a'u teuluoedd, gan gynnwys pobl ifanc, pobl oedran pontio (18-24) a allai fanteisio ar y gwasanaethau yn y dyfodol, oedolion ag anabledd dysgu, a phobl hŷn â Dementia
- Pobl sy'n gweithio i'r gwasanaethau nawr
- Pobl eraill sy'n gweithio yn y Cyngor ac yn gwybod am wasanaethau
- Pobl sydd â swyddi mewn asiantaethau cymunedol eraill sy'n gwybod am wasanaethau, a phobl sy'n gweithio yn y GIG gyda'r rhai sy'n cael cymorth gan y Cyngor.

Rhwng mis Mawrth a 1 Awst 2023, fe wnaethom siarad â phobl mewn gwahanol ffyrdd fel nad oedd unrhyw rwystrau i gyfrannu at yr adolygiad.

- Fe wnaethom ni gwrdd â phobl wyneb yn wyneb
- Fe wnaethom ni gwrdd â phobl dros y cyfrifiadur
- Fe wnaethom ni siarad â phobl ar y ffôn
- Fe wnaethom ni hwyluso arolwg drwy gydol y cyfnod ymgysylltu, ar-lein ac ar bapur. Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn ogystal ag mewn fformat hawdd ei ddeall (nodir manylion am ymatebion yr arolwg isod).
- Anfonodd pobl wybodaeth ychwanegol atom fel adroddiadau drwy e-bost
- Fe wnaethom ni roi posteri o gwmpas y gymuned mewn mannau mae pobl yn ymweld â nhw (Gweler Atodiad C)
- Bu Cysylltwyr Cymunedol o'r Cyngor yn helpu aelodau'r cyhoedd gyda'r arolwg

Ymwelodd y tîm â Cheredigion ar naw diwrnod gwahanol, gan ymweld â'r canolfannau dydd lle'r oedd gweithgareddau'n cael eu cynnal gan redeg digwyddiadau gyda staff, gofalwyr a theuluoedd yn y gymuned mewn gwahanol leoliadau yn Aberaeron, Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, ac Aberteifi.

- Fe wnaethom ni fynychu RAY Ceredigion i gwrdd â phobl â dementia a'u teuluoedd
- Fe wnaethom ni hwyluso digwyddiadau i fynychwyr rhaglenni cyfleoedd dydd Canolfan Steffan, Canolfan Meugan a Chanolfan Padarn

- Fe wnaethom ni hwyluso digwyddiadau i weithwyr mewn canolfannau dydd anabledd dysgu a gweithwyr eraill y Cyngor.
- Fe wnaethom ni gyfarfod â gofalwyr maeth
- Fe wnaethom ni gynnal noson rhieni a gofalwyr
- Fe wnaethom ni gynnal te gofalwyr a siarad gyda'r fforwm gofalwyr
- Fe wnaethom ni hwyluso sesiynau gyda phobl o oedran pontio ag anableddau dysgu (Camu M'laen)
- Fe wnaethom ni hwyluso sesiwn gyda phlant sy'n derbyn gofal
- Fe wnaethom ni hwyluso digwyddiad i blant yn ystod gwyliau'r ysgol
- Fe wnaethom ni gynnig sesiynau ychwanegol fel y gallai pobl na allent ymuno â gweithgareddau cynharach gymryd rhan

Fe wnaeth y tîm gynnal hefyd nifer o weithdai ar-lein ar gyfer sefydliadau cymunedol a theuluoedd / gofalwyr. Fe wnaethom ni hwyluso llawer o alwadau a sgyrsiau unigol gydag ystod eang o randdeiliaid i glywed eu barn.

Fe wnaeth y tîm greu pecynnau adnoddau a rhoi posteri mewn lleoliadau cymunedol fel llyfrgelloedd a meddygfeydd. Fe wnaethom ni hefyd ddosbarthu'r ddolen arolwg ar gyfryngau cymdeithasol i annog pobl i gymryd rhan.

Fe wnaeth y Cyngor redeg arolwg cyhoeddus ar-lein trwy gydol y cyfnod ymgysylltu.

**Fe wnaethom ni ddefnyddio gwahanol ffyrdd i gyfathrebu:**

- Anfon gwahoddiadau Hawdd ei Ddeall a lluniau symbol a gwahodd cyfranogwyr
- Defnyddio cymhorthion gweledol a ffurfiau creadigol o fynegiant.
- Gofyn i gyfranogwyr ddod â lluniau ac eitemau sy'n dangos beth sy'n bwysig iddyn nhw, gan weithio gyda phapur siartiau, marcwyr a phapur nodiadau gludiog.
- Cael sgyrsiau ar y cyd am yr hyn a phwy sy'n bwysig ym mywydau unigolion trwy offer mapio cymunedol person-ganolog.


**Gyda phwy wnaethom ni siarad**

Ar y cyfan, cawsom ymateb cadarnhaol iawn i'r ymgysylltu, gyda'r niferoedd fel y dangosir yn y tabl isod.

| Grŵp | Yn bersonol | Ar-lein | Arolwg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gofalwyr ac aelodau o'r teulu | 21 | 5 | 74 | **100** |
| Oedolion ag anableddau dysgu | 49 | 2 | 44 | **85** |
| Staff eraill sy'n gweithio yn y Cyngor | 7 | 27 | 12 | **38** |
| Staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau anabledd dysgu | 34 | 2 | 1 | **37** |
| Preswylwyr Ceredigion â diddordeb | X | X | 37 | **36** |
| Pobl â dementia | 21 | X | 5 | **26** |
| Pobl o oedran pontio | 6 | X | 21 | **25** |
| Pobl sy'n gweithio mewn sefydliadau cymunedol | X | 21 | 3 | **24** |
| Plant a Phobl Ifanc | 14 | X | 7 | **20** |
| Pobl sy'n gweithio yn y GIG | X | 9 | 1 | **10** |
| | **140** | **66** | **205*** | **411** |

* Bydd rhai o'r bobl wnaeth ymateb i'r arolwg hefyd wedi mynychu mathau eraill o weithgareddau ymgysylltu.

Mae Atodiad B yn rhestr o'r bobl y gwnaethom ni siarad â nhw.




## Casgliadau

Mae nifer y bobl a roddodd o'u hamser i siarad â ni yn dangos faint o ddiddordeb sydd gan bobl mewn gofal seibiant a gwasanaethau dydd yng Ngheredigion. Fe wnaeth cyfanswm o 206 o bobl gymryd rhan yn ein gweithgareddau a'n gweithdai neu gael sgyrsiau gyda ni, tra bod 205 o bobl wedi ateb yr arolwg. Cymerodd cyfanswm o 411 o bobl ran.

Nid yn unig y gwnaeth nifer fawr o bobl siarad â ni, ond roedden nhw'n dod o ystod eang o gefndiroedd. Y ddau grŵp mwyaf o bobl a gymerodd ran oedd oedolion ag anabledd dysgu a gofalwyr / teuluoedd.

Fe wnaethom ni hefyd siarad â llawer o staff y Cyngor, oedd yn gweithio mewn gwasanaethau dydd ac ar draws timau eraill. Roedd defnyddio gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â phobl yn ddefnyddiol ac yn caniatáu i bobl ag anawsterau cyfathrebu gael eu clywed. Daeth sawl thema bwysig i'r amlwg o ymgysylltu gyda phobl yng Ngheredigion. Mae'r rhain yn cael eu hamlygu yn y gwahanol adrannau o'r adroddiad hwn.

# Crynodeb o themâu ymgysylltu eraill

**Dyfodol cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant**

Isod mae crynodeb o negeseuon allweddol gan bob un o'r grwpiau rhanddeiliaid y gwnaethom ni ymgysylltu â nhw, sy’n dod allan o weithgareddau a arweiniwyd gan Practice Solutions. Gellir dod o hyd i sylwadau manylach drwy gydol yr adroddiad.

**Plant:** Yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau maen nhw’n eu mwynhau, bod yn egnïol a threulio amser gyda ffrindiau

**Oedran pontio:** Cefnogaeth a dewis hunan-gyfeiriedig, cefnogaeth yn y gymuned a ffocws ar gyfleoedd cymdeithasol a datblygu sgiliau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Oedolion ag anabledd dysgu:** mae’r rhai sydd eisoes yn mynychu cyfleoedd dydd yn myfyrio ei fod yn rhan bwysig iawn o'u bywydau ac fel trefn arferol. Roedd amrywiaeth eang iawn o ddiddordebau ac awgrymiadau gweithgaredd gan y grŵp hwn. Roedd dewis a diogelwch yn gryf. Roedd oedolion yn teimlo'n ofidus am ddiffyg mynediad at bethau yr oedden nhw’n eu mwynhau o'r blaen fel garddio, coginio a chyfleoedd cyflogaeth, ac yn gobeithio ymgysylltu â'r rhain eto yn fuan yn y dyfodol. Roedd oedolion eisiau cyfleoedd pellach ar gyfer seibiannau byr a gofal seibiant. Siaradodd pobl yn gadarnhaol iawn am botensial hybiau lles.

**Pobl â Dementia**: Mae pobl â dementia yn mwynhau cymryd rhan mewn cyfleoedd dydd wedi'u teilwra i'w diddordebau mewn lleoliadau cymunedol. Nid ydynt yn or-hoff o’r syniad o 'ganolfannau dydd' neu gartrefi preswyl, ond mae'n well ganddynt gael amser allan ar seibiannau byr a gwneud gweithgareddau. Siaradodd pobl yn gadarnhaol am ddefnyddio technoleg glyfar i aros adref cyhyd ag y bo modd. Roedd neges gref nad oes llawer o gyfleoedd ar hyn o bryd yn cael eu cynnig drwy'r cyngor ar gyfer y grŵp hwn a'u bod nhw’n cyrchu cyfleoedd o leoedd eraill yn bennaf.

**Gofalwyr:** Hoffai gofalwyr weld mwy o gymorth ar gael i'w cadw'n iach a’u galluogi i ofalu yn hirach. Nid ydynt ar hyn o bryd yn teimlo bod digon o fynediad i ofal seibiant, ac i'r rhai â niwro-amrywiaeth a dementia, nid oedd gofalwyr yn teimlo bod unrhyw gyfleoedd dydd ar gael ar hyn o bryd. Nododd gofalwyr maeth nad oes ganddynt fynediad at ofal seibiant.

**Sefydliadau Cymunedol a gweithwyr** y GIG: Fe wnaethant sôn am awydd i gael cysylltiad agosach â'r cyngor, ac nid oeddent yn teimlo eu bod yn ymwybodol o'r broses o gael gafael ar gyllid. Dangos eu bod yn cynnig ystod eang o weithgareddau mae defnyddwyr gwasanaeth yn eu cyrchu. Yn llai clir ynghylch yr hyn sydd ar gael drwy'r cyngor ac fe wnaethant ofyn a ellid datblygu calendr cymunedol iddynt gael mynediad ato.

Awgrymodd staff y GIG y byddai'n ddefnyddiol cynnig clinigau/apwyntiadau mewn lleoliadau tra bod pobl yn eu mynychu, arbed amser teithio ychwanegol i bawb a bod yn fwy cyfleus i ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Staff Canolfan Ddydd Ceredigion a Gweithwyr Eraill:** Yn dymuno i wasanaethau ailddechrau'n llawn a nodi bod llawer o weithgareddau wedi Covid nad oeddent wedi ailgychwyn. Myfyrio y byddai cyflwyno gwasanaeth broceriaeth yn cefnogi gwell cydlynu pecynnau gofal ac yn rhyddhau mwy o amser staff. Cytuno ag egwyddorion oriau estynedig a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Roedd gweithwyr y ganolfan ddydd yn teimlo'n bryderus am newidiadau posibl ac yn mynegi dymuniad i gael eu cynnwys mewn sgyrsiau a fydd yn effeithio arnynt. Roeddent hefyd yn teimlo y dylai fod oriau cyfleoedd dydd rheolaidd yn ogystal ag oriau estynedig gyda'r nos ac ar benwythnosau. Roeddent yn

dymuno cynnig ystod eang o weithgareddau ac roeddent yn gadarnhaol ar y cyfan am roi cynnig ar bethau newydd fel grwpiau cymysg, cyn belled â bod hyn yn cael ei wneud yn ddiogel a gyda chynllunio gofalus.

## Yr Arolwg

Yn ogystal â siarad â phobl yn uniongyrchol, fe wnaethom ni hefyd gynhyrchu arolwg a'i anfon at bobl. Roedd yr arolwg yn caniatáu i'r rhai na allent gwrdd â ni, neu neu y byddai'n well ganddynt beidio cwrdd â ni i ddweud eu dweud. Mae rhai pobl wedi cwblhau'r arolwg a siarad â ni.

**Pwy wnaeth ymateb i'r arolwg?**

Ymatebodd cyfanswm o 205 o bobl i'r arolwg. Roedd hyn yn cynnwys dychwelyd 156 o arolygon ar-lein, a 49 o arolygon papur. Mae 18 o bobl wedi cwblhau arolygon hawdd eu deall.

**1. Ym mha rôl ydych chi'n ymateb i'r arolwg hwn?**

- 30 o bobl sydd â gweithiwr cymdeithasol neu sy'n defnyddio gwasanaethau
- 48 o bobl yn ymateb ar ran defnyddiwr gwasanaeth (rhai wedi nodi eu bod yn ofalwyr)
- 48 o ofalwyr di-dâl
- 15 o bobl a allai fod eisiau manteisio ar wasanaethau yn y dyfodol
- 36 o drigolion Ceredigion â diddordeb
- 6 o bobl a nododd eu bod yn ofalwr maeth
- 7 o bobl heb ymateb i'r cwestiwn hwn

Fe wnaethom ni ofyn rhai cwestiynau i ddeall yn well y bobl oedd yn ymateb i'r arolwg. Fe wnaethom ni ofyn i bobl am

- Yr iaith Gymraeg
- Crefydd
- Trafnidiaeth
- Rhyw a chyfeiriadedd rhywiol
- Hunaniaeth genedlaethol
- Statws gofalu
- Oedran
- Anabledd
- Cyfrifoldebau gofalu

Os hoffech chi ddarllen mwy am y bobl a ymatebodd i'r arolwg, gallwch ddod o hyd i fanylion yn Atodiad B.

**Beth wnaethom ni ei ofyn i bobl**

Roedd y cwestiynau allweddol y gwnaethom ni eu gofyn yn cynnwys:


- Beth mae pobl yn ei hoffi am wasanaethau dydd a gofal seibiant?
- Beth fyddai pobl yn ei newid am wasanaethau dydd a gofal seibiant?
- Pa weithgareddau fyddai pobl yn hoffi eu gweld yn cael eu cynnig?
- Pa lefydd yn y gymuned fyddai pobl yn hoffi mynd iddynt?
- Pa oriau gwasanaeth fyddai'n well ganddynt?
- Beth yw'r problemau maen nhw'n eu hwynebu o ran trafnidiaeth?
- Beth mae pobl yn ei feddwl am newid enw rhai gwasanaethau dydd o bosibl?
- Sut fyddai pobl yn hoffi cymryd rhan yn y dyfodol?

## Ymatebion yr Arolwg

Mae'r adrannau isod yn disgrifio'r ymatebion i brif gwestiynau’r arolwg. Mae mwy o wybodaeth am yr hyn wnaeth pobl o wahanol grwpiau ei ddweud wrthym ni hefyd wedi'i chynnwys yn adrannau eraill yr adroddiad hwn.


**Ymatebion i deithio**

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod yn defnyddio sawl math o drafnidiaeth, fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau rhwng pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r rhai nad ydynt. Dylid nodi nad oedd bws mini y ganolfan ddydd yn un o'r dewisiadau arolwg ac ymatebodd wyth o bobl yn eu sylwadau mai dyma eu dull trafnidiaeth o ddewis.




Mae 45% o ymatebwyr yr arolwg yng Ngheredigion yn dibynnu ar eu cerbydau eu hunain i deithio, sef y categori mwyaf o ymatebion. Mae gofalwyr, aelodau o'r teulu a'r cyhoedd yn fwy tebygol o ddefnyddio eu cerbyd eu hunain (55%), tra bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn llai tebygol o ddefnyddio eu cerbyd eu hunain (27%), a'r mwyaf tebygol o unrhyw grŵp o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (19%) neu i ddibynnu ar gefnogaeth teulu a ffrindiau i deithio (20%)Ni chafodd y mater o ran p’un a oes gan y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gerbydau Motability i'w galluogi i deithio eu hunain neu i gael eu gyrru.

Isod mae dadansoddiad o'r dulliau teithio cyffredinol a ffefrir yng Ngheredigion:



Fe wnaethom ni ofyn i bobl rannu rhai sylwadau am anghenion teithio. Roedd y themâu o sylwadau teithio yn cynnwys:

| **Math o ymateb** | **Nifer o Sylwadau** |
|---|---|
| Methu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu bryderon am ei ddibynadwyedd | 17 |
| Cyfeiriad at un o opsiynau'r arolwg ar gyfer teithio | 10 |
| Defnyddio'r bws mini | 8 |
| Arfer cael cynnig bws mini ond nid yw bellach ar gael neu wedi dweud wrthynt nad ydynt yn gymwys mwyach | 6 |
| Gwledig – dim trafnidiaeth gyhoeddus ar gael | 5 |
| Cael eu cludo gan aelod o staff Ceredigion neu Cysylltu Bywydau | 4 |
| Mae cael car yn hanfodol | 2 |
| Ffyrdd eraill o deithio, gan gynnwys beic trydan, car Motability | 2 |
| Mae costau taliadau uniongyrchol yn rhy isel i dalu am gludiant | 1 |

Dyma rai enghreifftiau o sylwadau a wnaed am drafnidiaeth:

> *"Byddai'n well gen i pe bai rhywun yn gallu fy nghasglu yn hytrach na gorfod dibynnu ar aelodau'r teulu."*
>
> *"O brofiad o weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio gwasanaethau gofal seibiant a gwasanaethau dydd byddai'n fuddiol darparu cludiant iddynt."*
>
> *"Bws sy'n benodol ar gyfer teithio i'r ganolfan ddydd ac oddi yno. Byddai hyn yn galluogi seibiant digonol i'm gofalwr ac yn sicrhau os ydw i'n byw ar fy mhen fy hun, bod gen i ffordd ddiogel a strwythuredig o deithio."*
>
> *"Mae mynediad at drafnidiaeth yn broblem fawr yng Ngheredigion. Costau cynyddol tanwydd a gwasanaethau bysiau yn lleihau."*

-------------------

## Casgliadau

Mae trafnidiaeth yn fater hanfodol bwysig o ran darpariaeth a mynediad at wasanaethau cyfleoedd dydd a gofal seibiant. Roedd hwn yn fater allweddol a nodwyd yn yr adroddiad cenedlaethol ond fel yng Ngheredigion roedd yr effaith fwyaf amlwg mewn cymunedau gwledig.

Mae'n rhaid i gymunedau gwledig gystadlu nid yn unig â phellteroedd hir rhwng eu cartrefi a'u gwasanaethau, ond gydag ychydig iawn o systemau trafnidiaeth gyhoeddus hefyd.

Mae pobl yn ddibynnol iawn ar ddefnyddio ceir a bysiau preifat, ond mae bysiau i lawer yn anhygyrch oherwydd amserlen gyfyngedig a'u gallu i fynd ar fws.

Lifftiau gan aelodau o'r teulu/ffrindiau a staff neu gludiant sy'n cael ei ddarparu gan wasanaethau yw'r prif ffordd o gael mynediad at wasanaethau sy'n bell o gartrefi pobl.


Nid yw nifer y bobl sydd â cherbydau Motability neu sy'n cael budd-daliadau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i alluogi mynychu gwasanaethau yn glir o'r data a gasglwyd.

Mae dull strategol o alluogi mynediad i hybiau gwasanaeth neu ddarparu gwasanaethau mewn safleoedd lloeren yn hanfodol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau yng Ngheredigion.

## Ymatebion i ystod ehangach arfaethedig o weithgareddau

**Cwestiwn 8: Rydym ni'n bwriadu cynnig ystod ehangach o weithgareddau a chyfleoedd i'n defnyddwyr gwasanaeth. Er mwyn ein galluogi i sicrhau ein bod ni'n diwallu anghenion pawb sydd angen defnyddio ein gwasanaethau, rydym ni'n cynnig darparu cyfleoedd i grwpiau ychwanegol o fewn ein cymuned. Bydd hyn yn golygu y bydd Canolfan Steffan, Padarn, a Meugan yn cael eu defnyddio'n wahanol, gydag amrywiaeth o wasanaethau ar gael ar wahanol adegau o'r dydd / wythnos ac yn cael eu defnyddio gan wahanol grwpiau. Ydych chi'n cytuno?**

Dywedodd 65% o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg eu bod nhw'n cytuno â'r argymhelliad, tra bod 18% yn anghytuno ag ef. Roedd 17% naill ai nad oedd wedi ymateb neu heb farn ar y mater hwn.




O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg nad oedd yn cytuno, nodir crynodeb o'u hymatebion yn nhabl isod ynghyd â sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd.

| Math o ymateb | Nifer o Sylwadau |
|---|---|
| Dylai gwasanaethau gael eu cadw fel ag y maen nhw | 7 |
| Pryderon ynghylch sut y bydd y weledigaeth yn cael ei chyflawni | 5 |
| Angen mwy o wybodaeth | 3 |
| Pryderon y bydd y newidiadau yn golygu llai o wasanaeth i rai nag sydd yna nawr | 3 |
| Dylai gwasanaethau ddychwelyd i sut oedden nhw cyn covid | 2 |
| Arall | 1 |

Dyma rai enghreifftiau o sylwadau a wnaed am y newidiadau arfaethedig:

> *"Dydw i ddim eisiau cymysgu gyda grwpiau eraill. Dwi ddim yn hoffi pobl ifanc sy'n swnllyd. Dwi'n hoffi bod gyda ffrindiau."*
>
> *"Nid yw un maint yn ffitio pawb naill ai mewn perthynas â safle neu weithgareddau a chymorth staff."*
>
> *"Dydw i ddim yn siŵr a yw'n bosibl cynnig gwasanaeth/cefnogaeth wirioneddol a sylweddol i'r holl grwpiau defnyddwyr gwasanaeth hyn gyda'r gweithlu presennol ar y lefel bresennol o ran cyflog ac amodau heb o bosibl wanhau'r gwasanaeth mae'r defnyddwyr gwasanaeth presennol a blaenorol yn ei dderbyn/wedi ei dderbyn."*
>
> *"Beth am wneud hwb cymunedol sy'n agored i amrywiaeth o alluoedd, lle mae pobl yn gallu rhyngweithio â'i gilydd waeth beth yw'r gwahaniaethau hyn, byddai hyn yn bodloni Deddf Cydraddoldeb 2010. Lleoliad lle gall unigolion deimlo'n ddiogel, gael eu parchu a'u gwerthfawrogi ac nid 'man poeth' mewn amgylchedd nad ydynt yn teimlo'n gysylltiedig ag ef.*

--------------------

## Casgliadau

Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno â rhywfaint o newid yn y defnydd o hybiau cymunedol.


O'r rhai nad oeddent yn cytuno roedd eu pryderon yn canolbwyntio ar addasrwydd staffio i ddiwallu anghenion amrywiaeth o grwpiau cleientiaid a rhagdybiaeth y byddai newid yn creu dull un maint i bawb.

Os bydd y cyngor yn bwrw ymlaen â chyflwyno rhai newidiadau yn y defnydd o'r adnoddau a nodwyd, bydd angen iddynt ystyried goblygiadau defnydd cynyddol ar y gweithlu a sut y gellir diwallu anghenion gwahanol grwpiau cleientiaid yn y newidiadau.

## Ymatebion i newid oriau

**Cwestiwn 9. Rydym ni'n bwriadu symud oddi wrth oriau traddodiadol y Gwasanaethau Dydd o 9am – 3pm (ar gau ar Wyliau Banc). Rydym ni'n bwriadu cynnig amrywiaeth o'r canlynol yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn. Gallai'r newidiadau hyn gynnwys: Sesiynau hanner diwrnod bore neu brynhawn Sesiynau penodol ar gyfer rhai gweithgareddau Gyda'r nos (dyddiau'r wythnos) Dydd Sadwrn Dydd Sul Gwyliau Cenedlaethol Rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd (ac eithrio Dydd Nadolig, Dydd San Steffan, Dydd Calan). Ydych chi'n cytuno?**

Roedd 57% o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno â'r newid arfaethedig mewn oriau. Roedd 35% yn anghytuno, tra bod 8% naill ai heb ymateb neu heb farn.




O'r rhai nad oeddent yn cytuno, isod mae crynodeb o'r sylwadau:

| Math o ymateb | Nifer o Sylwadau |
|---|---|
| Dylai gwasanaethau gael eu cadw fel ag y maen nhw | 18 |
| Pryderon am gael digon o staff / cludiant ar gyfer oriau estynedig | 12 |
| Pwysigrwydd trefn | 7 |
| Nid oes angen penwythnosau a gwyliau / yn fwy priodol fel amser teulu | 4 |
| Angen mwy o wybodaeth / ddim yn glir pam mae pethau'n newid | 3 |

Dyma rai enghreifftiau o sylwadau a wnaed am y newid mewn oriau:

> *"Mae trefn yn bwysig i mi. Ni fyddai sesiynau hanner diwrnod neu gyda'r nos yn ddigon hir oherwydd mae'n rhaid i mi deithio."*

> *"Mae gen i amheuon y bydd digon o drafnidiaeth a staff i gwmpasu popeth a allai gael ei gynllunio."*

*"Rwy'n cytuno y byddai penwythnosau yn fuddiol, byddai angen trafod p'un a fyddai angen y gwasanaeth ar wyliau cenedlaethol a rhwng cyfnod y Nadolig gyda'r defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd."*

*"Bydd hyn yn peryglu fy lles a lles fy mab. Mae'r trefniadau presennol hefyd yn adlewyrchu'r amseroedd pan mae fy mhlant eraill yn yr ysgol. Mae angen i ddarpariaeth fy mab ddigwydd ar yr un pryd i fy nghefnogi i ddychwelyd i'r gwaith."*

*"Yn ystod pandemig Covid amharwyd yn ddifrifol ar ei fynediad i'r gwasanaeth. Cafodd hyn effaith sylweddol ar ei les emosiynol a chorfforol - gan gynnwys cynnydd yn ei weithgarwch atafaelu, a effeithiodd wedyn ar fy lles i fel ei brif ofalwr. Rwy'n pryderu y bydd newidiadau i'r amseroedd a'r diwrnodau pan fydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu yn golygu bod yr anawsterau hyn yn digwydd dro ar ôl tro."*

--------------------

## Casgliadau

Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn o blaid newid oriau'r gwasanaeth a ddarparwyd.

Roedd rhai yn cwestiynu pam y dylai'r ddarpariaeth gynnwys penwythnosau, gyda'r nos, a gwyliau cyhoeddus oherwydd mae'r rhain yn adegau pan all teuluoedd fod gyda'i gilydd. Mae hyn yn rhagdybio bod gan bob darpar ddefnyddiwr gwasanaethau deuluoedd i dreulio amser gyda nhw. Mae hyn yn dangos bod angen teilwra'r defnydd o oriau estynedig i anghenion a dymuniadau unigol.


Fel yn yr adroddiad cenedlaethol, nodir bod y mater o ddefnyddio oriau craidd yn ystod y diwrnod gwaith yn galluogi'r rhai sy'n darparu gofal di-dâl i weithio ac fel arall yn cyflawni tasgau i'w galluogi i ofalu am y person sy'n defnyddio gwasanaethau ac eraill y mae ganddynt gyfrifoldebau iddynt. Mae'r mater hwn yn dangos pwysigrwydd cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant byr i ddarparu gofal seibiant pwysig i ofalwyr di-dâl a'r potensial nad yw eu hanghenion a'r sawl sydd angen gwasanaethau bob amser yn cyd-fynd.

Mae angen i'r sylw a roddir i'r defnydd o oriau estynedig gael ei lywio gan gynlluniau personoli sy'n mynd i'r afael ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr di-dâl.

## Ymatebion i'r cynnig ailenwi

**Cwestiwn 10: Er mwyn adlewyrchu'r model yn y dyfodol ac yn unol â Llesiant Gydol Oes, rydym ni'n cynnig ailenwi Canolfan Steffan, Padarn a Meugan. Ydych chi'n cytuno?**

Nid oedd gan 43% o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg farn ar y mater hwn. O'r rhai a ymatebodd, roedd rhaniad agos rhwng pobl yn cytuno â'r newid enw arfaethedig (25%), a'r rhai nad oeddent yn cytuno â hyn (28%). Felly, nid oedd mwy o bobl yn cytuno â'r newid arfaethedig i'r enw.




O'r rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynnig i ailenwi'r cyfleusterau, roedd gan yr ymatebwyr farn gref ynghylch pam.

Isod mae crynodeb o'r sylwadau yn ôl thema:

| Math o ymateb | Nifer o Sylwadau |
|---|---|
| Dylai'r enwau gael eu cadw fel ag y maen nhw | 26 |
| Angen mwy o wybodaeth / ddim yn glir pam mae pethau'n newid | 16 |
| Dryslyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth | 11 |
| Arall – gwastraffu amser / pryderon am gost | 9 |

Dyma rai enghreifftiau o sylwadau a wnaed am y newidiadau arfaethedig i'r enw:

> *"Mae gan yr adeiladau hyn hanes i'r holl bobl sydd wedi cael cymorth dros y blynyddoedd, ac maen nhw'n taro tant i bobl. Maen nhw wedi bod yn gymuned, yn lle diogel, yn adnodd hanfodol i bobl dan anfantais."*

> *"Mae enwau'r canolfannau wedi'u gosod i adlewyrchu barn defnyddwyr y gwasanaeth yn y canolfannau. Penderfynodd defnyddwyr y gwasanaeth trwy grwpiau hunan-eiriolaeth ar yr enwau a defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio'r ganolfan ddylai benderfynu ar yr enwau yn hytrach na'i fod yn benderfyniad rheoli lefel uwch. Unwaith eto, mae hyn yn dinistrio'r gymuned mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn rhan ohoni."*

*"Mae trigolion lleol yn gwybod beth yw enwau'r canolfannau. Bydd newid enwau yn drysu pobl sy'n byw yn yr ardal. Enwyd Canolfan Padarn oherwydd ei bod wedi'i lleoli yn Llanbadarn Fawr ac enwyd Padarn ar ôl y sant lleol a ffurfiodd y pentref a'r plwyf. Diolch/Thanks."*

*"Mae hwn wedi bod yn ail gartref, yn lle diogel a saff i lawer o unigolion dros y flwyddyn, gan roi ymdeimlad o bwrpas a strwythur iddyn nhw. Mae'r enw'n dod â hiraeth ac atgofion, gyda'r holl darfu a phryder dros y blynyddoedd diwethaf, dylai'r enw aros yr un fath."*

-------------------


## Casgliadau

Ni wnaeth bron i hanner yr ymatebwyr, 43%, fynegi unrhyw farn ar y mater hwn. O'r rhai a wnaeth fwyafrif bach roedd 28%:25% yn gwrthwynebu'r syniad. Ni ddylid cymryd yn ganiataol nad oedd y rhai na wnaethant ymateb yn gwneud hynny am eu bod yn gwrthwynebu'r syniad.

Os yw'r Cyngor yn dymuno symud ymlaen i newid enw i orfodi newid defnydd posibl ac ehangu ei gynnig gwasanaeth a'i fod yn dymuno gweithio gyda mandad o'r boblogaeth leol a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd, byddai angen iddynt ail-ofyn am farn.

## Ymatebion i gyfleoedd i rannu eich barn

**Cwestiwn 24. A oes digon o gyfleoedd i rannu eich barn?**




Dywedodd 28 o bobl (39%) eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael digon o gyfle i rannu eu barn.

Dywedodd 43 o bobl (61%) nad oedd digon o gyfleoedd i rannu barn gyda'r Cyngor. O'r opsiynau a restrir, dywedodd pobl y gallai ffyrdd eraill o'u cynnwys gynnwys:

| | |
|---|---|
| Grwpiau cymorth ar gyfer gwahanol anghenion | 24 |
| Grŵp hunan-eiriolaeth lleol a ddarperir yn annibynnol oddi ar yr awdurdod lleol | 23 |
| Grwpiau cymorth ar gyfer gwahanol oedrannau | 22 |
| Grwpiau cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg | 9 |
| Arall | 9 |

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cyfarfodydd cyhoeddus, grŵp llywio o ddefnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd, gwrando ar yr hyn mae pobl yn ei ddweud, cael mwy o wybodaeth gan y gweithiwr cymdeithasol, sesiynau eiriolaeth grŵp, gweithwyr cymorth i siarad â mi am fy safbwyntiau.

### Casgliadau

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr 61%:39% yn teimlo eu bod yn cael digon o gyfle i rannu eu barn.

Darparwyd sawl cyfle a allai roi mwy o gyfle i rannu barn gan rai ymatebwyr.


Efallai y bydd y Cyngor yn dymuno adolygu eu dulliau safonol o ymgynghori â dinasyddion i sicrhau, wrth i'w cynlluniau fynd yn eu blaenau i weithredu bod safbwyntiau pobl yn cael eu clywed a'u bod yn ymateb iddynt.

## Ymateb i ddarpariaeth gweithgareddau

Fe wnaeth yr adolygiad gasglu barn ar amrywiaeth y gweithgareddau yr hoffai pobl i'r cyngor eu cynnig ar gyfer gwahanol grwpiau cleientiaid mewn cyfleoedd dydd a lleoliadau seibiant byr. Archwiliwyd y rhain yn ôl grŵp oedran, demograffig a rhanddeiliaid. Mae'r safbwyntiau wedi'u nodi isod yn ôl grŵp.

**Oedolion**


Ymatebodd 66 o bobl i'r cwestiwn ynglŷn â pha fathau o weithgareddau oedolion yr hoffent eu cyrchu. Mae'r nifer o weithiau y dewiswyd pob gweithgaredd yn cael ei ddangos yn y siart isod, a'r tri dewis mwyaf poblogaidd oedd sgiliau i'm cadw'n iach (59%), teithiau dydd a dros nos (58%) a gweithgareddau awyr agored (56%)




Roedd sylwadau'n cynnwys mathau eraill o weithgareddau, fel ystafell synhwyraidd, gweithgareddau aml-chwaraeon, trin gwallt a gweithgareddau yn yr eglwys. Roedd yna hefyd ychydig o sylwadau bod angen darparu mwy o weithgareddau ar gyfer unigolion â dementia.


**Plant a Phobl Ifanc**

Yn yr arolwg, ymatebodd 21 o bobl i'r cwestiwn ynghylch pa fathau o weithgareddau i blant a phobl ifanc yr hoffent i'r Cygor eu cynnig. Dangosir y canlyniadau yn y siart isod, gyda'r tri dewis mwyaf poblogaidd yn cynnwys grwpiau ar gyfer pobl o fy oedran i (76% o'r ymatebwyr), gweithgareddau creadigol (67% o'r ymatebwyr), a gweithgareddau awyr agored, gwirfoddoli a theithiau dydd / dros nos (i gyd gyda 57% o'r ymatebwyr).





**Ymatebion yr Arolwg: Seibiannau Byr a Gweithgareddau – Plant a Phobl Ifanc**

Cafwyd 19 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y tri dewis mwyaf poblogaidd oedd: mynd i ganolfan weithgareddau (63%), treulio amser gyda phlant a phobl ifanc fy oedran i (58%) ac Aros mewn llety hunanarlwyo (58%)




**Ymatebion yr Arolwg: Seibiannau Byr a Gweithgareddau – Oedolion**

Cafwyd 65 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y tri dewis mwyaf poblogaidd oedd Gweithgareddau Dydd yn seiliedig ar ddiddordebau (65%) Aros yng Ngheredigion (63%), a gweithgareddau yng Ngheredigion gyda grŵp (38%)




**Ymatebion yr Arolwg: Seibiannau Byr a Gweithgareddau – Gofalwyr**

Cafwyd 59 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y tri dewis mwyaf poblogaidd oedd: treulio amser gydag unigolion gyda diddordebau tebyg (49%), treulio amser gydag unigolion o'r un grŵp oedran (41%) a'r ganolfan weithgareddau (39%)




Gwnaeth gofalwyr rai sylwadau ychwanegol fel isod:

*Ni fyddai hanner diwrnod yn ddigonol gan fod angen llawer o waith paratoi gartref cyn gadael y person sy'n derbyn gofal gyda rhywun arall*

*Nid wyf yn cael unrhyw ofal seibiant i'm mab*

*Byddai cael gofal seibiant yng Ngheredigion mewn argyfwng yn ddefnyddiol*

-------------------

## Casgliadau

Ymhlith oedolion a phlant a phobl ifanc oedd yn mynegi dewisiadau ar gyfer gweithgareddau a gofal seibiant, roedd yr anghenion a amlygwyd yn debyg iawn. Roedden nhw'n canolbwyntio ar fynediad i gyfleusterau a gofodau cymunedol, darparu gweithgareddau dros nos, datblygu sgiliau a threulio amser gyda phobl ag anghenion tebyg ac ymhlith plant a phobl ifanc, rhai o'u hoedran eu hunain.

Mynegodd rhai awydd i ddefnyddio cyfleusterau lleol (yng Ngheredigion), a nododd rhai awydd i deithio y tu hwnt i Geredigion i gymryd rhan mewn gweithgareddau a seibiannau. Mae'n bosibl bod rhai wedi mynegi ffafriaeth ar gyfer gweithgareddau lleol a phell.

## Sylwadau Cyffredinol

Fe wnaeth llawer o bobl sylwadau cyffredinol ychwanegol ar yr arolwg. Roedd 117 o ymatebion yn cynnwys sylwadau cyffredinol. Mae’r rhain wedi’u crynhoi isod, gyda rhai dyfyniadau uniongyrchol (mae'n bwysig nodi nad yw'r dyfyniadau uniongyrchol o reidrwydd yn cynrychioli barn gonsensws ar y mater a godwyd).

| | |
|---|---|
| Cais am **wasanaethau ychwanegol** | 26 |
| Disgrifiodd llawer o bobl sut fyddai **gwasanaeth delfrydol** yn edrych | 22 |
| Cododd sawl ymatebydd **bryderon am y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau.** | 21 |
| **Angen i weithgareddau ddychwelyd ar ôl COVID** / effeithiau negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr | 17 |
| **Angen mwy o wybodaeth** am y newidiadau arfaethedig | 9 |
| Angen i'r cyngor barhau i ymgysylltu â phobl wrth symud ymlaen / pryderon am beidio â chael eu clywed a chyfathrebu gwael | 9 |
| Rhannu **straeon** a phrofiadau **personol** | 8 |
| Cadw gwasanaethau fel ag y maen nhw nawr | 8 |
| Pwysigrwydd y cyngor yn cynnig trafnidiaeth / effaith i'r rhai na allant gael mynediad nawr | 5 |
| **Pryderon am bobl sydd ag anghenion gwahanol yn cymysgu -** ond hefyd yn dweud y gall hyn fod o fudd | 4 |
| Pwysigrwydd cynnwys pobl sy'n siarad Cymraeg | 1 |

**Dywedodd 26 o bobl y dylai fod gwasanaethau ychwanegol gan gynnwys:**

- Cefnogaeth emosiynol / rheoli dicter
- Gweithgareddau dydd ar gyfer pobl hŷn / pobl â dementia x11
- Gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth / niwroamrywiaeth x2
- Mwy o gefnogaeth i ofalwyr x13
- Angen am ofal seibiant preswyl x3
- Mwy o wasanaethau eistedd
- Mwy o seibiannau byr
- Gwasanaethau ataliol

Enghreifftiau o sylwadau:

> *"Rwy'n dymuno bod lle diogel i berson oedrannus fynd am ddiwrnod - rhywle sydd â thoiledau anabl, staff gofal sy'n gallu rhoi help llaw, cwrdd â ffrindiau, cael hobïau neu grefftau a gweithgareddau."*

> *"Mae angen gwasanaethau ar gyfer plant ac oedolion awtistig. Mae Gofalwyr Ifanc Ceredigion yn darparu cyfarfodydd, teithiau dydd a seibiannau byr i'r gofalwyr ond does dim byd ar gael i'r plentyn awtistig/oedolyn ifanc."*

**Disgrifiodd 22 o bobl sut fyddai gwasanaeth delfrydol yn edrych, gan gynnwys:**

- Gwasanaethau mwy hyblyg
- Mwy o ddewis o weithgareddau yn hytrach na threfn benodol
- Mwy o adeiladu sgiliau
- Gwasanaeth cofleidiol sy'n darparu cefnogaeth ardderchog a diogel

- Tai, hyfforddiant a bywyd cymdeithasol gwych
- Rhywle diogel a hapus
- Cael eu cynnwys ac nid eu gadael yn y gornel
- Dylai campfa fod ar gael yn ystod oriau ysgol
- Sicrhau staff digonol
- Cynnig gofal seibiant rheolaidd
- Sgiliau bywyd e.e. coginio, cyllidebu.
- Cerdded, marchogaeth, pêl-droed, rygbi, nofio, gwnïo, celf
- Lles, tosturi, ysgogiad, cyfeillgarwch, ymarfer corff, cerddoriaeth. Garddio
- Sgiliau sylfaenol e.e., Mathemateg / Cymraeg/ Saesneg
- Y gallu i dderbyn cefnogaeth ar gyfer anghenion iechyd corfforol hefyd h.y. clinig diabetes, trin gwallt, lle i gael cawod, lle i olchi dillad
- Cyfle i gymdeithasu, yn enwedig i bobl â namau
- Cynhwysol i bobl LHDTC+
- Lleoliad i fynd yn ôl iddo rhwng gweithgareddau
- Dylid gallu trefnu gofal seibiant ymlaen llaw, fel y gall gofalwyr gynllunio seibiant iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd
- Dylai gofal dydd rheolaidd fod ar gael bob amser, er mwyn rhoi amser mawr ei angen i ofalwyr gael cyfle i drefnu eu hanghenion eu hunain
- Amgylchedd diogel, integreiddio ag iechyd i gynnig rhaglenni iechyd corfforol

*"Gwasanaethau mwy hyblyg, mwy o ddewis o weithgareddau yn hytrach na threfn benodol. Mwy o adeiladu sgiliau. Ddim i ni orfod ffitio mewn i feini prawf."*

*"Rwy'n teimlo bod darpariaeth y ganolfan ddydd yn wasanaeth mor fuddiol i bobl adael eu cartrefi, cwrdd â phobl eraill, cael pryd o fwyd a gallu siarad â phobl eraill y tu allan i'w teuluoedd. Rwyf hefyd yn teimlo bod y gwasanaethau fel bath yn y ganolfan ddydd yn fuddiol."*

*"Mae angen i'r lleoliadau hyn fod o fewn y gymuned a dylent ddarparu ymgysylltiad, cynhesrwydd, cynhaliaeth a thosturi. Bydd hyn yn sicrhau bod y pwysau ar welyau'r GIG ac ar wasanaethau cymdeithasol a lleoliadau yn lleihau."*

**Fe wnaeth 21 o ymatebwyr fynegi pryderon am y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau. Roedd y rhan fwyaf o sylwadau yn canolbwyntio ar ddiffyg mynediad yn hytrach nag ansawdd y gwasanaethau eu hunain. Roedd y themâu yn cynnwys:**

- Amseroedd ymateb atgyfeirio
- Rhai pobl yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o fynediad
- Pryderon am gwtogi gwasanaethau
- Angen mwy o staff
- Dirywiad yn y gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr - awydd i ddod â'r fforwm gofalwyr yn ôl, diffyg gofal seibiant i ofalwyr maeth x4
- Diffyg mynediad at offer arbenigol ac arosiadau hir
- Problemau llenwi'r gwasanaethau presennol
- Tynnu gwasanaeth yn ôl / rhyddhau pobl yn ystod covid heb rybudd
- Diffyg gallu i ddod o hyd i ofalwyr drwy daliadau uniongyrchol

**Fe wnaeth 17 o bobl sylw am yr angen i weithgareddau ddychwelyd ar ôl Covid / effeithiau negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.**

> *"Cafodd fy mab bum diwrnod llawn yn y ganolfan cyn iddo gau oherwydd Covid ac mae wedi cael trafferth addasu ers hynny. Mae'n anodd gweld sut y bydd y newidiadau arfaethedig o fudd iddo ef ac eraill tebyg."*

**Gofynnodd 9 o bobl am fwy o wybodaeth am y newidiadau arfaethedig.**

> *"Mae angen i ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd gael golwg realistig a llinell amser o'r hyn sy'n cael ei gynnig a phryd. Byddwn yn casáu meddwl am bobl yn cael addewidion mawr a derbyn dim llawer oherwydd pryderon staffio/ariannol."*

**Fe wnaeth 9 o bobl sylwadau ar yr angen i'r Cyngor barhau i ymgysylltu â phobl wrth symud ymlaen / pryderon am beidio â chael eu clywed a chyfathrebu gwael.**

> *"Dylai gwasanaethau gael eu dylunio a'u rhoi ar waith wrth Gyd-gynhyrchu gyda'r bobl sy'n eu defnyddio. Dylai unigolion allu gwneud eu dewisiadau eu hunain a'u cefnogi i gael mynediad atynt. Dylid eu hadolygu'n rheolaidd, a dylid caniatáu i'r unigolyn roi cynnig ar bethau newydd a gwahanol os ydyn nhw am wneud hynny, fel y gallu unrhyw berson arall nad oes angen cymorth ei wneud."*

**Rhannodd 8 o bobl straeon a phrofiadau personol:**

> *"Mae lefel anabledd fy mab yn golygu nad yw Canolfan Steffan a gwasanaethau cymorth tebyg yn briodol - mae'n rhy heriol. Pe bai'n dychwelyd i'w gymuned gartref ar ôl coleg (mae mewn coleg y tu allan i'r sir gan nad oes dim yn briodol yma), byddai gwasanaethau dydd da iawn yn allweddol i'w gynaliadwyedd. Rwy'n gwybod bod angen dybryd ar ei gyfoedion hefyd."*

> *"Fel gofalwr maeth yn enwedig drwy'r pandemig ni chawsom unrhyw seibiant. Mae'r gwasanaethau mor brin nawr fel bod llawer ohonom ni'n dal heb ddim! Yna nid yw ein plant biolegol yn cael cynnig unrhyw weithgareddau teuluol yr un fath â LAC, roedd yn arfer digwydd ond maen nhw wedi cael eu torri. Mae grantiau'r llywodraeth wedi mynd i Geredigion ar gyfer gofalwyr maeth, ond dydyn ni heb ei dderbyn eto!"*

**Roedd gan 4 o bobl bryderon am bobl ag anghenion gwahanol yn cymysgu - ond hefyd yn dweud y gall hyn fod yn fuddiol.**

Dylai gwasanaethau oedolion a phlant fod ar wahân, ac ni ddylid disgwyl i weithwyr weithio gyda'r ddau

> *“Grwpiau cleientiaid. Maen nhw'n feysydd arbenigedd gwahanol iawn."*

> *"Rwyf wedi clywed bod tystiolaeth o fudd pan fydd grwpiau o bobl yn cymysgu mewn lleoliad gofal, fel plant oed ysgol ac oedolion hŷn. Byddai'n hyfryd pe bai gweithgareddau neu wasanaethau ar y cyd i ddod â phobl at ei gilydd."*

**Gwnaeth 5 o bobl sylwadau ar bwysigrwydd y Cyngor yn cynnig trafnidiaeth / effaith i'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad nawr.**

> *"Mae trafnidiaeth yn bwysig iawn. Dylai pobl mewn ardaloedd gwledig allu manteisio ar y gwasanaethau hyn heb wario ffortiwn ar dacsis."*

**Soniodd 1 person am bwysigrwydd cynnwys pobl sy'n siarad Cymraeg.**

> *"Ni ddylai pobl gael eu heithrio oherwydd eu sgiliau Cymraeg neu Saesneg."*

**Mae 8 o bobl eisiau cadw gwasanaethau fel y maen nhw nawr.**

> *"Mae gwasanaethau dydd presennol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd ar gael mewn canolfannau o ddydd i ddydd gyda gweithwyr arbenigol angen cael eu cynnal a’u cefnogi, a'u*

*caniatáu i dyfu. Mae'r mympwy i rannu gwasanaethau a lleihau gwasanaethau diriaethol i arbed arian ar gyllidebau tynn ac i gydnabod grwpiau o bobl ag anghenion cymhleth ar yr un pryd, efallai'n anochel ac yn sicr yn ddealladwy. Fodd bynnag, rwy'n credu y bydd y ffordd hon yn y tymor canolig, yn arwain at ddieithrio defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd oddi wrth yr union ddarpariaethau mae'r cynllun hwn yn gobeithio eu cyflawni. "*

## Casgliadau

Mae'r sylwadau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn ymatebion yr arolwg yn darparu elfen gyfoethog i'r cyngor ei defnyddio fel pwynt cyfeirio oherwydd maen nhw’n cynnwys materion beirniadol a safbwyntiau personol defnyddiol iawn sy'n dangos y themâu a drafodir yn yr adolygiad.

Roedd y sylwadau ychwanegol yn canolbwyntio ar feysydd lle gellid gwella gwasanaethau gan fynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaethau presennol a'r modd maen nhw’n cael eu darparu.

Maen nhw’n tynnu sylw at yr angen am amgylchedd diogel a chroesawgar a phan roedd materion am ansawdd yn cael eu codi, roedd hyn yn aml mewn perthynas â'r ystod o wasanaethau a gynigir a mynediad atynt yn hytrach nag ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau.

Mynegwyd pryderon pobl hefyd o ran mynnu mwy o wybodaeth wrth symud ymlaen ar rai newidiadau arfaethedig ynghyd ag awydd gan rai i sicrhau, wrth i wasanaethau fownsio'n ôl o effaith y pandemig bod lefelau gwasanaeth yn cael eu hadfer. Mynegodd grŵp bach farn i weld dim newid.

## Adborth grŵp rhanddeiliaid

Mae'r adran isod yn tynnu sylw at adborth gan y gwahanol grwpiau rhanddeiliaid a ymatebodd i'r arolwg ynghyd â'r safbwyntiau a fynegwyd yn y gwahanol sesiynau ymgysylltu.

## Plant a Phobl Ifanc

Hwylusodd PSL weithdy ar 1 Awst gyda 14 o blant sy'n derbyn gofal. Roedd 4 aelod o staff hefyd yn bresennol ac ymatebodd 7 o blant i'r arolwg.

**Siaradodd plant a phobl ifanc am yr hyn maen nhw'n ei fwynhau am wasanaethau dydd a gofal seibiant:**

- Pobl newydd i chwarae gyda nhw
- Cyfle i ymlacio
- Cael lle oddi wrth brodyr a chwiorydd

**Mae plant a phobl ifanc yn rhannu'r hyn y bydden nhw'n ei newid:**

- Dywedodd un person ifanc eu bod nhw'n meddwl yn gyffredinol "gall rhai gofalwyr maeth fod yn wael – dylid gwella gofal maeth"
- Cael eu stigmateiddio gan blant eraill h.y. pan fyddant yn cael eu gweld y tu allan i'r ysgol gyda gweithiwr cymdeithasol.
- Roedd pobl ifanc yn awyddus i godi'r gwaharddiad ar rai gweithgareddau. Ar hyn o bryd roedden nhw'n credu nad ydyn nhw'n gallu gwneud pethau fel trampolinio gan nad yw'n bodloni gofynion iechyd a diogelwch Cyngor Ceredigion. Roedd hyn yn gwneud iddynt deimlo dan anfantais gan eu bod nhw'n credu bod plant eraill yn cael mynd gan fod y rheoliad ond yn effeithio ar blant mewn gofal.

Fe wnaethom ni ofyn i blant gael pleidlais ynghylch p'un a oedden nhw a) eisiau i bethau aros fel maen nhw nawr b) eisiau mwy o weithgareddau neu c) eisiau llai o weithgareddau. Pleidleisiodd hanner y plant i gadw pethau fel ag y maen nhw nawr, ac roedd hanner eisiau mwy. Ni wnaeth neb ofyn am lai.


**Roedd ganddyn nhw hefyd syniadau da ynghylch sut y dylai gwasanaethau edrych:**

- Gwneud pethau gydag anifeiliaid fel helpu mewn lloches
- Aros am gyfnod hirach yn rhywle
- Mynd i barciau thema ac atyniadau
- Hoffwn fynd i leoedd ar gyfer gofal seibiant nad ydynt yn ofalwyr maeth h.y. tai ffrind
- Yn hoff iawn o deithiau i ffwrdd a diwrnodau allan fel Llangrannog, tripiau cwch, Sw, Parc Neidio, Parc Dŵr, Bluestone, Gwersylla

Fe wnaethon nhw hefyd siarad am leoedd sy'n bwysig iddyn nhw ac roedd hyn yn cynnwys lleoedd maen nhw'n hoffi ymweld â nhw ond hefyd mannau personol fel eu hystafell wely. Nodir y rhain yn Atodiad D


**Pa un o'r canlynol fyddai o ddiddordeb i chi?**

Y dewisiadau mwyaf poblogaidd ar gyfer gweithgareddau i blant yn yr arolwg oedd gweithgareddau dydd yn seiliedig ar ddiddordebau, gwyliau byr yng Ngheredigion gyda grŵp a Seibiannau yng Ngheredigion




**Pa amseroedd fyddai'n fwyaf addas i chi?**

Nododd ymatebwyr yr arolwg y byddai'n well ganddyn nhw weithgareddau dydd a seibiannau byr yn ystod y dydd ar benwythnosau (30% o ymatebion yr un). Dewisodd 16% o bobl noson yr wythnos hefyd. Llai o bobl eisiau gweithgareddau ar ôl ysgol neu wyliau ysgol (10% yr un)




Dywedodd un person nad oes ganddyn nhw arian i wneud unrhyw beth.

## Casgliadau

Mynegodd y Plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran farn am y pethau yr hoffent eu newid. Roeddent yn cynnwys normaleiddio eu profiad bywyd trwy ganiatáu i'r rhai mewn gofal gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n agored i blant a phobl ifanc eraill.

Hoffent leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â chael gofal gan yr awdurdod lleol.

Maen nhw hefyd yn nodi ystod o weithgareddau y byddent yn dymuno cymryd rhan ynddynt a'r lleoedd yr hoffent eu gwneud a'r lleoedd maen nhw'n mwynhau bod ynddynt.

O ran pryd y byddent yn dymuno gweld gweithgareddau ychwanegol roedd y ffocws ar benwythnosau a seibiannau byr yn ystod y dydd. Ychydig iawn oedd eisiau gwyliau ysgol neu weithgareddau ar ôl ysgol.

Yn bwysig, tynnodd un person sylw at y ffaith y gall diffyg arian atal pobl rhag cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau.

## Pobl ifanc oedran pontio (16-24 oed):

Fe wnaethom ymgysylltu’n benodol gyda phobl ifanc ag amrywiaeth o faterion a oedd yn y grŵp oedran 16-24 a allai felly bontio o wasanaethau pobl ifanc i wasanaethau i oedolion.

Ymatebodd 21 o bobl o oedran pontio i'r arolwg. Dim ond 5 allan o'r 21 o bobl hynny oedd yn gwybod pa wasanaethau oedd ar gael i bobl o oedran pontio

Cymerodd 6 o bobl ran mewn sesiwn a hwyluswyd gan Practice Solutions

Yn yr arolwg, nododd 16 o bobl fod ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, nid oedd gan 4 gyflwr iechyd meddwl na chorfforol ac roedd yn well gan 1 person beidio â dweud. O'r rhai a adroddodd am gyflwr, nid oedd gan 6 gynllun gofal.

**Yr hyn mae pobl ei eisiau yn y dyfodol gan wasanaethau**

Dywedodd y bobl a atebodd yr arolwg wrthym ei bod yn bwysig iawn eu bod nhw’n gallu gwneud eu dewisiadau eu hunain. Y pethau eraill y gwnaeth nhw eu dweud wrthym ni oedd:

- Dylwn gael caniatâd i hunangyfeirio fy nghefnogaeth fy hun yn hytrach na chael fy nghlymu i wasanaeth nad yw'n ddewis i mi.
- Rydw i eisiau bod gyda phobl fy oedran fy hun a bod allan yn y gymuned.
- Rydw i eisiau gweithio
- Gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer grwpiau o bobl fy oed i gydag awtistiaeth.
- Mwy o Gynorthwywyr Personol er mwyn i mi allu manteisio ar bethau
- Gwasanaethau oedd yn galluogi pobl i gyrchu eu cymuned, a galluogi aelodau'r teulu i gael gofal seibiant / gwaith mynediad / seibiant
- Gwasanaeth dydd sy'n gallu darparu gweithgareddau, ffrind, cymdeithasu, cyfathrebu, cyfleoedd, newid golygfeydd, ymdeimlad o berthyn.


**Beth fyddem ni'n ei newid am wasanaethau dydd a gofal seibiant**


Er bod mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol, dywedodd rhywun eu bod nhw’n teimlo bod gwasanaethau dydd o ansawdd is na'r hyn y gallwch chi ei gyrchu yn yr ysgol a'r coleg.

**Arolwg: Gweithgareddau yr hoffai pobl i'r Cyngor eu cynnig – Pobl o oedran pontio**

Ymatebodd 22 o bobl i'r cwestiwn ynglŷn â pha fathau o weithgareddau yr hoffent eu cyrchu pan fyddant yn oedolion. Dangosir y canlyniadau yn y siart isod, gyda'r tri dewis mwyaf poblogaidd gan gynnwys cael swydd neu ddatblygu sgiliau swydd, sgiliau cymdeithasol (gwneud ffrindiau a chwrdd â phobl i wneud gweithgareddau), a sgiliau digidol.

**Diagram enghreifftiol a ddefnyddiwyd i gofnodi barn ymatebwyr ar y gweithgareddau yr hoffai pobl i'r cyngor eu cynnig**



Y tri gweithgaredd roedd pobl yn eu dewis fwyaf ar gyfer pobl o oedran pontio yr oedden nhw’n teimlo yr hoffent gael eu cynnig pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau oedolion oedd gwneud ffrindiau / perthnasoedd (18 ymateb), cwrdd â phobl a gweithgareddau cymunedol (17 ymateb) a sgiliau i'm helpu i fyw ar fy mhen fy hun (15 ymateb)

Fe wnaeth pobl o oedran pontio sylwadau hefyd am y mathau o wasanaethau yr hoffent fel oedolion a gwasanaethau eraill.

> *"Mae'n sgrialfa cael pethau yn eu lle, dim blaengynllunio, dim gweithiwr cymdeithasol pontio yn ei le, byth yn gwybod beth sy'n digwydd nesaf."*
>
> *"Mae Camu M'laen yn strwythur positif iawn ond beth nesaf?"*
>
> *Mynediad cyfyngedig i dai gwarchod / anodd eu cyrchu.”*

**Beth ydych chi'n ei hoffi am wasanaethau dydd / gofal seibiant nawr?**

- Gweld ffrindiau
- Staff
- Trefn

**Beth fyddech chi'n ei newid am wasanaethau dydd / gofal seibiant?**

- Bechgyn a merched yn y grŵp
- Mwy o ymweliadau â'r Llyfrgell Genedlaethol
- Cyfleoedd profiad gwaith
- Mwy o deithiau dydd / diwrnodau allan
- Mynd allan yn y gymuned, cymdeithasu
- Bod gyda phobl
- Gwneud sgiliau bywyd a choginio
- Eisiau bws/ trafnidiaeth
- Mwy o gysondeb yn y staff sy’n gweithio gyda nhw
- Mwy o gysondeb â cherbydau
- Mynd i'r ganolfan hamdden
- Llai o newidiadau yn y prif leoliad
- Sgrin ryngweithiol yn y ganolfan
- Sesiynau pwysau dwfn
- Profiadau synhwyraidd
- Dim gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd nesaf ar ôl i'r defnyddwyr gwasanaeth hyn adael y cyfnod pontio
- Bu'n rhaid iddyn nhw ymladd i gael lle yn eu lle nesaf

**Pa oriau hoffech chi allu cael gafael ar gymorth?**

- Ansicrwydd gan rai aelodau o'r grŵp
- Dywedodd 1 unigolyn y byddent yn hoffi penwythnos
- Dywedodd 1 unigolyn na fydden nhw'n hoffi penwythnos

**Sut ydych chi'n teithio i weithgareddau?**

- Bws
- Car
- Taxi

**Gweithgareddau rydych chi'n eu mwynhau**

- Celf ar waliau – ein gwaith celf ni a lluniau o gyflawniadau
- Cofrestr ddarluniadol o bwy sydd i mewn bob dydd
- Coginio pryd cymunedol
- Dysgu sgiliau achrededig/cydnabyddedig newydd

Dywedodd un rhiant eu bod nhw wedi dychwelyd holiaduron a'u cyflwyno i'r broses ymgynghori: o safbwynt eu mab ac o'u safbwynt eu hunain.

## Casgliadau

Canolbwyntiodd y bobl yn y grŵp pobl ifanc oedd yn pontio eu dymuniadau ar fod yn fwy egnïol yn gymdeithasol ac yn gorfforol. Maen nhw eisiau datblygu sgiliau bywyd a chyflogaeth ac maen nhw eisiau gweithio. Dywedodd rhai fod gwasanaethau dydd yn tueddu i fod o ansawdd is na'r rhai sy'n cael eu darparu yn yr ysgol neu'r coleg.

Dywedodd rhai nad ydyn nhw bob amser yn gwybod beth sydd ar gael iddyn nhw a bod yn rhaid iddyn nhw sgrialu i gyrchu gwasanaethau wrth iddyn nhw symud i oedolaeth.

Fe wnaethon nhw ddweud eu bod nhw'n mwynhau trefn arferol a gweld ffrindiau a staff. Mae trafnidiaeth yn broblem fel y mae mynediad i rai cyfleusterau.

## Oedolion ag anabledd dysgu

Cymerodd 93 o bobl ag anableddau dysgu ran yn yr ymgynghoriad - siaradodd 49 â ni wyneb yn wyneb, 2 ar-lein ac ymatebodd 44 o bobl eraill i'r arolwg.

**Beth rydyn ni'n ei hoffi am wasanaethau dydd a gofal seibiant**

Siaradodd llawer o'r cyfranogwyr am fwynhau canolfannau dydd, gyda pherthnasoedd cadarnhaol gyda'r staff. Fe wnaethant hefyd sôn am fwynhau'r ystod o weithgareddau sydd ar gael, gan elwa o'r drefn.

**Beth fyddem ni'n ei newid am wasanaethau dydd a gofal seibiant**

- Cyfathrebu
- Gweithgareddau
- Lleoedd Cymunedol
- Trafnidiaeth

Siaradodd pobl ag anableddau dysgu yn gadarnhaol am drafnidiaeth bws mini, a dywedodd y rhai nad oedd yn ei gael mwyach fod hyn wedi cael effaith negyddol iawn arnynt.

**Pa fath o weithgareddau sydd bwysicaf i chi?**

Dywedodd llawer o gyfranogwyr wrthym ni eu bod nhw’n mwynhau mynychu'r ganolfan ddydd a'i bod yn rhan fawr o'u bywyd.

Roedd nifer fawr o weithgareddau mae pobl yn teimlo sy'n bwysig. Mae'r ystod o weithgareddau a ddisgrifir yn nodi bod pobl yn mwynhau gwahanol bethau ac er eu bod yn debyg i bobl yn gyffredinol, mae eu dymuniadau yn unigryw a dylid mynd i'r afael â nhw wrth asesu a chynllunio person-ganolog.

Mae'r mathau o weithgareddau sy'n bwysig i bobl yn cynnwys:

- Datblygu sgiliau
- Mynd allan a chrwydro
- Cymdeithasu
- Y celfyddydau
- Ymlacio a gofalu am fy lles emosiynol
- Bod yn yr awyr agored
- Gwaith a Dysgu
- Aros yn actif

Mae'r holl weithgareddau y soniodd cyfranogwyr amdanynt yn bethau sy'n ystyrlon iddyn nhw. Roedd yn bwysig iawn i'r cyfranogwyr eu bod nhw’n cael dewis o bethau i'w gwneud yn seiliedig ar eu diddordebau, nodau a meysydd unigol ar gyfer datblygiad personol. Mae rhestr lawn o'r gweithgareddau a drafodwyd ar gael yn Atodiad D

Yn ogystal â'r gweithgareddau sy'n ystyrlon iddyn nhw, disgrifiodd pobl hefyd y lleoedd sy'n bwysig. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y darlun isod. Mae rhestr lawn o'r lleoedd a nodwyd ganddynt wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

**Beth ddylen ni ei wybod amdanoch chi?**

Rhannodd cyfranogwyr fwy amdanyn nhw eu hunain gyda hwyluswyr, gan ddweud wrthym ni am eu personoliaeth, yr hyn maen nhw ei angen o weithgareddau dydd a gofal seibiant, a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi. Mae rhai o'r themâu i'w gweld isod.

**Yr hyn rydw i ei angen...**

*Mae angen i mi fod gyda staff rwy'n eu*

*Rwy'n hoffi gofod arferol*

*Mae angen i staff ddeall fy anghenion*

*Rydw i angen rhyddid i symud*

*Rydw i angen gofod personol*

*Rydw i angen gallu mynd allan o'm cadair olwyn*

*Mae'n bwysig iawn bod gen i ddewis*

*Mae'n bwysig fy mod yn deall yr hyn rwy'n ei wneud*

*Rydw i am gadw'n*

**Dydw i ddim yn hoffi...**

*Staff yn Gadael*

*Staff yn Gadael*

*Sŵn*

*Pobl yn gweiddi*

*Bod y Ganolfan yn dal ar gau*

**Disgrifio Fi...**

*Cyfeillgar*

*Hwyl*

*Hapus*

*Caredig*

*Defnyddiol*

**Beth ydych chi'n ei hoffi am wasanaethau dydd a gofal seibiant?**
Perthynas gadarnhaol â staff

**Beth fyddech chi'n ei newid am wasanaethau dydd a gofal seibiant?**
Siaradodd llawer o bobl am golli gweithgareddau oedd yn arfer cael eu cynnig cyn pandemig Covid-19 sydd heb ddod yn ôl. Buont hefyd yn siarad am ffrindiau oedd yn arfer dod i'r ganolfan ddydd ond heb ddychwelyd. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn peri gofid mawr i gyfranogwyr gan eu bod yn teimlo nad oeddent yn gallu gweld eu ffrindiau ac nid oedden nhw'n deall pam. Mynegodd sawl un bwysigrwydd gofyn i'r rhai sy'n byw mewn llety â chymorth allu rhannu eu barn.

Prif bryder y rhai a gymerodd ran mewn ymgysylltu oedd na fyddai gwasanaethau dydd yn dychwelyd i sut yr oedden nhw cyn y pandemig.

Siaradodd dau berson sy'n mynd i'r ganolfan ddydd am golli siarad â'r henoed fel roedden nhw'n ei wneud o'r blaen pan oedd caffi.

Yn ystod ein gwaith, fe wnaethom nodi aflonyddwch mawr a gofid ynghylch cau Padarn ac adleoli i leoliad yn Aberystwyth. Mae'r Cyngor wedi dweud bod y ganolfan ar gau oherwydd gwaith adnewyddu ar ôl Covid-19. Mae'r ymatebwyr yn mynegi pryderon bod gohebiaeth gan y Cyngor yn addo ei ailagor, fodd bynnag, roedd yn parhau i fod ar gau, ac roedd hyn yn achosi gofid gan mai eu cred nhw oedd bod y cyfleuster presennol yn rhy fach ac ni all ddarparu ar gyfer cymaint â hynny. Roedd yna gred bod gwasanaethau'n gyfyngedig o ran nifer y gweithgareddau y gellir eu cynnal yn y lleoliad presennol, gan gynnwys garddio, coginio ac ati.

Cafodd pryderon eu cyfleu ynghylch gwasanaethau a oedd wedi lleihau a/neu tynnu'n ôl yn sylweddol, mynediad a/neu drafnidiaeth a'r diffyg gofal/cefnogaeth o ganlyniad i lawer o gleientiaid ar ôl Covid-19. Dywedodd llawer o gleientiaid nad ydyn nhw eto wedi dychwelyd i ddarpariaeth canolfannau oherwydd diffyg lle a/neu drafnidiaeth.

**Sut fyddai gwasanaethau dydd a gofal seibiant delfrydol yn edrych?**
Siaradodd cyfranogwyr mewn gweithdai am bwysigrwydd pobl sy'n cyrchu gwasanaethau yn ymwneud â dylunio a darparu beth bynnag fydd yn digwydd nesaf. Weithiau cyfeirir at hyn fel cyd-gynhyrchu. Mae hefyd yn bwysig bod pobl yn gweithio gyda staff i ddatblygu eu cynllun gofal a chymorth.

Tynnwyd sylw at drafnidiaeth fel mater allweddol i lawer o bobl - gan awgrymu y byddai gwasanaeth dydd a gofal seibiant delfrydol yn cynnwys mynediad i fws mini i weithgareddau i'r rhai sydd ei angen. Nodwyd teithio i ganolfannau dydd ac o ganolfannau dydd yn ogystal â mynd allan i weithgareddau gan lawer fel rhai sy'n hanfodol i'w cyfranogiad. Roedd hyn yn arbennig o wir am y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig.

Roedd cyfranogwyr mewn gweithdai wir yn gwerthfawrogi profiad gwaith a gweithgareddau ystyrlon. Roeddent hefyd yn awyddus i gael cymorth o ran datblygu sgiliau bywyd fel garddio, coginio, siopa, a defnyddio gwasanaethau lleol fel y banc a'r llyfrgell. Roedd llawer o gyfranogwyr hefyd yn rhoi gwerth uchel ar ymarfer corff a chrwydro.

Mae strwythur yn bwysig iawn, a gofynnodd cyfranogwyr i gael yr un amserlen bob dydd / wythnos i'w helpu i gael trefn arferol.

Gofynnodd y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai ymgysylltu am oriau hirach gan gynnwys mynediad penwythnos a gyda'r nos yn gyffredinol.

Cytunodd mwy o bobl a ymatebodd i'r arolwg hefyd i oriau estynedig. Ymatebodd 32 o bobl ag anawsterau dysgu i'r arolwg. O'r rheiny, ymatebodd 21 'Ie' i ymestyn oriau i gynnwys nosweithiau a phenwythnosau, tra nad oedd 7 yn cytuno â'r newid hwn (nid oedd gan y lleill farn).

Roedd cyfathrebu'n rheolaidd yn bwysig iawn - am weithgareddau yn digwydd yn y gymuned a hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl a'u teuluoedd am yr hyn sy'n digwydd gyda newidiadau i wasanaethau - ar-lein ac all-lein.

Byddai gan wasanaethau delfrydol adeilad a byddai hefyd yn mynd â phobl allan i'r gymuned. Mae adeiladau hygyrch sydd â nodweddion newid, toiled a symudedd priodol yn hanfodol i'r rhai sydd ag anghenion gofal corfforol.

**Seibiannau Byr**

- Staff hyfforddedig a phrofiadol
- Pwyntiau cyswllt uniongyrchol perthnasol y Cyngor i ofalwyr
- Cynyddu argaeledd gofal cartref a gofal seibiant
- Mwy o hyfforddiant i staff – yn cyflwyno cyfleoedd prentisiaeth i annog pobl i'r sector
- Darparu mwy o gymorth lleol – archwilio'r defnydd o leoliadau lleol e.e. neuaddau eglwys, canolfannau cymunedol
- Cynyddu cyfleoedd lleoliad gwaith i ddefnyddwyr gwasanaeth
- Ailgyflwyno a chanolbwyntio ar weithgareddau ystyrlon ac ysgogol sy'n hyrwyddo sgiliau bywyd mewn dyddiau penodol allan, coginio, garddio, siopa, defnyddio gwasanaethau lleol e.e. banc, llyfrgell, canolfannau hamdden a chanolfannau lles

**Enghreifftiau o arfer gorau:**

- Sied Dynion
- Camu M’laen
- Forget me knot
- Celfyddydau ar gyfer Lles
- Cyfeillio Age Cymru
- Y Gymdeithas Gofal

**Ymatebion defnyddwyr gwasanaeth:**

*"Dwi'n hoffi dod i'r ganolfan i weld fy ffrindiau."*

*"Peidiwch â chymryd ein canolfan(nau) i ffwrdd."*

*"Rydyn ni eisiau ein bws yn ôl fel ein bod ni'n gallu mynd i lefydd a gwneud pethau."*

*"Rhywle diogel a hapus. I'w gynnwys a pheidio â'i adael yn y gornel."*

--------------------

## Casgliadau

Roedd yr ystod o weithgareddau a ddisgrifiwyd gan yr oedolion hynny ag anabledd dysgu a gymerodd ran yn yr adolygiad yn enfawr. Roedd y lleoliadau y byddent yn dymuno bod yn egnïol ynddynt hefyd yn amrywiol. Mae hyn yn dangos unigoliaeth pobl a'r angen wrth gynllunio i gefnogi pobl i ddefnyddio cynllunio person-ganolog. Mae pobl yn benodol eisiau bod yn rhan o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol ac wrth gyd-gynhyrchu eu cynlluniau gofal a chymorth

Roedd pobl hefyd yn glir eu bod yn dymuno i bobl gyfathrebu gyda nhw, nid yn unig i fynegi eu dewisiadau ond i sicrhau eu bod yn deall sut y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Mynegodd pobl awydd am drefn arferol, amgylchedd tawel a sefydlogrwydd gan gynnwys parhad yn y berthynas â staff a gyda'u ffrindiau sydd hefyd yn mynychu

Roedd pobl yn poeni am y gostyngiad mewn gwasanaethau yn ystod y pandemig ac yn teimlo nad oedd llawer wedi dychwelyd i ddarpariaeth flaenorol pan gafodd y cyfyngiadau eu codi. Codwyd pryderon penodol am gau Padarn.

Amlygwyd trafnidiaeth fel un hanfodol i sicrhau mynediad i'r ganolfan a'r cyfleusterau cymunedol. Nodwyd bod canolfannau yn arbennig o bwysig i'r rhai ag anghenion gofal personol. Tynnwyd sylw at gadw'r canolfannau.

Roedd pobl eisiau estyniad i oriau a diwrnodau pan fydd gwasanaethau ar gael.

## Pobl â dementia

Cymerodd 26 o bobl â dementia ran yn yr ymgynghoriad - fe wnaeth 5 gwblhau arolwg a 21 siarad â ni yn bersonol.

**Beth rydyn ni'n ei hoffi am wasanaethau dydd a gofal seibiant**

Dywedodd pobl â dementia wrthym ni eu bod nhw’n mwynhau cymryd rhan mewn cyfleoedd dydd mewn lleoliadau sydd wedi'u teilwra i'w diddordebau. Dydyn nhw ddim o reidrwydd eisiau mynd i 'ganolfan ddydd' ac roedd rhai'n teimlo bod hyn yn stigmateiddio. Roedd y cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld yn mynychu gweithgareddau dydd yn y sector gwirfoddol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw weithgareddau dydd yn cael eu cynnal gan y Cyngor ar gyfer pobl â dementia.

O ran seibiant, fe fynegodd ambell un ei bod hi'n dda i aelodau'r teulu gael seibiant a'i bod hi'n well pan maen nhw'n gallu mynd allan i wneud gweithgareddau. Nid oedd pobl â dementia yn dymuno mynd i gartrefi gofal preswyl am ofal seibiant.

Nododd rhai pobl eu bod nhw wedi cael profiadau cadarnhaol gyda thaliadau uniongyrchol.

Siaradodd pobl yn gadarnhaol am dechnoleg glyfar a sut mae'n eu cefnogi i aros adref, gan gynnwys larymau ar ddrysau, synwyryddion llifogydd, oriawr tracio ac ati. Roedd hyn hefyd yn galluogi gofalwyr i fynd allan ychydig yn fwy, gan wybod bod eu hanwyliaid yn ddiogel.

**Beth fyddem ni'n ei newid am wasanaethau dydd a gofal seibiant**

Roedd barn gref bod gweithgareddau gofal seibiant dydd yn gyfyngedig iawn ar hyn o bryd i bobl â dementia yng Ngheredigion. Mynegwyd hyn gan ystod eang o bobl drwy gydol yr ymgysylltiad.

Teimlwyd bod taliadau uniongyrchol yn gymhleth, gyda llawer o gylchoedd i neidio drwyddynt ac ychydig o gefnogaeth o ran y broses.

Siaradodd pobl am yr angen am fwy o hygyrchedd ac amseroedd aros byrrach ar gyfer gofal seibiant.

Mae meysydd eraill o bryderon a amlygwyd mewn ymatebion yn cynnwys:

- Canolfannau dydd heb ailagor wedi Covid
- Teimlad nad yw'r pethau iawn yn cael eu hariannu
- Dywedodd dau berson fod trosiant staff uchel ac mai anaml maen nhw’n cael yr un gweithiwr cymorth ddwywaith, a all fod yn ddryslyd i rywun â dementia
- Roedd rhai pobl â dementia yn sylweddoli bod gofal seibiant yn golygu cael ychydig i'w wneud h.y. nid ydynt am eistedd mewn cadair ac mae angen ysgogiad a chyfranogiad mewn gweithgareddau
- Pryder y byddant yn colli sgiliau os nad oes unrhyw weithgareddau yn eu lle

**Cyfathrebu**

Siaradodd pobl â dementia am fod yn ansicr beth oedd ar gael yn lleol - roedd rhai awgrymiadau da am ffyrdd o wella cyfathrebu yn cynnwys:

- Pecynnau adnoddau
- Posteri (mewn llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol ac ati)
- Gweithgareddau cyfathrebu
- Gwybodaeth ar-lein (ar gyfer rhai pobl)

**Pa un o'r canlynol fyddech chi'n ei ystyried yn bwysig ar gyfer eich seibiant byr? Pa fath o weithgareddau neu seibiannau byr fyddai gennych chi ddiddordeb ynddynt? (Pobl â phroblemau cof neu ddementia)**

Nododd pobl â dementia a phroblemau cof amrywiaeth o fathau o seibiannau byr gan gynnwys:

- Gyda theulu a / neu ffrindiau
- Gweithgareddau dydd yn seiliedig ar faes diddordeb x3
- Aros yng Ngheredigion
- Gwasanaeth gwyliau preswyl i oedolion x2
- Mynediad i seibiannau byr wedi'u targedu
- Mynediad i ofal seibiant brys
- Llety hunanarlwyo
- Lleoliadau cefn gwlad
- Darpariaeth gofal preswyl

**Gweithgareddau a ffefrir gan bobl â dementia y gwnaethom ni siarad â nhw:**

Fe wnaeth y rhai y gwnaethom ni siarad â nhw â dementia nodi ystod eang o weithgareddau gan gynnwys:

- Gweithgareddau pontio'r cenedlaethau gyda phobl iau
- Cymdeithasu
- Tai Chi
- Grwpiau canu
- Sefydliad y Merched
- Cerdded
- Nofio
- Darllen
- Grwpiau eglwys
- Cadw'n heini ar gyfer dementia
- Celf a chrefft
- Pobi
- cerddoriaeth

*"Mae'n ymddangos bod llai o opsiynau ers Covid o ran gweithgareddau a chefnogaeth."*

Roedd rhai pobl yn teimlo bod diffyg gweithgareddau wedi'u teilwra i ddynion fel gwaith coed. Roedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau a restrwyd gan unigolion yr oeddent yn eu mwynhau allan yn y gymuned yn hytrach na gwasanaethau ffurfiol, gan amlaf yn cael eu darparu gan y sector gwirfoddol. Roedd ffafriaeth i gael eu hintegreiddio yn y gymuned, yn hytrach na chael eu gwahanu mewn canolfan.

**Lleoedd Cymunedol**

Yn gyffredinol, roedd ymdeimlad bod sefydliadau'r sector gwirfoddol yn cael trafferth derbyn unrhyw gyllid ac yn aml mewn perygl o gau.

Awgrymodd rhai pobl y gallai fod gwell defnydd o fannau cymunedol presennol ar gyfer gweithgareddau fel adeiladau hygyrch gan gynnwys cartrefi gofal, neuaddau cymunedol ac ati.

Siaradodd pobl am yr her o amseroedd aros hir am ofal seibiant - roedden nhw'n teimlo y byddai'n dda gallu cael seibiant mewn cartref gofal am benwythnos i drio cyn gwneud cyfnodau hirach.

Ychydig o sylwadau:

*"Yn ddryslyd iawn i gael gwybodaeth a diagnosis."*

*"Byddai un person i helpu i lywio'r system yn bositif."*

**Trafnidiaeth**

Mae trafnidiaeth yn her fawr i bobl â dementia, nad ydynt efallai'n gyrru neu'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus mwyach ac yn aml yn dibynnu ar aelodau'r teulu i gefnogi mynd o gwmpas.

## Casgliadau

Tra bod gwasanaethau dydd a seibiant yn cael eu disgrifio gan rai fel rhywbeth cyfyngedig iawn ar gyfer pobl â dementia neu broblemau cof. Roedd awgrymiadau defnyddiol hefyd ar sut y gellid gwella cyfathrebu.

Y canfyddiad oedd bod gwasanaethau sydd ar gael yn cael eu darparu gan y trydydd sector heb unrhyw wasanaethau gan y cyngor yn cael eu darparu.

Dywedodd pobl eu bod nhw am gael llai o gyfleoedd gweithgaredd wedi'u stigmateiddio mewn lleoliadau cymunedol. Maen nhw eisiau gwasanaethau sydd wedi'u lleoli mewn canolfannau sy'n eu galluogi i ymgymryd â gweithgareddau.

Cafodd rhai pobl brofiadau cadarnhaol o ddefnyddio taliadau uniongyrchol tra bod eraill yn dweud bod eu defnyddio yn rhy gymhleth.

Roedd pobl yn gwerthfawrogi'r ffaith bod gwasanaethau'n caniatáu gofal seibiant gan fod hyn yn gefnogol i aelodau'r teulu, ond roedd rhai yn teimlo bod amseroedd aros yn rhy hir. Fe wnaethon nhw ddweud y byddai cyfleoedd i samplu gofal seibiant cyn ymrwymo yn cael eu croesawu. Credwyd bod defnyddio technolegau cynorthwyol yn ddefnyddiol ar gyfer rhoi tawelwch meddwl i aelodau'r teulu.

Fel gyda grwpiau eraill, fe wnaethon nhw ddweud bod mynediad at drafnidiaeth yn mynd law yn llaw â mynediad at wasanaethau.

Roedd gan bobl farn glir am y gweithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt a ble a pha fath o leoliadau gofal seibiant y byddent yn dymuno cael mynediad atynt.

## Aelodau teulu a gofalwyr

Cymerodd 100 o aelodau o'r teulu a gofalwyr ran yn yr ymgynghoriad- 21 wyneb yn wyneb, 5 ar-lein a 74 yn cwblhau'r arolwg.

**Beth rydyn ni'n ei hoffi am wasanaethau dydd a gofal seibiant**


Roedd adborth yn dangos bod y gwasanaethau presennol yn amhrisiadwy ac yn gymorth allweddol i'w galluogi i barhau mewn rolau gofalu. Roedd yn siarad yn gynnes am staff ac yn teimlo eu bod wir yn deall y person maen nhw'n gofalu amdano'n dda. Roedd gweithwyr hefyd yn cael eu disgrifio fel rhai medrus iawn. Roedd pob gofalwr yn teimlo bod gwasanaethau dydd yn gadarnhaol ac eisiau iddynt barhau.

I'r rhai sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol, maen nhw i raddau helaeth yn adrodd am brofiad cadarnhaol gyda mwy o hyblygrwydd a chefnogaeth briodol i'r person maen nhw'n gofalu amdano.

*"Roedd yr asesiad gofalwyr yn weddol gyflym - ond ni ddaeth y gefnogaeth fyth."*

**Os ydych chi'n ofalwr di-dâl, pa gyfleoedd gwasanaeth gofal seibiant fyddai'n diwallu eich anghenion orau?**

Ymatebodd 79 o bobl i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg. Weithiau roedd pobl yn dewis nifer o ymatebion. Mae'r siart cylch isod yn dangos bod y mathau mwyaf dewisol o ofal seibiant yn cynnwys seibiant gweithgaredd dydd (35%) a seibiannau byr (31%), ac yna gweithgareddau yn ystod y dydd ar benwythnosau (20%).




Dywedodd sylwadau gofalwyr ar yr arolwg hefyd wrthym fod unrhyw seibiant yn werthfawr, a bod cael hyblygrwydd a gallu trefnu ymlaen llaw yn hanfodol. Dywedodd gofalwyr wrthym hefyd, os nad oes gwasanaeth yn ystod y dydd pan fyddant yn gweithio, na fyddai'n caniatáu iddynt barhau i ofalu oherwydd bod angen iddynt allu talu'r biliau.

**Beth fyddem ni'n ei newid am wasanaethau dydd a gofal seibiant**

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y gallai gwasanaethau presennol gael eu cymryd i ffwrdd ac efallai na fydd rhai pobl sy'n poeni am aelodau'r teulu yn gallu dychwelyd i ganolfannau dydd ar ôl pandemig Covid. Roedd canfyddiad gan rai pobl bod eu gwasanaeth wedi dod i ben yn ystod y cyfnod hwn. Siaradodd

teuluoedd hefyd am effaith peidio â gweld ffrindiau a oedd wedi cael eu rhyddhau ar y rhai maen nhw’n gofalu amdanynt, gydag un person yn nodi bod eu plentyn wedi bod mewn 'yn beichio crio' lawer gwaith yn colli eu ffrind sy’n byw mewn llety â chymorth oherwydd nad oeddent yn gallu mynychu.

Roedd rhai pryderon am y diffyg gofalwyr preifat sydd ar gael i bobl ar daliadau uniongyrchol ac roedd rhai pobl yn sôn am heriau wrth wneud y swyddogaeth weinyddol. Adroddwyd diffyg cefnogaeth i helpu i reoli'r gyllideb a'r prosesau cyfrifyddu. Mewn ambell achos, arweiniodd hyn at beidio â chymryd taliadau uniongyrchol - i ddau berson, fe gawson nhw eu rhyddhau wedyn oherwydd diffyg ymgysylltu - er eu bod yn dal eisiau cymorth.

Mynegodd gofalwyr bryder am ddiffyg trafnidiaeth mewn rhai lleoliadau.

Roedd gofalwyr yn teimlo y dylid defnyddio rhai cartrefi preswyl ar gyfer gofal seibiant yn unig ac y dylai cyn-gartrefi gofal gael eu hail-agor at y diben hwn.

Gofynnodd gofalwyr fod canolfannau dydd yn ailagor fel yr oeddent cyn Covid ond gyda'r opsiwn ar gyfer amseroedd eraill gan gynnwys gyda'r nos a phenwythnosau, gan nodi bod yn well gan rai pobl ddewisiadau hyblyg.

Dywedodd gofalwyr fod trosiant staff uchel:

> *"Rydw i eisiau gallu siarad â'r un person o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, yn lle ailadrodd eich hun bob tro y byddwch chi'n ffonio."*

**Cyfathrebu**

Codwyd pryder ynghylch cyfathrebu yn ymwneud â'r canfyddiad bod aelod o'u teulu wedi cael ei ryddhau o gefnogaeth neu fod eu dyddiau wedi cael eu lleihau yn y ganolfan ddydd heb gyfathrebu gan y cyngor. Mynegodd llawer o bobl awydd am well cyfathrebu â theuluoedd am yr hyn sy'n digwydd gyda'r rhaglen drawsnewid. Nid oedd nifer wedi clywed am yr ymgynghoriad nes cysylltu â nhw i fynychu gweithdy. Credwyd hefyd gan rai ymatebwyr nad yw staff wedi gallu ateb eu hymholiadau a'u bod yn ansicr o'r hyn sydd wedi’i drefnu.

Roedd yna gais gan ambell un am wasanaethau eiriolaeth i ymwneud mwy â defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd.

Roedd pawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn awyddus i barhau i gymryd rhan yn y camau nesaf.

**Gweithgareddau**

Dywedodd rhai teuluoedd bod lefel uchel o bryder o hyd am risg, ar ôl Covid-19, gyda theimlad nad oedd gweithgareddau wedi ailddechrau'n llawn. Mynegwyd pryderon ynghylch y mater y gallai o bosibl gymryd misoedd i asesiad risg ar gyfer gweithgareddau newydd ddigwydd. Nododd nifer o bobl nad yw'r gegin wedi ailagor sy'n golygu nad yw pobl yn gallu dysgu sgiliau coginio. Dywedodd un person eu bod nhw’n credu eu bod yn cael eu cynghori na allant fynychu unrhyw weithgareddau y tu allan i'r sir, hyd yn oed pan fo'r rhain yn agos at ffin y sir. Mae pobl yn colli cymryd rhan mewn gweithgareddau garddio.

Mae'r sylwadau'n cynnwys:

> *"Angen gweithgareddau ystyrlon fel sgiliau bywyd a phrofiad gwaith a mwy o greadigrwydd."*

> *"Roedd gofalwyr o'r farn y dylid cynnig dewis ac ystod o gefnogaeth gan gynnwys 1:1, gweithgareddau grŵp, clwb Porth ac ati. Dylai gweithgareddau fod yn ystyrlon."*

> *"Rhannodd gofalwyr enghreifftiau o arferion gorau o weithgareddau gan gynnwys Siediau Dynion, Forget me knot, Celfyddydau ar gyfer Lles, Cyfeillio Age Cymru a'r Gymdeithas Gofal."*
>
> *"Roedd gofalwyr yn gefnogol o integreiddio ond roeddent yn teimlo bod angen ystyried iechyd a diogelwch a theimlo y dylai staff gael hyfforddiant i weithio gyda grwpiau cleientiaid newydd."*
>
> *"Gofynnodd gofalwyr am opsiynau talu uniongyrchol mwy hyblyg."*

**Lleoedd Cymunedol**

Yn y sesiynau taflu syniadau, gofynnodd gofalwyr am alwadau gofal hirach i ganiatáu i gleientiaid sydd angen mwy o gefnogaeth, a gofal gyda'r nos / gofal seibiant nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Mae neuaddau pentref yn hygyrch i gymunedau llai.

**Trafnidiaeth**

Mae hyn wedi cael ei effeithio gan y diffyg trafnidiaeth ar gyfer y rhai maen nhw'n gofalu amdanynt. Awgrymodd cwpl o ofalwyr y byddai rhannu ceir i weithgareddau yn ddefnyddiol, yn hytrach na chael gweithwyr cymorth unigol yn mynd â phobl i weithgareddau yn y gymuned.

Roedd gofalwyr hefyd yn teimlo y dylai trafnidiaeth fod yn hawdd ei gyrraedd, yn fforddiadwy ac ar gael i'w llogi am ddiwrnod ar gyfer gweithgareddau.

**Sylwadau gan ofalwyr:**

> *"Rydym ni angen atebion i gwestiynau rydym ni'n eu gofyn yn lle eu brwsio o dan y carped."*
>
> *"Pam nad oes modd defnyddio'r canolfannau dydd fel cyn Covid."*
>
> *"Mae'r drefn arferol wedi torri."*

Roedd gofalwyr yn teimlo y dylai staff gael eu hyfforddi'n dda, a dylai staff gweinyddol gefnogi gwell cyfathrebu a bod yn bwyntiau cyswllt allweddol.

## Casgliadau

Roedd gofalwyr yn glir bod gwasanaethau cyfleoedd dydd a gofal seibiant yn hanfodol i'w galluogi i barhau yn eu rôl ofalu. Amlygwyd bod cefnogaeth yn ystod y dydd yn hanfodol gan ei fod yn caniatáu i bobl weithio. Nododd gofalwyr y byddai'r cyfleoedd gofal seibiant hynny iddyn nhw eu hunain yn eu helpu.

Byddai gallu trefnu gofal seibiant ymlaen llaw yn helpu yn ogystal â hyblygrwydd y gellir ei wella gan daliadau uniongyrchol. Er bod taliadau uniongyrchol yn cael eu gwerthfawrogi, roeddent yn cael eu hystyried yn gymhleth heb unrhyw gymorth ar gael i ofalwyr i gefnogi eu gweinyddu.

Mae gofalwyr yn pryderu am effaith y pandemig gyda gwasanaethau'n gyfyngedig neu'n cael eu cwtogi yn effeithio ar barhad gofal a chyfeillgarwch.

Mae staffio cyfyngedig a lleoliadau ar gyfer gofal seibiant yn bryder fel ag y mae argaeledd trafnidiaeth. Roedd rhai yn awgrymu y gallai rhannu ceir helpu.

Amlygwyd cyfathrebu fel problem. Mae gofalwyr eisiau cymryd rhan weithredol mewn newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol.

## Gofalwyr Maeth

Fe wnaethom siarad â gofalwyr maeth profiadol, a rannodd gyda ni y gall fod yn heriol iawn dod o hyd i weithgareddau i blant o wahanol oedrannau, ac nad yw'r gofal seibiant ar gael drwy'r Cyngor mwyach, lle'r arferai gael ei ddarparu'n rheolaidd

Nododd gofalwyr fod gweithwyr prosiect yn arfer mynd â phlant allan am y dydd ac yn cefnogi anghenion unigol, ond nid yw'r staff hyn bellach yn cefnogi lleoliadau maeth.

Roedd Covid yn gyfnod anodd i fod yn rhiant maeth gan nad oedd gan blant unrhyw gyswllt gyda rhieni na chefnogaeth ac nid oedden nhw yn yr ysgol.

Astudiaeth Achos: Gofynnodd gofalwyr maeth am ofal seibiant unwaith y mis, ond nid oes unrhyw ofalwyr maeth gofal seibiant i gefnogi hyn. Fe wnaethon nhw ddweud:

> *"Roedd pawb yn arfer helpu ei gilydd. Cafodd gofalwr gofal seibiant brys ei drefnu pan oedd pethau'n cyrraedd pwynt chwalu - ond roedden nhw weithiau yn canslo funud olaf, oedd yn peri gofid mawr. Nid oes gennym ni unrhyw beth yn awr."*

Un awgrym oedd sefydlu rhwydwaith o ofalwyr seibiant maeth i gefnogi ei gilydd – *nodwyd Rhaglen Mockingbird* fel enghraifft o arfer da.[1]

Nododd gofalwyr maeth bwysigrwydd parhad o ran gweithwyr cymdeithasol ond fe wnaethon nhw ddweud bod llawer o newidiadau wedi bod yn ddiweddar ac yn aml gweithiwr asiantaeth anhysbys oedd yn cefnogi plant maeth. Mewn un achos roedd plentyn wedi cael 12 o weithwyr cymdeithasol mewn 2 flynedd.

Nododd gofalwyr maeth hefyd fod diffyg cyfathrebu gan y Cyngor, ac mewn un achos nad oeddent erioed wedi cael cynnig unrhyw gefnogaeth nac wedi cael gwybod am unrhyw weithgareddau.

Roedd teithiau dydd wedi lleihau, ac ni wahoddwyd teuluoedd maeth i brydau bwyd gyda'i gilydd mwyach. Nododd un teulu y byddai cael gweithgaredd ar y penwythnos unwaith y mis yn galluogi'r teulu i gael peth amser i ffwrdd o'u rôl faethu a hefyd cyflwyno'r plant i eraill yr un oed.

Nododd gofalwyr maeth fod llawer o bobl yn gadael i fynd i asiantaethau preifat ac y gallai'r Cyngor wneud mwy i wneud maethu yn ddeniadol fel cynnal digwyddiadau recriwtio a hyblygrwydd. Dywedodd cwpl eu bod nhw'n teimlo'n eithaf datgysylltiedig ac ynysig ac yn teimlo eu bod nhw'n colli ymdeimlad o gymuned.

### Casgliadau

Roedd gofalwyr maeth yn pryderu bod gofal seibiant iddyn nhw eu hunain a digwyddiadau cymdeithasol cefnogol wedi dod i ben, er eu bod nhw dan fwy o straen yn ystod y pandemig nag o'r blaen.

Maen nhw'n teimlo'n ynysig ac yn croesawu mwy o gyfathrebu. Mae trosiant uchel gweithwyr cymdeithasol a'r diffyg parhad dilynol yn gwaethygu'r problemau hyn.

[1] Rhaglen Mockingbird | Y Rhwydwaith Maethu

## Sefydliadau cymunedol sy'n darparu cefnogaeth i bobl ag anableddau.

Fe wnaethom siarad ag ystod eang o sefydliadau ledled Ceredigion - 21 o sefydliadau gwahanol ar-lein ac fe wnaeth 3 arall gymryd rhan yn yr arolwg. Mae'r darparwyr yn rhedeg llawer o raglenni ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd meddwl, anableddau dysgu ac anableddau corfforol, dementia a chamddefnyddio sylweddau yn cael eu cynnig, ar gyfer plant ac oedolion ledled Ceredigion.

Roedd gan ambell sefydliad gyllid gan y Cyngor a pherthynas gadarnhaol hirsefydlog gyda'r Cyngor. Fe wnaethon nhw siarad am allu cyrchu hyfforddiant fel ymwybyddiaeth awtistiaeth, sydd wedi bod yn amhrisiadwy i'w staff. Fe wnaeth nifer o sefydliadau'r sector gwirfoddol siarad am y diffyg cyfle i gael cyllid gan y Cyngor a mynegwyd y farn eu bod nhw'n cynnig gwasanaeth gwerthfawr i bobl sy'n cyrchu cymorth gan yr awdurdod lleol ond eu bod mewn perygl o gau heb gefnogaeth.

**Beth ddywedodd sefydliadau wrthym ni am ofal seibiant**

Teimlwyd bod diffyg mynediad i ofal seibiant ledled Ceredigion, gydag ychydig iawn o wasanaethau wedi'u nodi gan gyfranogwyr.

Nododd llawer o gyfranogwyr fod angen gofal seibiant arbenigol 24/7 ar deuluoedd, ar gyfer plant ac oedolion. Mae angen mannau brys i'r rhai sydd ei angen a seibiannau rheolaidd i deuluoedd sydd mewn perygl o golli gofalwyr. Mae hefyd angen rhyw fath o gyfleuster i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer gwyliau a seibiannau hirach o wythnos neu fwy. Mae llawer yn ymdopi gyda dim ond cwpl o oriau yr wythnos i adael y tŷ, a phryd hynny mae angen iddyn nhw wneud eu holl siopa a thasgau ac nid ydynt yn cael unrhyw seibiant.

**Cyfathrebu**

Soniodd un darparwr am gael perthynas gadarnhaol hirsefydlog gyda'r Cyngor, gyda chysylltiadau allweddol ym mhob adran yn ddefnyddiol iawn ac yn gefnogol. Fodd bynnag, nodwyd nad ydynt yn teimlo bod y gwasanaethau newydd (CLIC a chanolfannau galwadau) mor ddefnyddiol ac fe wnaethant ddisgrifio treulio amser hir ar y ffôn yn ceisio gofyn cwestiynau oedd yn cael eu hateb yn syth cyn y trawsnewid. Dywedwyd bod yr Uned Gofalwyr yn y Cyngor yn dda iawn am rannu gwybodaeth gyda gofalwyr sydd wedi cofrestru gyda nhw. Roedd canfyddiad bod cysylltwyr cymunedol yn cael eu tynnu'n ôl, sy'n ymddangos fel pe bai ganddynt lai o gyswllt nag o'r blaen.

Dywedodd sawl sefydliad eu bod nhw'n teimlo allan o gysylltiad â'r awdurdod lleol ac nad oedden nhw'n cael llawer o gyfathrebu gyda nhw - nid oedd yr un o'r sefydliadau wedi clywed am y newidiadau sydd ar ddod i wasanaethau dydd a gofal seibiant, nes i ni gysylltu â nhw'n uniongyrchol i gymryd rhan mewn ymgysylltu.

Byddai darparwyr wedi hoffi bod yn rhan o'r gwaith cynllunio o ran gweithgareddau dydd a gofal seibiant o'r dechrau. Roedd yn bwysig iawn iddyn nhw eu bod nhw'n cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses ac yn cael cyfleoedd i helpu i lunio a chefnogi'r gwaith. Roedd llawer yn sôn am ddysgu am newidiadau drwy deuluoedd - gan ofyn iddyn nhw a oedden nhw wedi clywed beth oedd yn digwydd.

Teimlwyd bod gwefan Connect Ceredigion yn gam cadarnhaol ond bydd ond yn cael ei diweddaru pan darparwyr yn gallu neilltuo amser i'w diweddaru. Teimlwyd, os yw cysylltwyr cymunedol yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol â darparwyr, yna gallant ddysgu am ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd ar y gweill i'w rhannu â thrigolion Ceredigion.

**Gweithgareddau**

Roedd y rhai y gwnaethom ni ymgysylltu â nhw yn argymell ystod eang o weithgareddau ystyrlon ac yn teimlo bod gan y gymuned lawer i'w gynnig, ond nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod pa mor eang yw'r hyn sydd ar gael.

Mae llawer o weithgareddau ar gael ar hyn o bryd yn y gymuned a gynigir gan y gwasanaethau, trwy gyfeirio o ofal iechyd neu ofal cymdeithasol, neu alw heibio. O'r rhai y gwnaethom ni siarad â nhw, roedd y gwasanaethau dydd a gofal seibiant a gynigiwyd yn cynnwys:

- Rhaglenni ymarfer corff a chynnig lles cynhwysfawr mewn canolfan hamdden newydd, gan gynnwys rhaglen cyn diabetes, cynllun cyfeillion ymarfer corff, ac atgyfeirio ymarfer corff (NERS), y gellir ei gyrchu'n bennaf drwy atgyfeiriad gan y GIG
- Gweithgareddau byw'n iach
- Cwnsela profedigaeth
- Cymorth i ofalwyr
- Cefnogaeth allgymorth i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ynysig
- Gweithgareddau ieuenctid fel rhaglenni'r haf a chynllun chwarae gwyliau
- Gofal seibiant i blant a phobl ifanc, a phenwythnosau i ffwrdd gyda grwpiau o hyd at chwech o blant
- Canolfan galw heibio am gyngor ar faterion ariannol

Roedd gan bartneriaid cymunedol farn gymysg ynghylch a oedd gweithgareddau gydol oes yn dod â phobl ag anghenion gwahanol at ei gilydd yn syniad da - roedd rhai yn teimlo bod hyn yn gadarnhaol iawn, tra bod eraill yn mynegi pryder na fyddai staff yn cael eu hyfforddi'n briodol i weithio gydag unigolion â gwahanol fathau o anghenion oherwydd eu harbenigedd yn y maes y maen nhw’n gweithio ynddo ar hyn o bryd.

Siaradodd darparwyr tai â chymorth am gynnig cymysgedd o weithgareddau i breswylwyr - nodwyd effaith negyddol pobl nad ydynt bellach yn gallu mynd i ganolfannau dydd, er bod rhai preswylwyr yn dal i fynychu ar lai o ddiwrnodau. Dywedwyd bod un person yn arbennig sy'n byw mewn llety â chymorth wedi teimlo ei fod wedi'i adael, ac yn crio am eu bod nhw’n colli eu ffrindiau ac nad ydynt yn mwynhau mynd allan gyda'u gweithiwr cymorth gymaint ag yr oeddent yn hoffi'r ganolfan. Mae'r mathau o weithgareddau yn amrywio ond yn cynnwys cefnogaeth yn y cartref, mynd i siopa, i glwb Gateway, allan am daith yn y car neu am fwyd gyda'r nos.

Nododd dau ddarparwr fwlch yn y ddarpariaeth o wasanaeth i bobl sy'n niwroamrywiol neu sydd ag awtistiaeth.

Roedd awgrym y byddai cael calendr cymunedol o weithgareddau sydd ar y gweill yn ddefnyddiol iawn i ddarparwyr wybod beth sy'n digwydd yn lleol ac i alluogi pobl i ddewis yr hyn yr hoffent gymryd rhan ynddo.

**Heriau**

Siaradodd sawl sefydliad am gynnig gweithgareddau ar gyllidebau tynn iawn a photiau blwyddyn o gyllid. Mae hyn wedi golygu eu bod yn aml yn gorfod dogni gofal, mae mwy o angen am ofal seibiant yn benodol na’r hyn sydd ar gael, ac mae rhestrau aros hir ar gyfer rhai gweithgareddau. Lle cynigir gweithgareddau grŵp, mae'r sefydliadau'n ceisio cynllunio gwibdeithiau yn seiliedig ar yr hyn sydd o ddiddordeb i'r mwyaf o unigolion yn y grŵp ond yn aml maen nhw’n cael eu cyfyngu gan ddiffyg trafnidiaeth neu gyllid y tu hwnt i ymweliadau â pharciau lleol neu lan y môr. Mae cadw staff yn y sector gwirfoddol yn benodol wedi bod yn heriol iawn oherwydd diffyg contractau mwy na blwyddyn o hyd, contractau dim oriau a throsiant staff uchel wedi hynny.

Pan dderbynnir atgyfeiriadau am gymorth gan yr awdurdod lleol, teimlwyd y gallai fod mwy o gyfarwyddyd ynghylch pa weithgareddau penodol y gofynnir amdanynt ac am ba hyd, h.y., gallai cais am ofal seibiant fod yn un am ofal seibiant unwaith ond ar hyn o bryd unwaith y byddant ar y rhestr mae pobl yn aros yno am oes heb iddo gael ei adolygu’n rheolaidd. Gallai nodau clir ar gyfer unigolion a'r hyn maen nhw’n gobeithio ei gyflawni hefyd gael eu disgrifio'n gliriach. Ers Covid, mae'r Cyngor wedi cyfeirio llawer llai o bobl at

weithgareddau, ac mae rhai o'r bobl oedd yn arfer mynychu wedi cael eu rhyddhau ac wedi colli cysylltiad â gwasanaethau. Nid yw cynllun chwarae oedd yn arfer profi mwy o alw nag oedd o leoedd bellach yn llenwi lleoedd. Soniodd ychydig o bobl eu bod nhw’n teimlo bod y trothwy i dderbyn gwasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd yr heriau yn y sector gofal.

Disgrifiodd rhai gwasanaethau broses lle cafodd cleientiaid eu rhyddhau yn ystod Covid gyda dechrau'r model gydol oes yn 2021. Lle roedden nhw’n llawn, mae hyn bellach wedi cael ei leihau'n sylweddol. Mynegwyd pryder am y cleientiaid hyn a pha ddewisiadau amgen y gallent fod wedi'u cynnig. Mae rhai teuluoedd wedi cysylltu â sefydliadau allanol i ddweud na chawsant eu hysbysu o'u rhyddhau nes iddynt ffonio i holi a chael gwybod nad oes ganddynt weithiwr allweddol mwyach / bod eu hachos wedi’i gau i'w adolygu. Adroddir bod hyn yn achosi rhywfaint o bryder.

**Cyfleoedd**

Soniodd rhai darparwyr mai un o'u prif heriau yw talu costau adeiladau gyda rhent a biliau cynyddol oherwydd yr argyfwng costau byw. Roeddent yn teimlo pe bai'r Cyngor yn sicrhau bod adeiladau hygyrch fel canolfannau hamdden a chanolfannau dydd ar gael i'w harchebu gan grwpiau cymunedol y tu allan i oriau arferol, y byddai hyn yn galluogi ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau ychwanegol i'r gymuned am gost llawer is, gan arbed arian i ddarparwyr a'r Cyngor a chynyddu'r cynnig o gymorth i'r rhai a fyddai'n elwa ohono. Ymhlith yr awgrymiadau roedd clybiau ieuenctid, nosweithiau sinema, a chael pobl sy'n cyrchu gwasanaethau i redeg caffi neu gynnal swper i'r gymuned i gael profiad gwaith. Mae lifft, teclyn codi yn y pwll a thoiledau hygyrch yn y ganolfan hamdden newydd. Mae Canolfan Steffan yn Llanbedr Pont Steffan yn fwy modern ac mae’n cynnwys declynnau codi ar gyfer newid.

Mae gan rai adeiladau fel cyfleusterau gofal seibiant gegin ac amwynderau eraill wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion pobl ag ystod eang o anghenion.

Mynegodd llawer y gellid defnyddio'r lleoliadau hyn gyda'r nos ac ar benwythnosau i gynnal gweithgareddau heb gost ychwanegol i'r Cyngor.

Siaradodd pobl yn gadarnhaol am y canolfannau llesiant newydd ac roeddent eisiau gwybod mwy am pryd a ble y byddai'r ddau arall yn agor. Roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y gall pobl gael mynediad at y gwasanaethau sydd ar gael.

Gwnaed awgrym y byddai creu dull llwybr i fapio cefnogaeth bosibl drwy wahanol oedrannau yn ddefnyddiol, wrth gynllunio ymlaen llaw i unigolion.

Roedd darparwyr yn teimlo pe bai'r Cyngor yn cynnwys elusennau a grwpiau cymunedol wrth gynllunio gwasanaethau, y byddai partneriaethau cadarnhaol a allai gefnogi gofal mwy cyfannol, a gweithio'n agosach ar draws gwasanaethau. Drwy weithio'n agos gyda'r GIG, gallai’r sector gwirfoddol a'r Cyngor gyda'i gilydd ddarparu cymorth dydd a gofal seibiant llawer symlach a allai yn y pen draw atal derbyniadau i'r ysbyty a iechyd yn dirywio / ansawdd bywyd.

**Gofalwyr**

Nododd darparwyr sy'n gweithio gyda gofalwyr y gall fod yn anodd dod o hyd i wasanaethau priodol. Nid oes llawer o bethau ar gael i ofalwyr, a gall fod yn rhwystredig ac yn straen i geisio cymorth yn y rôl ofalu. Roedd yna ymdeimlad bod y gweithlu gofalwyr di-dâl yn fregus a heb seibiannau rheolaidd mewn perygl o fethu â parhau, sydd wedyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau gofal.

**Trafnidiaeth**

Mae trafnidiaeth yn fater allweddol ac roedd sawl darparwr yn teimlo y byddai gwell mynediad i fws mini gyda ramp cadair olwyn yn cefnogi mwy o weithgareddau o ystyried natur wledig Ceredigion.

Nodwyd, ar gyfer pobl sy'n byw yng nghefn gwlad heb gar, weithiau nid yw trafnidiaeth gyhoeddus ar gael neu nid yw’n briodol. Gellir dewisiadau amgen fel Ceir Gwledig a gwasanaeth tacsi gyda disgownt fod yn rhy brysur, ac yn rhwystr i rai na allant fforddio'r cyfraddau teithio.

### Casgliadau

Disgrifiodd sefydliadau berthynas dda gyda'r cyngor ond maen nhw’n ofni y gallai gwasanaethau fod dan fygythiad oherwydd materion ariannu.

Fe wnaethant nodi y gall bylchau yn y ddarpariaeth gofal seibiant oherwydd prinder gwasanaethau fod yn arbennig o anodd i ofalwyr nad ydynt weithiau'n cael digon o gymorth i ymgymryd â thasgau angenrheidiol. Roedd gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried yn hanfodol ond hefyd yn fregus oherwydd faint o gymorth mae rhai yn ei gael.

Cododd sawl cyfranogwr faterion gyda chyfathrebu yn weithredol, sy’n waeth ers cyflwyno CLIC, ac yn strategol. Fe wnaethon nhw ddweud nad oedden nhw wedi bod yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig nes iddyn nhw gael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr adolygiad.

Dywedodd sefydliadau fod llawer o wasanaethau ar gael yn y gymuned gan restru ystod eang. Yn aml, nid yw pobl yn gwybod amdanynt. Roedd Connect Ceredigion yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol ond mae angen iddo fod yn gyfredol i fod yn berthnasol. Yn eironig er bod gwasanaethau ar gael a bod cyllid yn dynn mae atgyfeiriadau i rai gwasanaethau wedi gostwng ers y pandemig.

Nid yw trosiant uchel gweithwyr cymdeithasol a'r gostyngiad yn nifer y cysylltwyr cymunedol yn ddefnyddiol. Disgrifiodd y gwasanaethau ddiffyg cyfeiriadedd o ran nod unwaith y bydd atgyfeiriadau yn cael eu gwneud heb fawr o ddilyniant nac adolygiad.

Mae argaeledd staffio sefydlog yn her benodol i wasanaethau, wedi'i waethygu gan ffrydiau ariannu tymor byr.

Roedd gan sefydliadau farn gymysg am wasanaethau gydol oes oherwydd yr arbenigedd sydd ei angen ar gyfer rhai cleientiaid, roedd eraill yn croesawu'r cyfleoedd y gallent eu fforddio.

Roedd staff yn pryderu bod rhai pobl wedi profi gwasanaethau’n cael eu tynnu'n ôl ers y pandemig ac wedi mynegi pryder ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw.

Maen nhw'n credu y gellid defnyddio llawer o adnoddau cymunedol fel canolfannau hamdden ac adeiladau cyhoeddus eraill i lenwi bylchau am gost gyfyngedig. Maen nhw'n credu y gellid defnyddio cydweithio'n agos ag asedau'r cyngor a'r GIG yn well a symleiddio systemau a fyddai'n fuddiol i bawb, yn anad dim y rhai ag anghenion cymorth a'u gofalwyr.

Nodwyd bod trafnidiaeth yn broblem benodol oherwydd argaeledd a fforddiadwyedd.

## Staff a Swyddogion Cyngor Ceredigion

Fe wnaethom gyfarfod ag ystod eang o weithwyr y cyngor ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth.

Fe wnaeth 27 o staff gyfarfod â ni ar-lein, a 7 wyneb yn wyneb. Cwblhaodd 12 arolwg hefyd.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- Staff sy'n gweithio gyda phobl hŷn
- Staff sy'n gweithio gyda gofalwyr
- Staff sy'n gweithio mewn Timau Anabledd Dysgu Cymunedol
- Staff sy'n gweithio mewn cymorth estynedig
- Staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

**Beth rydyn ni'n ei hoffi am wasanaethau dydd a gofal seibiant**

Roedd y staff yn siarad yn gynnes am eu cydweithwyr ac yn nodi eu sgiliau penodol wrth weithio gyda phobl sydd ag anghenion gwahanol. Roedd yna gred bod staff mewn gwasanaethau dydd yn adnabod cleientiaid yn dda iawn ac y bydd newidiadau yn anodd, ond yn gadarnhaol os byddant yn cael eu gwneud yn y ffordd iawn.

Mae staff yn cytuno â'r egwyddor o ofal person-ganolog ac yn credu bod hyn eisoes yn cael ei wneud.

**Beth fyddem ni'n ei newid am wasanaethau dydd a gofal seibiant**

Mynegodd gweithwyr y cyngor farn ynghylch sut mae gwasanaethau'n gweithredu. Roedd rhai o'r pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mynegodd rhai pobl farn bod gwasanaethau yn wrth-risg, fel cadw cyfyngiadau Covid yn mynd yn rhy hir a pheidio â rhoi cynnig ar weithgareddau newydd rhag ofn i unrhyw beth ddigwydd
- Mynegodd staff bryder na fyddai'r rhai sy'n byw mewn llety â chymorth yn gallu manteisio ar weithgareddau, gan eu bod nhw wedi cael eu rhyddhau yn ystod Covid ac nad yw pob unigolyn wedi dychwelyd i weithgareddau dydd
- Mae prinder cludiant priodol i'r rhai sy'n mynychu gweithgareddau – mae angen mwy o hebryngwyr a cherbydau (gall rhai cyfranogwyr wneud eu ffordd eu hunain / dylid eu hannog lle bo hynny'n bosibl)

**Atgyfeiriadau**

Nid oes gwasanaeth broceriaeth, sy'n golygu bod gweithwyr cymdeithasol yn treulio llawer o amser yn trefnu pecynnau gofal a chymorth yn weinyddol. Mae hyn yn lleihau'r amser sydd ganddynt i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ac i gynnal adolygiadau rheolaidd.

Siaradodd staff am fod angen proses symlach gan fod nifer o ffurflenni atgyfeirio / meini prawf cynhwysiant ar hyn o bryd. Roedd yna gred y gallai gwasanaethau gydweithio'n agosach gyda'i gilydd a gyda'n cydweithwyr yn y gymuned a'r GIG i ddarparu cefnogaeth gofleidiol. Teimlwyd y byddai gwelliannau i'r broses atgyfeirio hefyd yn helpu i leihau rhestrau aros a darparu gwell gwasanaeth i bobl.

**Darparu gwasanaethau yn y dyfodol**

Dylai dewis fod yn ganolbwynt i bopeth sy'n digwydd.

Roedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr yn cytuno â chynlluniau i ymestyn oriau i gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau ac roeddent yn teimlo y dylid cynnig dewis o batrymau sifftiau a gweithio hyblyg i staff.

**Adeiladau**

- Dylai fod adeiladau rheolaidd sy'n gweithredu fel lleoliad diogel – teimlwyd bod cynefindra a threfn yn bwysig
- Dylai adeiladau fod yn hygyrch gyda chysylltiadau trafnidiaeth da
- Mae adeiladau angen rhai cyfleusterau arbennig fel ystafell synhwyraidd a chegin

**Cyfathrebu**

- Hoffai staff gael eu hysbysu a'u cynnwys drwy gydol y broses, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu eu barn
- Roedden nhw’n arfer cynnal grwpiau eiriolaeth gyda chyfarfod chwarterol i gynnwys defnyddwyr / grwpiau gwasanaeth – i ddod â hyn yn ôl a hefyd i gynnal gweithdai / grwpiau drwy gydol y broses gyda'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau
- Siaradodd y gweithwyr yn gadarnhaol am y gweithdai ond roeddent yn meddwl tybed a fyddai eu barn yn cael ei hystyried gan y Cyngor o ran y camau nesaf

**Gweithgareddau**

- Roedd yna farn bod diffyg darpariaeth gwasanaeth amgen briodol i'r gweithgareddau dydd sydd ar waith ar hyn o bryd - mae Mencap a Cysylltu Bywydau yn eu lle ac ambell weithgaredd cymunedol, er nad oes rhestr ac weithiau mae’n anodd nodi beth sy'n mynd ymlaen
- Roedd consenswS y byddai'n ddefnyddiol cynnig rhai gweithgareddau gydag ystod ehangach o bobl yn cymryd rhan, ond bod angen gwneud hyn mewn ffordd gynlluniedig, yn hytrach nag 'un clec fawr.' Siaradodd rhai a fynychodd y gweithdai am brofiadau cadarnhaol yn y gorffennol o gynnig digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau pontio'r cenedlaethau. Mae coginio a garddio hefyd yn cynnig potensial i ystod eang o bobl ddod at ei gilydd a dysgu sgiliau newydd / rhannu mewn pryd o fwyd ac yn y blaen.
- Awgrymodd rhai staff redeg cynlluniau peilot ar gyfer gweithgareddau newydd. Teimlwyd ei bod yn bwysig cael digon o staff gyda'r sgiliau cywir yn bresennol i gefnogi'r rhai sy'n mynychu. Ymhlith y pethau i'w hystyried mae materion synhwyraidd, faint o le sydd ei angen a mannau tawel, lefelau sŵn, llif aer a thymheredd, anghenion gofal personol, ystyriaethau diogelwch
- Nid yw llawer o wasanaethau wedi dychwelyd ar ôl y pandemig, oherwydd heriau staffio parhaus
- Does dim digon o gomisiynu sefydliadau'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau - mae llawer ohonyn nhw'n arbenigwyr ac yn gallu cynnig gweithgareddau am lai o gost na thrwy'r cyngor
- Roedd staff yn teimlo y gallem ddefnyddio Cysylltwyr Cymunedol yn fwy effeithiol i gael amserlen reolaidd o weithgareddau y gall pobl ymuno â nhw
- Dylai hyrwyddo teimlad cymunedol i weithgareddau ond sicrhau penderfyniadau ynghylch pa rai i'w mynychu yn seiliedig ar angen unigol
- Gall taliadau uniongyrchol fod yn ddefnyddiol ond mae’n anodd cael cynorthwywyr personol i gefnogi hyn, sy'n cyfyngu ar fynediad

**Mathau o weithgareddau**

Dylai gweithgareddau fod yn gymysgedd o adeiladau a chymuned - roedd gan staff yng Ngheredigion lawer o syniadau gan gynnwys:

- Coginio, garddio, clybiau, gweithgareddau, chwaraeon, bwyd, sinema, ymarfer corff, sgiliau bywyd bob dydd, lleoliadau gwaith, grwpiau cymdeithasol (Clwb Porth), gwyliau, Moulin Rouge, grwpiau eiriolaeth ac ati.
- Cefnogi cyfathrebu a datblygu sgiliau
- Roedd staff yn teimlo y dylid cael cydbwysedd rhwng gweithgarwch cymdeithasol ac ystyrlon
- Grwpiau - i'w hwyluso gan staff sy'n defnyddio sgiliau ac ati i wneud dewisiadau
- Rhaglen o weithgareddau sy'n newid drwy'r amser

- Roedd awgrym y gallai'r sector gwirfoddol ddefnyddio canolfannau dydd cymunedol gyda'r nos i redeg eu gweithgareddau eu hunain gan eu bod nhw’n cael trafferth talu rhent ar hyn o bryd, neu y gallent gynnal rhai gweithgareddau gyda defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y dydd drwy gael eu comisiynu gan y cyngor.

**Lleoedd Cymunedol**

Siaradodd staff am rolau cysylltwyr cymunedol newydd ac roeddent yn teimlo y gellid defnyddio'r rhain i gael gwell effaith i ddod o hyd i'r hyn sydd ar gael yn y gymuned. Awgrymwyd hefyd y gallai cysylltwyr cymunedol gysylltu â busnesau i nodi cyfleoedd cyflogaeth a phrofiad gwaith.

## Casgliadau

Mae staff a swyddogion Ceredigion yn gwerthfawrogi gwaith staff cyfleoedd dydd a gofal seibiant gan gydnabod eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gleientiaid. Fodd bynnag, maen nhw'n gweld gwasanaethau fel rhai sy'n gwrth-risg ac yn araf i ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig, mae rhai pobl a gollodd wasanaeth nad ydynt wedi dychwelyd eto. Maen nhw'n ystyried bod trafnidiaeth yn hanfodol ar gyfer mynediad i gyfleusterau cymunedol ond maen nhw'n cydnabod lle gall pobl wneud eu ffordd eu hunain y dylen nhw wneud hynny.

Maen nhw’n cytuno â chynllunio person-ganolog gan nodi eu bod nhw eisoes yn ei wneud i raddau helaeth. Maen nhw'n gweld pobl yn gallu gwneud dewisiadau fel rhywbeth sy'n ganolog i bopeth sy'n digwydd.

Ystyriwyd bod prosesau atgyfeirio yn fiwrocrataidd a gellid eu symleiddio.

Roeddent yn gyffredinol yn croesawu newidiadau arfaethedig ond roeddent yn ystyried adeiladau yn hybiau pwysig ar gyfer agweddau ar ofal. Roeddent o blaid cyflwyno’n raddol a'r defnydd posibl o gynlluniau peilot ar gyfer gweithgareddau newydd. Maen nhw’n dymuno bod yn rhan o fynd ar drywydd cynigion ond maen nhw sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried.

Maen nhw'n credu y dylid comisiynu mwy o wasanaethau drwy'r trydydd sector ac y byddai system broceriaeth ar gyfer gofal yn lleihau'r amser sy’n cael ei dreulio yn ceisio gwasanaethau. Roedd cysylltwyr cymunedol yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol o bosibl wrth gydlynu a chomisiynu'r ystod angenrheidiol o wasanaethau.

## Gweithwyr Canolfan Ddydd Ceredigion

Roedd staff y ganolfan ddydd yn teimlo'n ofidus iawn am y newidiadau arfaethedig, oherwydd eu bod nhw’n teimlo nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth am yr hyn oedd yn digwydd ac yn poeni am doriadau gwasanaeth a'r effeithiau ar eu swyddi. Roedden nhw hefyd yn pryderu:

**Beth rydyn ni'n ei hoffi am wasanaethau dydd a gofal seibiant**

Beth fyddai staff LD yn ei gadw am wasanaethau:

- Dyddiau ac oriau'r gwasanaeth / cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, trefn arferol
- Ymdeimlad o gymuned / cyfeillgarwch
- Cynllunio person-ganolog
- Sut oedd y gwasanaeth cyn Covid
- Sylfaen fel 'lle diogel'
- Mynediad at offer a thrafnidiaeth (ar gyfer y rhai sydd â bws)
- Cael haen o gydlynwyr i gefnogi
- Cymorth seibiant
- Gweithio ym maes arbenigedd
- Eiriolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth

**Beth fyddem ni'n ei newid am wasanaethau dydd a gofal seibiant**

Roedd gweithwyr yn adlewyrchu nifer o deimladau am y newidiadau arfaethedig. Roedd y prif bynciau yn cynnwys:

- Bod yn bryderus na fyddai eu llais yn cael ei glywed
- Teimlo'n ansicr am yr hyn y gallai newidiadau ei olygu iddyn nhw eu hunain a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau

**Beth fyddai staff LD yn ei newid am wasanaethau**

- Dod â'r defnyddwyr gwasanaeth a ryddhawyd yn ystod Covid yn ôl
- Angen parch at broffesiynoldeb ac arbenigedd staff
- Dod â gweithwyr prosiect yn ôl
- Llai o gyfyngiadau ynghylch gweithgareddau (gwrth-risg)
- Dychwelyd oriau pobl i lefelau cyn Covid
- Dylai LD fod â safle

**Sut fyddai gwasanaeth delfrydol yn edrych?**

- Oriau rheolaidd (9am-4pm)
- Staff newydd ar gyfer nosweithiau / penwythnosau
- Canolfan fel hwb / safle
- Defnyddio canolfan ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau
- Gwell cysylltiadau â phartneriaid cymunedol a gallu cael mynediad at wasanaethau o'r sector gwirfoddol ac ati.
- Yn y ganolfan ac allan yn y gymuned
- Cludiant da i bawb
- Integreiddio â'r gymuned
- Cymorth pontio o’r crud i’r bedd
- Mwy o gyfleoedd cyflogaeth
- Pobl sy'n byw mewn tai â chymorth yn gallu cyrchu gweithgareddau

- Defnyddio gwybodaeth arbenigol gydag anghenion synhwyraidd, cyfathrebu a chymorth ymddygiadol gan staff
- Cynlluniau gofal person-ganolog/yn cael eu harwain gan anghenion
- Technoleg gynorthwyol ar waith
- Cyfathrebu da rhwng pob haen (rheng flaen/rheolwyr)
- Hyfforddiant i staff
- Gweithgareddau sy'n ystyrlon, diddorol, wedi'u cynllunio a'u hadolygu
- Ffreutur

**Cyfathrebu**

Mae perygl o golli staff i sectorau eraill oherwydd ansicrwydd ynghylch cynlluniau wrth symud ymlaen.

Mae staff hefyd yn teimlo y byddai cyfathrebu cryfach yn eu galluogi i drafod cynlluniau gyda'r rhai sy'n cael cymorth a'u teuluoedd, sydd â llawer o gwestiynau am yr hyn sy'n digwydd.

- Hoffai staff gael cyfle i ddylanwadu ar ddyfodol gwasanaethau
- Mae staff eisiau helpu i lunio'r gwasanaeth
- Mae staff eisiau teimlo eu bod nhw’n cael eu gwerthfawrogi a'u clywed
- Mae staff eisiau mwy o wybodaeth am yr hyn mae'n ei olygu iddyn nhw a defnyddwyr gwasanaeth
- Mae staff eisiau arweiniad a chefnogaeth
- Mae staff eisiau i reolwyr ymgysylltu'n uniongyrchol

**Gweithgareddau**

- Dim cyllideb ar gyfer cyflenwadau crefft a phapur argraffu
- Roedd rhai staff yn teimlo bod cyfyngiadau a roddwyd ar waith yn ystod Covid yn golygu eu bod nhw’n fwy cyfyngedig yn yr hyn y gallant ei gynnig i gyfranogwyr nawr
- Pryder am ddiffyg gweithgareddau wedi Covid oedd yn rhwystredig i weithwyr cymorth

**Model Gydol Oes**

Nid yw'n glir i weithwyr beth yn union mae hyn yn ei olygu, ac mae rhai pryderon yn cynnwys:

- A fydd disgwyliad bod yr holl staff yn 'feistri ar bob peth' o ran deall ystod eang o anableddau / grwpiau oedran/offer ac yn y blaen
- P'un a fydd staff sy'n fedrus iawn yn eu meysydd arbenigedd yn cael llwyth achos mawr iawn yn gyflym / beth fydd yn ei olygu yn ymarferol siarad os bydd grwpiau oedran yn dod at ei gilydd
- Gallai fod diffyg cyllid/hyfforddiant / staffio i gefnogi'r model newydd
- Gallai fod rhai materion sy'n ymwneud â rheoli'r amgylchedd megis y rhai sydd angen mesurau diogelwch ychwanegol yn unol â deddfwriaeth DoLs (drysau dan glo ac yn y blaen) a hefyd anghenion (diet, toiledau, materion mynediad ac ati)
- Mae deddfwriaeth yn dweud wrthym ni na allwn ni gymysgu plant sy'n derbyn gofal gydag oedolion heb ganiatâd penodol / asesiad risg a diogelwch ac yn y blaen

**Trafnidiaeth**

Mae gweithwyr yn teimlo bod angen mwy o drafnidiaeth - er mwyn cynorthwyo pobl i gyrraedd y canolfannau dydd, a gadael, ond hefyd i fynd â nhw allan i wneud gweithgareddau.

## Casgliadau

Mynegodd staff cyfle dydd a gofal seibiant Ceredigion bryder am rai o'r newidiadau arfaethedig. Roeddent yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth am y cynigion ac nad oeddent wedi cael eu hymgysylltu

mor gynnar ag y dylent fod wedi cael eu hymgysylltu. Maen nhw eisiau cymryd rhan wrth weithredu newid a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

Maen nhw’n credu bod angen rhywfaint o rybudd wrth integreiddio gwasanaethau oherwydd bod angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol i weithio gyda rhai grwpiau cleientiaid a'r materion diogelu posibl a allai godi yn enwedig mewn gwaith pontio'r cenedlaethau sy'n cynnwys plant.

Roeddent yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth cyn y pandemig ac roeddent yn pryderu y gallai newidiadau effeithio'n andwyol ar y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff.

Roedden nhw eisiau i lefelau gwasanaeth cyn COVID gael eu hailgyflwyno a'r rhai a gafodd eu rhyddhau i ddychwelyd.

Er eu bod yn gwerthfawrogi canolfannau gwasanaeth, maen nhw’n dymuno gweld integreiddio, ff person-ganolog parhaus, hyfforddiant staff ychwanegol ar gyfer oriau estynedig, cyllidebau mwy ar gyfer adnoddau gweithgaredd, defnyddio technolegau cynorthwyol a mynediad at drafnidiaeth.

## Gweithwyr y GIG

Fe wnaethom siarad â staff y GIG o wahanol gefndiroedd sy'n gweithio mewn timau cymunedol a chleifion mewnol yn ogystal â therapyddion lleferydd ac iaith.

**Beth rydyn ni'n ei hoffi am wasanaethau dydd a gofal seibiant**

Siaradodd y cleifion yn gadarnhaol am y ganolfan ddydd ac roedden nhw'n mwynhau mynychu.

**Beth fyddem ni'n ei newid am wasanaethau dydd a gofal seibiant**

Darparu cyfleoedd i ddefnyddio lleoliadau i gefnogi pobl i gael ymweliadau iechyd integredig er mwyn lleihau heriau trafnidiaeth i staff ac unigolion, h.y. derbyn therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith, a staff eraill y GIG mewn un diwrnod.

Mae gwasanaethau dydd, ynghyd â mathau eraill o ofal, yn cefnogi pobl i adael yr ysbyty. Yn ystod y misoedd diwethaf gyda gostyngiad yn y gwasanaethau sydd ar gael, mae staff iechyd wedi sylwi bod pobl yn aros yn yr ysbyty yn hirach am gymorth fydd yn eu galluogi i fynd adref.

Nododd staff y GIG y byddai'n fuddiol pe gellid diwallu anghenion gofal iechyd corfforol tra bod pobl mewn gwasanaethau dydd, er enghraifft i ymgymryd â thrin traed a thorri gwallt.

Ymhlith y lleoliadau penodol y cyfeiriwyd atynt oedd cartrefi gofal Hafan y Waun ac Awel Deg, y gellid eu defnyddio ar gyfer cyfranogwyr y ganolfan ddydd a'r gymuned i gynnal digwyddiadau. Cyfeiriwyd atynt fel enghreifftiau o arfer da ac mae eu hailwampio'n golygu bod ganddynt ystafell hel atgofion, ystafell de, a gallant ddarparu ar gyfer nosweithiau theatr ac ati ond cawsant eu cau ar ôl bod yn ysbytai maes. Dylai'r rhain gael eu hailagor.

Byddai mwy o gyfleoedd i ofalwyr ddod at ei gilydd a derbyn cefnogaeth.

Mae rhai anawsterau wrth i bobl ddod o hyd i gynorthwywyr personol gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol, oherwydd prinder y staff hyn sy'n gweithio yng Ngheredigion.

Cyfeiriodd un aelod o staff y GIG at enghraifft o arfer da yn dod allan o gynlluniau Cartrefi Cynnes Lloegr, a welodd y gymuned yn mynychu eglwysi, tafarndai ac ati i ymgynnull ac aros yn gynnes. Mae llawer o'r rhain wedi parhau, ac roedd yna farn y gallai Ceredigion wneud yr un peth.

**Cyfathrebu**

Mae yna awydd i gryfhau'r berthynas rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mynegodd staff, ers y pandemig a pholisïau gwahanol ar weithio gartref / ffyrdd gwahanol o weithio, eu bod nhw'n teimlo bod y GIG ac awdurdodau lleol wedi ymddieithrio rhywfaint. Nododd staff y GIG ei bod wedi bod yn anoddach cyrraedd gweithwyr cymdeithasol, a'u bod yn aml yn gweithio o leoliadau anghysbell felly ni allant fod yn bresennol wyneb yn wyneb.

Siaradodd staff am linell ffôn newydd Porth Gofal a dywedodd fod hyn wedi gwneud cyrraedd y bobl briodol yn y Cyngor yn anodd iawn a'i bod hi'n cymryd llawer o amser, lle roeddent yn arfer bod â llinellau uniongyrchol. Mae meddygon teulu wedi rhoi'r gorau i ffonio'r Cyngor ac yn hytrach nawr maen nhw'n troi at ragnodwyr cymdeithasol, ac eithrio'r achosion mwyaf cymhleth gan nad ydyn nhw'n gallu aros 40 munud i siarad â rhywun am glaf yn y swyddfa.

Mae ymdeimlad bod y rhan fwyaf o gyfathrebu bellach yn cael ei wneud trwy e-bost neu atgyfeiriad a'i fod yn eithaf 'anymarferol' sy'n golygu diffyg perthnasoedd personol.

Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi swyddog integreiddio'r trydydd sector sy'n canolbwyntio ar leoli gweithgareddau yn y gymuned.

Nododd staff y GIG ei bod yn ymddangos bod prinder gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.

Byddai mwy o gyfleoedd i bobl sy'n cyrchu gwasanaethau i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

Roedd staff yn teimlo bod ystod eang o leoliadau cymunedol da y gellid eu defnyddio, gan gynnwys Hafan y Waun a Maes Mwldan sy'n adeiladau hygyrch. Gellid cynllunio digwyddiadau cymunedol mewn lleoliadau mwy canolog fel Hafan Deg Llanbedr Pont Steffan. Cyfeiriodd staff at y ffaith bod pobl yn arfer ymgynnull mewn cartrefi gofal a chymryd rhan mewn gweithgareddau.

**Gweithgareddau**

Roedd gweithwyr y GIG o'r farn bod lle i gydweithio'n agosach o ran cynllunio gofal a chymorth ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth. Maen nhw wedi sylwi bod llai o wasanaethau dydd a seibiant ar gael ers pandemig Covid.

Nododd gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol fel therapyddion galwedigaethol y byddent yn gwerthfawrogi clywed mwy am weithgareddau sy'n digwydd trwy'r Cyngor.

> *"Rydyn ni'n sefyll y tu allan yn edrych i mewn."*

Siaradodd y GIG am banel blaenorol a gynhaliwyd ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i gysylltu pobl â chymorth. Maen nhw’n teimlo bod cyflwyno un llinell ffôn ganolog wedi arwain at oedi gan nad oes ganddynt gysylltiadau uniongyrchol yn yr awdurdod lleol mwyach ac nid yw'r rhai sy'n trin galwadau yn gwybod beth sydd ei angen bob tro. Maen nhw wedi bod yn troi yn amlach at ragnodwyr cymdeithasol meddygon teulu i gynorthwyo. Roedd y llinell weithwyr proffesiynol yn caniatáu mynediad heb orfod aros ond mae staff bellach yn aros dros 30 munud am ymateb ac yn aml yn gorfod rhoi'r gorau iddi a symud i'r claf nesaf.

Siaradodd staff am botensial cysylltwyr cymunedol i gefnogi gweithio integredig ond nodwyd bod y gwasanaeth hwn bron yn gyfan gwbl wedi cael ei dynnu'n ôl yn ystod y misoedd diwethaf. Pan wnaethant estyn allan i gwrdd â'r cysylltwyr, dywedwyd wrthynt mai dim ond allan o oriau y gellid gwneud hyn gan nad oeddent bellach yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd.

O ran gweithgareddau cymunedol, siaradodd staff y GIG i rannu'r farn bod canolfan ddydd draddodiadol yn ystod oriau'r dydd yn hanfodol ar gyfer gofal seibiant gofalwyr. Mae'n cynnig lle cymdeithasol, perthnasoedd, ymarfer corff eistedd, ac mae'n dda i bobl â bregusrwydd. Ers y pandemig, mae'r GIG yn gweld llawer mwy o bobl fregus ar ôl cyfnod o lai o weithgareddau. Roedd ymdeimlad bod pobl yn dal i fod ychydig yn amharod i integreiddio ag eraill fel yr oedden nhw’n arfer ei wneud, a mwy o gamddefnyddio alcohol / camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar lesiant.

Teimlwyd bod hybiau lles yn gyfle da ond o bosibl wedi'u targedu mwy at bobl iau. Mae'n hanfodol bod y gymuned yn cefnogi pobl hŷn. Mae cael canolfannau yn y dref yn gadarnhaol i gynyddu integreiddio. Nododd staff y GIG ei bod yn ymddangos bod rhai sefydliadau cymunedol sydd wedi'u hariannu bellach yn cau.

Nodwyd ei bod yn gam mawr i bobl fynd o ambell alwad gofal y dydd gartref i fynd i ofal hirdymor - roedd staff yn teimlo y gallai'r ganolfan ddydd helpu i bontio'r bwlch a chadw pobl gartref yn hirach. Gallai pobl hefyd yn cyrchu cyfleusterau fel baddonau gyda theclynnau codi ac yn y blaen yn y cartref gofal a fyddai'n arbed llawer mewn costau offer. Gallent hefyd gael pryd o fwyd poeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon yn y cartref gofal.

Roedd yna ymdeimlad bod rhai o'r fforymau cymunedol wedi chwalu/heb ailddechrau ers covid, sy'n cael effaith negyddol, yn enwedig ar ofalwyr. Roedd gan y fforwm gofalwyr 35 o sefydliadau ond yn fwyaf diweddar dim ond 3 oedd ganddo.

**Trafnidiaeth**

Nododd staff y GIG bod trafnidiaeth yn hanfodol i bobl fynychu gweithgareddau - i ofalwyr pobl â dementia, yn aml mae'n rhaid iddyn nhw fynychu gyda'u hanwyliaid, ac nid yw hyn yn rhoi seibiant i'r naill berson na'r llall.

Nododd un aelod o staff, yn hytrach na rhannu ceir, fod 3 tacsi unigol yn aml gydag un person yr un nad yw'n werth da am arian.

**Cyfathrebu**

Mae cyfranogwyr yn teimlo bod cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r GIG wedi chwalu ers covid. Un rheswm yw'r gwahaniaethau o ran gweithio gartref neu yn y swyddfa, sy'n golygu nad oes yw gweithwyr cymdeithasol yn cael gymaint o gyswllt ag o'r blaen, er enghraifft gyda nyrsys cymunedol neu therapyddion galwedigaethol.

Ychydig iawn o gyfathrebu sydd wedi bod gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf. Darparwyd hyfforddiant i staff yn flaenorol (flynyddoedd maith yn ôl). Mae'r tîm yn teimlo eu bod nhw'n disgyn drwy'r rhwyd o ran cyfleoedd i weithio'n agosach.

Mae staff y GIG yn teimlo'n rhwystredig am y newidiadau newydd sy'n golygu na allant ffonio rhif uniongyrchol mwyach pan fydd angen iddynt gyrraedd un o weithwyr y Cyngor.

## Casgliadau

Roedd staff y GIG yn gwerthfawrogi'r cyfle dydd a'r gwasanaeth gofal seibiant a ychwanegwyd, ac roedden nhw'n cael eu gwerthfawrogi gan gleifion. Roeddent o'r farn bod y cyfleusterau cymunedol hyn yn hanfodol i helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty ac efallai y bydd angen i rai pobl fynd i ofal hirdymor. Mae'r gostyngiad yn y ddarpariaeth gwasanaeth wedi arwain at oedi wrth ryddhau.

Maen nhw am weld integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol agosach gyda gwasanaethau dydd ar gael ar gyfer darparu rhai gwasanaethau iechyd a gofal corfforol. Roeddent yn pryderu bod ymddieithrio wedi bod ers y pandemig mewn cyswllt a chyfathrebu gofal cymdeithasol iechyd gan gynnwys patrymau atgyfeirio meddygon teulu. Mae hyn wedi gwaethygu o ganlyniad i gyflwyno llinell ffôn Porth Gofal gan arwain at ffafriaeth staff iechyd i ddefnyddio e-bost nad yw'n galluogi adeilad perthnasau proffesiynol. Mae hyn yn effeithio ar lunio pecynnau gofal a chymorth ar y cyd. Mae gwelliannau mewn cyfathrebu yn hanfodol er mwyn gweithio'n agosach rhwng staff a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr.

Fe wnaethon nhw ddweud bod angen i rai gwasanaethau a gafodd eu defnyddio fel ysbytai maes ailagor.

Gallai mwy o ddefnydd o gyfleusterau cymunedol ychwanegu ystod o opsiynau ac roedd trafnidiaeth yn cael ei ystyried yn hanfodol i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau.

# Argymhellion

1. Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddilyn ei gynlluniau i ddiwygio'r ddarpariaeth cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant gan ddefnyddio'r adroddiad hwn a'i gynllun gweithredu cysylltiedig.
2. Dylai'r Cyngor ystyried datblygu rôl arweinydd trawsnewid sy'n goruchwylio i sbarduno'r prosesau rheoli a gweithredu newid.
3. Dylai Cyngor Sir Ceredigion weithio gyda'i asiantaethau partner gan gynnwys y GIG a darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector i sicrhau y gellir cyflawni unrhyw arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwneud drwy gynllunio gweithredol a strategol ar y cyd. Bydd angen i hyn gynnwys ystyried dulliau arloesol o rannu adnoddau.
4. Dylai Cyngor Sir Ceredigion adolygu ei brosesau cynllunio person-ganolog i sicrhau bod y rhain yn effeithiol, ddim yn rhy fiwrocrataidd ac wir yn dal a hyrwyddo lleisiau a dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth mewn cynlluniau wedi'u teilwra'n unigol ac yn unol ag unrhyw ddyletswyddau statudol sydd wedi'u hymgorffori yn yr SSWBA a'r MHM. Dylai pawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn gael cynllun person-ganolog o ansawdd uchel. Lle bo angen, dylai adolygu cynlluniau gofal a chymorth y bobl hynny sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau gwasanaeth a gyflwynwyd yn ystod y pandemig. Dylai'r diwygiad roi sylw, fel mater o flaenoriaeth, i grwpiau fel y rhai â dementia, gofalwyr a gofalwyr maeth y nodwyd nad oes digon o gwasanaethau wedi'u datblygu ar eu cyfer.
5. Mae angen i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau, wrth i ddiwygio gwasanaethau effeithio ar y ddarpariaeth bod anghenion teuluoedd a gofalwyr di-dâl eraill yn cael sylw gydag asesiadau ystyrlon a darparu cefnogaeth ddigonol.
6. Dylai Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'i bartneriaid, ystyried mabwysiadu model both ac adain sy'n defnyddio canolfannau gwasanaeth fel canolfannau cymunedol tra'n defnyddio ystod o gyfleusterau cymunedol i ddarparu cyfleoedd dydd a all ddarparu'r gweithgareddau hynny yr hoffai pobl eu cyrchu mor agos at eu cartrefi â phosibl. Dylai hyn gynnwys cefnogi a galluogi pobl i gael gwaith â thâl a dysgu ffurfiol lle bo hynny'n briodol.
7. Dylai Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'i bartneriaid, ddatblygu strategaeth drafnidiaeth sy'n sicrhau bod y dulliau mwyaf effeithlon yn cael eu defnyddio i alluogi mynediad at gyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant. Bydd angen i hyn ystyried trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat ynghyd â thrafnidiaeth a ddarperir gan y Cyngor.
8. Wrth ddilyn ei agenda ddiwygio, bydd angen i'r Cyngor ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, staff y cyngor a'r rhai sy'n gweithio mewn asiantaethau eraill drwy ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol. Dylid adolygu fforymau a ddefnyddiwyd yn flaenorol i ymgysylltu â'r grwpiau hyn a lle bo'n briodol i alluogi prosesau gweithio mewn partneriaeth wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno.
9. Dylai'r Cyngor ystyried ail-ofyn am farn ar y cynnig i ailenwi ei ganolfannau dydd fel rhan o'i ymgynghoriad ehangach ar ddiwygio gwasanaethau.

# Atodiad A: Demograffeg


**Yr Iaith Gymraeg**

Cwblhaodd 6% o bobl (11 unigolyn) arolwg yn Gymraeg, tra bod 18% yn nodi ffafriaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg

Cwblhaodd 93% o bobl arolwg yn Saesneg (179 o bobl), tra bod 73% yn nodi ffafriaeth ar gyfer yr iaith Saesneg

Mae'n well gan 17% gyfathrebu llafar Cymraeg gan y Cyngor, tra bod yn well gan 10% gyfathrebu ysgrifenedig Cymraeg

O ran y sgiliau Cymraeg a fynegwyd gan ymatebwyr yr arolwg, isod mae dadansoddiad o lefelau hyder hunan-gofnodedig




**Crefydd**

Nododd mwyafrif o ymatebwyr yr arolwg (55%) eu bod yn Gristnogion, a'r categorïau mwyaf nesaf oedd dim crefydd (19%), mae'n well gen i beidio â dweud (19%) ac anffyddiwr (6%). Dim ond tri pherson (2%) a nodwyd fel crefydd arall (Wicaidd, Bwdhaidd ac Omnist).

**Rhyw a chyfeiriadedd rhywiol**

Roedd 21% o ymatebwyr yr arolwg yn ddynion a 66% yn ferched - roedd llai na 1% yn uniaethu fel eraill. (Roedd 13% na wnaeth ymateb neu'n dewis peidio â dweud).


Dywedodd 65% o bobl eu bod nhw yr un rhyw ag adeg eu geni, tra dywedodd 5% o bobl nad oeddent yr un rhyw ag adeg eu geni (ni wnaeth 30% ymateb/dewis peidio â dweud)

Dywedodd 74% o'r rhai a ymatebodd eu bod yn heterorywiol neu'n syth, tra dywedodd 3% eu bod yn hoyw neu'n ddeurywiol. (Ni wnaeth 25% ddim ymateb / dewis peidio â dweud)

**Hunaniaeth Genedlaethol**

Mae tua thri chwarter yr ymatebwyr yn nodi eu bod yn Gymry neu'n Brydeinwyr (74%). Fe wnaeth tua chwarter yr ymatebwyr yn nodi eu bod yn Saesneg (23%). Nododd 4 person (2%) fel hunaniaethau cenedlaethol eraill gan gynnwys Ewropeaidd a Chanadaidd. Nid oedd unrhyw ymatebwyr arolwg o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Nododd 167 o ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn wyn. Dim ond un person a nododd ei fod o gefndir cymysg. Ni atebodd 21 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn nodi eu bod o gefndiroedd ethnig eraill.





**Statws Gofalu**

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn (84%), nododd 57% fod ganddynt gyfrifoldebau gofalu, ac nid oedd gan 43% statws gofalu.

**Grŵp Oedran**

Y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd oedolion 45-64 oed (40%). Gwelir dadansoddiad o grwpiau oedran yn y tabl isod:




**Anabledd**

Dywedodd 89 o bobl a ymatebodd i'r arolwg fod ganddynt anabledd (47%)

Dywedodd 80 o bobl a ymatebodd i'r arolwg nad oedd ganddynt anabledd (42%)

Roedd yn well gan 21 o bobl beidio â dweud (11%)

O'r rhai a nododd fod ganddynt anabledd, dywedodd 66% fod ganddynt gynllun gofal a chymorth ac nid oedd gan 34% gynllun gofal a chymorth




Adroddwyd am ystod eang o gyflyrau, a rhestrodd llawer o bobl sawl cyflwr ar yr arolwg. O'r rhai a ddewisodd 'arall' rhestrwyd syndrom Down, ADHD, epilepsi, anaf i'r ymennydd, mudandod, cyflyrau'r galon a'r ysgyfaint.

**Plant a Phobl Ifanc**

Cafwyd 19 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y tri dewis mwyaf poblogaidd oedd: mynd i'r ganolfan weithgareddau (63%), treulio amser gyda phlant a phobl ifanc fy oedran i (58%) ac Aros mewn llety hunanarlwyo (58%)

**Gofalwyr**

Cafwyd 59 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y tri dewis mwyaf poblogaidd oedd: treulio amser gydag unigolion gyda diddordebau tebyg (49%), treulio amser gydag unigolion o'r un grŵp oedran (41%) a'r ganolfan weithgareddau (39%)

**Gofynnodd y cyngor a oedd pobl yn teimlo eu bod nhw'n cael digon o gyfle i rannu eu dymuniadau a'u teimladau, a sut y gellid creu mwy o gyfleoedd**

Dywedodd 28 o bobl (39%) eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael digon o gyfle i rannu eu barn.

Dywedodd 43 o bobl (61%) nad oedd digon o gyfleoedd i rannu barn gyda'r Cyngor. O'r opsiynau a restrir am ffyrdd o gymryd rhan, y 3 dewis mwyaf poblogaidd oedd 'grwpiau cymorth ar gyfer gwahanol anghenion' (28%), 'grŵp hunan-eiriolaeth lleol a ddarperir yn annibynnol oddi ar awdurdod lleol' (26%) a 'grwpiau cymorth ar gyfer gwahanol oedrannau' (25%).

**Gofynnodd y cyngor sut roedd pobl yn teimlo am ailenwi Canolfan Steffan, Canolfan Padarn a Chanolfan Meugan**

Nid oedd gan 43% o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg farn ar y mater hwn. O'r rhai a ymatebodd, roedd rhaniad agos rhwng pobl yn cytuno â'r newid enw arfaethedig (25%), a'r rhai nad oeddent yn cytuno â hyn (28%). Felly, nid oedd mwy o bobl yn cytuno â'r newid arfaethedig i'r enw.

Roedd gan bobl nad oeddent yn cytuno farn gref iawn ynghylch pam. O'r 62 o sylwadau, roedd 42% yn ymwneud â pham roedd pobl eisiau cadw enwau fel y maen nhw, fel yr enwau sydd wedi'u creu gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Plant a Phobl Ifanc**

Cafwyd 19 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y tri dewis mwyaf poblogaidd oedd: mynd i'r ganolfan weithgareddau (63%), treulio amser gyda phlant a phobl ifanc fy oedran i (58%) ac Aros mewn llety hunanarlwyo (58%)

**Gofalwyr**

Cafwyd 59 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y tri dewis mwyaf poblogaidd oedd: treulio amser gydag unigolion gyda diddordebau tebyg (49%), treulio amser gydag unigolion o'r un grŵp oedran (41%) a'r ganolfan weithgareddau (39%)

**Gofynnodd y cyngor a oedd pobl yn teimlo eu bod nhw'n cael digon o gyfle i rannu eu dymuniadau a'u teimladau, a sut y gellid creu mwy o gyfleoedd**

Dywedodd 28 o bobl (39%) eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael digon o gyfle i rannu eu barn.

Dywedodd 43 o bobl (61%) nad oedd digon o gyfleoedd i rannu barn gyda'r Cyngor. O'r opsiynau a restrir am ffyrdd o gymryd rhan, y 3 dewis mwyaf poblogaidd oedd 'grwpiau cymorth ar gyfer gwahanol anghenion' (28%), 'grŵp hunan-eiriolaeth lleol a ddarperir yn annibynnol oddi ar awdurdod lleol' (26%) a 'grwpiau cymorth ar gyfer gwahanol oedrannau' (25%).

**Gofynnodd y cyngor sut roedd pobl yn teimlo am ailenwi Canolfan Steffan, Canolfan Padarn a Chanolfan Meugan**

Nid oedd gan 43% o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg farn ar y mater hwn. O'r rhai a ymatebodd, roedd rhaniad agos rhwng pobl yn cytuno â'r newid enw arfaethedig (25%), a'r rhai nad oeddent yn cytuno â hyn (28%). Felly, nid oedd mwy o bobl yn cytuno â'r newid arfaethedig i'r enw.

Roedd gan bobl nad oeddent yn cytuno farn gref iawn ynghylch pam. O'r 62 o sylwadau, roedd 42% yn ymwneud â pham roedd pobl eisiau cadw enwau fel y maen nhw, fel y ffaith bod enwau wedi'u creu gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

# Atodiad B: Rhestr o bobl y gwnaethom ni siarad â nhw

Mae'r tabl hwn yn rhestr o'r gwahanol sefydliadau a'r bobl a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. Mae eu henwau ar y chwith, ac rydym ni wedi eu grwpio i'n helpu i drefnu'r adroddiad. Mae'r drydedd golofn yn dweud wrthym ni p'un a wnaethant gymryd rhan ar-lein neu wyneb yn wyneb (dull ymgysylltu). Y golofn olaf yw'r nifer a gymerodd ran.

| Facilitated Engagement Session Organisation - Group | Cohort | Engagement approach | No |
|---|---|---|---|
| Through Age Physical Activity & Play | Staff / Officers | Online, CYP Provider Forum | 1 |
| Family Centre Network, Plant Dewi | Community Organisation, Children and Young People | Online, CYP Provider Forum | 1 |
| Equalities and Inclusion, CCC | Staff / Officers | Online, CYP Provider Forum | 1 |
| Childcare Unit, CCC | Staff / Officers, Children and Young People | Online, CYP Provider Forum | 1 |
| Area 43 | Community Organisation, Children and Young People | Online, CYP Provider Forum | 1 |
| West Wales Housing Association | Community Organisation | Online, CYP Provider Forum | 1 |
| Working Wales | Community Organisation | Online, CYP Provider Forum | 1 |
| Mudiad Meithrin | Community Organisation, Children and Young People | Online, CYP Provider Forum | 1 |
| Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT) | Community Organisation | Online, CYP Provider Forum | 1 |
| Public Health Wales | NHS | Online, CYP Provider Forum | 1 |
| Credu Cymru | Community Organisation, Carers | Online | 1 |
| Street Games, Staff | Community Organisation, Children and Young People | Online, CYP Provider Forum | 1 |
| School Officers | Staff / Officers | Online, individual meeting | 5 |
| Foster Carers | Carers, Children and Young People | Online workshop | 2 |
| Young People of transition age - Camu M'laen | People using services, Young people of transition age | In person, face to face | 6 |
| People with dementia | People with dementia, people using services | In person, face to face | 21 |
| Carers of People with Dementia | Carers, People with dementia, older people | In person, face to face | 9 |
| Rays Ceredigion | Community Organisations, Older People | In person, face to face | 2 |
| Employee of Council (carers) | Staff and officers | | 1 |
| Carers Forum Aberaeron | Carers | In person face to face carers tea Aberaeron | 6 |
| People with Learning Disabilities - Padarn | People with Learning Disabilities | In person, face to face | 17+3 |
| People with Learning Disabilities - Steffan | People with Learning Disabilities | in person, face to face | 9 |
| People with Learning Disabilities - Meugan | People with Learning Disabilities | in person, face to face | 11 |
| Families and Carers of People with LD | Carers, Learning disabilities | in person, face to face | 5+1 |
| Looked after children | Children and young people | in person, face to face | 15 |
| Mencap | | | 2 |
| Disability Sport Wales | | | 1 |
| DASH | | | 1 |
| Staff working at day centres for people with learning disabilities | People with Learning Disabilities | In person, face to face | 34 |
| Council Employees - CTLD, extended Care, CYP and other (breakdown coming from Helen) | Staff and officers | Online workshop | 17 |
| staff who sent additional information | Staff and officers, children and young people, | Additional email information | 4 |
| Adferiad | Community Organisation | Online workshop | 1 |
| SALT health colleagues | | Online workshop | 2 |
| Mirus | | | 1 |
| Cavo | | | 1 |
| Hahav | | | 1 |
| Shared Lives | | | 2 |
| Staff working with people with learning disabilities in supported accomodation | Learning disabilities | online workshop | 1 |

| Contacted and Invited to Engage<br>Organisation - Group | | Contact Method | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Housing providers including: | | | |
| Barcud | | email | |
| Housing support grants | | email | |
| Family Housing | | email | |
| The care society | | email | |
| | | | |
| **Older people:** | | | |
| Age Cymru | | email | |
| Alzheimer's Society | | email | |
| Voyage | | email | |
| Domiciliary Carers | | email | |
| Red Cross | | email | |
| | | | |
| Other organisations | | | |
| Marie Curie | | email | |
| People First | | email | |
| Voyage | | email | |
| Mind | | email | |
| Clynfyw | | email | |
| Tir Coed | | email | |
| The care society | | | |
| Perthyn | | email | |
| RABI | | email | |
| Disability Forum | | email | |
| West Wales Action for Mental Health | | email | |
| | | | |
| CYP Organisations: | | | |
| Plant Dewi | | email | |
| SNAP | | email | |
| Tros Gynnal | | email | |
| | | | |
| Given info to disseminate | | | |
| Police | | email | |
| Libraries (also supplied with hardcopy surveys and community connectors working with individuals to complete) | | email | |
| Fire service | | email | |
| Community connectors | | email | |

# Atodiad C – Taflen



# Atodiad Ch: Crynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd gan grwpiau rhanddeiliaid

**Beth Ddywedodd Pobl Wrthym Ni**








# Cyngor Sir Ceredigion – Adolygaid o'r Gwasanaeth Dydd a Gofal Seibiant

**Cynllun Gweithredu Gwasanaeth Cam 2**
**Hydref 2023**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Practice Solutions

## Rheolaeth dogfen

| | |
|---|---|
| Y Perchennog | Cyngor Sir Ceredigion |
| Teitl y Ddogfen | Cyngor Sir Ceredigion – Adolygiad o'r Gwasanaeth Dydd a Gofal Seibiant : Cynllun Gweithredu Gwasanaeth Cam 2 |
| Fersiwn | 2.0 - Drafft |
| Awdur | Phill Chick |
| Dyddiad | 19/10/2023 |

## Hanes y ddogfen

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1.1 | 04/08/23 | Ainsley Bladon | Cyflwynwyd i'r Rheolwr Prosiect |
| 1.2 | 07/08/23 | Ainsley Bladon | Wedi'i addasu i fformat o ddewis y cleient |
| 2.0 | 19/10/23 | Phill Chick | Diwygiad yn dilyn ailddrafftio adroddiad |

**Cyflwyniad**

Fe wnaeth Practice Solutions Ltd gefnogi Cyngor Sir Ceredigion i ymgysylltiad helaeth ac adolygiad bwrdd gwaith o ddeddfwriaeth berthnasol ac adolygiadau cysylltiedig yng Nghymru am wasanaethau dydd a gofal seibiant. Mae'r gwaith hwn yn rhan o CCC sy'n cyflawni'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes 2021-2027.

Mae Cam Gweithredu 4.2.5 yn y strategaeth yn gosod y bwriad i adolygu'r ystod o ddarpariaeth gofal seibiant, darpariaeth dydd, gofal preswyl a darpariaeth trydydd sector, i ddatblygu cynllun ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol yn unol â model trwy'r oedran. Y bwriad yw sicrhau bod amrywiaeth o gymorth priodol i gynnal annibyniaeth a chefnogi gofalwyr, gan leihau'r angen am wasanaethau gofal a chymorth tymor hwy.

Fe wnaethom siarad â dros 400 o bobl, ac mae ein hadroddiad ymgysylltu yn nodi pedair thema i'w datblygu. Y ddogfen hon yw ein cynllun gweithredu Cam II, ac mae'n nodi'r pethau y dylai'r Cyngor eu gwneud nesaf i sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaethau mae pobl eu hangen, gan ystyried y safbwyntiau a'r dymuniadau a fynegir yn yr ymarferion ymgynghori a'r amgylchedd mae'r gwasanaeth yn gweithio ynddo ar hyn o bryd a'r rhai sy'n debygol o godi yn y dyfodol. Mae'r holl gamau gweithredu yn seiliedig ar y canfyddiadau a'r argymhellion allweddol a wnaed yn yr adroddiad PSL, ac yn unol â'r model lles gydol oes. Mae hyn yn gofyn am ystyried ffyrdd y gellir cefnogi pobl i aros mor iach ac annibynnol â phosibl a gwneud y defnydd creadigol mwyaf posibl o'r adnoddau hynny yn ein cymuned y gellir eu defnyddio i ddarparu cefnogaeth i'r rhai sydd eu hangen.




Tudalen 240

## Sut fydd y cynllun yn cael ei gyflawni?

Bydd y cyngor yn cynnwys y bobl hynny sy'n cael eu heffeithio gan y cynllun drwy gydol ei weithrediad - bydd hyn yn cynnwys o leiaf; pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd, gweithwyr, partneriaid cymunedol gan gynnwys y trydydd sector, a'r GIG. Bydd diweddariadau rheolaidd am yr hyn sy'n digwydd a sut i gymryd rhan.

Bydd bwrdd llywio'r prosiect yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni cynllun Cam II i sicrhau bod pethau'n aros ar y trywydd iawn. A bydd y cyngor yn ystyried penodi arweinydd trawsnewid i oruchwylio'r gwaith o weithredu.

**Arweinwyr a Llinellau Amser** Mae'r tablau isod yn nodi pwy fydd yn gwneud beth, a pha mor hir y bydd yn ei gymryd

## Thema Un: Meysydd Gweithredu Blaenoriaeth Brys

Canfyddiadau Allweddol:

- Pwysigrwydd gwasanaethau cyfleoedd dydd a gofal seibiant
- Yr angen i ailgynllunio gwasanaethau i fynd i'r afael â'r pwysau presennol a'r rhai y rhagwelir y byddant yn codi yn y dyfodol.
- Effaith COVID-19
- Yr angen i newid gwasanaeth ac alinio gwasanaethau

| Pwynt Gweithredu | Buddiolwyr Allweddol | Dull Cyflawni ac Effaith | Partner Arweiniol | Amserlen Amcangyfrifedig |
|---|---|---|---|---|
| 1. Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddilyn ei gynlluniau i ddiwygio'r ddarpariaeth cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant gan ddefnyddio'r adroddiad PLS a'r cynllun gweithredu cysylltiedig hwn. | Y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau ar hyn o bryd a'u gofalwyr di-dâl.<br>Defnyddwyr gwasanaethau yn y dyfodol a'u gofalwyr di-dâl.<br>CCC a'i asiantaethau partner | Gan ddefnyddio adroddiad PSL a'r cynllun gweithredu hwn bydd CCC, mewn ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr, staff ac asiantaethau partner di-dâl, yn darparu cyfleoedd dydd wedi'u hailwampio a darpariaeth seibiant yn unol â gofynion y CCC trwy fodel lles oedran.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy sy'n addas i ddiwallu anghenion cyfredol a fydd yn gallu ystwytho yn ôl yr angen i fodloni gofynion y dyfodol sy'n deillio o gymhlethdod cynyddol a nifer cynyddol o ddementia ymhlith poblogaeth sy'n heneiddio Ceredigion. | CCC | Tachwedd 2023-2027 |
| 2. Dylai'r Cyngor ystyried datblygu rôl arweinydd trawsnewid i oruchwylio a sbarduno'r prosesau rheoli a gweithredu newid ar gyfer y cynllun. | CCC a'i asiantaethau partner<br>Buddiolwyr gwasanaeth | Cytundeb gan y CCC i greu swydd arweinydd trawsnewid. Os cytunir ar hyn, dylid datblygu disgrifiad swydd a manyleb person ar gyfer y swydd a hysbysebu'r swydd a phenodi.<br><br>Bydd yr arweinydd trawsnewid yn adolygu newidiadau i wasanaethau gan gynnwys y rhai a weithredwyd o ganlyniad i bandemig Covid 19 gan wneud argymhellion i adfer gwasanaethau i lefelau cyn y pandemig neu eu diwygio yn ôl yr angen i sicrhau'r ddarpariaeth gwasanaeth a'r boddhad mwyaf posibl i ddefnyddwyr gwasanaeth. | | Tachwedd 2023-Ionawr 2024 |

| Pwynt Gweithredu | Buddiolwyr Allweddol | Dull Cyflawni ac Effaith | Partner Arweiniol | Amserlen Amcangyfrifedig |
|---|---|---|---|---|
| 3. Dylai Cyngor Sir Ceredigion weithio gyda'i asiantaethau partner gan gynnwys y GIG a darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector i sicrhau y gellir cyflawni unrhyw arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwneud drwy gynllunio gweithredol a strategol ar y cyd. Bydd angen i hyn gynnwys ystyried dulliau arloesol o rannu adnoddau. | CCC a'i asiantaethau partner Buddiolwyr gwasanaeth | Bydd Bwrdd Llywio'r Prosiect yn datblygu rhaglen i adolygu'r adnoddau presennol ar draws asiantaethau sy'n darparu cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant ar hyn o bryd, ynghyd â chyfleusterau cymunedol eraill. Bydd y rhaglen yn ceisio datblygu cynllun cyffredin i alinio darpariaeth gwasanaethau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfalaf a refeniw i ddarparu gwasanaethau orau. Dylai'r cynllun sicrhau bod hyblygrwydd yn cael ei gynnwys wrth ailgynllunio gwasanaethau gan alluogi'r ddarpariaeth orau bosibl nawr ac yn y dyfodol. | | Tachwedd 2023-2027 |

| **Thema Dau: Cynllunio Person-Ganolog**<br>Canfyddiadau Allweddol:<br>Pwysigrwydd cynllunio person-ganolog wrth ddiwallu anghenion unigol yn briodol<br>Nodi cymhlethdod cynyddol ac angen haenedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau<br>Yr angen i ymateb i grwpiau penodol o gleientiaid, gan gynnwys gofalwyr di-dâl | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwynt Gweithredu** | **Buddiolwyr Allweddol** | **Dull Cyflawni ac Effaith** | **Partner Arweiniol & Noddwyr Posibl** | **Amserlen Amcangyfrifedig** |
| 4. Dylai Cyngor Sir Ceredigion adolygu ei brosesau cynllunio person-ganolog i sicrhau bod y rhain yn effeithiol, ddim yn rhy fiwrocrataidd ac wir yn dal a hyrwyddo lleisiau a dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth mewn cynlluniau wedi'u teilwra'n unigol ac yn unol ag unrhyw ddyletswyddau statudol sydd wedi'u hymgorffori yn yr SSWBA a'r MHM. Dylai pawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn gael cynllun person-ganolog o ansawdd uchel. Lle bo angen, dylai adolygu cynlluniau gofal a chymorth y bobl | Pobl sy'n manteisio ar gymorth, gofalwyr di-dâl a theuluoedd | Cychwyn adolygiad o'r broses cynllunio gofal<br><br>Sicrhau bod CCC a'i bartneriaid statudol yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â SSWBA 2014 MHM 2010 ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.<br><br>Defnyddio amrywiaeth eang o dechnegau sy'n nodi cryfderau personol a nodau gan ddefnyddio dulliau cyd-gynhyrchu person-ganolog. Dylai casglu angen nas diwallwyd fod yn rhan o'r broses gynllunio person-ganolog er mwyn casglu gwybodaeth a data ar wasanaethau sydd heb eu datblygu'n ddigonol. Dylai hyn gynnwys, fel blaenoriaeth, anghenion gofalwyr maeth a grwpiau fel y rhai â dementia a'r rhai sy'n pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Amlygwyd nad yw’r meysydd hyn wedi’u datblygu’n ddigonol o fewn yr ymarfer ymgynghori.<br><br>I'r rhai sy'n mynd drwy’r cyfnod pontio dylai mynd i'r afael ag anghenion posibl yn y dyfodol dylai ddechrau o 14 mlwydd oed a dylai ystyriaeth o'r fath ddod yn arfer safonol.<br><br>Pan amharwyd ar fynediad pobl at | CCC<br>Gwasanaethau statudol ac anstatudol partner | O fewn 3 mis ac yn barhaus wedi hynny. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| hynny sy’n cael eu heffeithio gan newidiadau gwasanaeth a gyflwynwyd yn ystod y pandemig. Dylai'r diwygiad roi sylw, fel mater o flaenoriaeth, i grwpiau fel y rhai â dementia, gofalwyr a gofalwyr maeth y nodwyd nad oes digon o gwasanaethau wedi'u datblygu ar eu cyfer. | | wasanaethau gan y newidiadau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig, dylid adolygu hyn a darparu gwasanaethau priodol.<br><br>Bydd cyflwyno system broceriaeth yn sicrhau bod gan weithwyr cymdeithasol fwy o amser i'w dreulio gyda phobl yn adolygu eu cynlluniau.<br><br>O ganlyniad i'r camau hyn, bydd prosesau cynllunio person-ganolog ar bobl yn llywio ac yn sbarduno diwygio a darparu gwasanaethau gofal seibiant a chyfleoedd dydd i'r rhai sydd eu hangen. | | |
| 5. Mae angen i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau, wrth i ddiwygio gwasanaethau effeithio ar y ddarpariaeth bod anghenion teuluoedd a gofalwyr di-dâl eraill yn cael sylw gydag asesiadau ystyrlon a darparu cefnogaeth ddigonol. | Pobl sy'n manteisio ar gymorth, gofalwyr di-dâl a theuluoedd | Yn ogystal ag adolygu prosesau cynllunio gofal, dylid adolygu cynlluniau gofal unigol ar gyfer pob cleient yn yr amserlen adolygu arferol a, lle bo'n briodol, eu gofalwyr di-dâl.<br><br>Dylai anghenion gofal pobl y cafodd eu gwasanaethau eu hatal neu y tarfwyd arnynt yn ystod y pandemig gael eu hadolygu fel blaenoriaeth a dylid adfer gwasanaethau yn unol â chanlyniadau'r adolygiadau hyn. | CCC | Trwy gydol 2023-24 ac wedi hynny<br><br>Tachwedd 2023-Ionawr 2024 |

## Thema tri: Darparu gwasanaeth

Canfyddiadau Allweddol:

- Y gwerth ychwanegol y gellir ei ennill trwy ddefnyddio dull both ac adain integredig tuag at ddarparu gwasanaethau.
- Dylai'r gweithgareddau fod yn ystyrlon a chefnogi datblygu sgiliau.
- Mae pobl â thaliadau uniongyrchol angen mwy o gefnogaeth.
- Pwysigrwydd strategaeth gydlynol i ddarparu cludiant i gyfleusterau sy'n darparu cyfleoedd dydd a gofal seibiant.
- Yr angen am gydweithio rhwng asiantaethau i fynd i'r afael â phrinder yn y gweithlu, sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o staffio sydd ar gael a cheisio gwella'r gweithlu presennol a recriwtio a chadw staff wrth symud ymlaen.
- Dylai pobl allu cael gofal seibiant pan fyddan nhw ei angen a dylai mynediad fod mor syml â phosibl.

| Pwynt Gweithredu | Buddiolwyr Allweddol | Dull Cyflawni ac Effaith | Partner Arweiniol & Noddwyr Posibl | Amserlen Amcangyfrifedig |
|---|---|---|---|---|
| 6. Dylai Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'i bartneriaid, ystyried mabwysiadu model both ac adain sy'n defnyddio canolfannau gwasanaeth fel canolfannau cymunedol tra'n defnyddio ystod o gyfleusterau cymunedol i ddarparu cyfleoedd dydd a all ddarparu'r gweithgareddau hynny yr hoffai pobl eu cyrchu mor agos | Pobl yn cyrchu gweithgareddau dydd<br><br>Darparwyr Cymunedol | Mae modelau Both ac Adain yn defnyddio adnoddau fel canolfannau dydd i weithredu fel hwb cymunedol lle darperir cymorth mwy arbenigol ochr yn ochr ag ystod o gyfleusterau yn y gymuned. Defnyddir adnoddau cymunedol a mannau agored i ddarparu ystod o gyfleoedd mewn amgylcheddau "prif ffrwd" nad ydynt yn stigmateiddio.<br><br>Bydd rhai gweithgareddau'n agored i ystod ehangach o bobl – er enghraifft digwyddiadau pontio'r cenedlaethau a gwyliau, caffi cymunedol a digwyddiadau sinema. Bydd eraill yn cael eu teilwra ar gyfer pobl ag anghenion a diddordebau penodol.<br><br>Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnig yn ystod yr wythnos draddodiadol (h.y. 10am – 3pm). Bydd y gwasanaethau'n archwilio angen a | Cysylltwyr cymunedol, Sector gwirfoddol, CCC | Angen adolygiad Tachwedd 2023-Ebrill 2024.<br><br>Cyflenwi 2024 ac wedi hynny |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| at eu cartrefi â phosibl. Dylai hyn gynnwys cefnogi a galluogi pobl i gael gwaith â thâl a dysgu ffurfiol lle bo hynny'n briodol. | | darparu gweithgareddau gyda'r nos ac ar benwythnosau fel sy'n ofynnol drwy wasanaethau cyngor a ddarperir yn uniongyrchol neu drwy ganiatáu i sefydliadau cymunedol gyrchu adeiladau sy'n rhedeg gweithgareddau ynddynt pan nad yw'r cyngor a mannau cyhoeddus eraill yn cael eu defnyddio.<br><br>Bydd y cyngor yn gweithio gyda phartneriaid cymunedol i gynnig gweithgareddau y gall pawb eu cyrchu gan gynnwys mewn canolfannau lles yn unol â gweithredu 1.1.6 yn y Cynllun Gweithredu Strategol Lles Gydol Oes. I wella lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol preswylwyr Ceredigion<br>I agor canolfannau lles Plascrug ac Aberteifi fel y cynlluniwyd.<br><br>Dylai cysylltwyr cymunedol gryfhau'r gwefannau Clic a Cysylltu â Cheredigion i adlewyrchu calendr cyfoes o ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd ar gael i'r cyhoedd a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n gallu cynnig lleoliadau gwaith i bobl.<br><br>Cyngor i greu rhaglen gyflogaeth gyda mewnbwn gan y rhai fydd yn defnyddio'r rhaglen.<br><br>Dylid cynnig amrywiaeth o opsiynau gofal seibiant i oedolion a phlant, y tu mewn a'r tu allan i Geredigion, gan gynnwys gwyliau byr, gofal seibiant preswyl, a chymorth un i un. Dylai gofal seibiant fod wedi'i gynllunio ymlaen llaw, yn ogystal ag ar gael mewn argyfwng. | Porth Cymorth Cynnar<br><br>Porth Gofal | O fewn 12-24 mis<br><br>Erbyn Mawrth 2024 |

| Pwynt Gweithredu | Buddiolwyr Allweddol | Dull Cyflawni ac Effaith | Partner Arweiniol a Noddwyr Posibl | Amserlen Amcangyfrifedig |
|---|---|---|---|---|
| 7. Dylai Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'i bartneriaid, ddatblygu strategaeth drafnidiaeth sy'n sicrhau bod y dulliau mwyaf effeithlon yn cael eu defnyddio i alluogi mynediad at gyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant. Bydd angen i hyn ystyried trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat ynghyd â thrafnidiaeth a ddarperir gan y Cyngor. | Pobl yn cyrchu cyfleoedd dydd Darparwyr gwasanaeth | Bydd partneriaid yn archwilio pob dull o deithio a ddefnyddir ar hyn o bryd, gan gynnwys cerbydau *motability* pobl, trafnidiaeth breifat gofalwyr di-dâl, trafnidiaeth gyhoeddus, darpariaeth bysiau mini a rhannu ceir a gwasanaethau tacsi preifat.<br><br>Lle gellir diwallu anghenion pobl yn lleol, dylid defnyddio'r rhain i osgoi treulio cyfnodau hir yn ddiangen ar daith.<br><br>Bydd camau gweithredu yn sicrhau gwell mynediad at wasanaethau sydd â'r potensial i leihau costau trwy resymoli'r gwahanol ddulliau teithio sydd ar gael. | CCC a sefydliadau partner darparwyr trafnidiaeth | Tachwedd 2023-Mawrth 2024 |

| **Thema Pedwar: Cyfathrebu, Eiriolaeth a Chyfranogiad**<br>Canfyddiadau Allweddol:<br>• Yr angen am gyfathrebu effeithiol â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr, darparwyr cymunedol a gweithwyr i alluogi proses rheoli newid effeithiol a lleihau'r pryder a deimlir yn ystod cyfnodau o newid a diwygio.<br>• Gall ymgysylltu agosach rhwng sectorau helpu i wella darpariaeth gwasanaethau.<br>• Mae pobl yn teimlo'n ddatgysylltiedig ac maen nhw angen mwy o wybodaeth i ddeall beth sy'n digwydd a sut y gallant ei gyrchu.<br>• Mae angen ystyried ymgysylltiad penodol ynghylch newid enw rhai cyfleusterau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwynt Gweithredu** | **Buddiolwyr Allweddol** | **Dull Cyflawni ac Effaith** | **Partner Arweiniol & Noddwyr Posibl** | **Amserlen Amcangyfrifedig** |
| 8. Wrth ddilyn ei agenda ddiwygio, bydd angen i'r Cyngor ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, staff y cyngor a'r rhai sy'n gweithio mewn asiantaethau eraill drwy ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol. Dylid adolygu fforymau a ddefnyddiwyd yn flaenorol i ymgysylltu â'r grwpiau hyn a lle bo'n briodol i alluogi prosesau gweithio mewn partneriaeth | Y cyhoedd<br>Pobl yn cyrchu gwasanaethau<br>Teuluoedd<br>Gofalwyr<br>Staff<br>Sefydliadau cymunedol | Dylai'r cyngor gynnal gweithdai gyda rhanddeiliaid wrth i gynlluniau fynd rhagddynt i sicrhau mewnbwn rheolaidd gan y rhai sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau, gan gynnwys staff, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a gofalwyr di-dâl. Os yn penodi, gall yr arweinydd trawsnewid sbarduno'r prosesau hyn.<br><br>Gellir galluogi ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gynnal cyfarfodydd cymunedol wyneb yn wyneb, trafodaethau ar-lein, arolygon a byrddau negeseuon.<br><br>Dylai cysylltwyr cymunedol ailsefydlu rhwydwaith cymunedol cryf sy'n cynnwys cyfarfodydd rheolaidd i rannu gwybodaeth am ddatblygiadau a chyfleoedd newydd i gydweithio.<br><br>Ailsefydlu llinell gweithwyr proffesiynol | CCC<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>CCC | Erbyn Ionawr 2024 a pharhau drwy gydol y rhaglen newid<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>O fewn 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno. | | ar gyfer cydweithwyr y GIG a chydweithwyr eraill gan ailsefydlu'r gallu i gydweithwyr yn y GIG gysylltu â chysylltiadau / adrannau allweddol o fewn y cyngor gan alluogi gwell canlyniadau yn gyflym i ddefnyddwyr gwasanaeth ac amseroedd atgyfeirio cyflymach. | | mis |
| 9. Dylai'r Cyngor ystyried ail-ofyn am farn ar y cynnig i ailenwi ei ganolfannau dydd fel rhan o'i ymgynghoriad ehangach ar ddiwygio gwasanaethau. | Y cyhoedd<br>Pobl yn cyrchu gwasanaethau<br>Teuluoedd<br>Staff | Mae angen i'r cyngor ystyried p'un a yw'n dymuno ail-ymgysylltu a chanfasio barn ar y newid enw. | CCC | O fewn 1 mis |

Hawdd ei Ddeall

# Adroddiad am gyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant yng Ngheredigion

## Y pethau ddywedodd pobl



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan '**Practice Solutions' ar ran Cyngor Sir Ceredigion**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad am Adolygiad o Gyfleoedd Dydd a Seibiant**'.

**Hydref 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 29**.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl '**Practice Solutions**'. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â

**Gwefan:** www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr

**Ffôn:** 01545 570881

Hawdd ei Ddeall Cymru Easy Read Wales

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei deall hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.**

# Cynnwys

Ynglŷn â'r adroddiad hwn .......... 4

Y pethau ddywedodd pobl .......... 7

Y pethau ddywedodd y gwahanol grwpiau .......... 14

Y pethau rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd nesaf .......... 27

Geiriau anodd .......... 29

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Cwmni ydyn ni sy'n cael ei alw'n '**Practice Solutions**'.

Gofynnodd Cyngor Sir Ceredigion i ni chwilio i mewn i:





- gyfleoedd dydd



- a gwasanaethau **seibiant** yng Ngheredigion.

> **Seibiant** yw'r adeg pan fydd rhywun sy'n cael cefnogaeth yn aros yn rhywle am amser byr. Efallai y bydd hyn yn digwydd er mwyn i'r gofalwr gael gorffwys.




Mae'r adroddiad hwn ynglŷn â'r pethau ddywedodd pobl Ceredigion.



Siaradon ni â thros 400 o bobl. Siaradon ni â:

- phobl o bob oed
- pobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- pobl sy'n gweithio ar ran gwasanaethau
- a phobl eraill.

Mae llawer o wasanaethau dydd yng Ngheredigion. Er enghraifft:



- Tair canolfan gwasanaeth dydd i bobl ag anableddau dysgu.



- Gwasanaethau ar gyfer plant.



- Gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn a phobl sy'n byw â **dementia**.

Mae **Dementia** yn salwch sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae'n gallu gwneud i chi golli eich cof, gwneud i chi deimlo'n ddryslyd a phethau eraill.

Mae ar Gyngor Ceredigion eisiau i wasanaethau dydd gyflawni'r tri pheth hyn:




- Cefnogi pobl yn gynnar i helpu i rwystro problemau iechyd rhag mynd yn waeth




- Cefnogi pobl i fod yn annibynnol a dysgu medrau newydd.




- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnyn nhw, mewn ffordd  maen nhw'n ei deall.

# Y pethau ddywedodd pobl

## 1. Cludiant



Dywedodd y rhan fwyaf o bobl bod eu cerbyd eu hunain ganddyn nhw. Er enghraifft, car.




Ond mae llawer o bobl yn dibynnu ar fysiau neu deulu a ffrindiau.



Doedd rhai pobl ddim yn hapus â chludiant cyhoeddus.



Mae rhai pobl yn defnyddio minibysiau.




Mae cludiant yn fater pwysig yng Ngheredigion.

# 2. Newid yn y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau dydd



Mae ar Gyngor Ceredigion eisiau i fwy o bobl ddefnyddio gwasanaethau dydd.




Mae arnyn nhw eisiau i fwy o grwpiau ddefnyddio cyfleusterau'r gwasanaethau dydd.



Byddai gwasanaethau dydd yn cael eu defnyddio trwy gydol yr wythnos ar wahanol adegau.




Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytunu â hyn.



Byddai ar Geredigion angen meddwl am staffio a sut i gefnogi pobl yn dda.

# 3. Newid oriau



Gofynnwyd i bobl beth roedden nhw'n feddwl ynglŷn â newid oriau gwasanaethau dydd. Er enghraifft, cael sesiynau o hanner dydd, sesiynau gyda'r nos a sesiynau penwythnos.




Byddai'n dibynnu ar y weithgaredd. Byddai'n dibynnu ar y weithgaredd. Bydden nhw'n edrych ar asesiad ac anghenion pobl er mwyn penderfynu.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â'r newidiadau.



Roedd rhai pobl yn poeni am hyn.



Mae'n bwysig meddwl am anghenion pobl sy'n defnyddio gwasanaethau dydd a'u gofalwyr.

# 4. Newid enwau tri gwasanaeth dydd

Gofynnwyd i bobl a oedden nhw'n cytuno â newid enwau:



- Canolfan Steffan
- Padarn
- Meugan



Doedd gan y rhan fwyaf o bobl ddim barn  ynglŷn â hyn.



Efallai bod ar Gyngor Ceredigion angen cael mwy o farn pobl am hyn.

# 5. Rhannu barn



Gofynnwyd i bobl a oedden nhw'n cael digon o gyfleoedd i ddweud wrth y cyngor beth oedd eu barn.



Dywedodd y rhan fwyaf o bobl nad oedden nhw'n cael digon o gyfle i ddweud beth oedd eu barn.




Rhoddodd pobl syniadau ynghylch ffyrdd y gallen nhw gael mwy o gyfle i rannu eu barn. Er enghraifft, cael sesiynau grwpiau er mwyn cael eu barn.

# 6. Gweithgareddau




Gofynnwyd i bobl pa fath o weithgraeddau yr hoffen nhw eu cael mewn gwasanaethau dydd.



Edrychon ni ar wahanol oed a grwpiau wrth ofyn y cwestiwn hwn.

Y tri gweithgaredd mwyaf pwysig oedd:



- Cadw'n iach a theimlo'n dda.
- Teithiau dydd a thros nos.



- Gweithgareddau awyr agored.

# 7. Sylwadau



Gofynnwyd i bobl a oedd ganddyn nhw unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud.



Dywedodd rhai pobl yr hoffen nhw weld gwasanaethau ychwanegol.



Roedd rhai pobl yn poeni am wasanaethau. Rhoddon nhw lawer o wahanol resymau.



Rhoddodd pobl lawer o wahanol syniadau ynglŷn â'r gwasanaethau yr hoffen nhw eu gweld.

# Y pethau ddywedodd y gwahanol grwpiau

## Oedolion ag anabledd dysgu



Gofynnon ni i oedolion ag anabledd dysgu beth roedden nhw'n feddwl am wasanaethau dydd.



Roedd llawer o bobl yn mwynhau'r gwasanaethau a'r pethau oedd yn cael eu cynnig iddyn nhw.



Roedd pobl yn hoffi'r minibws. Dywedodd pobl sydd ddim yn cael minibws bellach bod hynny'n effeithio llawer arnyn nhw.




Rhoddodd pobl enghreifftiau o weithgareddau roedden nhw'n eu hoffi. Er enghraifft, dysgu medrau a mynd allan.



Roedd yn bwysig iawn i bobl eu bod yn cael dewis.




Dywedodd llawer o bobl eu bod yn colli gweithgareddau oedd ar gael cyn Covid.



Dydy rhai ddim wedi mynd yn ôl i’w canolfan dydd. Mae hyn oherwydd nad oes digon o staff neu gludiant ar gael.




Roedd llawer o bobl yn drist am fod Canolfan Dydd Padarn wedi cau.




Mae ar bobl eisiau cael dweud eu barn ynglŷn â’r ffordd y mae:

- gwasanaethau newydd yn edrych
- a’r ffordd y maen nhw’n cael eu rhedeg.



Roedd cludiant yn broblem fawr i lawer o bobl.



Roedd pobl yn dweud hefyd bod arnyn nhw angen trefn arferol.



Dywedodd llawer o bobl yr hoffen nhw weithgareddau gyda'r nos ac ar y penwythnos.




Roedd hefyd yn bwysig iawn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am y newidiadau.

# Plant a phobl ifainc



Dywedodd y grŵp hwn eu bod yn mwynhau cael pobl i chwarae gyda nhw.



Doedd rhai ddim yn hoffi sut roedden nhw'n cael eu trin gan blant eraill.

Pan ofynnwyd iddyn nhw sut bethau y dylai gwasanaethau wneud, dywedon nhw:



- Gwneud pethau gydag anifeiliaid
- Aros yn rhywle yn hirach
- Mynd i barciau themâu.



Roedd ganddyn nhw ddiddordeb mewn gweithgareddau dros y penwythnos a seibiannau byr.



Ychydig iawn oedd am gael gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol neu weithgareddau ar ôl ysgol.


# Pobl ifainc 16 i 24 oed



Doedd llawer o bobl ddim yn gwybod pa wasanaethau oedd ar gael iddyn nhw.



Roedd gan lawer o bobl salwch corfforol neu salwch iechyd meddwl.



Roedden nhw'n dweud ei bod yn bwysig iddyn nhw fedru gwneud eu dewisiadau eu hunain.



Roedd arnyn nhw eisiau rheolaeth dros eu cefnogaeth eu hunain.



Roedden nhw'n dweud bod arnyn nhw eisiau bod gyda phobl eu hoed eu hunain a bod allan yn y gymuned.



Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod eu profiadau o wasanaethau dydd yn dda.

## Pobl sydd â dementia



Dywedodd pobl eu bod yn hoffi gweithgareddau sy'n ymwneud â'u diddordebau.



Doedden nhw ddim bob amser am fynd i ganolfannau dydd.



Does dim gweithgareddau dydd sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor ar gyfer pobl sydd â **dementia**.



Roedden nhw'n dweud nad oedd arnyn nhw eisiau mynd i gartrefi gofal i gael **seibiant**.



Roedd pobl yn teimlo nad oedd digon o weithgareddau ar eu cyfer nhw.

## Aelodau o'r teulu a gofalwyr




Roedden nhw'n dweud bod gwasanaethau dydd yn bwysig iawn.



Roedden nhw'n sôn am y staff mewn ffordd gynnes. Roedden nhw'n teimlo bod y staff yn deall y bobl roedden nhw'n eu cefnogi yn dda.



Roedd rhai yn poeni y basai gwasanaethau yn cael eu tynnu i ffwrdd.





Roedden nhw'n dweud y basai trefnu i gadw lle ar gyfer gwasanaeth **seibiant** o flaen llaw yn help.



Hefyd roedd gofalwyr yn dweud bod **cyfathrebu** yn broblem.

Mae **cyfathrebu** yn meddwl rhannu gwybodaeth am bethau.



Mae ar ofalwyr eisiau cael dweud eu barn am y pethau sy'n digwydd i wasanethau.


# Gofalwyr maeth



Mae gofalwyr maeth yn gofalu am blant pan nad oes ganddyn nhw rieni sy'n medru gofalu amdanyn nhw.



Roedden nhw'n poeni nad oedden nhw bellach yn cael gwasanaethau **seibiant**.



Roedden nhw'n dweud bod arnyn nhw angen gwell **cyfathrebu**.



Roedden nhw'n dweud hefyd bod gweithwyr cymdeithasol yn newid o hyd.

# Mudiadau cymunedol yn rhoi cefnogaeth i bobl anabl

Siaradon ni â thros 20 mudiad sy'n rhoi cefnogaeth i oedolion a phlant. A mudiadau sy'n cefnogi pobl sydd â:



- phroblemau iechyd meddwl



- anableddau dysgu



- namau corfforol



- **dementia**



- problemau camddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn meddwl bod gennych chi broblem wrth ddefnyddio alcohol neu gyffuriau.



Roedden nhw’n hapus i gael hyfforddiant gan y cyngor.



Roedd rhai yn poeni nad oedd digon o arian i fedru rhedeg y mudiad.



Roedden nhw’n dweud nad oedd digon o wasanaethau **seibiant**. Roedden nhw’n dweud bod ar deuluoedd angen llawer mwy o gefnogaeth.



Roedd rhai yn dweud nad oedd y cyngor yn **cyfathrebu** llawer â nhw.



Roedden nhw’n teimlo y gallai mwy o adeiladau gael eu defnyddio yn y gymuned ar gyfer gwasanaethau dydd.

# Staff



Siaradon ni lawer â gwahanol staff.

Er enghraifft, staff o'r:

- cyngor
- canolfannau dydd
- a'r GIG.



Dywedodd staff y cyngor bod gwaith staff mewn gwasanaethau dydd a gwasanaethau **seibiant** yn bwysig.



Ond roedden nhw'n poeni eu bod yn dal i redeg yn yr un ffordd ag yr oedden nhw yn ystod Covid.



Roedden nhw'n cytuno â newidiadau i'r gwasanaethau dydd.




Roedd staff oedd yn gweithio yn y gwasanaethau dydd yn teimlo nad oedden nhw wedi cael digon o wybodaeth am newidiadau.




Roedden nhw'n poeni am doriadau i wasanaethau ac effaith hynny ar eu gwaith.




Roedden nhw'n meddwl ei bod hi'n bwysig cymryd gofal wrth gymysgu grwpiau o bobl. Mae gan wahanol grwpiau o bobl anghenion gofal a chefnogaeth arbennig.



Roedd staff y GIG yn gweld gwerth gwasanaethau dydd a gwasanaethau **seibiant**. Roedden nhw'n dweud bod eu cleifion yn gweld gwerth y gwasanaethau hefyd.



Hoffen nhw weld gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio mwy gyda gwasanaethau dydd.




Roedden nhw'n meddwl bod yna angen am fwy o wasanaethau cymunedol a chludiant.

# Y pethau rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd nesaf



Dyma rai o'r pethau rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd nesaf.



Dylai Cyngor Ceredigion wneud newidiadau i wasanaethau dydd a gwasanaethau **seibiant**.



Dylai rhywun gael swydd arbennig i wneud y gwaith hwn.



Dylai'r cyngor ddal ati i siarad â phobl a gweithio gyda'i gilydd i wneud newidiadau.



Dylai'r cyngor weithio gyda mudiadau eraill i helpu i wneud yn siŵr bod y gwaith hwn yn cael ei wneud yn dda. Er enghraifft, y GIG ac elusennau.



Dylai'r cyngor ddatblygu hybiau cymunedol. Canolfannau yw'r rhain sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth yn y gymuned. Basai'r rhain yn cynnwys gwasanaethau dydd.



Dylai'r cyngor wneud cynllun ar gyfer cludiant.



Dylai'r cyngor wneud yn siŵr ei fod yn gwrando ar bobl ac yn rhoi eu hanghenion nhw yn gyntaf.



Dylai'r cyngor wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cefnogi tra bydd y newidiadau'n digwydd.



Dylai'r cyngor ofyn i bobl eto beth maen nhw'n feddwl ynghylch ailenwi'r canolfannau dydd.

# Geiriau anodd

## Cyfathrebu

Mae cyfathrebu yn meddwl rhannu gwybodaeth am bethau.

## Dementia

Mae dementia yn salwch sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae'n gallu gwneud i chi golli eich cof, gwneud i chi deimlo'n ddryslyd a phethau eraill.

## Seibiant


Seibiant yw'r adeg pan fydd rhywun sy'n cael cefnogaeth yn aros yn rhywle am amser byr. Efallai y bydd hyn yn digwydd er mwyn i'r gofalwr gael gorffwys.

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Adroddiad Pobl Ifanc



Crynodeb hawdd ei ddarllen i bob oedran

Cyngor Sir Ceredigion

## Gwasanaethau Seibiant a Chyfleoedd Dydd

# Am beth mae'r adroddiad hwn yn sôn?

**Rydym am sicrhau bod Cyngor Sir Ceredigion yn darparu'r gwasanaethau seibiant a chyfleoedd dydd y mae pobl eu hangen a'u heisiau.**





# Beth yw gwasanaethau seibiant a chyfleoedd dydd?

**Mae'r Cyngor yn darparu'r gwasanaethau hyn i bobl o bob oed.**

**Mae gwasanaethau cyfleoedd dydd** yn cynnig gweithgareddau i bobl ddysgu sgiliau, cael hwyl a chymdeithasu. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu cynnal mewn canolfannau dydd neu adeiladau cymunedol yn ystod yr wythnos. Gall y gweithgareddau fod yn greadigol, fel celf a cherddoriaeth, chwaraeon fel boccia neu drampolinio, neu gallant fod yn addysgol, fel sgiliau bywyd neu sgiliau ar gyfer swyddi. Mae pobl o bob oed yn defnyddio cyfleoedd dydd, o blant sy'n derbyn gofal i bobl â dementia.

**Mae gwasanaethau seibiant** yn cynnig gofal i bobl pan fydd angen seibiant ar eu **gofalwr di-dâl***. Gall hyn fod er mwyn i'r gofalwr allu gwneud tasgau pwysig, mynd i rywle, neu yn syml, cael seibiant.

Gall gofal seibiant fod am ychydig oriau, ychydig ddyddiau neu hyd yn oed mwy.

Gall gynnwys gweithgareddau dydd, aros mewn cartref gofal neu lety gwyliau.

## Mae pobl o bob oedran yn defnyddio gwasanaethau cyfleoedd dydd a seibiant

* **Gofalwyr di-dâl –** unrhyw un sy'n helpu i ofalu am rywun. Efallai eu bod yn aelod o'r teulu fel rhiant, brawd neu chwaer neu blentyn, neu efallai eu bod yn ffrind yn unig. Yn wahanol i staff, nid yw gofalwyr di-dâl yn cael eu cyflogi i ofalu.



# Sut wnaethon ni ddarganfod beth oedd barn pobl am Wasanaethau Seibiant a Chyfleoedd Dydd ar gyfer yr adroddiad hwn?

**Gwnaethom ddefnyddio gwahanol ffyrdd i ddarganfod pa wasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd a beth mae pobl ei angen a'i eisiau. Roedd hyn yn cynnwys amrywiol adroddiadau ar wasanaethau a chanllawiau.**



Aethom ati i siarad â **206 o bobl** wyneb yn wyneb ac fe wnaeth **205 o bobl** lenwi arolwg ar-lein a oedd yn agored i'r cyhoedd.



**Fe wnaeth cyfanswm o 411 o bobl gymryd rhan yn yr arolwg hwn, yn cynnwys plant a phobl ifanc.**

## Fe wnaethom hefyd siarad â llawer o bobl wyneb yn wyneb ac ar-lein:

- Pobl sy'n manteisio ar wasanaethau seibiant a chyfleoedd dydd
- **Teuluoedd a gofalwyr**
- Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau
- **Staff canolfannau gofal cymdeithasol a chyfleoedd dydd**
- **Staff Iechyd**
- Pobl ag anableddau dysgu
- **Pobl â dementia**
- Plant a Phobl Ifanc
- **Pobl ag anghenion cymhleth**

# Pwysigrwydd gwasanaethau seibiant a chyfleoedd dydd

## Fe wnaeth pawb y gwnaethom siarad â nhw am wasanaethau seibiant a chyfleoedd dydd ddweud eu bod yn bwysig iawn.

**I ddefnyddwyr gwasanaethau*:**

- Mae’r gwasanaethau hyn yn eu helpu i gymdeithasu â phobl eraill
- Medrant gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau medrant ddysgu **sgiliau galwedigaethol***

* **Defnyddwyr gwasanaethau** – Dyma’r term ar gyfer pobl sy’n defnyddio gwasanaethau.Gall y gwasanaethau hyn amrywio o gymorth gofal i weithgareddau.Mae ystod eang o bobl yng Ngheredigion yn ddefnyddwyr gwasanaethau, yn cynnwys plant sy’n derbyn gofal, pobl ag anableddau, a phobl â dementia.

* **Sgiliau galwedigaethol** – Mae’r rhain yn gyfres o sgiliau a gwybodaeth sy’n helpu rhywun i wneud ei swydd. Mae’r cyngor yn cynnig gwasanaethau cyfleoedd dydd i helpu pobl i ddatblygu’r sgiliau hyn. Efallai y bydd y sgiliau hyn yn rhoi mwy o annibyniaeth i bobl yn eu cartrefi neu eu helpu i gael swydd â chyflog



I ofalwyr di-dâl:

- Mae’r gwasanaethau hyn yn rhoi amser rhydd iddynt orffwys neu weithio
- Maent yn cael cyfle i gymdeithasu gyda gofalwyr eraill a staff
- Byddent yn ei chael yn anodd diwallu anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt heb y gwasanaethau hyn

## Mae gwasanaethau cyfleoedd dydd a seibiant yn bwysig iawn i ddefnyddwyr y gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr di-dâl



# Efallai bydd angen newid rhai pethau, dyma pam

## Mae yna lawer o resymau pam y dylai Ceredigion ddiweddaru ei wasanaethau:

- Mae'r anghenion sydd gan bobl yn dod yn fwy cymhleth ac "nid oes un ateb sy'n addas i bawb".
- Effaith pandemig Covid-19 a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio fel defnyddio galwadau 'Zoom' yn ystod y pandemig
- Costau cynyddol tanwydd, bwyd ac adnoddau
- Y staff sydd ar gael i gefnogi pobl sydd angen cymorth
- Yr awydd am fwy o ganolfannau cymunedol lleol y gall holl aelodau'r gymuned eu defnyddio a chydag adnoddau a rennir
- Heriau o ran trafnidiaeth, fel diffyg gyrwyr, gan gydnabod bod trafnidiaeth yn hanfodol i gefnogi pobl sydd am fanteisio ar wasanaethau seibiant a chyfleoedd dydd
- Yr angen i ofal cymdeithasol, y GIG a gwasanaethau trydydd sector* weithio'n agosach gyda'i gilydd.

* **Sefydliadau Trydydd Sector** – Mae'r term hwn yn cynnwys sefydliadau elusennol, gwirfoddol a chymunedol. Bydd sefydliadau'r trydydd sector yn darparu gwasanaethau a chymorth i bobl, ond nid ydynt yn gorff cyhoeddus fel y cyngor neu'r llywodraeth.



# Newid enwau rhai o'r canolfannau ddydd

## Hoffai'r cyngor gynnig mwy o weithgareddau cymunedol mewn canolfannau dydd.

## Er mwyn helpu i hyrwyddo'r newid hwn, maen nhw wedi awgrymu newid enwau rhai canolfannau dydd.

Os yw'r cyngor am fwrw ymlaen â newid yr enwau, dylai holi barn y cyhoedd i gael eu cefnogaeth.



# Sut olwg ddylai fod ar y gwasanaethau newydd?

## Cymysg oedd yr adborth ar y cynigion i ddiweddaru gwasanaethau.

Dywedodd rhai bod angen y newidiadau. Dylai gwasanaethau ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, nawr ac yn y dyfodol.

Roedd eraill yn poeni am yr awgrym i gyfuno gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth yn yr un lleoliad. Mae hyn oherwydd bod angen cymorth penodol ar bobl ar gyfer eu hanghenion. Nid oeddent yn erbyn y cynigion, ond dywedont fod angen ei rheoli'n ofalus.

Dywedodd pobl ei bod yn bwysig bod pawb yn cael gwybod sut y cafodd y cynigion eu cynllunio a'u cyflwyno. Dylai pawb ddweud eu dweud.

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn hoffi'r awgrym y bydd mwy o weithgareddau ar gael. Roedd pawb yn cytuno y dylid dylunio'r rhain ar sail yr hyn y mae defnyddwyr gwasanaeth ei eisiau a'i angen.

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno y dylai fod mwy o weithgareddau sy'n helpu pobl i gael swyddi â chyflog. Dylai'r cyngor ganolbwyntio'n gyntaf ar gyfleoedd a gafodd eu dileu yn ystod y pandemig.

Roedd pobl yn hoffi'r syniad y byddai gwasanaethau seibiant a chyfleoedd dydd ar gael am fwy o oriau. Ond roedden nhw am sicrhau na fyddai hyn yn effeithio ar ba mor dda y byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

**Dywedodd pobl ei fod yn bwysig fod pawb yn cael gwybod sut mae'r cynigion wedi eu cynllunio a'u cyflwyno. Dylai pawb gael dweud eu dweud.**

# Yr hyn a ddywedodd plant a phobl ifanc...

## Aethom ati i siarad â phlant a phobl ifanc mewn gweithdy a thrwy arolwg.

## Dyma beth oedd ganddyn nhw i'w ddweud:

## Yr hyn y maen nhw'n ei fwynhau am wasanaethau seibiant a chyfleoedd dydd

**Pobl newydd i chwarae â nhw**

**Y cyfle i ymlacio**

**Cael lle i ddianc rhag brodyr a chwiorydd**

### Yr hyn y byddent yn ei newid am wasanaethau

Dywedodd un person ifanc ei bod yn credu bod "rhai rhieni maeth yn gallu bod yn ddrwg - gwella gofal maeth".

Dywedodd rhai pobl ifanc fod gan blant eraill farn negyddol am weithwyr cymdeithasol a derbyn gofal. Mae angen gwneud mwy o waith i newid barn fel nad yw pobl ifanc yn teimlo embaras na chywilydd.

Hoffai pobl ifanc i'r cyngor godi'r gwaharddiad ar rai gweithgareddau nad ydynt yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch, fel trampolinio. Nid yw'r rheolau hyn yn effeithio ar blant nad ydynt yn derbyn gofal, ac nid yw hyn yn ymddangos yn deg.

### Pa wasanaethau fydden nhw'n hoffi eu gweld?

- Gwneud pethau gydag anifeiliaid fel helpu mewn llochesi
- Aros yn rhywle am gyfnod hirach
- Mynd i barciau thema ac atyniadau
- Cartrefi seibiant nad ydynt yn ofalwyr maeth, fel cartrefi ffrindiau
- Teithiau dydd fel Llangrannog, teithiau cychod, Parc Neidio, Blue Stone a mwy

# Yr hyn a ddywedodd pobl ifanc sydd o oed pontio...

## Aethom ati hefyd i siarad â phobl ifanc 16-24 oed. Gelwir hyn yn oed pontio, pan fyddant yn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion

### Yr hyn y maen nhw ei eisiau yn y dyfodol gan wasanaethau

- Maen nhw eisiau cyfeirio eu cefnogaeth eu hunain yn hytrach na chael eu clymu i wasanaeth nad yw'n ddewis iddyn nhw
- Maen nhw eisiau bod gyda phobl eu hoedran eu hunain ac allan yn y gymuned
- Maen nhw eisiau gwaith
- Maen nhw eisiau gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer grwpiau o bobl eu hoedran nhw sydd ag awtistiaeth
- Mwy o gynorthwywyr personol i'w helpu i gymryd rhan mewn pethau
- Gwasanaethau sy'n eu helpu i gymryd rhan yn eu cymunedau
- Gwasanaethau seibiant i aelodau'r teulu
- Gwasanaeth dydd sy'n cynnig gweithgareddau, cyfeillgarwch, cyfleoedd, ychydig o newid golygfa ac ymdeimlad o berthyn



## Yr hyn y maen nhw ei eisiau o ran gwasanaethau oedolion

Wrth gynnal arolwg, fe wnaethom holi i bobl ifanc pa weithgareddau fyddai fwyaf defnyddiol iddynt pan fyddent yn symud i wasanaethau oedolion.

Yr opsiynau mwyaf poblogaidd oedd:

**Cefnogaeth i wneud ffrindiau /meithrin perthnasau**

**Sgiliau i fy helpu i fyw ar fy mhen fy hun**

**Cwrdd â phobl a gweithgareddau cymunedol**

## Yr hyn y maen nhw'n ei hoffi am wasanaethau seibiant a chyfleoedd dydd

**Gweld ffrindiau | Staff | Trefn**

## Yr hyn y byddent yn ei newid am y gwasanaethau

- **Bechgyn a merched yn y grŵp**
- **Mwy o ymweliadau â'r llyfrgell genedlaethol a'r ganolfan hamdden**
- **Cyfleoedd i gael profiad gwaith**
- **Mwy o deithiau dydd**
- **Mynd allan i'r gymuned**
- **Sgiliau bywyd a choginio**
- **Eisiau bws neu drafnidiaeth well**
- **Mwy o gysondeb o ran y staff sy'n gweithio gyda nhw**
- **Mwy o gysondeb o ran cerbydau**
- **Llai o newidiadau o ran lleoliad y safle**
- **Sgrin ryngweithiol yn y ganolfan**
- **Profiadau synhwyraidd**
- **Mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd ar ôl y cyfnod pontio**
- **Ei gwneud hi'n haws cael lle mewn gwasanaethau**

# Adborth cyffredinol

### Plant a Phobl Ifanc

Dywedodd plant a phobl ifanc eu bod eisiau gweithgareddau sydd yn eu helpu i ddatblygu sgiliau. Maen nhw eisiau gwasanaethau sy'n seiliedig ar weithgareddau ac maen nhw'n hoffi defnyddio adnoddau cymunedol.

Maent hefyd eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n agored i blant nad ydynt yn derbyn gofal.

**76% o blant a phobl ifanc eu bod eisiau grwpiau gweithgaredd gyda phobl eu hoedran eu hunain**

**67% o blant a phobl ifanc eu bod eisiau gweithgareddau creadigol**

**57% o blant a phobl ifanc eu bod eisiau gweithgareddau awyr agored, teithiau a gweithgareddau gwirfoddoli**

## Pobl ifanc yn y cyfnod pontio

Dywedodd pobl ifanc na wrandewir yn ddigon cynnar weithiau ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau. Roedd hyn yn golygu bod bylchau o ran y gefnogaeth wrth iddynt symud i wasanaethau oedolion.

Dywedon nhw hefyd eu bod yn ei chael hi'n anodd defnyddio gwasanaethau oedolion pan oedden nhw'n pontio.

> **Mae'n ddryslyd cael pethau yn eu lle, dim blaengynllunio, heb weithiwr cymdeithasol pontio ar gael, byth yn gwybod beth sy'n digwydd nesaf.**

> **Mae Camu 'Mlaen yn strwythur cadarnhaol iawn, ond beth nesaf?**

> **Mae cael hyd i dai gwarchod yn gyfyngedig.**

## Oedolion ag anableddau dysgu

Pwysleisiodd y grŵp yma bwysigrwydd trefn arferol, parhad cefnogaeth, a'r angen am awyrgylch llonydd.



## Gallwch ddarllen y Cynllun Gweithredu i Bobl Ifanc i weld beth yw ein camau nesaf.

# Diddordeb mewn darllen yr adroddiad llawn?

**Os hoffech ddarllen fersiwn mwy manwl, mae'r adroddiad llawn a fersiwn hawdd ei ddarllen ar gael.**

**Gofal Cymdeithasol a Lles**

**Canolfan Rheidol**
**Rhodfa Padarn**
**Llanbadarn Fawr**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3UE**

**Tel: 01545 574000**

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**ceredigion.gov.uk**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 22 Tachwedd 2023 |
| **Teitl:** | Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal (Plant ac Oedolion)<br>Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol<br>Chwarter 1 2023 - 2024 |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Monitro cynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal drwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod chwarter cyntaf 2023/2024. Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol. |

**Rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**
Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol a'r Aelodau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol.

**Cefndir**
Atodir Adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 1 2023/2024.

Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd Cynllun Gofal y plentyn / person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r Cynllun Gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn / person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol / cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen gweithredu ar gyfer 2 berson ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn / person ifanc a gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

**<u>Y Sefyllfa Bresennol</u>**

**CRYNODEB O'R PWYNTIAU ALLWEDDOL:**

- Ar ddiwedd Chwarter 1, roedd 125 o blant yn derbyn gofal o gymharu â 132 ar ddiwedd Chwarter 4.
- Cafodd 95 o blant eu hadolygu yn ystod y chwarter hwn o gymharu â 101 yn y chwarter blaenorol. Adolygwyd 94.7% o blant o fewn yr amserlen statudol.
- Roedd 20 plentyn wedi gadael gofal yn y chwarter hwn o gymharu â 3 yn Chwarter 4. Dychwelodd 2 blentyn adref at y teulu. Dirymwyd y gorchmynion gofal ar gyfer 15 plentyn. Symudodd 2 berson ifanc i lety â chymorth neu ddarpariaeth byw'n annibynnol neu i leoliad cysylltu bywydau, a symudodd 1 person ifanc i leoliad 'Pan rwyf yn barod'.
- O ran y lleoliadau ar gyfer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, roedd 24 mewn gofal maeth Awdurdod Lleol (yn y sir), 16 mewn lleoliadau gyda gofalwyr sy'n berthnasau yn y sir a 5 y tu allan i'r sir, 18 mewn lleoliadau Asiantaeth Faethu Annibynnol (7 yn y sir, 11 y tu allan i'r sir), cafodd 10 plentyn eu lleoli gyda rhieni, a chafodd 14 eu lleoli mewn darpariaeth gofal preswyl y tu allan i'r sir. Cafodd 3 phlentyn eu lleoli gyda theulu, cafodd 2 eu mabwysiadu, roedd 2 mewn lleoliadau preswyl ar gyfer mamau a babanod ac roedd 1 mewn llety â chymorth / lleoliad byw'n annibynnol.
- O'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y chwarter hwn lle'r oedd cynlluniau parhad wedi'i sefydlu, y cynllun ar gyfer 42 plentyn oedd y byddant yn cael eu gofalu drwy Ofal Maeth Hirdymor, byddai 20 plentyn yn aros gyda pherthnasau / aelodau o'r teulu, roedd 9 plentyn wedi'u lleoli â rhiant, roedd 5 plentyn yn destun tracio deuol, byddai 5 plentyn yn cael eu mabwysiadu, roedd 2 blentyn yn cael gofal preswyl ac roedd 1 plentyn yn cael cefnogaeth er mwyn mynd yn ôl i fyw gyda'i rieni.
- Roedd 55 o blant yn derbyn gofal o dan statws cyfreithiol Gorchymyn Gofal Llawn, 17 o dan Orchymyn Gofal Dros Dro, 5 o dan Orchymyn Lleoli, ac 18 o dan Adran 76.
- O'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, cafodd 100% o'r plant ymweliad statudol, o gymharu â 98% yn Chwarter 4.
- Cofnodwyd bod 54.5% o'r Cynlluniau Gofal a Chymorth wedi'u sefydlu yn yr adolygiad cyntaf o gymharu â 46.7%. Roedd y ganran isel eto yn ystod y chwarter hwn oherwydd problemau staffio yn y Tîm Gofal Wedi'i Gynllunio oedd wedi atal cynlluniau rhag cael eu cwblhau mewn pryd.
- Nododd 95 (100.0%) o adolygiadau fod safbwyntiau diwylliannol y person ifanc wedi cael eu bodloni.
- Cydnabuwyd mewn 79 o adolygiadau bod anghenion crefyddol y person ifanc yn cael eu bodloni; ac o ran 16 adolygiad arall nid oedd yn hysbys a oedd yr anghenion wedi'u bodloni neu beidio. Roedd angen cyfieithydd ar gyfer 5 adolygiad a chafodd hynny ei ddarparu.
- Mewn 88 adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig, gyda 7 adolygiad yn nodi nad oedd y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig. Roedd 5 plentyn / person ifanc yn Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches, ac nid oedd gan yr un ohonynt Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd. O ran 3 phlentyn / person ifanc arall nad oeddent yn Ddinasyddion y Deyrnas Unedig, roedd ganddynt Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd. Cofnodwyd ymhob un o'r 5 adolygiad nad oedd cais wedi cael ei wneud ar gyfer Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd; fodd bynnag

cofnodwyd ymhob un o'r 5 adolygiad fod y person ifanc yn cael ei gefnogi gyda hyn.

- Canran y plant (â digon o grebwyll) oedd yn deall y rheswm dros dderbyn gofal oedd 93.2%.
- Canran y plant â digon o grebwyll oedd wedi cymryd rhan neu a gafodd eu hymgynghori ynghylch eu hadolygiad oedd 100%.
- Canran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli oedd 88.3%.
- Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal o oed ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol yn ei le o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd yn ystod y chwarter hwn oedd 93.8%.
- Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd asesiadau iechyd yn unol â'r gofynion statudol oedd 93.7%.
- Canran y rhieni roedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn yr adolygiad oedd 100%.
- Cynhaliwyd 17 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn o gymharu â 30 yn Chwarter 4. Cynhaliwyd 82.4% Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser.
- Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol / Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig oedd 100% yn ystod y chwarter hwn.
- Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer eu cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn oedd 94.1%

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam.**
Naddo

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion.

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol. |
| **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod. |
| **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. |
| **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu. |
| **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt. |

**Argymhelliad:**
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**
Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

**Enw Cyswllt:** Audrey Somerton-Edwards

**Swydd:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Plant a Theuluoedd

**<u>Dyddiad yr Adroddiad</u>:** 26 Medi 2023

**<u>Acronymau:</u>**

CAFCASS - Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd
CAMHS - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
NEET – Heb fod mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Gwasanaeth Diogelu

## Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

## Chwarter 1: 1 Ebrill 2023 – 30 Mehefin 2023

GOLUD GWLAD RHYDDID

...yn gofalu i wneud gwahaniaeth
...taking care to make a difference

| CYNNWYS | | |
|---|---|---|
| | | **TUDALEN:** |



| | | |
|---|---|---|
| **ADRAN UN:** | **CYFLWYNIAD** | **3** |
| **ADRAN DAU:** | **CYNLLUNIO GOFAL** | **4** |
| **ADRAN TRI:** | **YMGYNGHORI A CHYFRANOGI** | **22** |
| **ADRAN PEDWAR:** | **PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU** | **25** |
| **ADRAN PUMP:** | **GWERTHUSO** | **25** |
| **ADRAN CHWECH:** | **CYNLLUNIAU LLWYBR** | **26** |
| **ADRAN SAITH:** | **GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD** | **28** |
| **ADRAN WYTH:** | **GOFAL SEIBIANT BYR** | **29** |

## ADRAN UN: CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant sy'n gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl, a phlant sy’n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro a gwblhawyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn, ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

## MEINCNODI

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y mesurau a’r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu.

Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, mae’r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn / person ifanc o ran bodloni ei anghenion a bydd yn tynnu sylw rheolwyr at ymarfer diffygiol.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn / person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol / cymryd camau ar ei ran. Barnwyd bod angen gwneud hyn ar gyfer 2 blentyn / person ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw.


Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn / person ifanc a gallai gyfeirio’r achos at CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad yn ystod y cyfnod hwn.

## ADRAN DAU

## CYNLLUNIO GOFAL

**1. Y Prif Ffigurau ar gyfer Chwarter 1:**

| **Mae'r tabl a'r siart isod yn nodi cyfanswm y Plant sy'n Derbyn Gofal ar ddiwedd bob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.** | |
|---|---|
| 30 Mehefin 2023 | 125 |
| 31 Mawrth 2023 | 132 |
| 31 Rhagfyr 2022 | 122 |
| 30 Medi 2022 | 112 |
| 30 Mehefin 2022 | 105 |
| 31 Mawrth 2022 | 100 |
| 31 Rhagfyr 2021 | 97 |
| 30 Medi 2021 | 91 |
| 30 Mehefin 2021 | 89 |




**2. Nifer a chanran yr adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol.**


<u>Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 94.7%</u>

Adolygwyd 95 o blant yn ystod y chwarter hwn.


- Cynhaliwyd 90 (94.7%) o'r cyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn y terfynau amser statudol.
- Cynhaliwyd 5 (5.3%) o'r cyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal y tu allan i'r terfynau amser statudol; cofnodwyd y rhesymau canlynol:-
  - ➢ Bu oedi o ran adolygiadau ar gyfer grŵp o 3 brawd a chwaer oherwydd penblwydd un o'r bobl ifanc ac argaeledd y gofalwr.

- Bu oedi o ran 1 cyfarfod adolygu er mwyn galluogi i'r plentyn ifanc fod yn bresennol a bu oedi o ran un cyfarfod adolygu arall oherwydd argaeledd y gweithiwr cymdeithasol.

| | Ebr – Meh 2023 | Ion-Maw 2023 | Hyd - Rhag 2022 | Gor - Medi 2022 | Ebr - Meh 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter | 95 | 101 | 116 | 63 | 83 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser | 90 | 95 | 99 | 56 | 75 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu allan i'r terfynau amser | 5 | 6 | 17 | 7 | 8 |




## 3. Oed a rhyw'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:



**4. Anghenion Diwylliannol, Crefyddol ac Ieithyddol**

Nododd 95 (100.0%) adolygiad fod safbwyntiau diwylliannol y person ifanc yn cael eu bodloni.
Cydnabuwyd mewn 79 adolygiad fod anghenion crefyddol y person ifanc yn cael eu bodloni; mewn 16 adolygiad arall nid oedd yn hysbys a oedd yr anghenion yn cael eu bodloni neu beidio.
Roedd angen cyfieithydd ar gyfer 5 adolygiad a chafodd hyn ei ddarparu ar gyfer pob un ohonynt.

**5 Dinasyddiaeth**


Mewn 88 adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig, gyda 7 adolygiad yn nodi nad oedd y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig.

Roedd 5 plentyn / person ifanc yn Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches, ac nid oedd gan yr un ohonynt Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.
O ran 3 phlentyn / person ifanc arall nad oeddent yn Ddinasyddion y Deyrnas Unedig, roedd ganddynt Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.

Cofnododd pob un o'r 5 adolygiad nad oedd cais wedi cael ei wneud ar gyfer Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd; fodd bynnag cofnododd pob un o'r 5 adolygiad fod y person ifanc yn cael ei gefnogi gyda hyn.

**6 Natur lleoliadau'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:**


| **Math o Leoliad** | **Yn y Sir** | **Tu Allan i'r Sir** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol | 24 | | 24 |
| Gofalwyr sy'n Berthnasau | 16 | 5 | 21 |
| Gofalwyr Asiantaeth Faethu Annibynnol | 7 | 11 | 18 |
| Lleoli â Rhieni | 7 | 3 | 10 |
| Arall | | | |
| Lleoli â Theulu | 1 | 2 | 3 |
| Preswyl | | 14 | 14 |
| Mabwysiadu | | 2 | 2 |
| Preswyl Mamau a Babanod | | 2 | 2 |
| Gofalwyr Maeth Asiantaeth Faethu Annibynnol Mamau a Babanod | | | |
| Ysbyty | | | |
| Llety â Chymorth / Byw'n Annibynnol | | 1 | 1 |
| | **55** | **40** | **95** |




Nododd 5 adolygiad fod y person ifanc yn blentyn ar ei ben ei hun a chawsant eu rhoi mewn lleoliad gofal nad oedd yn bodloni eu hanghenion o ran eu hiaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn bresennol ar gyfer 4 adolygiad er mwyn i'r person ifanc allu cyfrannu'n briodol. Trefnwyd cyfieithydd ar gyfer yr adolygiad arall ond nid oedd yn gallu bod yn bresennol ar y diwrnod.

## 7. Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:


| Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd | |
|---|---|
| Gorchymyn Gofal Llawn | 55 |
| Gorchymyn Gofal Dros Dro | 17 |
| Gorchymyn Lleoli | 5 |
| Adran 76 | 18 |
| **Cyfanswm** | **95** |



**Awdurdod Dirprwyedig**
Cadarnhawyd bod awdurdod dirprwyedig wedi'i sefydlu ar gyfer 68 o blant a adolygwyd, a nodwyd mewn 5 adolygiad nad oedd hyn wedi'i wneud eto. Ni wyddys a oedd hyn wedi digwydd mewn 9 adolygiad a chofnodwyd mewn 13 adolygiad arall nad oedd hyn yn berthnasol i'r achos.

## 8. Y rhesymau pam fod y plant a adolygwyd wedi gadael gofal

| Cyfnod | Y nifer sydd wedi gadael gofal | Y rheswm dros adael gofal | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mabwysiadu | Dychwelyd adref at y teulu | 'Pan rwyf yn barod' | Dirymu'r Gorchymyn Gofal | Llety â chymorth / Byw'n Annibynnol / Cysylltu Bywydau |
| **Ebr - Meh 2023** | **20** | 0 | 2 | 1 | 15 | 2 |
| **Ion - Maw 2023** | **3** | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| **Hyd - Rhag 2022** | **8** | 0 | 6 | 1 | 0 | 1 |
| **Gor - Medi 2022** | **6** | 1 | 1 | 1 | 3 | 0 |
| **Cyfanswm** | **37** | **2** | **9** | **3** | **18** | **5** |




## 9. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.


<u>Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%</u>

- Cofnodwyd mewn 95 (100.0%) adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal fod Gweithiwr Cymdeithasol cymwys wedi'i bennu ac yn gweithio gyda'r plentyn.

**10. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â Phlant sy'n Derbyn Gofal o dan adolygiad a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser gofynnol.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%


- Derbyniodd 95 (100.0%) o Blant sy'n Derbyn Gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.




**11. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 54.5%

- Daeth 11 o blant yn Blant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y chwarter hwn; cofnodwyd mewn 6 (54.5%) chyfarfod adolygu fod gan y plentyn / person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad ei leoliad. Nid oedd Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad ar gyfer y 5 plentyn / person ifanc arall.




- Cofnodwyd mewn 82 (86.3%) adolygiad fod y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) yn gyfredol.

- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddaru cofnodion y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar gyfer 13 plentyn. Nodwyd bod dal angen diweddaru'r Cynllun Gofal a Chymorth ar gyfer 11 plentyn / person ifanc.

**12. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal oedd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref.**


Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 62.5%

- Cynhaliwyd 8 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn, a chofnodwyd mewn 5 adolygiad (62.5%) fod Cynllun Parhad wedi'i gytuno, o gymharu ag 83.3% yn y chwarter blaenorol.


- Mewn 4 (4.2%) adolygiad yn ystod y cyfnod hwn, cofnododd y Swyddog Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch cynnydd y Lleoliad / Cynllun Gofal a Chymorth / Cynllun Parhad.

  Dyma oedd natur y pryderon:-


  - Nodwyd bod y person ifanc mewn lleoliad tymor byr ar hyn o bryd a bod ganddo gynllun i symud i leoliad hirdymor. Roedd hyn wedi'i godi mewn adolygiadau blaenorol ond nid oedd wedi'i ddatrys. Roedd lleoliad a nodwyd ar ddechrau'r flwyddyn wedi methu ac roedd hyn wedi bwrw'r person ifanc.
  - Pryderon ynghylch gallu'r rhiant i weithio â'r Awdurdod Lleol a'r effaith ar allu'r person ifanc i gael mynediad at weithgareddau neu i gael pasbort os ydy'r rhiant yn gwrthod hyn.
  - Mae angen gwneud penderfyniadau ynghylch trefniadau gofal hirdymor y person ifanc cyn gynted â phosib. Mae effaith emosiynol newidiadau i ofal ar y person ifanc yn amlwg ac mae ef / hi angen sicrwydd ynghylch lle y bydd yn byw.
  - Oedi o ran asesu a chyflwyno'r achos i'r Llys er mwyn dirymu.



**13. Yr hyd o amser mewn gofal:**




**14: Natur y Cynlluniau Parhad:**





**15. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd ofal seibiant byr gan rywun heblaw eu prif ofalwyr.**

- Mewn 8 (8.4%) adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal nodwyd bod y plentyn / person ifanc yn cael gofal seibiant byr gan rywun heblaw eu prif ofalwyr; nododd pob un o'r adolygiadau hyn fod y gofal seibiant yn bodloni anghenion y plant / pobl ifanc.

**16. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys sydd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd: 46.2%

- Mewn 6 (46.2%) adolygiad cofnodwyd bod Cynllun Llwybr wedi'i sefydlu a bod Ymgynghorydd Personol wedi'i bennu ar gyfer y person ifanc.
- Mewn 7 (53.8%) adolygiad cofnodwyd nad oedd gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu.
- Nododd 11 o'r adolygiadau uchod fod Ymgynghorydd Personol wedi'i bennu ar gyfer y bobl ifanc, fodd bynnag nododd 2 adolygiad nad oedd Ymgynghorydd Personol wedi'i bennu eto.




**17 Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) oedd yn deall y rhesymau pam eu bod yn derbyn gofal.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 93.2%

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 73 o blant / pobl ifanc, oherwydd barnwyd nad oedd 22 plentyn / person yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.
- Roedd 68 (93.2%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu teuluoedd, o gymharu â 95.3% yn y chwarter blaenorol.
- Nododd 5 (6.8%) adolygiad fod angen gwneud gwaith Taith Bywyd gyda'r plant / pobl ifanc er mwyn eu helpu i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.

**18. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) oedd yn deall eu Cynllun Gofal a Chymorth.**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 68 plentyn / person ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 27 plentyn / person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 64 (94.1%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6).
- Cofnodwyd mewn 4 (5.9%) adolygiad fod angen rhannu hyn gyda'r plant / pobl ifanc.

**19. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud Plant sy'n Derbyn Gofal.**

- Mewn 17 (17.9%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn; o gymharu â 6.9% yn y chwarter blaenorol.

Dyma oedd y rhesymau dros newid y lleoliadau:

- Cynlluniwyd ar gyfer symud 2 frawd / chwaer i leoliad hirdymor gyda pherthnasau. Cynlluniwyd ar gyfer symud 2 frawd / chwaer arall o leoliad tymor byr i leoliad preswyl hirdymor, a chynlluniwyd ar gyfer symud 1 plentyn arall o leoliad preswyl tymor byr i leoliad preswyl hirdymor.
- Ar gyfer 1 person ifanc cynlluniwyd ar gyfer symud o leoliad maethu tymor byr i leoliad preswyl ar gyfer mamau a babanod.
- Bu achos o symud 2 frawd / chwaer nad oedd wedi'i gynllunio i leoliad seibiant byr oherwydd salwch y gofalwr, ac yna cynlluniwyd ar gyfer eu symud i leoliad maethu hirdymor.
- Cyflwynodd 3 gofalwr maeth gwahanol hysbysiad terfynu ar gyfer eu lleoliadau unigol; ar gyfer 1 plentyn arweiniodd hyn at gynllunio ei symud o leoliad maethu tymor byr i leoliad maethu tymor byr arall; cynlluniwyd ar gyfer symud 1 plentyn arall o leoliad maethu hirdymor i leoliad maethu tymor byr. Cynlluniwyd ar gyfer symud 1 plentyn arall o leoliad maethu hirdymor i leoliad preswyl hirdymor.
- Cynlluniwyd ar gyfer symud un person ifanc rhwng perthnasau, a symudodd un person ifanc o leoliad byw â chymorth tymor byr i leoliad byw â chymorth tymor byr arall am nad oedd y lleoliad yn addas.
- Bu achos o symud 1 person ifanc nad oedd wedi'i gynllunio, o leoliad tymor byr i leoliad tymor byr arall oherwydd nid oedd y gofalwr maeth yn gallu rheoli'r person ifanc.
- Bu achos o symud 1 person ifanc arall nad oedd wedi'i gynllunio, o leoliad preswyl hirdymor i leoliad tymor byr heb ei reoleiddio gan nad oedd y lleoliad blaenorol yn bodloni anghenion y person ifanc.

Cafodd 4 plentyn eu symud, a hynny heb ei gynllunio, ac ni nodwyd mewn unrhyw adolygiad fod Cyfarfod Sefydlogrwydd wedi'i gynnal ar gyfer y plant hyn o fewn 6 wythnos wedi iddynt symud i leoliad newydd.

**20 Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion y Plant sy'n Derbyn Gofal.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 95.8%

- Cofnodwyd bod 91 (95.8%) o'r cynlluniau lleoli / gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant / pobl ifanc, o gymharu â 95.0 yn y chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd mewn 4 (4.2%) adolygiad nad oedd y cynlluniau lleoli / gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant / pobl ifanc. Dyma oedd y rhesymau a gofnodwyd:

  - Nodwyd bod angen amgylchedd mwy meithringar sy'n dangos mwy o gydymdeimlad ar gyfer 2 frawd / chwaer a adolygwyd oherwydd bod y gofalwyr maeth yn negyddol.
  - Er bod y lleoliad yn bodloni anghenion sylfaenol 1 person ifanc a adolygwyd, roedd angen canfod lleoliad sengl a meithringar arall.
  - Mewn adolygiad ar gyfer person ifanc arall, roedd gan y Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch iechyd meddwl ac ymddangosiad y person ifanc yn ystod ac ar ôl yr adolygiad oherwydd y pwysau ar y person ifanc fel rhan o'r asesiad disgwyliedig yn y lleoliad. Nododd y Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol fod y person ifanc angen rhywun i'w gefnogi a gofalu amdano ac roedd yn poeni nad oedd anghenion y person ifanc yn cael eu hystyried.

**21. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y chwarter hwn.**

- Mewn 2 (2.1%) adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal nodwyd bod pryderon diogelu o ran y person ifanc; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.


**22. Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.**

- Mewn 5 (5.3%) adolygiad yn ystod y chwarter hwn, cadarnhawyd bod enw'r person ifanc wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**23. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 93.7%

- Roedd 89 (93.7%) o'r plant / pobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael asesiad iechyd erbyn eu hadolygiad, o gymharu â 96.0% yn y chwarter blaenorol.
  - Mewn 7 (63.6%) adolygiad cyntaf cofnodwyd bod yr asesiad iechyd wedi'i gwblhau o fewn 4 wythnos wedi i'r plentyn ddechrau derbyn gofal.
  - Mewn 4 (36.4%) adolygiad cyntaf, cofnodwyd nad oedd yr Asesiad Iechyd wedi'i gwblhau o fewn 4 wythnos wedi i'r plentyn ddechrau derbyn gofal.
  - Mewn 82 (97.6%) adolygiad arall cofnodwyd bod Asesiadau Iechyd yn cael eu cynnal bob 6 mis ar gyfer plant o dan 5 oed a phob 12 mis ar gyfer plant dros 5 oed.
  - Mewn 2 (2.4%) adolygiad nodwyd nad oedd yr Asesiadau Iechyd wedi'u cwblhau o fewn 6 mis ar gyfer plant o dan 5 oed a phob 12 mis ar gyfer plant dros 5 oed.
- Nid oedd gan 6 (6.3%) phlentyn / person ifanc asesiad iechyd cyfredol yn eu hadolygiad; fodd bynnag mae pob un o'r rhain wedi'u cwblhau ers hynny.




**Sylw:** Ceir oedi yn aml oherwydd nad ydy gweithwyr proffesiynol yn darparu gwybodaeth fanwl er mwyn gallu cynnal asesiadau y tu allan i'r ardal.

**24. Canran y plant a oedd wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 75.0%

**Wedi cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ynghylch cofrestru plant / pobl ifanc gyda deintydd o fewn 20 diwrnod ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal yn ymwneud ag 8 plentyn / person ifanc.

- Mewn 6 (75.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.

- Mewn 2 (25.0%) adolygiad nodwyd nad oedd y plentyn / person ifanc wedi cofrestru gyda deintydd eto.

**********

**Cofrestru â deintydd**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 84 plentyn / person ifanc oherwydd diystyriwyd 11 plentyn / person ifanc a oedd yn cael eu hadolygiad cyntaf o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 70 (83.3%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda deintydd, o gymharu ag 84.9% yn y chwarter blaenorol.

- Roedd angen cofrestru 14 (16.7%) o blant / pobl ifanc gyda deintydd.

| |
|---|
| **Sylw**: Ar ôl yr adolygiadau, mae pob un plentyn wedi'u cyfeirio at / wedi'u cofrestru gyda deintydd lleol. |

**25. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.**

**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**

Mae'r data ynghylch cael ei weld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal yn ymwneud ag 8 plentyn.

- Cofnodwyd mewn 4 (50.0%) adolygiad fod y plentyn / person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.

- Cofnodwyd mewn 4 (50.0%) adolygiad nad oedd y plentyn / person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.

**Sylw:** Roedd 2 o’r bobl ifanc hyn wedi’u lleoli y tu allan i’r sir.

**********


**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**

Y targed a bennwyd 90% - Yr hyn a gyflawnwyd 80.8%

Mae’r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 78 plentyn / person ifanc gan fod 17 plentyn / person ifanc yn iau na 2 oed a / neu’n cael eu hadolygiad cyntaf, felly fe’u diystyriwyd o’r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesurau Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 63 (80.8%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn y 12 mis blaenorol, o gymharu â 77.6% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd nad oedd 15 (19.2%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.




**26. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y Plant sy’n Derbyn Gofal a oedd wedi’u cofrestru gyda Meddyg Teulu ymhen 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau yn eu lleoliad.**

- Mewn 21 (80.8%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi cofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol ymhen 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.

- Adroddwyd mewn 5 (19.2%) adolygiad nad oedd y cam gweithredu hwn wedi’i gwblhau adeg yr adolygiad. Cofnodwyd ar ôl yr adolygiadau bod pob un o’r 5 plentyn wedi’u cofrestru â Meddyg Teulu erbyn hyn.

**27. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Roedd 95 (100.0%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.
- Roedd 82 (89.1%) o blant wedi cael eu holl frechiadau.

- Roedd 10 (10.9%) o blant yn hwyr yn cael eu brechiadau. Mae 4 o'r bobl ifanc hyn yn Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches, a chynigir rhaglen garlam iddynt gan fod eu hanes brechu'n anghyflawn.
  Mae angen mwy o eglurder ar gyfer ambell berson ifanc oedd heb gael brechiadau.

Cafodd 3 adolygiad eu diystyru o'r ffigurau oherwydd roedd y rhiant / person ifanc yn gwrthod cael brechiadau.

**Sylw:** Mae diweddaru brechiadau yn broses barhaus er mwyn cydymffurfio ag amserlenni brechu.

**28. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad / gwasanaeth.**

Targed: 50%

Gwir Berfformiad

- Mewn 1 (1.5%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi cael ei atgyfeirio i CAMHS, a chadarnhawyd yn yr adolygiad hwn bod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn ar gyfer y plentyn / person ifanc.

- Mewn 90 (94.7%) adolygiad cofnodwyd bod iechyd meddwl / emosiynol y plant / pobl ifanc wedi cael ei ystyried yn ystod yr asesiad iechyd a / neu wrth drafod yn y cyfarfod.

- Mewn 5 (5.3%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y problemau iechyd meddwl wedi cael eu hystyried.

****


- Mewn 11 (11.6%) adolygiad nodwyd bod problem iechyd meddwl gan y person ifanc.

- Cafodd problemau ymddygiad eu nodi ar gyfer 14 (14.7%) o blant / pobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

**29. Natur y Ddarpariaeth Addysg:**

Yn ystod y chwarter hwn roedd y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd yn y ddarpariaeth addysg ganlynol:

| **Darpariaeth Addysg** | |
|---|---|
| Plant cyn-ysgol | 17 |
| Disgyblion ysgol gynradd | 38 |
| Disgyblion ysgol uwchradd | 27 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | |
| Prosiectau eraill – Lleoliad Gwaith Arbenigol | |
| Coleg | 2 |
| Colli addysg | 2 |
| Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) | 6 |
| Addysg heblaw yn yr ysgol | 1 |
| Preswyl | |
| Wedi gadael yr ysgol | |
| Tiwtora | 2 |
| Addysg Ddewisol yn y Cartref | |
| Cyflogedig | |
| **Cyfanswm** | **95** |



**30. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal o oed ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl dechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd.**

Y targed a bennwyd 70% - Yr hyn a gyflawnwyd 93.8%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 65 plentyn / person ifanc a oedd dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd gan 61 (93.8%) o blant a phobl ifanc a oedd dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol Gynllun Addysg Personol cyfredol.
    - Mewn 14 (93.3%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl dechrau derbyn gofal neu ar ôl newid ysgol, yn unol â'r gofynion.
    - Mewn 47 (94.0%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.
- Mewn 4 (6.2%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Addysg Personol wedi cael ei gwblhau o fewn y terfynau amser, fodd bynnag nodwyd mewn 2 o'r rhain fod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau wedi hynny.

***

- Roedd gan 13 (20.0%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol / coleg anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu cydnabod fel rhai ar y lefel uchaf.

***

- Mewn 25 (38.5%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant / pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol / coleg angen cymorth addysgol ychwanegol. Mewn 23 (92.0%) adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth.
- Mewn 2 (8.0%) adolygiad nodwyd nad oedd y cymorth yn ei le.

***

- Mewn 15 (75.0%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.
- Mewn 5 (25.0%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y ddarpariaeth addysgu wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

***

- Mewn 4 (6.2%) adolygiad cofnodwyd y bu cyfnod pan nad oedd y plentyn / person ifanc mewn addysg tra ei fod yn aros am le mewn ysgol.

**31. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio.**

<u>Y targed a bennwyd 0% - Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%</u>

- Mewn 0 (0.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi symud i ysgol arall, nad oedd yn sgil pontio, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

**32. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol**

<u>Y targed a bennwyd: 12% yn cael gwaharddiad dros dro – Yr hyn a gyflawnwyd 3.1%</u>
<u>Y targed a bennwyd: 1% yn cael gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%</u>

- Mewn 2 (3.1%) adolygiad adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu, o gymharu â 3.2% yn y chwarter blaenorol.

- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) bod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

Y gwaharddiadau yn ystod y chwarter hwn oedd: -
1 sesiwn, cyfanswm o 0.5 diwrnod

## ADRAN TRI

### YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

1. **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi medru ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.**

Y targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 72 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 23 adolygiad nad oedd y plant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan o'r broses ymgynghori, er bu 2 o'r rhain yn bresennol yn yr adolygiad.

- Cofnodwyd ymhob un o'r 72 (100.0%) adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.

Dadansoddiad o'r ymgynghori
Bu 38 plentyn / person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu drwy ddulliau hybrid / Teams.
Roedd 34 plentyn / person ifanc wedi cwblhau papurau ymgynghori, wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol a / neu roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Cysylltodd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn uniongyrchol â 23 plentyn / person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu tu hwnt i'r cyfarfod adolygu.

2 **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli / Cynllun Ymwelydd Annibynnol.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 88.3%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 77 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 18 adolygiad nad oedd y plant / pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cafodd 68 (88.3%) plentyn / person ifanc wybod am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

**3 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 95.1%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 66 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 29 adolygiad nad oedd y plentyn / person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 65 (98.5%) o blant / pobl ifanc yn gwybod am y drefn gwyno, o gymharu â 95.1% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 1 (1.5%) adolygiad cofnodwyd bod y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ansicr a oedd y plentyn / person ifanc yn gwybod am y broses gwyno neu beidio.

**4 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu.**

Y targed a bennwyd 80% - Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 84 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 11 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cwblhaodd pob un o'r 84 (100.0%) o rieni bapurau ymgynghori neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a / neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a / neu roeddent yn bresennol yn y cyfarfod adolygu, a / neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

  Dadansoddiad o'r ymgynghori
  Cafodd papurau ymgynghori eu hanfon ar gyfer pob un o'r 84 adolygiad.
  Mewn 45 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol neu eu bod wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a / neu ar ôl yr adolygiad.

**5 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 86 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 9 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu'n byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn o'r ffigurau.

- Cwblhaodd pob un o'r 86 (100.0%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a / neu buont yn bresennol yn y cyfarfodydd adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

**6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr iechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 93.7%

- Mewn 89 (93.7%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

- Mewn 6 (6.3%) adolygiad adroddwyd nad oedd gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

**Sylw:** Pan fo pobl ifanc yn byw y tu allan i'r sir, mae'n fwy anodd cael y gweithwyr iechyd proffesiynol i fod yn bresennol.

**7. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 95.7%

- Mewn 67 (95.7%) adolygiad roedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig, o gymharu â 94.2% yn y chwarter blaenorol.

**8. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Dogfennau Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad.**

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 49.5%

- Mewn 47 (49.5%) adolygiad cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu, o gymharu â 54.5% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 48 (50.5%) adolygiad cadarnhawyd nad oedd y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu.

## ADRAN PEDWAR:
## PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU

Ni weithredodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y Protocol Datrys Problemau ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod hwn.

Cynhaliwyd 7 adolygiad canol cyfnod yn ystod y cyfnod hwn a lle’r oedd angen roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynnal adolygiad yn gynt pan roedd pryderon.

## ADRAN PUMP

## GWERTHUSO

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

## ADRAN CHWECH

## CYNLLUNIAU LLWYBR

### Ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal / pobl ifanc dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 17 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

1 **Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser.**

- Cynhaliwyd 14 (82.4%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser, o gymharu â 90.0% yn y chwarter blaenorol.

- Cynhaliwyd 3 (17.6%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu hwnt i'r terfynau amser. Dyma oedd y rhesymau a gofnodwyd:-

  - Aildrefnwyd 1 adolygiad oherwydd argaeledd y person ifanc / ymgynghorydd personol.
  - Gohiriwyd un adolygiad arall oherwydd argaeledd lleoliad.
  - Gohiriwyd un adolygiad arall oherwydd bod angen i weithiwr cymdeithasol fod yn rhan o'r adolygiad.

2 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol / Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**

- Ymhob un o'r 17 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a / neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.

3 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion Adolygu Cynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod.**

- Roedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau ar gyfer 16 (94.1%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr, o gymharu â 70.0% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 1 (5.9%) adolygiad adroddwyd nad oedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau adeg yr adolygiad.

4 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu.**

- Cadarnhawyd mewn 16 (94.1%) adolygiad y bu'r bobl ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a / neu fod rhywun wedi'u cynrychioli yno.

- Nodwyd mewn 1 (5.9%) adolygiad nad oedd y person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a / neu fod rhywun wedi'i gynrychioli yno.

5 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu.**

- Mewn 6 (35.3%) adolygiad cofnodwyd y bu’r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.
- Mewn 11 (64.7%) adolygiad cofnodwyd na fu’r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

**6 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr oedd yn bodloni anghenion y person ifanc.**

- Mewn 16 (94.1%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.
- Mewn 1 (5.9%) adolygiad nodwyd nad oedd Cynllun Llwybr yn ei le.

**7 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal / troi’n 18 oed.**

- Mewn 2 (66.7%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr wedi’i ddiweddaru cyn i’r person ifanc adael gofal / troi’n 18 oed.
- Mewn 1 (33.3%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Llwybr wedi’i ddiweddaru cyn i’r person ifanc adael gofal / troi’n 18 oed.

**8 Gwerthuso – Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

## ADRAN SAITH

## GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiad o ofal seibiant byr rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

## ADRAN WYTH

## GOFAL SEIBIANT BYR

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o ofal seibiant byr yn ystod y chwarter hwn.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22/11/2023** |
| **Teitl:** | **Cofnodion o gyfarfod y Gweithgor Craffu ar y Cyd o'r Cydbwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal, gynhaliwyd ar 12/09/2023** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y trefniadau newydd.** |

**Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**
**Er gwybodaeth.**

**Cefndir:**
Sefydlwyd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth gan y Gweinidog ar y pryd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn astudiaeth o ofal iechyd yn y Canolbarth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan yr Athro Marcus Longley yn 2014. Gwnaeth 'Astudiaeth Longley' 12 o argymhellion gan roi sail i raglen waith ar gyfer trefniant grŵp cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth wrth geisio gweithredu'r newidiadau oedd eu hangen ar gyfer poblogaeth Canolbarth Cymru. Sefydlwyd y Grŵp Cydweithredol ym mis Mawrth 2015 am gyfnod o ddwy flynedd ac yna cafodd ei ymestyn gan Lywodraeth Cymru a'r aelodau cydweithredol am gyfnod pellach o 12 mis. Ym mis Mawrth 2018 cafodd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth ei drawsnewid i ffurfio Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal gyda rôl gryfach yn y gwaith o gynllunio a gweithredu gwasanaethau iechyd a gofal ar y cyd ar draws Canolbarth Cymru. Roedd hyn er mwyn adlewyrchu'r gofynion newydd ar gyrff y Gwasanaeth Iechyd i gydweithio'n rhanbarthol ac ar gyrff y Gwasanaeth Iechyd ac Awdurdodau Lleol i integreiddio gwasanaethau gofal er mwyn sicrhau dull di-dor o weithio. Cafodd dyfodiad pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020 effaith ar gynnydd gwaith Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru oherwydd bu'n rhaid i sefydliadau ganolbwyntio'u hymdrechion ar gynllunio ac ymateb i'r pandemig. Mewn ymateb i'r gofynion cyfnewidiol hyn ar y gwasanaethau, gofynnodd y Cadeirydd Arweiniol a'r Prif Weithredwr Arweiniol am adolygiad o'r Cydbwyllgor yn dilyn COVID-19, a sut mae'n gweithredu. Roedd papur yn amlinellu trefniadau presennol y Cyd-bwyllgor, crynodeb o'r adolygiad yn dilyn COVID-19, ynghyd â'r argymhellion arfaethedig ar gyfer trefniadau'r Cyd-bwyllgor at y dyfodol, wedi cael eu cyflwyno gerbron Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru yn ei gyfarfod ar 31 Hydref 2022, a chytunwyd arnynt. Gofynnodd y Cyd-bwyllgor hefyd am bapur manylach ar ei drefniadau at y dyfodol.

Dyma bartneriaid Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Cyngor Sir Ceredigion

- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys

**Y Sefyllfa Gyfredol:**

Y mae - a bydd - y Cyd-bwyllgor yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd enwebedig o Fwrdd Iechyd a fydd yn gweithio ar ran y Cadeiryddion eraill am gyfnod o ddwy flynedd ar y tro.

Bydd Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn yn y dyfodol, fel a ganlyn:

- Cyfarfod blynyddol i'w gynnal ym mis Ebrill â'r prif ddiben o fod yn gyfarfod cynllunio ar gyfer cynllun gwaith y Cyd-Bwyllgor i'r dyfodol.
- Cynhadledd flynyddol a gynhelir ym mis Tachwedd a fydd yn rhoi cyfle i arddangos gwaith y Cyd-bwyllgor ac ymgysylltu â phartneriaid a'r cyhoedd ynghylch ei waith. Bydd y gynhadledd flynyddol yn cael ei threfnu i gyd-fynd â chynhadledd Iechyd a Gofal Gwledig Cymru.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Dim ei hangen

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:**
**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**
**Integreiddio:**

**Argymhelliad / Argymhellion:**

I nodi'r cofnodion a'r trefniadau newydd.

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**

Er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

**Enw Cyswllt:** Dwynwen Jones

**Swyddogaeth:** Swyddog Cefnogi Trosolwg a Chraffu

**Dyddiad yr adroddiad:** 23/10/2023

**Acronymau:**

Dim

# Gweithgor Craffu - Cydbwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal

**Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Craffu ar y cyd a gynhaliwyd dros Zoom ddydd Mawrth, 12 Medi 2023 am 10am.**

**Cynghorwyr** **10:00am-11:00am**
Ceredigion: Caryl Roberts, Ceris Jones.
Gwynedd: Derbyniwyd ymddiheuriadau.
Powys: Dim cynrychiolydd yn bresennol.

**Swyddogion**
Ceredigion: Dwynwen Jones (Swyddog Cymorth Trosolwg a Chraffu)
Gwynedd: Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu)

**Hefyd yn bresennol**
Peter Skitt, Cyfarwyddwr Sirol Ceredigion ac Arweinydd Rhaglen, Cydbwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal
Nia Williams, Rheolwr Rhaglen, Cydbwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Gwnaeth y Cynghorydd Caryl Roberts, Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach Ceredigion, groesawu pawb i'r cyfarfod. Nid oedd y Grŵp wedi cwrdd ers tro a threfnwyd y cyfarfod hwn i drafod a chytuno ar ei drefniadau at y dyfodol.
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Linda Ann Jones am nad oedd modd iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Mr Peter Skitt, Cyfarwyddwr Sirol ac Arweinydd Rhaglen, Cydbwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal**

Bu i'r Cadeirydd groesawu Peter Skitt i'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgarwch diweddar ynghylch trefniadau'r Cydbwyllgor yn y dyfodol.

Diolchodd Peter i'r Grŵp am y croeso a chadarnhaodd mai'r rheswm y cafodd ei wahodd i'r cyfarfod oedd er mwyn rhoi'r diweddaraf am y trefniadau yn y dyfodol.

Sefydlwyd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth gan y Gweinidog ar y pryd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn astudiaeth o ofal iechyd yn y Canolbarth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan yr Athro Marcus Longley yn 2014. Gwnaeth 'Astudiaeth Longley' 12 o argymhellion gan roi sail i raglen waith ar gyfer trefniant grŵp cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth wrth geisio gweithredu'r newidiadau oedd eu hangen ar gyfer poblogaeth Canolbarth Cymru. Sefydlwyd y Grŵp Cydweithredol ym mis Mawrth 2015 am gyfnod o ddwy flynedd ac yna cafodd ei ymestyn gan Lywodraeth Cymru a'r aelodau cydweithredol am gyfnod pellach o 12 mis. Ym mis Mawrth 2018 cafodd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth ei drawsnewid i ffurfio Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal gyda rôl gryfach yn y gwaith o gynllunio a gweithredu gwasanaethau iechyd a gofal ar y cyd ar draws Canolbarth Cymru. Roedd hyn er mwyn adlewyrchu'r gofynion newydd ar gyrff y Gwasanaeth Iechyd i gydweithio'n rhanbarthol ac ar gyrff y Gwasanaeth Iechyd ac Awdurdodau Lleol i integreiddio gwasanaethau gofal er mwyn sicrhau dull di-dor o weithio. Cafodd dyfodiad pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020 effaith ar gynnydd gwaith Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru oherwydd bu'n rhaid i sefydliadau ganolbwyntio'u hymdrechion ar gynllunio ac ymateb i'r pandemig. Mewn ymateb i'r gofynion cyfnewidiol hyn ar y gwasanaethau, gofynnodd y Cadeirydd Arweiniol a'r Prif Weithredwr Arweiniol am adolygiad o'r Cydbwyllgor yn dilyn COVID-19, a sut mae'n gweithredu. Roedd papur yn amlinellu trefniadau presennol y Cyd-bwyllgor, crynodeb o'r adolygiad yn dilyn COVID-19, ynghyd â'r argymhellion arfaethedig ar gyfer trefniadau'r Cyd-bwyllgor at y dyfodol, wedi cael eu cyflwyno gerbron Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru yn ei gyfarfod ar 31 Hydref 2022, a chytunwyd arnynt. Gofynnodd y Cyd-bwyllgor hefyd am bapur manylach ar ei drefniadau at y dyfodol.

Dyma bartneriaid Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru:
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys

Y mae - a bydd - y Cyd-bwyllgor yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd enwebedig o Fwrdd Iechyd a fydd yn gweithio ar ran y Cadeiryddion eraill am gyfnod o ddwy flynedd ar y tro.

Bydd Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn yn y dyfodol, fel a ganlyn:
- Cyfarfod blynyddol i'w gynnal ym mis Ebrill â'r prif ddiben o fod yn gyfarfod cynllunio ar gyfer cynllun gwaith y Cyd-Bwyllgor i'r dyfodol.
- Cynhadledd flynyddol a gynhelir ym mis Tachwedd a fydd yn rhoi

cyfle i arddangos gwaith y Cyd-bwyllgor ac ymgysylltu â phartneriaid a’r cyhoedd ynghylch ei waith.  Bydd y gynhadledd flynyddol yn cael ei threfnu i gyd-fynd â chynhadledd Iechyd a Gofal Gwledig Cymru.

Estynnodd y Cadeirydd ei diolch i Peter Skitt am fod yn bresennol a rhoddodd wybod iddo ef a Nia Williams y byddai Dwynwen Jones mewn cysylltiad yn dilyn trafodaethau’r grŵp.

**3 Cytuno ar drefniadau at y dyfodol ac adolygu'r Cylch Gorchwyl**

Yn dilyn trafodaeth fer, cytunodd cynrychiolwyr Ceredigion fel a ganlyn (bydd angen rhannu gydag Awdurdodau Lleol Gwynedd a Phowys a chytuno ar y pwyntiau):

1. Canolbwyntio ar annog Aelodau’r Grŵp o’r tair Sir, sef Gwynedd, Ceredigion a Phowys, i fynychu cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal, er mwyn arsylwi a gofyn cwestiynau i’r Bwrdd o dan yr eitem agenda – cwestiynau gan y cyhoedd.
2. Os bydd unrhyw Aelod yn dymuno derbyn mwy o wybodaeth ar ffurf adroddiad neu gyflwyniad ar ôl cyfarfod Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal, bydd cyfarfod o'r Gweithgor Craffu yn cael ei drefnu a'i gynnal bryd hynny.
3. Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r uchod.

**Gweithgor Craffu ar y Cyd**

## Cylch Gorchwyl

**Nodau:**

Nod y Grŵp yw sicrhau'r canlyniadau iechyd a gofal gorau i bobl Canolbarth Cymru drwy ddarparu gwaith craffu da ar Gyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru.

**Rôl:**

Rôl y Grŵp yw edrych ar ddarpariaeth y gwasanaeth iechyd a gofal yng Nghanolbarth Cymru a'r materion sy'n effeithio pobl sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol yn siroedd Ceredigion, Gwynedd a Phowys.

Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr o'r tair sir i archwilio darpariaeth gwasanaeth iechyd a gofal, gan ofyn cwestiynau ynghylch sut y cafodd penderfyniadau eu gwneud, ystyried os y wneud gwelliannau i'r gwasanaeth ac i wneud argymhellion i'r perwyl hyn. .

Mae Craffu yn chwarae rol hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau.

Gall Craffu effeithiol arwain at:

- Gwell penderfyniadau
- Gwella Darpariaeth a Pherfformiad Gwasanaeth
- Datblygu Polisi Cadarn yn deillio o ymgynghoriad cyhoeddus a mewnbwn arbenigedd annibynnol
- Gwell Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Yn ychwanegu dimensiwn clir o dryloywder ac atebolrwydd i'r tri Chyngor
- Mae'n rhoi cyfle i bob Aelod ddatblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol a all fod o fudd i brosesau llunio polisi a monitro perfformiad yn y dyfodol

**Aelodaeth:**

Mae'r Grŵp ar gyfer aelodau craffu sydd â diddordeb mewn iechyd a gofal

- Hyd at dri aelod craffu o bob cyngor gan gynnwys, er enghraifft, y cadeirydd craffu / cynullydd
- Mae aelodaeth yn hyblyg a bydd aelodau craffu newydd yn cael eu caniatáu
- Gellir gwahodd aelodau cyfetholedig perthnasol os nad ydynt yn rhan o Weithrediad y Cyd-bwyllgor, y Byrddau Iechyd, y Cynghorau neu Lywodraeth Cymru.
- Dylai Swyddogion/Ymgynghorwyr Cymorth Craffu fod yn bresennol.

**Cyfarfodydd:**

- Aelodau Grŵp o'r tair Sir, sef Gwynedd, Ceredigion a Phowys i fynychu cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru, er mwyn arsylwi a gofyn cwestiynau i'r Bwrdd o dan eitem yr agenda - Cwestiynau gan y Cyhoedd.
- Os yw unrhyw Aelod yn dymuno derbyn mwy o wybodaeth ar ffurf adroddiad neu gyflwyniad ar ôl cyfarfod Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru, yna bydd cyfarfod o'r Gweithgor Craffu yn cael ei drefnu a'i gynnal bryd hynny.

**Cymorth:**

Cymorth i'w ddarparu gan Swyddog/Ymgynghorydd Craffu pob awdurdod gyda'r Swyddog/Ymgynghorydd Craffu gan yr awdurdod sy'n cynnal unrhyw gyfarfod i ddarparu'r cymorth ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **DYDDIAD:** | **22 Tachwedd 2023** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/2024** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.
Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.
Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.
Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol

- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Dwynwen Jones |
| **Dynodiad:** | Swyddog Trosolwg a Chraffu |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 25 Hydref 2023 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Iachach*** | | | |
| 24 Mai 2023 | Adroddiad CSSIW a'r Cynllun Gweithredu<br><br>Diweddariad ar Gofal Cartref<br><br>Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru<br><br>Trefniadau mabwysiadu ar y cyd | Audrey Somerton-Edwards<br><br>Donna Pritchard<br><br>Iwan Davies/Elen James<br><br>Audrey Somerton-Edwards | Ar gais y Pwyllgor<br><br>Cyn-Cabinet |
| 3 Gorffennaf 2023 | Recriwtio/Cadw staff Gydol Oes a Llesiant<br><br>Taliadau Uniongyrchol<br><br>Adroddiad ar y Gofrestr Tai | James Starbuck<br><br>Donna Pritchard<br><br>Llyr Hughes/Cerys Purches-Phillips | Ar gais y Pwyllgor<br><br>Ar gais y Pwyllgor<br><br>Ar gais y Pwyllgor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 Medi 2023 | Strategaeth Tai<br><br>Cynllun Gweithredu Dementia<br><br>IRO | Llyr Hughes<br><br>Donna Prtichard<br><br>Elizabeth Upcott | Cyn-Cabinet<br><br>Cyn-Cabinet<br><br>Cyn-Cabinet |
| 22 Tachwedd 2023 | Adroddiad ynghylch arolygiadau safonau bwyd ac arolygiadau ffermydd<br><br>Anifeiliaid fel Gwobrau<br><br>Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) adroddiad arolygiad – monitor 6 mis<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23<br><br>Gwasanaethau Seibiant a Gwasanaethau Dydd<br><br>IRO | Carwen Evans<br><br>Heddwyn Evans<br><br>Ricky Cooper<br><br>Audrey Somerton-Edwards<br><br>Donna Pritchard<br><br>Elizabeth Upcott | Cais gan y Pwyllgor<br><br>Cyn-Cabinet |
| 8 Chwefror 2024, 9:30 | Paratoi’r Gyllideb | | |
| 11 Mawrth 2024 | Gwahodd:<br>Barcud<br>WWHA<br>Caredig | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eitemau agenda ar gyfer y dyfodol | Diweddariad ar y Gwasanaeth Cymorth ac Atal<br><br>Adroddiad Ebrill/Mai 2024 ar yr 15 pwynt y 'Pledge' – Gofal Cartref | Gethin Jones<br><br>Donna Pritchard/Heather West | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Llun, 18 Medi 2023**

**Presennol:** Y Cynghorydd Caryl Roberts (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ceris Jones (Is-gadeirydd), Amanda Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Sian Maehrlein, John Roberts, Mark Strong a Carl Worrall.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ifan Davies, Rhodri Evans, Hugh Hughes a Chris James.

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro- Porth Cynnal; Ricky Cooper, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Porth Cynnal; Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol- Diogelu; Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Porth Cymorth Cynnar; Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Tai; Cerys Purches-Phillips, Uwch Swyddog Tai - Strategaeth a Monitro; Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Porth Gofal; Nerys Lewis, Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Uniongyrchol; Helen Harries, Swyddog Prosiect; Wendy Cushley, Swyddog Datrysiadau Busnes; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 11.47am)

1 **Croeso ac Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

i. Datganodd y Cynghorydd Eryl Evans fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 4.
ii. Datganodd y Cynghorydd Alun Williams fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 5.

3 **Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4 2022 – 2023**

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gydol Oes a Lles) adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4 2022/2023. Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y

Rhiant Corfforaethol. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddiwyd i fesur y canlyniadau ar gyfer plant oedd yn derbyn gofal a phlant oedd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac roedd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru. Ar sail y wybodaeth oedd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r cynllun gofal. Yn ystod y cyfarfod adolygu, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oedd angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael Cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen cymryd y cam hwn ar gyfer 7 plentyn yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oedd unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oedd yn, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd yr adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn Cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd Plant oedd yn Derbyn Gofal Amlasiantaethol oedd yn cwrdd bob chwarter; roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill oedd yn ymwneud â'r maes gwaith hwn. Roedd yr adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol, a chynhaliwyd y cyfarfodydd hyn bob chwarter. Aeth y Cynghorydd Alun Williams ymlaen i gyflwyno Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol a nodwyd ar dudalen 2 yr adroddiadau.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a’r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd nifer o resymau am y cynnydd yn nifer y plant sy’n derbyn gofal, gan gynnwys effaith yr argyfwng costau byw, amrywiol gymhlethdodau a’r gwell cyfradd ymateb o ran atgyfeiriadau.
- O dan gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddileu’r gallu i wneud elw o ofalu am blant sy’n derbyn gofal, roedd yr awdurdod lleol wrthi’n datblygu adnoddau mewnol mewn 3 lleoliad ar draws y sir ac roedd disgwyl i’r rhain agor yn 2024. Er bod gan Geredigion lai o unigolion mewn lleoliadau y tu allan i’r sir o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, yr amcan oedd caniatáu i blant aros yn eu cymunedau lleol a chaniatáu iddynt gadw cysylltiadau â’u teuluoedd a’r ysgolion.
- O ystyried yr adnoddau a oedd eu hangen, y prinder manylion a oedd wedi dod i law oddi wrth y Swyddfa Gartref a’r pwysau ariannol ar gyllideb yr awdurdod lleol, codwyd pryderon ynghylch y modd y gweithredir y Protocol y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol o ran Plant ar eu Pennau eu Hunain sy’n Ceisio Lloches.
- Roedd gofalwyr maeth ychwanegol wedi’u recriwtio’n ddiweddar ond araf a chyson oedd yr ymgyrch ar y cyfan. Gan fod y cohort presennol o ofalwyr maeth yn heneiddio, anogwyd yr Aelodau i recriwtio yn eu cymunedau.
- Roedd sicrhau Cynllun Parhad erbyn yr ail adolygiad, os nad oedd cynlluniau ar gyfer dychwelyd adref wedi’u rhoi ar waith, yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys yr angen i gael cyngor arbenigol, a allai

arwain at oedi. Roedd yn allweddol sicrhau bod y penderfyniad iawn yn cael ei wneud yn hytrach na phenderfyniad sydyn.
- Roedd yr ysgolion wedi nodi athrawon ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ac arweinydd diogelu dynodedig. Roedd pob ysgol yn canolbwyntio ar anghenion y plant ac roedd ganddynt ddyletswydd gofal i bawb.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch gyda'r Awdurdod Lleol.

**4 Y Strategaeth Dai - amlinellu gweledigaeth a chynlluniau Ceredigion ar gyfer tai yn y sir dros y 5 mlynedd nesaf**

Esboniodd y Cynghorydd Matthew Vaux (yr Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd) fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal ynghylch y Strategaeth Dai Ddrafft a hynny ar ôl i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet gytuno iddi. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 5 Mai a daeth i ben ar 30 Mehefin 2023. Gofynnodd Arolwg yr Ymgynghoriad gyfanswm o 10 cwestiwn, ac o'r canfyddiadau, roedd y mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol ac yn cytuno â'r strategaeth arfaethedig. Felly, roedd y Tîm Tai yn parhau i fod yn hyderus bod y cyfarwyddiadau hyn yn addas i'r diben ac nad oedd angen eu newid. Thema allweddol i'w nodi o'r ymatebion i'r ymgynghoriad oedd eiddo gwag. Roedd y maes hwn wedi cael ei gydnabod gan y Gwasanaeth Tai ac wedi cael ystyriaeth a blaenoriaeth briodol o fewn y Strategaeth Dai ac felly, roedd yn gadarnhaol gweld bod pobl yn cytuno bod angen rhoi sylw i'r maes gwaith hwn yn yr ymatebion a dderbyniwyd. Rhoddwyd trosolwg o'r ychwanegiadau i'r Strategaeth Dai yn dilyn yr ymgynghoriad a'r gwaith adolygu mewnol.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a'r Cynghorydd Matthew Vaux. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:
- Roedd ffosffadau yn broblem fawr yn y sir ac roedd yn atal datblygiadau. Serch hynny, nid oedd hyn o fewn cwmpas y Strategaeth Dai.
- Wrth ymateb i bryderon bod yna lai o ymwneud ag adeiladwyr bach lleol na'r hyn a arferai fod yn y gorffennol, dywedwyd bod partneriaid y Bartneriaeth Dai Strategol yn cynnwys y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r datblygwyr preifat.
- Mynegodd yr Aelodau eu siom bod cyn lleied wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Serch hynny, roedd natur yr ymatebion yn gadarnhaol. Awgrymwyd bod cyfraddau ymateb isel i ymgynghoriadau yn broblem genedlaethol.
- Gan fod yr ymgynghoriad yn un dienw, nid oedd manylion am ddemograffeg yr ymatebwyr ar gael megis lleoliad y sawl oedd yn ymateb ac nid oedd modd cael gwybod a oedd yr ymateb gan unigolyn neu sefydliad.
- Roedd y gwasanaeth wedi nodi cynlluniau eraill i gynyddu'r cyflenwad tai, megis y Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag ac roedd y rhain wedi'u cynnwys yn y Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i argymell bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor Llawn y dylid cymeradwyo'r Strategaeth Dai a

derbyn yr argymhellion yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori a'i chymeradwyo i'w mabwysiadu'n llawn.

**5 Cyflwyno i'r Pwyllgor ganlyniad Cynllun Gweithredu Dementia Ceredigion**

Eglurodd y Cynghorydd Alun Williams (Aelod y Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant) mai pwrpas yr adroddiad oedd craffu ar ganlyniad yr ymgynghori cyhoeddus a'r Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd, a gwneud argymhellion i Gabinet Cyngor Sir Ceredigion os oes angen. Maes blaenoriaeth i Gyngor Sir Ceredigion oedd datblygu Cynllun Gweithredu lleol ar gyfer dementia i gefnogi'r Strategaeth Dementia Ranbarthol. Ar 6 Rhagfyr 2022, penodwyd Attain i gynnal a hwyluso sesiynau ymgysylltu i weld pa gamau oedd eu hangen i gefnogi pobl oedd yn byw gyda dementia yng Ngheredigion. Parodd y cyfnod ymgysylltu am chwe wythnos rhwng 13.02.2023 a 31.03.2023. Yn ystod y cyfnod ymgysylltu, siaradodd Attain ag ystod eang o randdeiliaid, o unigolion oedd yn byw gyda dementia, eu gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol o bob rhan o faes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys rhwydweithiau cymorth yn y 3ydd sector. Fel rhan o'r gwaith hwn, roedd Attain wedi llunio adroddiad a Chynllun Gweithredu i gefnogi Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrth iddynt fynd i'r afael â rhai o'r heriau a'r bylchau a nodwyd.

Roedd prif ganfyddiadau'r adroddiad terfynol yn awgrymu bod tua 1,260 o bobl yng Ngheredigion yn byw gyda dementia ac erbyn 2040, rhagwelwyd y byddai rhwng 600 a 2000 yn fwy o bobl yn byw gyda dementia. Rhoddwyd trosolwg o'r prif themâu, yr argymhellion a'r camau nesaf fel yr oeddent wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a'r Cynghorydd Alun Williams. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol cyfagos drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru i sicrhau bod y modd y darperir gwasanaethau dementia yn gyson a bod modd cael mynediad at gyfran fawr o gyllid yn rhanbarthol. Er mwyn sicrhau bod trigolion Ceredigion yn elwa, rhoddwyd pwyslais ar y cynllun cyflawni lleol ac ystyriwyd hefyd y gwaith a oedd yn mynd rhagddo gyda'r gwasanaethau seibiant a'r gwasanaethau dydd.
- Teimlai'r Aelodau fod cyfleoedd i'r awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gydweithio i sicrhau bod cleifion dementia yn aros yn eu cymunedau lleol. Byddai uned breswyl newydd ar gyfer pobl â dementia yn agor yn fuan yng Nghartref Gofal Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan.
- Cydnabuwyd mai isel iawn oedd y gyfradd ddiagnosis yn rhanbarthol, yn rhannol oherwydd nad oedd Meddygon Teulu yn cael digon o hyfforddiant ynghylch rhoi diagnosis o ddementia. Hefyd, roedd canfyddiad y cyhoedd o'r diffyg cefnogaeth a fodolai ar ôl derbyn diagnosis yn ffactor allweddol. Roedd rôl Cysylltydd Dementia yn cael ei datblygu i gefnogi unigolion ar eu taith.
- Eglurodd yr Aelod Cabinet fod dementia wedi'i gynnwys yn ei rôl ef fel Eiriolwr Pobl Hŷn Ceredigion. Nid oedd ganddo ran uniongyrchol yn y

trafodaethau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ond roedd yn allweddol bod swyddogion yr awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynghyd â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn gweithio'n agos.

Nodwyd bod argymhelliad wedi'i wneud yn un o'r cyfarfodydd blaenorol y dylai'r Cynghorydd Rhodri Evans, sef yr aelod etholedig ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gael ei hysbysu pan fyddai eitem am y Bwrdd Iechyd ar yr agenda.

Bu i'r Cadeirydd ganmol y ffaith bod cynifer o sefydliadau wedi bod yn rhan o'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad er gwybodaeth ac argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Gweithredu Dementia Ceredigion, yn amodol ar y canlynol:

- Cyflwyno i Grŵp Strategol Ceredigion Iachach a chreu Grŵp Datblygu Integredig ar Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu.
- Rhannu canfyddiadau cychwynnol yr ymgysylltu gyda'r cyhoedd, a datblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu gan sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r cynnydd parhaus mewn perthynas â chyflawni'r cynllun gweithredu.
- Dod yn ôl i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach gydag Adroddiad Cynnydd Blynyddol.

6 **I ystyried cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r 3 Gorffennaf 2023 ac i drafod unrhyw faterion sy'n codi ohonynt**

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2023.

Materion sy'n codi: Dim.

7 **I ystyried Rhaglen Waith y Pwyllgor 2023-2024**

Cytunwyd nodi cynnwys y Flaen Raglen Waith a gyflwynwyd.

8 **Unrhyw fusnes arall**

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cynnal am ei hymrwymiad i'r gwaith a dymunodd yn dda iddi at y dyfodol. Dywedwyd y byddai hi'n golled fawr i'r awdurdod lleol. Roedd Ricky Cooper, a oedd wedi dechrau ar ei waith fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal wedi gadael y cyfarfod yn gynnar ac felly, byddai'n cael ei groesawu yn y cyfarfod nesaf.

Bu i'r Cynghorydd Alun Williams ategu geiriau'r Cadeirydd gan ddweud y bu'n bleser gweithio gydag Audrey Somerton-Edwards a oedd yn eiriolwr cryf dros anghenion y bobl fwyaf bregus.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2023**

**Cadeirydd:__________________**

**Dyddiad:____________________**